# Rhaglen Gyflawn

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 15FED MEDI, 2020**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 10/09/20)

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cynghorydd Meirion Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Ian Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Phil Wynn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cemlyn Rees Williams | Cyngor Gwynedd |

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Rosalind Williams | Eglwys yng Nghymru |
| Claire Armitsted | Secondary School Representative |
| Richard Collet | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Jonathan Morgan | Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwr |

## Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dr Lowri Brown | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Claire Homard | Cyngor Sir y Fflint |
| Garem Jackson | Cyngor Gwynedd |
| Rhys Howard Hughes | Anglesey County Council |
| Karen Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Geraint Davies | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dafydd L. Edwards | Awdurdod Lletyol |
| Sion Huws | Awdurdod Lletyol |
| Susan Owen Jones | Rheolwr Busnes GwE |
| Annwen Morgan | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Arwyn Thomas | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| Alwyn Jones | Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE |
| Gareth Williams | Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE |

## Sylwedydd

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL - 15 GORFFENNAF, 2020** 5 - 10

**5. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2020 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL** 11 - 85

Ystyried adroddiad Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd.

**6. CYLLIDEB - MONITRO CHWARTER 1** 86 - 90

Ystyried adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

**7. ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL - COSTAU TEITHIO GWE** 91 - 105

Ystyried adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.

**8. ASESIADAU RISG: SWYDDFEYDD, YMWELD AG YSGOLION A STAFF** 106 - 177

Ystyried adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.

**9. CANLYNIADAU 2020 - ADOLYGIAD ANNIBYNNOL Y GWEINIDOG ADDYSG** 178 - 182

Ystyried adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.

**10. RHAGLEN WAITH GWE A BLAENORIAETHAU'R GWASANAETH** 183 - 197

Ystyried adroddiad Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE.

**11. DYSGU PROFFESIYNOL - CYNNIG GWE I YSGOLION TYMOR YR HAF 2020** 198 - 313

Ystyried adroddiad Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE.

**12. RHAGLEN DYSGU CARLAM** 314 - 316

Ystyried adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.

**13. ADOLYGIAD THEMATIG ESTYN** 317 - 320

Ystyried adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.

# CYD-BWYLLGOR GWE DYDD MERCHER, 15 GORFFENNAF 2020

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Phil Wynn (Cadeirydd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint) a Cemlyn Williams (Cyngor Gwynedd).

**Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais:** Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig).

**Swyddogion Heb bleidlais:** Rhys Howard Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Jo Moore (yn dirprwyo ar ran Karen Evans, Cyngor Sir Ddinbych), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint) a Garem Jackson (Cyngor Gwynedd).

**Hefyd yn Bresennol:** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Dafydd L.Edwards (Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes GwE), Annwen Morgan (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Gareth Williams (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE), Hywyn Jones (Cyfrifydd Grŵp, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd, Cyngor Gwynedd – Yr Awdurdod Lletyol), Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad, GwE) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol).

Cyhoeddiadau

Llongyfarchwyd Claire Homard ar ei phenodiad yn Gadeirydd Bwrdd Rheoli GwE, a Garem Jackson yn Is-gadeirydd, am gyfnod o ddwy flynedd.

Dymunwyd yn dda i Ian Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) ar ei ymddeoliad fis nesaf, a hefyd i Haf Williams (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd) ar gychwyn blwyddyn o secondiad gyda'r Academi Genedlaethol. Cytunwyd i anfon llythyr at y ddau ohonynt ar ran aelodau'r Cyd-bwyllgor yn dymuno'r gorau iddynt ac yn diolch iddynt am eu gwaith. Nodwyd o bosib' y byddai angen penodi cynrychiolydd cynradd newydd ar y Cyd-bwyllgor.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rosalind Williams (Eglwys yng Nghymru), Haf Williams (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Claire Armitsted (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych) ac Ian Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd yn gofnod priodol o'r cyfarfod ar 20 Mai, 2020.

Mater yn codi o'r cofnodion:
Eitem 7 – Cymwysterau

Nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE na chafwyd datrysiad i'r pryderon o ran beth sy'n mynd i ddigwydd yn Awst o gwmpas y canlyniadau, na sut y bydd 2021 yn edrych i'r dysgwyr, a bod pawb ar bob lefel yn ceisio cael y maen i'r wal gyda Chymwysterau Cymru.

Ategwyd y sylw hwn gan y Cadeirydd, a chyfeiriwyd yn benodol at bryderon mewn perthynas â system arholiadau eleni, o safbwynt lle mae'r cyfrifoldeb am y canlyniadau. Nodwyd y cynhelid cyfarfod yn fuan gyda Chymwysterau Cymru, y Gweinidog ac Aelodau Cabinet i drafod y mater.

**5. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2020**

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon GwE (yn amodol ar archwiliad) am 2019/20.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd, yn gofyn i'r Cyd-bwyllgor dderbyn a nodi'r Datganiad o Gyfrifon GwE am 2019/20 (yn amodol ar archwiliad) a ardystiwyd gan y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-bwyllgor.

Nodwyd:-

- Bod y tanwariant net terfynol am 2019/20 yn (£189,618) a bod yr adroddiad 'alldro' a gyflwynwyd i'r Cyd-bwyllgor ar 20 Mai 2020 yn manylu ar y rhesymau dros y tanwariant net a'r defnydd y bwriedid ei wneud o'r balans.
- Bod Datganiad o'r Cyfrifon eisoes yn destun archwiliad gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd, a benodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn sgil yr argyfwng, ni fyddai archwiliadau Llywodraeth Leol Cymru yn cael eu cwblhau yn derfynol tan fis Medi eleni. Byddai'r Archwilwyr yn cynhyrchu adroddiad 'ISA 260', yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte, i'w gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor hwn yn ei gyfarfod nesaf ar 15 Medi, 2020.

Croesawyd y refeniw ychwanegol yn sgil y tanwariant yn 2019/20.

**6. DATGANIAD LLYWODRAETHU AR GYFER CYD-BWYLLGOR GWE**

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd - adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE yn gofyn i'r Cyd-bwyllgor dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE fod yr adroddiad hwn yn cyd-blethu gyda rhan olaf yr Adroddiad Blynyddol (eitem 7 isod), a hefyd gydag eitemau 8, 9 a 10. Yn wyneb hynny, awgrymodd symud ymlaen i eitem 7 a chymryd penderfyniad ar eitemau 6 a 7 gyda'i gilydd ar y diwedd.

Nododd ymhellach fod angen edrych ar y tanwariant net am 2019/20, gan dynnu popeth at ei gilydd er mwyn ail-ffocysu ar sut bydd y gwasanaeth yn edrych wrth i ni symud yn ein blaenau.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE 2019/20

**PENDERFYNIAD**

**Cymeradwyo a derbyn yr adroddiad.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE yn gofyn i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo a derbyn Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2019/20.

Nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE bod rhan olaf yr Adroddiad Blynyddol yn cyfeirio at flaenoriaethau'r Cynllun Busnes ar gyfer 2020/21, ond yn sgil COFID-19, roedd angen ail-edrych ar y blaenoriaethau hynny. Roedd y gorwel yn glir yn ôl ym mis Mawrth, ond nid oedd hynny'n bod bellach, ac roedd angen y drafodaeth er mwyn gweld beth yw prif ffocws y gwasanaeth wrth i ni symud yn ein blaenau. Yn amlwg, roedd y dechnoleg yn fater y dylid rhoi sylw iddo.

Derbyniodd a chymeradwyodd y Cyd-bwyllgor y Datganiad Llywodraethu (eitem 6 uchod) a'r Adroddiad Blynyddol, gan nodi y bydd papur trafod yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf ar 15 Medi, 2020, o ran y blaenoriaethau nesaf y mae angen cytundeb arnynt. Nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr ymhellach bod y gwasanaeth wedi gorfod newid cyfeiriad 5 gwaith mewn tymor, ac roedd yn rhaid cymryd y dysgu o'r cyfnod clo a chynnig gweledigaeth newydd ar gyfer y gwasanaeth wrth symud yn ein blaenau yn y tymor byr ac yn y blynyddoedd i ddod. Cyfeiriodd hefyd at y cydweithio gyda'r awdurdodau, gan nodi fod yna ddatrysiadau lleol o ran cydweithio sy'n well i Ogledd Cymru na'r hyn sy'n dod gan Lywodraeth Cymru.

## 8. RHAGLEN WAITH GWE

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn cynnwys yr adroddiad.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd - adroddiad Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE yn cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor am raglen waith GwE am y cyfnod 12 Mawrth 2020 i 22 Mai 2020, yng nghyd-destun yr her o ymateb i COFID-19.

Nododd Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE fod rhywfaint o'r adroddiad wedi dyddio a rhoddodd drosolwg o'r hyn oedd wedi digwydd yn ystod y cyfnod clo, gan gyfeirio hefyd at y

gwaith oedd wedi digwydd yn ddiweddar (fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad yn eitem 10). Ychwanegodd y bwriedid cyflwyno adroddiad mwy manwl i'r cyfarfod nesaf ar 15 Medi, 2020, yn rhoi blas o'r hyn oedd wedi digwydd o ran cefnogi ysgolion a chydweithio gyda'r awdurdodau yn ystod yr hanner tymor presennol. Roedd pawb wedi dysgu llawer yn ystod y cyfnod yma, ac yn parhau i ddysgu.

Ategodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a'r Cadeirydd y sylwadau hyn gan bwysleisio mai un o'r nodweddion cryfaf yn rhedeg drwy'r holl gyflwyniadau i'r cyfarfod hwn oedd bod y cydweithio gyda'r chwe awdurdod ar draws rhanbarth y Gogledd, er yn gadarnhaol bob amser, wedi symud i lefel arall yn ystod yr argyfwng presennol, a bod yr ysgolion wedi elwa o hynny ar sawl lefel.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:-

- Nodwyd bod y gydberthynas rhwng GwE a'r awdurdodau wedi bod yn bositif iawn, yn arbennig o ran yr asesiadau risg. Roedd hynny wedi tynnu pwysau oddi ar yr ysgolion a'r penaethiaid, a mynegwyd dymuniad i weld y cydweithio yma'n parhau ac yn datblygu ymhellach i'r dyfodol.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sgiliau digidol athrawon, nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE fod sgiliau technegol a digidol pawb, gan gynnwys athrawon, wedi datblygu yn ystod y cyfnod yma. Roedd defnydd cynyddol o dechnoleg yn mynd i fod yn hanfodol i'r dyfodol, ac roedd lle i ddefnyddio technoleg i gryfhau'r berthynas rhwng yr ysgol a'r cartref.

**9. DYSGU CYFUNOL**

**PENDERFYNIAD**

**Nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE yn cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor am y ddogfen arweiniol 'Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol ar gyfer agor ysgolion yn raddol'.

Nododd Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE fod toreth o ddeunyddiau wedi'u cynhyrchu yn ystod y cyfnod hwn, ac y gellid eu rhannu gydag aelodau'r Cyd-bwyllgor yn yr hydref.

Diolchodd y Cadeirydd i GwE a'r swyddogion a'r ysgolion fu'n cydweithio i ddod â'r adroddiad hwn at ei gilydd. Nodwyd bod blynyddoedd o waith wedi'i gywasgu i gyfnod o wythnosau, a byddai'r adroddiad hwn yn adnodd gwerthfawr i'r dyfodol.

**10. MODEL AIL-GYCHWYN DYSGU GOGLEDD CYMRU**

**PENDERFYNIAD**

**(a) Cefnogi'r dull a'r model rhanbarthol, gyda GwE, Awdurdodau Lleol ac ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod anghenion unigol dysgwyr yn cael eu diwallu mewn cyd-destun lleol unigol.**
**(b) Er mwyn i'r ysgolion allu paratoi a chynllunio, gofyn am eglurder gan CBAC a Chymwysterau Cymru ynglŷn â'u cynlluniau ar gyfer haf 2021 cyn gynted â phosib'.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Chadeirydd Bwrdd Rheoli GwE yn cyflwyno papur trafod mewn perthynas â Model Ail-gychwyn Dysgu ar gyfer Gogledd Cymru. Gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor gefnogi'r dull a'r model rhanbarthol, gyda GwE, Awdurdodau Lleol ac ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod anghenion unigol dysgwyr yn cael eu diwallu mewn cyd-destun lleol unigol.

Nododd Cadeirydd Bwrdd Rheoli GwE fod yr ysgolion yn edrych ymlaen at fis Medi, ond fod angen pwyllo gan y byddai angen i ysgolion asesu ffitrwydd dysgu eu disgyblion cyn cyflwyno unrhyw waith newydd i'w ddysgu. Pwysleisiodd hefyd ei bod yn hynod bwysig bod y gwariant sylweddol fydd ei angen yn y maes hwn yn cael ei dargedu'n briodol, a bod y rhanbarthau yn cael yr hawl i benderfynu sut orau i ddyrannu'r arian. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru'n cydnabod fod y gwaith yng Ngogledd Cymru'n gyrru'r agenda, a'u bod yn awyddus i ymestyn hyn ar draws Cymru.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:-

- Mynegwyd pryder sylweddol am les emosiynol y dysgwyr, plant fyddai wedi dadrithio o brofiadau addysg ac angen cefnogaeth a chwnsela ynglŷn â'u profiadau yn ystod y cyfnod clo. Nodwyd bod y cyllido cenedlaethol ar gyfer y maes cwnsela yn hollol annigonol a nodwyd y dylai elfen o'r £29m a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg yn ddiweddar ar gyfer cefnogi ysgolion i recriwtio, adfer a chodi safonau, neu gyllid arall, gael ei dargedu ar gyfer hyn.
- Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig bod beth bynnag sy'n digwydd, yn digwydd yn sydyn, fel bod pawb yn cael y cyfle i gymryd seibiant iawn dros yr haf.
- Nodwyd ei bod yn glir bod y sector uwchradd angen mwy o gefnogaeth na'r sector cynradd o ran mesurau pellhau cymdeithasol a chreu swigod, ac ati, gan fod ysgolion uwchradd yn dysgu llawer o bynciau gwahanol. Mewn ymateb, cytunwyd bod sefyllfa'r ysgolion uwchradd yn llawer mwy heriol a chymhleth, a chyfeiriwyd at ganllaw newydd y Llywodraeth, oedd yn cynnwys asesiadau risg wedi'u hail-ddrafftio.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau nad ydi'r ysgolion yn defnyddio'r cyllid ychwanegol i ariannu bylchau yn eu cyllidebau. Mewn ymateb, nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir bod hwn yn bot o arian ar wahân, ac nad oedd ar gael i ariannu bylchau mewn cyllidebau, nac i atal diswyddiadau, a bod rhaid i'r ysgolion ddangos yn glir sut y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio.
- Nodwyd bod angen eglurder ynglŷn â sefyllfa'r disgyblion hynny fydd ym mlynyddoedd 11 ac 13 yn haf 2021. Mewn ymateb, nodwyd bod diffyg gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw addasiad posib' i'r cymwysterau yn rhwystr i'r ysgolion rhag paratoi a chynllunio'n briodol.
- Cyfeiriwyd at bwysigrwydd y gwaith ar y cyd â Phrifysgol Bangor i ddatblygu llythrennedd a rhifedd plant a phobl ifanc.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r sefyllfa y bydd yr athrawon a'r plant yn wynebu ym mis Medi, pwysleisiwyd na fyddai'r sefyllfa mor syml â '*dal i fyny*', ac y byddai'r disgyblion angen cefnogaeth barhaus ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Gellid rhoi diweddariad i'r aelodau yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor ar 15 Medi, 2020, gan adrodd yn llawnach ar y sefyllfa ymhellach ymlaen yn yr hydref.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30 y.h. a daeth i ben am 2.50 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyd-Bwyllgor GwE |
| **DYDDIAD** | 15 Medi 2020 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 ac Archwiliad perthnasol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno – <br>• Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;<br>• Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru;<br>• Llythyr Cynrychiolaeth. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi'r adroddiad ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru, cymeradwyo cyfrifon 2019/20, ac awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r llythyr cynrychiolaeth ar ran y Cyd-Bwyllgor. |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

Bydd aelodau yn cofio adroddwyd fel a ganlyn i gyfarfod 15 Gorffennaf o Gyd-Bwyllgor GwE:

1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

1.6 Roedd y Datganiad o Gyfrifon GwE yn destun archwiliad gan Deloitte, archwilwyr allanol apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 2. CYFRIFON 2019/20

Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2019/20 i'r cyfarfod 20 Mai 2020 o Gyd-Bwyllgor GwE ar ffurf adroddiad "alldro", â'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2019/20 (yn amodol ar archwiliad) ar ffurf safonol statudol i'r cyfarfod 15 Gorffennaf 2020.

## 3. ARCHWILIAD

3.1 Nodwyd ar y pryd byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Deloitte, a cyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte. Gweler bod paragraff 8 yn nodi "Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol".

3.2 Yn dilyn trafodaeth gyda'r archwilwyr, mae cymal 5.7.7 wedi cael ei ychwanegu i'r Datganiad Lywodraethu Blynyddol cyflwynwyd gerbron y Cyd-Bwyllgor ar y 15fed o Orffennaf.

## 4. CYFRIFON TERFYNOL 2019/20

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (yn dilyn archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2019/20. Mae'r materion â godwyd fel rhan o'r archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 i'r adroddiad 'ISA260' cyflwynwyd gan Deloitte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 5. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i Gyd-Bwyllgor GwE dderbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth sy'n yr atodiadau, sef –**

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru
- Datganiad o'r Cyfrifon 2019/20 (yn dilyn archwiliad)

## 6. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

**Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol GwE), arwyddo'n electronig y Llythyr Cynrychiolaeth** (Atodiad 1 i adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru) **wedi i'r Cyd-Bwyllgor ystyried yr uchod.**

## 7. TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad.

# Cyd-Bwyllgor GwE
## (Cynghorau Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Môn a Wrecsam)

# DATGANIAD O'R CYFRIFON 2019/20

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
www.gwynedd.llyw.cymru

# MYNEGAI


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 2 - 5 |
| Datganiad Cyfrifoldebau | 6 |
| Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu | 7 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 8 |
| Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau | 9 |
| Y Fantolen | 10 |
| Datganiad Llif Arian | 11 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 12 – 35 |
| Atodiad A – Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 36 - 51 |
| Geirfa | 52 - 53 |
| Adroddiad yr Archwilydd | 54 - 55 |

# ADRODDIAD NARATIF

## RHAGARWEINIAD

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cynghorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwylio rheolaeth o'r gwasanaeth.

Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE am 2019/20 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 7 i 35. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2019/20.*

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol derbyniol. Mae'r incwm a gwariant wedi ei rannu rhwng y chwe Cyngor fel a ganlyn am 2019/20 :

| | |
|---|---:|
| Conwy | 15.30% |
| Dinbych | 15.26% |
| Fflint | 22.71% |
| Gwynedd | 17.64% |
| Ynys Môn | 10.20% |
| Wrecsam | 18.89% |
| **Cyfanswm** | **100%** |

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.

- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2020.

- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2019/20 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

**Gweledigaeth a Blaenoriaethau GwE**

Gweledigaeth GwE yw fod ganddynt:

*"Ysgolion rhagorol sy'n cydweithio'n naturiol ac yn cyd-adnabod cyfeiriad ar gyfer gwelliant a fydd yn arwain at les a safonau rhagorol i'w disgyblion".*

Mae Cynllun Busnes y GwE, yn adnabod amcanion sefydlwyd i gyfarfod eu blaenoriaethau, ac mae ar gael yn: https://www.gwegogledd.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/

**Strategaeth Ariannol**

Sefydlir y gyllideb flynyddol o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig, er mwyn sicrhau fod y gyllideb honno yn paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod, yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig. Mae'r cynllunio tymor canolig hyn wedi talu ar ei ganfed i'r GwE, gan ei alluogi i gynllunio arbedion angenrheidiol yn rhesymegol, heb orfod cymryd penderfyniadau brysiog/amhriodol o ran y buddion i'r dinesydd, ac wedi sefydlu cyfundrefn ar gyfer adnabod arbedion a thoriadau cyllidol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn gosod y sylfaen ar gyfer ei flaenoriaethau, ac ar gael yn:
https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=243&mid=2494&ver=4&

Bydd newidiadau yn sgil pandemig COVID-19 hefyd yn effeithio ar sefyllfa ariannol tymor canolig y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Cyd-Bwyllgor fel cynghorau Cymru wedi cyd-weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ymdopi gyda'r sefyllfa gorau y gellir.

**Perfformiad 2019/20**

Mae'r GwE yn adrodd yn chwarterol ar berfformiad y gwasanaeth o ran cyflawni swyddogaethau'r gwasanaeth a'r nodau allweddol. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gael yn:
https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2020/05/20200520-Rhaglen-GwE.pdf

**Perfformiad Ariannol 2019/20**

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 8 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor ar y lefel 'cost gwasanaethau' yn £15,159k yn ystod 2019/20, gyda'r sefyllfa net yn £608k.
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2019/20 i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 20 Mai 2020. Gofynnwyd am gymeradwyaeth aelodau'r Cyd-Bwyllgor i drosglwyddo'r tanwariant o (£190k) i reserf penodol.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 8 a 9 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

## TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad. Ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

| | **Cyllideb £'000** | **Gwir £'000** | **Gwahaniaeth £'000** |
|---|---|---|---|
| Gwariant ar Weithgareddau | 14,541 | 14,361 | (180) |
| Incwm | | | |
| Cyfraniadau'r Cynghorau ar gyfer gwasanaeth craidd: | | | |
| Conwy | (625) | (625) | 0 |
| Dinbych | (623) | (623) | 0 |
| Fflint | (927) | (927) | 0 |
| Gwynedd | (720) | (720) | 0 |
| Ynys Môn | (417) | (417) | 0 |
| Wrecsam | (772) | (772) | 0 |
| Incwm Arall | (10,457) | (10,467) | (10) |
| **(Tanwariant)/Gorwariant Net** | **0** | **(190)** | **(190)** |

**TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng '<u>Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1)</u> i'r fformat <u>Incwm a Gwariant</u>**

| | Adroddiad Perfformiad (Alldro) | *Addasiad Trawsddodiad | Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol | *Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo | Datganiad Incwm a Gwariant |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant | 14,361 | (180) | 14,181 | 978 | 15,159 |
| Incwm | (14,551) | 0 | (14,551) | 0 | (14,551) |
| **Cost Gwasanaethau Net** | **(190)** | **(180)** | **(370)** | **978** | **608** |

* Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at gyfraniad i ac o reserfau, a'r golofn Addasiadau rhwng sail Ariannu a'r sail Cyfrifo yn cyfeirio at addasiadau technegol pensiynau ac absenoldebau cronedig.

- **Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**
  Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-
  - (£1,800k) yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r asedau buddion diffiniedig net y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 16).
  - £14,551k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 21). Lleihad o £1,514k o'i gymharu â 2018/19.

- **Materion Eraill**
  - Mae risigau ariannol gyda'r sefyllfa byd-eang. Oherwydd y sefyllfa gyffredinol yma, bu'n angenrheidiol i'r Cyd-Bwyllgor gymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan hefyd gadw lefel darbodus o reserfau.
  - Ers y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd, bu cryn ansicrwydd economaidd. Disgwylir i hyn barhau am gyfnod a gall hyn effeithio rhai ffactorau a phenderfyniadau cyllidol gan y Cyd-Bwyllgor.
  - Mae dyfodiad yr argyfwng COVID-19 yn her ariannol pellach i'r Cyd-Bwyllgor yn y tymor byr a chanolig.

**Darpariaethau ac Arian wrth Gefn**

Mae gan y Cyd-Bwyllgor ddarpariaethau o £3k a reserfau a glustnodwyd o £711k. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 9 a 14.

**Cronfa Bensiwn**

Mae gan y Cyd-Bwyllgor (fel cyflogwr) ymrwymiad net yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, o gyfran y Cyd-Bwyllgor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Mae'r ymrwymiad net yma wedi gostwng £600k i £8,304k yn 2019/20. Gweler Nodyn 25 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Cafodd prisiad diwethaf ei gynnal 31 Mawrth 2019, gyda'r nesaf i'w gynnal 31 Mawrth 2022.

**Llywodraethu**

Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Polisïau Cyfrifo**

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg gymeradwy berthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisïau Cyfrifo yn Nodyn 1 i'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 12.

**Newidiadau mewn Polisiau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon**

Mae'r polisiau cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20.

## GWYBODAETH BELLACH

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679133

neu

Hywyn Lewis Jones
Cyfrifydd Grwp
01286 679145

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

# CYD-BWYLLGOR GwE

# DATGANIAD O'R CYFRIFON

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

### CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lletya sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor.

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

________________________________ **15 Medi 2020**

**Y Cynghorydd Phil Wynn**
**Cadeirydd Cyd-Bwyllgor GwE**

---

### CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

---

### TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2020, ac incwm a gwariant y Cyd Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



________________________________ **8 Medi 2020**

**Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

# DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2018/19 | | | | 2019/20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol | Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7) | Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr | | Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol | Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7) | Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 4,264 | 662 | 4,926 | Gweithwyr | 4,364 | 907 | 5,271 |
| 297 | 0 | 297 | Eiddo | 288 | 0 | 288 |
| 193 | 0 | 193 | Cludiant | 197 | 0 | 197 |
| 2,558 | 0 | 2,558 | Gwasanaethau a Chyflenwadau | 1,611 | 0 | 1.611 |
| 8,560 | 0 | 8,560 | Trydydd Parti | 7,721 | 0 | 7,721 |
| 0 | 0 | 0 | Costau Heb eu Dosrannu | 0 | 71 | 71 |
| (16,065) | 0 | (16,065) | Incwm | (14,551) | 0 | (14,551) |
| **(193)** | **662** | **469** | **Cost Gwasanaethau** | **(370)** | **978** | **608** |
| 0 | 191 | 191 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 225 | 225 |
| **(193)** | **853** | **660** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(370)** | **1,203** | **833** |
| (148) | | | Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol | (341) | | |
| (193) | | | (Gweddill)/Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn | (370) | | |
| **(341)** | | | Balans Cau y Gronfa Gyffredinol | **(711)** | | |

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

| 2018/19 | | | | | 2019/20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** | | *Nodyn* | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 4,926 | 0 | 4,926 | Gweithwyr | | 5,271 | 0 | 5,271 |
| 297 | 0 | 297 | Eiddo | | 288 | 0 | 288 |
| 193 | 0 | 193 | Cludiant | | 197 | 0 | 197 |
| 2,558 | 0 | 2,558 | Gwasanaethau a Chyflenwadau | | 1,611 | 0 | 1,611 |
| 8,560 | 0 | 8.560 | Trydydd Parti | | 7,721 | 0 | 7,721 |
| 0 | 0 | 0 | Costau Heb eu Dosrannu | | 71 | 0 | 71 |
| 0 | (16,065) | (16,065) | Incwm | | 0 | (14,551) | (14,511) |
| **16,534** | **(16,065)** | **469** | **Cost Gwasanaethau** | | **15,159** | **(14,551)** | **608** |
| 191 | 0 | 191 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | *10* | 225 | 0 | 225 |
| **16,725** | **(16,065)** | **660** | **(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | | **15,384** | **(14,551)** | **833** |
| | | 1,313 | Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymiadau/(asedau) | *16* | | | (1,800) |
| | | **1,313** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(1,800)** |
| | | **1,973** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(967)** |

# DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm godir ar y dreth cyngor (trwy gyfraniadau'r Cynghorau). Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

| | | Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau | | |
|---|---|---|---|---|
| | *Nodyn* | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2018 a ddygwyd ymlaen** | | **(148)** | **6,827** | **6,679** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2018/19 | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | **660** | **0** | **660** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | **0** | **1,313** | **1,313** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **660** | **1,313** | **1,973** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *8* | **(853)** | **853** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | | **(193)** | **2,166** | **1,973** |
| ***(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2018/19*** | | **(193)** | **2,166** | **1.973** |
| **Balans 31 Mawrth 2019 a ddygwyd ymlaen** | *9* | **(341)** | **8,993** | **8,652** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2018/19 | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | **833** | **0** | **833** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | **0** | **(1,800)** | **(1,800)** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **833** | **(1,800)** | **(967)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *8* | **(1,203)** | **1,203** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | *9* | **(370)** | **(597)** | **(967)** |
| ***(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2019/20*** | | **(370)** | **(597)** | **(967)** |
| **Balans 31 Mawrth 2020 a ddygwyd ymlaen** | | **(711)** | **8,396** | **7,685** |

# Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd. Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y reserve Ailbrisio), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

| **31 Mawrth 2019 £'000** | | *Nodyn* | **31 Mawrth 2020 £'000** |
|---|---|---|---|
| 0 | Dyledwyr Tymor Hir | | 0 |
| **0** | **Asedau Tymor Hir** | | **0** |
| 265 | Dyledwyr Tymor Byr | *11* | 476 |
| 2,872 | Arian a Chyfwerthoedd Arian | *12* | 2,557 |
| **3,137** | **Asedau Cyfredol** | | **3,033** |
| (2,421) | Credydwyr Tymor Byr | *13* | (1,909) |
| (3) | Darpariaethau Tymor Byr | *14* | (3) |
| (461) | Derbyniadau Grantiau o Flaen Llaw | *21* | (502) |
| **(2,885)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(2,414)** |
| (8,904) | Ymrwymiad Pensiwn | *25* | (8,304) |
| **(8,904)** | **Ymrwymiadau Tymor Hir** | | **(8,304)** |
| **(8,652)** | **Asedau Net** | | **(7,685)** |
| (341) | Reserfau Defnyddiadwy | *15* | (711) |
| 8,993 | Reserfau na ellir eu defnyddio | *16* | 8,396 |
| **8,652** | **Cyfanswm Reserfau** | | **7,685** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chyfwerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu a buddsoddi, dengys y datganiad sut mae'r Cyd-Bwyllgor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyfwerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyd-Bwyllgor a ariennir trwy incwm grant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor yn y dyfodol.

| **2018/19 £'000** | | *Nodyn* | **2019/20 £'000** |
|---|---|---|---|
| 660 | (Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau | | 833 |
| (3,260) | Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol *(credydwyr, dyledwyr a pensiwn)* | *17* | (518) |
| (2,600) | Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | | 315 |
| (1) | Gweithgareddau Buddsoddi | | 0 |
| (2,601) | (Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chyfwerthoedd arian | | 315 |
| (271) | Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd | | (2,872) |
| **(2,872)** | **Arian a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | **(2,557)** |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO

### 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2019/20 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2020. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confenswin cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

Arfer y Cyd-Bwyllgor yw gweithredu ar y sail bod pob eitem o wariant yn cael eu trin fel refeniw yn y lle cyntaf. Os bydd unrhyw eitemau cyfalaf eu natur (e.e. offer TG, dodrefn) yn profi bod ganddynt arwyddocâd materol ar y cyflwyniad cywir a theg o'r sefyllfa ariannol, yna byddai'r eitemau yn cael eu trin yn unol ag arferion priodol.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisïau perthnasol yn unig.

### 1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn disgwydd, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynnydd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar y Cyfrif refeniw am yr incwm sydd yn anhebygol o gael ei gasglu.

### 1.3 Arian a Chyfwerthoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

### 1.4 Buddiannau Gweithwyr

#### 1.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir croniad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y croniad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r symudiad mewn Reserfau fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad croniad yn erbyn y gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all y Cyd-Bwyllgor dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Cyd-Bwyllgor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn yn hytrach na'r swm, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

### 1.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau'r cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymiadau'r buddion hynny yn cael eu hadnabod i'r Cyd-Bwyllgor. Mae'r cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymiadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu hadnabod yn y Fantolen. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

### 1.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 2.3% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaeth.

- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu.

- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.

- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddaru ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.

- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i'r Cyd-Bwyllgor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau) Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

### 1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

### 1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisïau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisïau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

### 1.7 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail groniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

### 1.8 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

### 1.9 Darpariaethau

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod darpariaethau o'r neilltu ar gyfer ymrwymiadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Gwneir darpariaethau hefyd ar gyfer dyledion sydd yn annhebyg o gael eu talu. Ysgrifennir dyledion drwg i ffwrdd yn erbyn y Cyd-Bwyllgor. Dosberthir y darpariaethau hyn fel ymrwymiadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar natur bob darpariaeth.

### 1.10 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

Cedwir rhai reserfau eraill sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor.

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.11 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant refeniw. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestriad TAW Cyngor Gwynedd.

### 1.12 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Côd Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, ac hefyd rhai taliadau blynyddol megis yswiriant. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

### 1.13 Contractau Tymor Hir

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynnydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

### 1.14 Gweithrediadau ar y Cyd

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gweithgareddau sy'n cael eu hymgymryd â hwy ar y cyd â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyd-Bwyllgor GwE wedi ei gategoreiddio fel Gweithred ar y Cyd.

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partïon sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyd-Bwyllgor wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyd-Bwyllgor fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymiadau, refeniw a gwariant.

## NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisiau cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20.

## NODYN 3 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwyliedig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Côd 2020/21:-

*Addasiadau i SCRh 28 Buddsoddiadau mewn Endidau Cyswllt a Chyd-fentrau: Buddiannau Hirdymor mewn Partneriaethau Cyswllt a Chyd-fentrau*

*Gwelliannau Blynyddol i Safonau SAARh Cylchred 2015-17.*

*Addasiadau i SCRh 19 Buddiannau Gweithwyr: Newid Cynllun, Cwtogi neu Setliad.*

Mae'n ofynnol fod y Côd yn weithredol o 1 Ebrill 2020 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2019/20, a does dim disgwyl i'r safonau newydd neu'r newidiadau o fewn Côd Ymarfer 2020/21 gael effaith materol ar yr wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol.

## NODYN 4 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau yr asedau ac ymrwymiadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafluniadau hanesyddol, cyfredol a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o Strategaeth Ariannol y Cyd-Bwyllgor sy'n cael ei ddiweddaru yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol. Mae effaith penderfyniad Prydain i adael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn aneglur. Mae effaith yr argyfwng COVID-19 ar ddiwedd Mawrth 2020 yn factor arall i'w ystyried.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis prisiad yr actiwari o asedau a rhwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymiadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

## NODYN 5 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2020 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

- **Ymrwymiad Pensiwn** - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth a phroffiliau amrywiol gan gynnwys y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, rhagolygon lefelau cyflog, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfradd marwolaethau a'r gyfradd adenillion ddisgwyliedig ar asedau'r Gronfa Bensiwn, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Actiwari'r Gronfa Bensiwn. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 24 a 25

## NODYN 6 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau materol o incwm a gwariant yn cynnwys y canlynol:-

- (£1,800k) yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r asedau buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes penisynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 16).
- £14,551k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 21). Lleihad o £1,514k o'i gymharu â 2018/19.

## NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

| 2019/20 | ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)** | **Gwahaniaethau Eraill (ii)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gweithwyr | 0 | 904 | 3 | 907 |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau a Chyflenwadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trydydd Parti | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau Heb eu Dosrannu | 0 | 71 | 0 | 71 |
| Incwm | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cost Gwasanaethau** | **0** | **975** | **3** | **978** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 225 | 0 | 225 |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **0** | **1,200** | **3** | **1,203** |

| 2018/19 | ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)** | **Gwahaniaethau Eraill (ii)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gweithwyr | 0 | 652 | 10 | 662 |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau a Chyflenwadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trydydd Parti | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incwm | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cost Gwasanaethau** | **0** | **652** | **10** | **662** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 191 | 0 | 191 |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **0** | **843** | **10** | **853** |

## NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

### (i) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau** – mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyd-Bwyllgor fel y caniateir trwy statud a'u amnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi** – y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

### (ii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am groniad absenoldebau a ennillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi,** mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgownt.

## NODYN 8 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant yn y dyfodol.

| **2019/20**<br><br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 25) | (1,796) | 1,796 |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | 596 | (596) |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (3) | 3 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(1,203)** | **1,203** |

| **2018/19**<br><br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 25) | (1,437) | 1,437 |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | 594 | (594) |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (10) | 10 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(853)** | **853** |

## NODYN 9 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU A GLUSTNODWYD

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, gyda cynnydd net o £370k.

**Reserfau a Glustnodwyd**

| | **Reserfau Cyd-Bwyllgor GwE** |
|---|---|
| | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2019** | **341** |
| Trosglwyddiadau: Mewn | 370 |
| **Balans 31 Mawrth 2020** | **711** |

## NODYN 10 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

| **2018/19** | | **2019/20** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 191 | Llog net ar yr ymrwymiadau/(asedau) buddion pensiwn diffiniedig net | 225 |
| **191** | **Cyfanswm** | **225** |

## NODYN 11 – DYLEDWYR TYMOR BYR

| | **31 Mawrth 2019** | **31 Mawrth 2020** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Symiau Derbyniadwy Masnach | 142 | 91 |
| Blaendaliadau | 49 | 70 |
| Symiau Derbyniadwy Eraill | 74 | 315 |
| **Cyfanswm** | **265** | **476** |

## NODYN 12 – ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun. Dangosir un ffigwr net yn flynyddol yn y tabl, sef swm net yr arian parod wedi ei ddal ar ran y Cyd-Bwyllgor o fewn symiau Cyngor Gwynedd.

| | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Arian Mewn Llaw | 2,872 | 2,557 |
| **Arian a Chyfwerthoedd Arian** | **2,872** | **2,557** |
| **Cyfanswm** | **2,872** | **2,557** |

## NODYN 13 – CREDYDWYR TYMOR BYR

| | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau Taladwy Masnach | 417 | 430 |
| Symiau Taladwy Eraill | 2,004 | 1,479 |
| **Cyfanswm** | **2,421** | **1,909** |

## NODYN 14 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymiadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 9.

| | Balans ar 31 Mawrth 2019 £'000 | (Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000 | Defnydd yn y flwyddyn £'000 | Balans ar 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **<u>Darpariaethau Tymor Byr</u>** | | | | |
| Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd | (3) | 0 | 0 | (3) |
| | (3) | 0 | 0 | (3) |

**Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd** – darpariaeth ar gyfer gofynion cynllun prydlesu ceir staff.

## NODYN 15 – RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau yn manylu ar y symudiad yn reserfau defnyddiadwy'r Cyd-Bwyllgor.

## NODYN 16 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31 Mawrth 2019 | | 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| (8,904) | Reserf Pensiynau | (8,304) |
| (89) | Cyfrif Absenoldeb Cronedig | (92) |
| **(8,993)** | **Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio** | **(8,396)** |

**Reserf Pensiynau**

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion wedi eu hennill cael eu hariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae balans debyd yn y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enillwyd gan gyn weithwyr a gweithwyr presennol a'r adnoddau mae'r Cyd-Bwyllgor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

| 2018/19 | | 2019/20 |
|---|---|---|
| £000 | | £000 |
| **(6,748)** | **Balans 1 Ebrill** | **(8,904)** |
| (1,313) | Ailfesuriad o'r (ymrwymiadau) / asedau buddion pensiwn diffiniedig net (Nodyn 25) | 1,800 |
| (1,437) | Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (1,796) |
| 594 | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | 596 |
| **(8,904)** | **Balans 31 Mawrth** | **(8,304)** |

## NODYN 16 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

**Cyfrif Absenoldeb Cronedig**

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| 2018/19<br>£000 | | 2019/20<br>£000 |
|---|---|---|
| **(79)** | **Balans 1 Ebrill** | **(89)** |
| (10) | Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (3) |
| **(89)** | **Balans 31 Mawrth** | **(92)** |

## NODYN 17 – DATGANIAD LLIF ARIAN: ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

| 2018/19<br>£'000 | | 2019/20<br>£'000 |
|---|---|---|
| 1,825 | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr | 512 |
| (4,045) | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr | 211 |
| (843) | Ymrwymiad Pensiwn | (1,200) |
| (197) | Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaeth | (41) |
| **(3,260)** | | **(518)** |

## NODYN 18 – DIGWYDDIADAU WEDI DYDDIAD Y FANTOLEN

Awdurdodwyd y datganiad o gyfrifon gan y Pennaeth Cyllid ar 3 Mehefin 2020. Nid yw digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau neu nodiadau ariannol. Lle'r oedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2020, mae'r ffigurau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob ffordd materol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

## NODYN 19 – TALIADAU I SWYDDOGION

**19a.** Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018, yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn chyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor sydd wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan GwE:

| 2018/19 | | | | Uwch Swyddogion | 2019/20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr | Costau Eraill Cyflogwr | Cyfanswm | | Cyflog | Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr | Cyfanswm |
| £ | £ | £ | £ | | £ | £ | £ |
| 100,333 | 22,675 | 0 | 123,008 | Prif Swyddog | 100,896 | 22,803 | 123,699 |

**19b.** Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo. Nid oedd yna unrhyw gostau diswyddo perthnasol yn 2019/20 nac yn 2018/19.

**Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:**

| Nifer yn 2018-19 Cyfanswm | | Nifer yn 2019-20 Cyfanswm |
|---|---|---|
| 10 | £60,000 - 64,999 | 8 |
| 4 | £65,000 - 69,999 | 3 |
| 0 | £70,000 - 74,999 | 1 |

## NODYN 20 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

| 2018/19 £'000 | | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| 11 | Ffioedd taladwy i archwilydd apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol | 11 |
| 11 | **Ffioedd Net** | 11 |

Mae Cwmni Deloitte wedi eu penodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru fel archwilydd allanol i Gyngor Gwynedd, ac felly GwE.

## NODYN 21 – INCWM GRANT

**21a.** Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | 2018/19 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | | | |
| Llywodraeth Cymru - | | | | |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | 874 | | 970 | |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | 0 | | 100 | |
| Arall | 263 | | 153 | |
| | | **1,137** | | **1,223** |
| Grant Gwella Ysgolion Consorita Rhanbarthol - | | | | |
| Llywodraeth Cymru (heb gynnwys y GGA) | | **7,077** | | **5,824** |
| Grant Gwella Addysg (GGA) | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 2,002 | | 1,836 | |
| Ariannu Cyfatebol gan Gynghorau | 1,232 | | 1,165 | |
| | | **3,234** | | **3,001** |
| Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall | | | | |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | 10 | | 1 | |
| Cyngor Gweithlu Addysg | 309 | | 251 | |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 0 | | 5 | |
| | | **319** | | **257** |
| Grantiau a Chyfraniadau eraill | | | | |
| Cyfraniadau'r Cynghorau tuag at y Gwasanaeth Craidd | | | | |
| Conwy | 633 | | 625 | |
| Dinbych | 626 | | 623 | |
| Fflint | 932 | | 927 | |
| Gwynedd | 725 | | 720 | |
| Ynys Môn | 420 | | 417 | |
| Wrecsam | 778 | | 772 | |
| | | **4,114** | | **4,084** |
| Grantiau a Chyfraniadai eraill | | **184** | | **162** |
| **Cyfanswm Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | **16,065** | | **14,551** |

## NODYN 21 – INCWM GRANT (parhad)

**21b.** Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn grantiau, cyfraniadau neu roddion sydd eto i'w adnabod fel incwm gan fod amodau wedi ei glynu i'r grantiau sy'n golygu ella y bydd rhaid dychwelyd yr arian i'r rhoddwr. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2019 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|
| **Derbyniadau Grantiau a Chyfraniadau Ymlaen Llaw** | | |
| **Tymor Byr** | | |
| Rhaglen Athrawon Newydd Gymhwyso | 344 | 493 |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | 117 | 0 |
| Arall | 0 | 9 |
| **Cyfanswm** | **461** | **502** |

## NODYN 22 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddog gwblhau datganiad personol, fel a ddiffinnir yng Nghôd Ymarfer CIPFA.

**Aelodau**
Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisïau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2019/20 a'r balansau ar 31 Mawrth 2020 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd £'000 | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor £'000 | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor £'000 |
|---|---|---|
| 183 | 2 | 0 |

Mae'r ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth parthed dychweliadau Cynghorwyr.

**Swyddogion**
Mae Uwch Swyddog y Cyd-Bwyllgor wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyd-Bwyllgor. Yn ystod 2019/20, ni wnaed unrhyw daliadau i'r cwmnïau a chyrff yma ac nid oes unrhyw swm yn ddyledus gan nac i'r Cyd-Bwyllgor gan y cwmnïau a chyrff a nodwyd.

## NODYN 23 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Nid oedd yna becynnau terfynu gwaith yn ystod 2019/20 na 2018/19.

## NODYN 24 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran dros Addysg y Llywodraeth. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Mewn egwyddor, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Nid oedd aelod o staff y Cyd-bwyllgor yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, ac felly ni wnaethpwyd gyfraniad yn 2019/20, (Yn 2018/19 talodd y Cyd-Bwyllgor £10k am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 16.48%, o dâl pensiynadwy athrawon). Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyd-Bwyllgor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Nid oedd unrhyw gostau am hyn yn 2019/20 nac yn 2018/19. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a'u cynhwysir yn Nodyn 25.

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae GwE yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ar ôl-gyflogaeth:

a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014 ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Cyd-Bwyllgor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymiadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.
b) **Trefniadau ar gyfer dyfarniad buddiannau ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn fuan**. Trefniant buddion a ddiffinnir heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymiadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymiadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Yn y gorffennol mae rheolwyr buddsoddiadau'r gronfa wedi cael eu penodi gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Gwynedd. Wrth i'r buddsoddiadau gael eu trosglwyddo i Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) caiff y rheolwyr eu penodi gan y bartneriaeth.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel y disgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifo i'r Cyd-Bwyllgor.

### Trafodion sydd yn Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor (trwy gyfraniadau'r Cynghorau) yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn syn golygu bod gwir gost buddion ar ôl gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol y Cyd-Bwyllgor trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

| Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net | Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2019 | | | Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2020 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau | Ymrwymiadau | (Ymrwymiadau) /asedau net | Asedau | Ymrwymiadau | (Ymrwymiadau) /asedau net |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwerth Teg Asedau'r Cynllun | 15,969 | 0 | 15,969 | 17,783 | 0 | 17,783 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (22,717) | (22,717) | 0 | (26,687) | (26,687) |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau heb eu Hariannu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill** | **15,969** | **(22,717)** | **(6,748)** | **17,783** | **(26,687)** | **(8,904)** |
| Cost Gwasanaeth | | | | | | |
| Cost Gwasanaeth Cyfredol* | 0 | (1,246) | (1,246) | 0 | (1,500) | (1,500) |
| Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | 0 | 0 | 0 | 0 | (71) | (71) |
| **Cyfanswm Cost Gwasanaeth** | **0** | **(1,246)** | **(1,246)** | **0** | **(1,571)** | **(1,571)** |
| Llog Net | | | | | | |
| Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun | 437 | 0 | 437 | 433 | 0 | 433 |
| Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad | 0 | (628) | (628) | 0 | (658) | (658) |
| **Cyfanswm Llog Net** | **437** | **(628)** | **(191)** | **433** | **(658)** | **(225)** |
| **Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)** | **437** | **(1,874)** | **(1,437)** | **433** | **(2.229)** | **(1,796)** |
| Llif Arian | | | | | | |
| Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun | 260 | (260) | 0 | 273 | (273) | 0 |
| Cyfraniadau y Cyflogwr | 568 | 0 | 568 | 599 | 0 | 599 |
| Cyfraniadau ynglŷn â buddion wedi eu hariannu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Buddion a Dalwyd | (345) | 345 | 0 | (433) | 433 | 0 |
| Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Cau y Disgwylir** | **16.889** | **(24,506)** | **(7,617)** | **18,655** | **(28,756)** | **(10,101)** |
| Ail Fesuriadau | | | | | | |
| Newid mewn Tybiaethau Demograffig | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,036 | 1,036 |
| Newid mewn Tybiaethau Ariannol | 0 | (2,181) | (2,181) | 0 | 2,480 | 2,480 |
| Profiadau Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | (686) | (686) |
| Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net | 894 | 0 | 894 | (1,033) | 0 | (1,033) |
| **Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)** | **894** | **(2,181)** | **(1,287)** | **(1,033)** | **2,830** | **1,797** |
| Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr | 17,783 | 0 | 17,783 | 17,622 | 0 | 17,622 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (26,687) | (26,687) | 0 | (25,926) | (25,926) |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau heb eu hariannu** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth** | **17,783** | **(26,687)** | **(8,904)** | **17,622** | **(25,926)** | **(8,304)** |

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

** Mae'r rhwymedigaethau heb eu hariannu yn cynnwys £0 mewn perthynas â phensiynau CPLIL heb eu hariannu a £0 mewn perthynas â phensiynau atrhawon heb eu hariannu.

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Prif Gategorïau Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r Actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh 19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheini sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau GwE ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2019. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r Actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £1,947m ar 31 Mawrth 2020, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddol a chan roi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol. Dim ond rhan o'r Gronfa sy'n berthnasol i'r GwE.

### Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod a'r gwerth bid yn unol â gofynion SCRh 19.

| Categori Ased | Ar 31 Mawrth 2019 | | | | Ar 31 Mawrth 2020 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol | Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol | Cyfanswm | | Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol | Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol | Cyfanswm | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | £'000 | % |
| **Ernesau Ecwiti** | | | | | | | | |
| Defnyddiwr | 443 | 0 | 443 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynhyrchu | 532 | 0 | 532 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynni a Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sefydliadau Ariannol | 208 | 0 | 208 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Iechyd a Gofal | 1,137 | 0 | 1,137 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 311 | 0 | 311 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 604 | 0 | 604 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ernesau Dyledion** | | | | | | | | |
| Eraill | 0 | 2,584 | 2,584 | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ecwiti Preifat** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 0 | 965 | 965 | 5 | 0 | 1,103 | 1,103 | 6 |
| **Eiddo Diriaethol** | | | | | | | | |
| Eiddo y DU | 565 | 1,061 | 1,626 | 9 | 0 | 1,729 | 1,729 | 10 |
| Eiddo Tramor | 0 | 9 | 9 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| **Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol** | | | | | | | | |
| Ecwiti | 3,460 | 5,097 | 8,557 | 48 | 0 | 11,760 | 11,760 | 67 |
| Is-adeiladwaith | 0 | 350 | 350 | 2 | 0 | 400 | 400 | 2 |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,536 | 2,536 | 14 |
| **Arian a Chyfwerthoedd Arian** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 457 | 0 | 457 | 3 | 92 | 0 | 92 | 1 |
| **Cyfanswm** | **7,717** | **10,066** | **17,783** | **100** | **92** | **17,530** | **17,622** | **100** |

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.25% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:-

| | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| **Tybiaethau Ariannol** | **% y.f.** | **% y.f.** |
| Cyfradd Codiad Pensiynau | 2.5 | 1.9 |
| Cyfradd Codiad Cyflogau | 2.5 | 2.2 |
| Cyfradd Chwyddiant | 2.5 | 1.9 |
| Cyfradd Ddisgownt | 2.4 | 2.3 |
| Cyfradd Enillion Tymor Hir a Ddisgwylir ar yr holl asedau | 2.4 | 2.3 |
| **Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol** | | |
| am wasanaeth cyn Ebrill 2008 | 50 | 50 |
| am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008 | 75 | 75 |
| **Tybiaethau Marwolaeth** | **Blynyddoedd** | **Blynyddoedd** |
| Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr cyfredol | | |
| Dynion | 22.0 | 21.3 |
| Merched | 24.2 | 23.4 |
| Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr y dyfodol | | |
| Dynion | 24.0 | 22.2 |
| Merched | 26.4 | 25.1 |

Mae'r amcangyfrifiad o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2020 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh 19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019, sef dyddiad y prisiad actiwaraidd diweddaraidd. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

| **Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun** | | |
|---|---|---|
| **Newid tybiaeth** | **Brasamcan cynnydd i'r Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2020** | **Brasamcan swm ariannol 31 Mawrth 2020** |
| | % | £'000 |
| 0.5% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt | 11 | 2,737 |
| 0.5% o gynnydd i'r cyfradd codiad cyflog | 2 | 401 |
| 0.5% o gynnydd i'r gyfradd codiad pensiwn | 9 | 2,305 |

Y prif ragdybiaeth demograffig yw'r dybiaeth hirhoedledd (h.y. disgwyliad oes yr aelod). At ddibenion sensitifrwydd, amcangyfrifir y bydd cynnydd o flwyddyn yn y disgwyliad oes yn cynyddu Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig y Cyflogwr tua 3-5%. Yn ymarferol, bydd y gost wirioneddol o flwyddyn o gynnydd yn nisgwyliad oes yn dibynnu ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau i'r cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

### Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd (y mwyaf diweddar oedd 31 Mawrth 2019), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddol. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2021 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraidd 2019, dyddiedig 31 Mawrth 2020.

### Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

| | **Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2020** | | **Cyfnod Cyfartaledd Cymhwysol** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **%** | |
| Aelodau Gweithredol | 14,213 | 54.8 | 26.0 |
| Aelodau Gohiriedig | 2,893 | 11.2 | 27.0 |
| Aelodau Pensiynwyr | 8,820 | 34.0 | 15.0 |
| **Cyfanswm** | **25,926** | **100.0** | **22.0** |

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymiadau wedi eu hariannu yn unig. nid ydynt yn cynnwys ymrwymiadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2019.

## NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Effaith ar y Blynyddoedd i ddod

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor fod yn £780k yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2021.

Yn Ebrill 2017, gwnaeth y Cyd-Bwyllgor daliad o £394k i gronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer yr elfen sefydlog o gyfraniad y cyflogwr am y cyfnod 2017/18 i 2019/20. Drwy wneud y taliad yma, roedd y Cyd-Bwyllgor yn elwa o raddfa cyfraniad is na'r hyn y byddai wedi ei gyfrifo fel arall.

Gan fod adroddiad Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amser, gwnaed addasiad o £3,067 yn 2019/20 (£25,800 yn 2018/19) i ddod a'r diffyg yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r ymrwymiad perthnasol i gynllun pensiwn buddiannau sydd wedi eu diffinio ar y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigyrau Ymrwymiad sy'n berthnasol i gynllun pensiwn buddiannau a ddiffinir yn y Fantolen.

### Dyfarniad Cyfreithiol McCloud a Sargeant

Roedd rhagdybiaeth twf cyflog Cronfa Gwynedd ym mhrisiad 2016 yn hafal i'r Mynegai Pris Defnyddwyr (MPD) ac felly, yn 2018/19, ni wnaed unrhyw lwfans ar gyfer dyfarniadau McCloud/Sargeant. Ond yn y prisiad 2019, cynyddwyd y dybiaeth cynnydd cyflog uwchlaw MPD, felly mae Cyngor Gwynedd bellach wedi cydnabod rhwymedigaeth am ddyfarniadau McCloud/Sargeant am y tro cyntaf yng nghyfrifon 2019/20. Mae effaith bras y dyfarniad hwn wedi'i gynnwys o fewn y ffigur cost gwasanaeth blaenorol a adroddir o fewn y gwarged/diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**ATODIAD A**

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Mae’r datganiad hwn yn bodloni'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol ag Adran 5 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y’i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018).

**Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB**

1.1 Sefydlwyd GwE yn Gyd-Bwyllgor gan chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru yn 2013 i fod yn wasanaeth effeithiolrwydd gwella ysgolion rhanbarthol drwy gyflawni’r swyddogaethau y manylir arnynt mewn cytundeb rhwng y Cyd-Bwyllgor a’r awdurdodau. Yn y cytundeb, mae'r Cynghorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i'r Cynghorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

1.2 Gweledigaeth y Cynghorau oedd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, yn ogystal â darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

1.3 Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif priodol amdano, a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

1.4 Wrth gyflawni’r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae GwE hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, hwyluso gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy’n cynnwys trefniadau rheoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

**Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae’r fframwaith llywodraethu’n cynnwys y systemau a’r prosesau, y diwylliant a’r gwerthoedd hynny sy’n cyfeirio ac yn rheoli GwE, a’i weithgareddau sy'n gyfrwng ar gyfer bod yn atebol i'r gymuned, ymgysylltu â hi, a'i harwain. Mae'n galluogi'r awdurdodau sy'n rhan o GwE i fonitro'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol priodol.

2.2 Mae’r system reolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o’r fframwaith hwnnw ac fe’i lluniwyd i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach nag i gael gwared ar bob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd, y gall ei gynnig.

2.3 Mae’r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i ganfod a blaenoriaethu’r risgiau o ran cyflawni polisïau, nodau ac amcanion GwE, i werthuso’r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny’n cael eu gwireddu, a’u heffaith pe bai hynny’n digwydd, ac i’w rheoli’n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus.

2.4 Mae’r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod ar waith yn GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, a hyd at ddyddiad cymeradwyo’r datganiad o gyfrifon 2019/20.

**Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

3.1 Mae GwE wedi defnyddio'r Fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government (2016)' wrth lunio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Fframwaith yn cynnwys dwy Egwyddor Graidd a phum Egwyddor Ategol:

Egwyddorion craidd

- Ymddwyn yn ddidwyll, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheol y gyfraith;
- Sicrhau ymgysylltiad agored a chynhwysfawr â rhanddeiliaid.

Egwyddorion ategol

- Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy;
- Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau a geisir yn y ffordd orau bosib;
- Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan ohono;
- Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn, a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref;
- Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

3.2 Mae GwE wedi cymhwyso'r egwyddorion hyn i strwythuro ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 ac i asesu'r trefniadau sydd ar waith.

3.3 Mae gan GwE amrywiaeth o drefniadau llywodraethu ar waith ac mae llawer ohonynt wedi'u nodi yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau a / neu yn rhan o drefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd (fel awdurdod lletyol).

Tabl 1 – Enghreifftiau o'r systemau, prosesau a dogfennau allweddol sydd ar waith yn GwE

| **Egwyddorion Llywodraethu Da** | **Enghreifftiau o'r systemau, prosesau a dogfennau allweddol sydd ar waith yn GwE** |
|---|---|
| Ymddwyn yn ddidwyll, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheol y gyfraith; | Drwy lofnodi'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau, mae'r Cynghorau wedi cytuno y byddent yn cynnal eu perthynas yn unol â'r egwyddorion llywodraethu da canlynol:<br>• Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth<br>• Ymrwymiad a Chymhelliant<br>• Sgiliau a Chreadigedd<br>• Perthnasau Effeithiol<br>• Datblygu ac Addasu<br>• Enw Da<br>• Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau<br>• Caniatâd Angenrheidiol<br>• Ymrwymiadau Aelodau a Swyddogion |
| Sicrhau ymgysylltiad agored a chynhwysfawr â rhanddeiliaid | Blaen-gynlluniau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor ynghyd â'r materion i'w hystyried, lle bo'n briodol.<br>Ymgysylltiad llawn â rhanddeiliaid drwy amrywiol fforymau y tu mewn a'r tu allan i'r strwythur llywodraethu ffurfiol, e.e. Fforymau Penaethiaid a'r Grwpiau Defnyddwyr. |

| | |
|---|---|
| Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy; <br><br> Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau a geisir yn y ffordd orau bosib; | Fframwaith Rheoli Perfformiad <br> Cynllun busnes 3 blynedd a chynlluniau busnes blynyddol <br> Adroddiadau monitro cynlluniau busnes chwarterol i'r Cyd-bwyllgor <br> Diweddariadau rheoli risg rheolaidd i'r Cyd-bwyllgor <br> Cynllun Ariannol Tymor Canolig <br> Cynllun cyllidebol blynyddol <br> Pwyllgorau Craffu <br> Sesiynau Herio ac Adolygu gyda Llywodraeth Cymru. <br> Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc <br> Cynadleddau Gwella / Arolygiadau Estyn Awdurdod Lleol <br> Ymweliadau Cyswllt / Estyn Awdurdod Lleol <br> Proses Categoreiddio / Cymedroli <br> Byrddau Ansawdd Sirol |
| Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan ohono | Cynllun Busnes 3 Mlynedd <br> Cynllun Busnes Blynyddol <br> Proses hunanwerthuso a pharatoi adroddiadau blynyddol <br> Adroddiad Blynyddol |
| Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn, a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref | Diweddariadau i'r Gofrestr Risg <br> Adroddiad Blynyddol <br> Archwilio Mewnol <br> Rheoliadau ariannol yr awdurdod lletyol <br> Cynllun Ariannol Tymor Canolig |
| Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol. | Datganiad o gyfrifon <br> Datganiad Llywodraethu Blynyddol <br> Cynhyrchu adroddiadau ar feysydd busnes allweddol <br> Archwiliad Mewnol ac Allanol <br> Gwerthusiadau allanol annibynnol drwy gydol y flwyddyn, e.e. Steve Munby <br> Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol |

### 3.4 Swyddogaethau

3.4.1 Roedd y Cynghorau wedi arwyddo cytundeb ar 13 Chwefror 2013 i ffurfioli eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gwasanaeth, ac maen nhw wedi penodi Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletyol ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth yn unol â thelerau'r Achos Busnes Terfynol y cytunwyd arno.

3.4.2 Mae’r cytundeb yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys gwybodaeth am agweddau llywodraethu a gweinyddol y Cyd-bwyllgor. Y cytundeb yw sylfaen fframwaith llywodraethu GwE. Mae GwE yn gweithredu ac yn neilltuo cyfrifoldeb ac atebolrwydd o dan y fframwaith hwn, fel a ganlyn:

- Cyd-bwyllgor GwE;
- Bwrdd Rheoli GwE;
- Grŵp(iau) Defnyddwyr GwE;
- Yr Awdurdod Lletyol.

**3.5 Aelodaeth**

3.5.1 Mae’r Cynghorau ymrwymo i Gytundeb i sefydlu a gweithredu GwE yn unol â'r pwerau a roddir iddynt o dan Adran 9 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009, Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ac Adrannau 101 a 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r Rheoliadau cysylltiedig.

3.5.2 Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cynnwys un aelod yr un o Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sydd â hawliau pleidleisio.

3.5.3 Ar hyn o bryd, mae’r Prif Swyddogion Addysg Statudol, un o bob Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru, yn aelodau heb hawliau pleidleisio.

3.5.4 Mae un cynrychiolydd o'r Esgobaeth, un cynrychiolydd o'r Ysgolion Cynradd, un cynrychiolydd o'r Ysgolion Uwchradd, un cynrychiolydd o'r Ysgolion Arbennig ac un Cynrychiolydd o'r Llywodraethwyr yn aelodau cyfetholedig heb hawliau pleidleisio.

**3.6 Egwyddorion**

Drwy lofnodi’r cytundeb, mae’r Cynghorau wedi cytuno y byddent yn cynnal eu perthynas yn unol â’r egwyddorion llywodraethu da canlynol:

- Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth

  Mewn perthynas â'r Cytundeb, bydd y Cynghorau'n agored ac yn ymddiried yn y naill a'r llall wrth ddelio â'i gilydd, yn sicrhau bod gwybodaeth a dadansoddiadau ar gael i'w gilydd, yn trafod ac yn datblygu syniadau'n agored ac yn cyfrannu'n llawn at bob agwedd ar sicrhau llwyddiant y cydweithio;

- Ymrwymiad a Chymhelliant

  Bydd y Cynghorau wedi ymrwymo'n llawn i weithio gyda'i gilydd, yn mynd ati i i gymell yr holl weithwyr i'r graddau mwyaf posib, ac yn mynd i'r afael â heriau'r Gwasanaeth yn llawn bwriad a brwdfrydedd ac yn benderfynol o lwyddo;

- Sgiliau a Chreadigedd

  Mae'r Cynghorau'n cydnabod bod pob un yn cyfrannu sgiliau a gwybodaeth ddefnyddiol y gellir eu defnyddio'n greadigol er mwyn cyflawni amcanion y Cynghorau, sicrhau parhad y cydweithio, datrys anawsterau a datblygu'r berthynas gydweithio a'r staff personél sy'n rhan ohoni;

- Perthnasau Effeithiol

  Bydd rolau a chyfrifoldebau pob Cyngor yn glir, gan ddatblygu perthnasau ar y lefelau priodol ym mhob sefydliad, gyda mynediad hawdd ac uniongyrchol at gynrychiolwyr ei gilydd;

- Datblygu ac Addasu

  Mae'r Cynghorau'n cydnabod eu bod yn rhan o berthynas a allai fod yn un hirdymor, sydd angen datblygu ac addasu, a byddant yn ymdrechu'n rhesymol i ddatblygu a chynnal proses effeithiol ar y cyd er mwyn sicrhau bod y berthynas yn datblygu'n briodol ac yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion hyn;

- Enw Da

  Mae'r Cynghorau'n cytuno, mewn perthynas â'r cytundeb a'r Gwasanaeth yn gyffredinol, y byddant yn rhoi'r sylw pennaf i enw da ei gilydd, ac na fyddant yn gwneud neu'n peidio â gwneud unrhyw beth a fyddai'n dwyn gwarth ar enw da unrhyw Gyngor arall neu'n denu cyhoeddusrwydd gwael i unrhyw Gyngor arall;

- Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau

  Mae'r Cynghorau'n cytuno y bydd yr holl benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r Cytundeb a'r Gwasanaeth yn gyffredinol yn cael eu gwneud gan ymddwyn yn rhesymol ac yn ddidwyll;

- Caniatâd Angenrheidiol

  Mae pob Cyngor drwy hyn yn sicrhau i'r Cynghorau eraill ei fod wedi derbyn pob caniatâd angenrheidiol sy'n ddigonol i sicrhau y dirprwyir y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau y darperir ar eu cyfer yn y Cytundeb hwn;

- Ymrwymiadau Aelodau a Swyddogion

  Bydd pob Cyngor yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod ei aelodau a'i swyddogion sydd ynghlwm â'r Gwasanaeth yn gweithio er pennaf les y Gwasanaeth bob tro, ac yn ymateb yn brydlon i bob cais perthnasol gan y Cynghorau eraill.

**3.7 Yr Awdurdod Lletyol**

3.7.1 Mae'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau yn datgan bod y Cynghorau wedi cytuno mai Cyngor Gwynedd fydd Cyngor Lletyol y Gwasanaeth a fydd yn cael ei gyflawni ar gyfer ac ar ran ei hun a'r Cynghorau. Daeth hyn i rym ar Ddyddiad Cychwyn y Gwasanaeth. Mae Cyngor Gwynedd yn cytuno i weithredu yn y capasiti hwnnw yn amodol ar delerau'r Cytundeb hwn, yn unol â'r telerau hynny, ac i'r graddau y mae'r telerau'n darparu ar gyfer hynny I osgoi amheuaeth, mae rôl y Cyngor Lletyol yn cynnwys:

- yn amodol ar yr indemniadau a'r gwarantiadau, gweithredu fel yr awdurdod cyflogi ar gyfer unrhyw staff a gyflogir i gyflawni swyddogaethau'r Gwasanaeth (penodi, cyflogi neu dderbyn secondiad staff) yn unol â'r Cytundeb hwn;
- gweithredu fel y pwynt cyswllt cyfreithiol at ddibenion rheoli'r Gwasanaeth;
- darparu unrhyw adnoddau a chyfleusterau gweinyddol sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r Gwasanaeth, a dal yr holl gronfeydd canolog;
- darparu unrhyw Wasanaethau Adnoddau Dynol sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r Gwasanaeth, a dal yr holl gronfeydd canolog;
- darparu uwch swyddogion a fydd yn gweithredu fel Ysgrifennydd, Swyddog Monitro, a Thrysorydd (a fydd hefyd yn gweithredu fel y Swyddog Adran 151) ar gyfer y Gwasanaeth ac a fydd felly'n gweithredu fel prif ymgynghorwyr cyfreithiol ac ariannol i'r Gwasanaeth;
- meddu ar y pŵer i ymrwymo i gontractau ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau yn ôl y gofyn at ddibenion y Gwasanaeth.

3.7.2 I osgoi amheuaeth, bydd dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Awdurdod Lletyol yn unol â'r cytundeb hwn dim ond yn rhwymo'r Awdurdod Lletyol i'r graddau y mae wedi cael yr adnoddau i wneud hynny gan y Cynghorau drwy'r Cytundeb hwn.

3.7.3 Ac eithrio lle bo'r gyfraith yn mynnu fel arall, bydd yr holl staff a gyflogir gan yr Awdurdod Lletyol yn unol â'r cytundeb hwn yn cael eu cyflogi o dan delerau ac amodau cyflogaeth perthnasol yr Awdurdod Lletyol, a'i bolisïau staff cysylltiedig, gan gynnwys strwythurau cyflog.

3.7.4 Os bydd y Cyngor Lletyol yn methu a bod y Cytundeb yn cael ei derfynu mewn perthynas â hynny yn unol â Chymal 2 (Terfynu), neu fod y Cyngor Lletyol yn tynnu'n ôl yn unol â Chymalau 21 neu 22 (Tynnu'n Ôl), bydd Cyngor Lletyol newydd yn cael ei benodi gan y Cynghorau ac ni fydd gan y Cyngor sy'n tynnu'n ôl/methu hawliau pleidleisio mewn cysylltiad â'r penodiad hwnnw.

3.7.5 Drwy gydol cyfnod y Cytundeb hwn, bydd y Cyngor Lletyol yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddidwyll pan fydd yn delio â'r Cynghorau eraill.

3.7.6 Drwy gydol cyfnod y Cytundeb hwn, bydd y Cynghorau eraill yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddidwyll pan fyddant yn delio â'r Cyngor Lletyol, ac yn ymdrechu'n rhesymol i helpu'r Cyngor Lletyol i gefnogi'r Gwasanaeth.

**3.8 Ymddygiad Swyddogion**

I sicrhau dull gweithredu cyson o ran yr arferion a phrosesau gweithio, mae'r holl swyddogion yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau cyflogaeth (sy'n seiliedig ar delerau ac amodau gweithredu Cyngor Gwynedd).

**Rhan 4: ASESU'R FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

4.1 Mae GwE yn gyfrifol am adolygu, o leiaf bob blwyddyn, effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu yn cynnwys y system rheolaeth fewnol.

4.2 Yn unol ag Egwyddorion Craidd ac Ategol y Fframwaith, dyma'r dull gweithredu a ddilynwyd i asesu trefniadau GwE:

- Darparu disgrifiad byr o'r trefniadau a'r gweithdrefnau sydd ar waith;
- Archwilio a chofnodi'r prif weithgareddau sydd wedi digwydd yn y meysydd hyn, gan ystyried tystiolaeth ategol o brosesau mewnol ac adroddiadau archwilio GwE.
- Llunio barn ynghylch i ba raddau y mae'r gweithgareddau'n cydymffurfio â'r gweithdrefnau sydd ar waith;
- Gwneud cynigion ar gyfer gwella.

4.3 Cyngor Gwynedd yw Awdurdod Lletyol y Cyd-bwyllgor. O ganlyniad, bydd adolygiadau o effeithiolrwydd Cod Llywodraethu Lleol, Cyfansoddiad a system rheolaeth fewnol yr awdurdod hwnnw hefyd yn sail i drefniadau llywodraethu'r Cyd-bwyllgor.

4.4 Nodir effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu GwE yn adran 5.

**Rhan 5: EFFEITHIOLRWYDD Y TREFNIADAU LLYWODRAETHU**

**5.1 Y cynnydd a wnaed i weithredu'r argymhellion a adroddwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19**

5.1.1 Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19 yn nodi meysydd lle credwyd bod angen gwelliannau er mwyn atgyfnerthu effeithiolrwydd trefniadau cyfredol GwE ymhellach.

5.1.2 Manylwyd ar y rhain yng Nghynllun Busnes GwE ar gyfer 2019/20 a'r Gofrestr Risgiau, ac yn benodol Amcan Strategol 6, h.y. sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

5.1.3 Yn ystod y flwyddyn, cafodd y cynlluniau eu hadolygu bob chwarter, gan werthuso'r cynnydd a'r effaith; cafodd y Cyd-bwyllgor adroddiadau ar y cynnydd yn eu cyfarfodydd.

5.1.4 Ar 31 Mawrth 2020, roedd cynnydd wedi cael ei wneud yn erbyn yr holl welliannau, ac adeiladir ar hyn yn ystod 2019/20.

5.1.5 Ar sail yr uchod, ystyrir bod cynnydd digonol wedi cael ei wneud yn gyffredinol yn ystod 2019/20 o ran cyflawni'r cynigion ar gyfer gwella, ond ei bod yn ofynnol gwneud rhagor o waith yn ystod 2020/21. Mae'r manylion yn Rhan 7 o'r datganiad hwn.

**5.2 Ymddwyn yn ddidwyll, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheol y gyfraith;**

5.2.1 Mae GwE yn dilyn rheolau gweithredu Cyngor Gwynedd sy'n rhoi manylion am sut dylid gwneud penderfyniadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn i wneud yn siwr eu bod yn effeithlon, yn dryloyw ac ar gael i bobl leol.

5.2.2 Mae GwE, gyda chymorth yr awdurdod lletyol, wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i wneud yn siŵr bod cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod ei broses gwneud

penderfyniadau yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd yn gywir; cyhoeddi rhaglenni ac adroddiadau cyfarfodydd ar-lein ymlaen llaw; gwneud penderfyniadau ar sail adroddiadau seiliedig ar dystiolaeth; a chyhoeddi cofnodion cyfarfodydd. Roedd adolygiad o sampl o gyfarfodydd Cyd-bwyllgor GwE yn ystod y flwyddyn wedi cadarnhau bod y gweithdrefnau wedi cael eu dilyn.

5.2.3 Mae GwE yn mabwysiadu polisïau cyflogaeth yr awdurdod lletyol. Rhoddir sesiwn gynefino a llawlyfr staff i bob swyddog sy'n dechrau gweithio gyda GwE. Yn ogystal â hynny mae proses Adolygu Proffesiynol ar waith ar gyfer yr holl staff. Caiff ei hadolygu bob tymor.

5.2.4 Mae'r prosesau sicrhau ansawdd staff yn parhau i ddatblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Caiff negeseuon a gwybodaeth eu cyfathrebu'n glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cymorth generig, pwrpasol ac effeithiol. Mae cyfarfodydd tîm llawn a fesul sector yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i gydweithio, i ymgynghori ac i gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau ynghylch cyfeiriad gwaith GwE yn ystod cyfnod o newid sylweddol.

5.2.5 Os bydd swyddog yn penderfynu gweithredu y tu allan i'r telerau ac amodau cyflogaeth a fwriedir, mae trefniadau ar waith i swyddogion 'chwythu'r chwiban' drwy Bolisi a Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban yr awdurdod lletyol. Yn ogystal â'r polisi Chwythu'r Chwiban, mae trefniadau ar waith i fynd i'r afael ag achosion posib o dwyll, llwgrwobrwyo a llygru.

5.2.6 Mae GwE yn dilyn polisi rhoddion a lletygarwch yr awdurdod lletyol ac mae trefniadau ar waith, drwy gofrestri, ar gyfer cofnodi rhoddion a lletygarwch yn unol â'r Polisi.

5.2.7 Mae GwE wedi mabwysiadu’r gwerthoedd personol a gwasanaeth canlynol:

- Didueddrwydd
- Tegwch
- Parch at amrywiaeth
- Bod yn gefnogol ac yn gydweithredol
- Dwyieithrwydd
- Gwrthrychedd
- Mynnu safonau uchel
- Gonestrwydd.

Mae'r gwerthoedd personol a gwasanaeth hyn wedi’u cynnwys ym mhob disgrifiad swydd; maen nhw'n cael eu defnyddio i arwain trafodaethau fel rhan o'r broses Adolygu Proffesiynol.

5.2.8 Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn arwain swyddogion GwE ac yn cadeirio'r Uwch Dîm Arwain.

5.2.9 Yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, roedd un deiliad uwch swydd wedi rhoi'r gorau i'w swydd. Yn dilyn adolygiad mewnol o'r Uwch Dîm Arwain, cytunodd y Cyd-bwyllgor na fyddai'r swydd yn cael ei llenwi. Roedd cael gwared ar yr un uwch swydd hon wedi helpu GwE i fodloni ei ofynion o ran arbedion parhaol.

**5.3 Sicrhau ymgysylltiad agored a chynhwysfawr â rhanddeiliaid**

5.3.1 Mae aelodau Cyd-bwyllgor GwE wedi'u llywodraethu gan God Ymddygiad eu Cyngor perthnasol. Mae'r Codau Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a gweithwyr yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod Lletyol yn seiliedig ar yr egwyddorion bod yn agored, tryloywder a gonestrwydd.

5.3.2 Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Daeth y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) i rym ar 25 Mai 2018.
Mae GwE yn dilyn canllawiau'r awdurdod lletyol; yn cofnodi’n ffurfiol ar ba sail gyfreithlon y prosesir data / gwybodaeth mewn cyfres o ddogfennau o’r enw Cofrestri Diogelu Data; ac mae ganddo ‘Hysbysiadau Preifatrwydd’ sydd ar gael ar y wefan sy’n nodi sut mae’n bwriadu defnyddio gwybodaeth a sut bydd yn cyflawni ei wasanaethau a’i gyfrifoldebau statudol. Mae’r Uwch Dîm Arwain Busnes yn GwE yn sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR, gan weithio’n agos gyda swyddog rheoli gwybodaeth statudol yr awdurdod lletyol. Credir bod y dull gweithredu hwn yn parhau i helpu GwE i gydymffurfio â GDPR ac yn dangos ei fod yn agored ac yn dryloyw wrth ddelio â’i gwsmeriaid

5.3.3 Mae GwE, gyda chymorth yr awdurdod lletyol, yn gweithredu cynllun cyhoeddi o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn unol â'r gofynion deddfwriaethol. Yn ystod 2019/20, cafwyd dau gais Rhyddid Gwybodaeth ac ymatebwyd iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith.

5.3.4 Mae Achos Busnes Llawn wedi cael ei ddarparu i'r Gwasanaeth, dyddiedig mis Mawrth 2012. Mae'r achos busnes yn dangos tystiolaeth fod amcanion clir wedi eu sefydlu a'u bod yn rhai 'SMART', a bod rhaglen waith briodol yn ei lle.

5.3.5 Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn un o brif gryfderau GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn rhoi sylw i'r holl agweddau ar waith GwE, ac yn nodi'n glir beth yw cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Mae'r cynlluniau wedi'u costio'n llawn, gyda meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni amcanion. Mae Cynllun Busnes 3 Blynedd, 2017-2020 ar waith ar gyfer y gwasanaeth. Mae wedi'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor (03/10/17) a Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Busnes yn sicrhau bod rhaglen waith briodol (cynllun busnes blynyddol) yn ei lle a bod adroddiadau monitro'n cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn eu cyfarfodydd. Ymgynghorodd GwE ar ei weledigaeth a'i flaenoriaethau ar gyfer 2019/20 a chymeradwywyd Cynllun Busnes Blynyddol 2019/20 gan y Cyd-bwyllgor ar 20 Chwefror 2019.

5.3.6 Mae trefniadau hunanwerthuso manwl. Caiff cynlluniau eu hadolygu bob chwarter, gan werthuso'r cynnydd a'r effaith. Mae staff ar bob lefel yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant ac atebolrwydd parhaus. Yn ystod 2019/20, mae'r Cyd-bwyllgor wedi cael diweddariadau chwarterol ar y cynllun busnes. Ar sail y diweddariadau a ddarparwyd, ystyrir bod gwybodaeth briodol a rheolaidd ar gael i'r Cyd-bwyllgor i adolygu a herio perfformiad, a dal y tîm rheoli i gyfrif.

5.3.7 Gan edrych i'r dyfodol, disgwylir ansicrwydd ynghylch lefel yr adnoddau a ddarperir gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn i ddod, o ganlyniad yn bennaf i effaith Covid-19 a Brexit. Mae gan GwE gynllun ariannol tymor canolig sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol. Bydd yn hanfodol ailedrych ar y cynllun ariannol tymor canolig ar yr adeg briodol er mwyn ailfodelu'r opsiynau a helpu i lunio cynlluniau gwasanaeth tymor canolig.

5.3.8 Mae gan GwE flaengynllun gwaith ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor, a chytunwyd ar galendr cyfarfodydd blynyddol 2019/20 yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 20 Chwefror 2019.

5.3.9 Cyd-bwyllgor GwE yw'r prif gorff penderfynu ac mae ganddo aelodaeth briodol. Mae cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor yn nodi rhai o'i gyfrifoldebau ynghyd â rhestr o aelodau'r Cyd-bwyllgor, a hawliau pleidleisio. Mae rôl yr Awdurdodau wedi cael ei nodi yn y Cytundeb.

5.3.10 Yn ystod 2019/20, cynhaliwyd cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor ar y dyddiadau canlynol:

- 22/05/19
- 08/07/19
- 11/09/19
- 17/11/19
- 26/02/20

Yn ystod y cyfarfodydd hyn, cafodd y Cyd-bwyllgor 31 o adroddiadau. Cafodd pob un o'r rhain eu cyhoeddi ar wefan GwE a'r awdurdod lletyol cyn y cyfarfodydd. Cafodd penderfyniadau allweddol eu gwneud gan Fwrdd Rheoli GwE hefyd. Adolygwyd sampl o adroddiadau Cyd-bwyllgor GwE a chadarnhawyd bod fformat cyson yn cael ei ddefnyddio.

5.3.11 Ar sail y wybodaeth uchod, ystyrir bod y trefniadau gwneud penderfyniadau a oedd ar waith yn ystod 2019/20 yn rhai agored a thryloyw, ac yn cydymffurfio â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

5.3.12 O ganlyniad i fabwysiadu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio ar y Cyd yn Rhanbarthol, adolygwyd strwythur llywodraethu GwE. Roedd hyn yn cynnwys creu Bwrdd Cynghori a Bwrdd Rheoli, ac adolygu strwythur y Cyd-bwyllgor. Mae'r adolygiad o'r cytundeb wrthi'n cael ei ffurfioli.

5.3.13 Mae'r Gwasanaeth yn dilyn trefn cwynion Cyngor Gwynedd. Yn ystod 2019/20, ni chafwyd unrhyw gwynion.

5.3.14 Mae modd i ysgolion ddarparu adborth drwy'r Grŵp Defnyddwyr sydd wedi'i sefydlu i ddarparu cymorth, a her, i'r Cyd-bwyllgor. Mae cynrychiolwyr priodol o ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd y chwe awdurdod yn perthyn i'r Grŵp Defnyddwyr.

Mae'r Grŵp Defnyddwyr yn gweithredu'n effeithiol oherwydd:

- Mae ganddo hawl i adrodd a gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor ar unrhyw fater sydd o fewn cwmpas swyddogaethau'r Gwasanaeth.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd y Grŵp ar y dyddiadau canlynol:
    - 03/04/19 (cynradd)
    - 21/06/19 (uwchradd)
    - 20/09/19 (cynradd)
    - 20/09/19 (uwchradd)
    - 09/12/19 (cynradd)
    - 28/01/20 (cynradd)

- Mae'r Grŵp yn cynnwys:
    - Chwe chynrychiolydd Uwchradd, un o bob Awdurdod
    - Chwe chynrychiolydd Cynradd, un o bob Awdurdod
    - Un cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
    - Llywodraethwyr Ysgol – 1 cynrychiolydd o bob Cyngor.

5.3.15 Mae GwE yn annog rhanddeiliaid i ymgysylltu a darparu adborth drwy amrywiaeth eang o ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Dyma rai enghreifftiau: presenoldeb mewn cyfarfodydd ffederasiwn Penaethiaid; trafodaethau grŵp ffocws ar feysydd penodol; bwletin wythnosol; cyfryngau cymdeithasol ayb.

5.3.16 Cynigir bod y broses o ffurfioli'r adolygiad llywodraethu'n cael ei chwblhau.

**5.4 Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.**

5.4.1 Cafodd y blaenoriaethau rhanbarthol drafft ar gyfer 2019/20 eu cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2019. Mae'r cynllun busnes rhanbarthol (lefel 1) yn nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella ar draws y rhanbarth. Cafodd y rhain eu diffinio fel a ganlyn:

- Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel
- Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau
- Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles
- Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella
- Cwricwlwm Trawsnewidiol
- Busnes

5.4.2 Cafodd cyllideb sylfaenol GwE ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 ei chymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror 2019.

5.4.3 Yn ogystal â chynllun busnes lefel 1, mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y mae'r pennaeth gwasanaeth a'r arweinydd craidd wedi cytuno arno. Caiff y cynnydd tuag at y canlyniadau cytunedig ar lefel awdurdod lleol ei adolygu'n rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr arweinydd craidd a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn brydlon.

5.4.4 Mae'r cynllun busnes rhanbarthol yn nodi'r blaenoriaethau ar draws y rhanbarth. Y blaenoriaethau hyn yw'r rhai ar Lefel 1 a chyfrifoldeb y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y

Bwrdd Rheoli yw eu cyflawni, fel y swyddogion atebol. Yn y pen draw, y Cyd-bwyllgor sy'n atebol am gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau.

5.4.5 Mae'r cynlluniau Lefel 2 a 3 blynyddol yn eistedd o dan gynllun Lefel 1 ac yn cynnwys gwybodaeth fanylach o ran blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae cynlluniau Lefel 2 a 3 yn cynnwys manylion ynghylch y camau gweithredu i'w cymryd a'r canlyniadau, a'r meini prawf llwyddiant i'w bodloni. Mae fframwaith cynllunio busnes lefel 3 a ddatblygwyd yn sicrhau atebolrwydd am gyflawni ac yn darparu'r strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol.

5.4.6 Yn ystod 2019/20, mae'r Cyd-bwyllgor wedi cael diweddariadau chwarterol ar y cynllun busnes. Ar sail y diweddariadau a ddarparwyd, ystyrir bod gwybodaeth briodol a rheolaidd ar gael i'r Cyd-bwyllgor i adolygu a herio perfformiad, a dal y tîm rheoli i gyfrif. Mae'r wybodaeth yn cael ei chyhoeddi hefyd.

**5.5 Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau a geisir yn y ffordd orau bosib;**

5.5.1 Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn un o brif gryfderau GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn rhoi sylw i'r holl agweddau ar waith GwE, ac yn nodi'n glir beth yw cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Mae'r cynlluniau wedi'u costio'n llawn, gyda meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni amcanion.

5.5.2 Mae trefniadau hunanwerthuso manwl. Caiff cynlluniau eu hadolygu bob chwarter, gan werthuso'r cynnydd a'r effaith. Mae staff ar bob lefel yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant ac atebolrwydd parhaus.

5.5.3 Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y mae'r pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd wedi cytuno arno. Caiff y cynnydd tuag at y canlyniadau cytunedig ar lefel awdurdod lleol ei adolygu'n rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn brydlon.

5.5.4 Cyflwynwyd adroddiadau perfformiad i'r Cyd-bwyllgor ac i Bwyllgorau Craffu'r Awdurdod Lleol yn ystod 2019/20, a chyflwynwyd adroddiadau i Lywodraeth Cymru hefyd fel rhan o'r cyfarfodydd Herio ac Adolygu. Mae cyfarfodydd Her ac Adolygu blynyddol Llywodraeth Cymru, a gynhelir yn yr hydref, yn cael eu cadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Maen nhw'n canolbwyntio ar berfformiad, cynnydd, cynllunio a chyllidebau yng nghyd-destun blaenoriaethau cenedlaethol. Roedd y cyfarfod diwethaf yn gadarnhaol iawn a mynegwyd ei fod wedi gosod bar uchel, gan ddangos aeddfedrwydd gwleidyddol y Cyd-bwyllgor.

5.5.5 Mae'r diagram isod yn dangos yr adroddiadau atebolrwydd blynyddol a gynhyrchwyd gan GwE yn ystod 2019/20.




5.5.6 Ar sail yr uchod, ystyrir y byddai'r wybodaeth a gyhoeddwyd yn ystod 2019/20 yn rhoi cyfle i randdeiliaid ddeall perfformiad GwE a'i ddal i gyfrif.

5.5.7 Yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Medi 2019, cymeradwyodd y Cyd-bwyllgor y cynllun gweithredu ar gyfer y targedau arbedion effeithlonrwydd. Felly, cynhwyswyd cyfanswm cronnus yr arbedion, £206,485, i'r gyllideb graidd yn 2019/20. Gyda'r cyd-destun hwn mewn golwg, dyrannodd GwE adnoddau a rhoi trefniadau ar waith i gynyddu eu heffaith.

**5.6 Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan ohono**

5.6.1 Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r cymorth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cymorth a thrafodaethau rheolaidd yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rolau, yn dda.

5.6.2 Mae'r prosesau Sicrhau Ansawdd staff yn parhau i ddatblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Caiff negeseuon a gwybodaeth eu cyfathrebu'n glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cymorth generig, pwrpasol ac effeithiol. Mae cyfarfodydd tîm llawn a fesul sector yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i gydweithio, i ymgynghori ac i gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau ynghylch cyfeiriad gwaith GwE yn ystod cyfnod o newid sylweddol.

5.6.3 Mae trefniadau hunanwerthuso manwl. Caiff cynlluniau eu hadolygu bob chwarter, gan werthuso'r cynnydd a'r effaith. Mae staff ar bob lefel yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant ac atebolrwydd parhaus.

5.6.4 Mae proses Adolygu Proffesiynol ar waith ar gyfer yr holl staff. Caiff ei hadolygu bob tymor. Caiff staff eu hannog i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau datblygiad proffesiynol yn ystod y flwyddyn.

5.6.5 Yn ystod 2019/20, darparwyd hyfforddiant penodol i aelodau ac aelodau craffu gan GwE a gan Lywodraeth Cymru hefyd.

5.6.6 Cynigir bod datblygiad staff yn parhau ac yr adeiladir arno dros y flwyddyn nesaf, gan wneud yn siŵr bod staff yn cael unrhyw ofynion / datblygiadau cymorth newydd o ganlyniad i Covid-19.

## 5.7 Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn, a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

5.7.1 Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i nodi risgiau'n gywir a'u rheoli ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risgiau yn ddogfen fyw sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd er mwyn nodi risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhai lefel uchel mwyach. Caiff ei hadolygu bob mis mewn cyfarfod yr uwch arweinwyr, ac mae'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r gofrestr bob chwarter. Drwy reoli risgiau yn y rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, defnyddio adnoddau'n effeithiol, a chyflawni'r canlyniadau fel y bwriedir.

5.7.2 O dan y cytundeb, bydd Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth yn adrodd bob blwyddyn i'r Cyd-bwyllgor ac i bob Cyngor unigol ar berfformiad y Gwasanaeth o ran cyflawni swyddogaethau, a chyflawni Amcanion Allweddol y Gwasanaeth.

5.7.3 Cafodd Adroddiad Blynyddol 2018/19 ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn ei gyfarfod ar 22/05/2019.

5.7.4 Roedd aelodaeth ac amlder cyfarfodydd Cyd-bwyllgor GwE yn ystod 2019/20 yn cyd-fynd â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

5.7.5 Mae GwE yn gweithredu o dan bolisïau corfforaethol yr awdurdod lletyol, gan gynnwys wrth reoli gwybodaeth. Hefyd mae gan GwE ddogfennau penodol sy'n ymwneud â'i waith, e.e. cytundeb Datgelu Data WASPI sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth bersonol am ddisgyblion a geir mewn ffurflenni statudol ysgolion, systemau rheoli gwybodaeth ysgolion ac awdurdodau lleol, a systemau data addysgol eraill gan gynnwys systemau olrhain (e.e. FFT, Incerts).

5.7.6 Ar ddyddiad y fantolen, mae GwE yn gweithredu o dan bolisïau corfforaethol yr awdurdod lletyol, gan gynnwys ei reolau gweithdrefnau ariannol.

5.7.7 Gwasanaeth Archwilio Mewnol yr awdurdod lletyol sy'n ymgymryd â gwaith Archwilio Mewnol. Gwnaed un archwiliad penodol yn GwE yn ystod 2019/20 - adolygiad o gostau teithio. Daethpwyd i farn "sicrwydd cyfyngedig". O ganlyniad, mae GwE wedi ymrwymo i atgoffa rheolwyr bod angen adolygu ceisiadau costau teithio er mwyn lliniaru'r risgiau a nodwyd.

5.7.8 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio datganiad cyfrifon blynyddol GwE a chanlyniad yr archwiliad a adroddir i'r Cyd-bwyllgor.

5.7.9 Mae Cyd-bwyllgor GwE yn monitro ac yn craffu ar berfformiad ariannol a gweithredol GwE.

5.7.10 Cafodd y datganiad cyfrifon archwiliedig diweddaraf (h.y. ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19) adroddiad archwilio diamod a chawsant eu cymeradwyo yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 11 Medi 2019, cyn y terfyn amser statudol sef 15 Medi 2019.

5.7.11 Roedd adroddiad diweddaraf Swyddfa Archwilio Cymru, 'Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a Llythyr Rheoli', a adroddwyd i'r Cyd-bwyllgor ar 11 Medi 2019, wedi dod i'r casgliad bod y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol GwE ar 31 Mawrth 2019 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19.

5.7.12 Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru dyddiedig 11 Medi 2019 yn gwneud un argymhelliad y mae'n rhaid i GwE a'r awdurdod lletyol roi sylw iddo.

| **Mater yn codi 1 – Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol – yr elfen Grant Gwella Addysg** |
|---|

| | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | GwE yw’r corff gweinyddu ar gyfer Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol newydd, ac mae elfen ohono i'w ddosbarthu gan Gyngor Gwynedd (sy’n gweithredu fel awdurdod lletyol) ymysg Cynghorau eraill Gogledd Cymru (awdurdodau lleol cyfansoddol GwE). £35,844 oedd y swm dyfarnu yn 2018-19. Mae £26,638 o hwn, sy'n ymwneud â'r Grant Gwella Addysg, yn cael ei ailddosbarthu. Cafodd £24,636 ei ailddosbarthu i'r awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru, a £2,002 ei gadw gan GwE. Cytunir ar y sail dros ailddosbarthu gan Bwyllgor Rheoli GwE drwy addasu dyraniad y blynyddoedd blaenorol yn ôl unrhyw doriadau i'r incwm grant gan Lywodraeth Cymru. Wedyn, mae adran gyllid pob awdurdod yn cadarnhau bod y ffigurau'n gywir (rydym wedi profi hyn drwy adolygu'r ffurflenni a anfonwyd dros e-bost at GwE).<br>Ni chaiff llythyrau cynnig grant ffurfiol eu hanfon at bob awdurdod yn cadarnhau swm y Grant Gwella Addysg, fodd bynnag rydym wedi profi bod ffurflenni cydymffurfio â'r Grant Gwella Addysg blynyddol yn cael eu hardystio gan bob awdurdod.<br>Rydym wedi cytuno ar drosglwyddiadau'r gronfa i gyfriflenni banc a hysbysiadau talu, ac yn fodlon bod Pwyllgor Rheoli GwE yn craffu ar y dosbarthiad. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol a fyddai'n nodi achos o gamddatgan sylweddol pe bai un. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu dangos tystiolaeth o'r eitem benodol ar agenda cyfarfod y Pwyllgor Rheoli na chofnodion cyfarfod sy’n cadarnhau’n benodol bod y dyraniad hwn wedi’i gymeradwyo. |
| **Argymhelliad** | Argymhellir bod cyfarfodydd Bwrdd Rheoli GwE yn cynnwys eitem ar yr agenda i gytuno'n bendant ar ddosbarthiad blynyddol y Grant Gwella Addysg. |
| **Blaenoriaeth** | Isel. |
| **Mantais o Weithredu'r Argymhelliad** | Gwneud yn siŵr bod dosbarthiad y Grant Gwella Addysg yn cael ei gymeradwyo’n ffurfiol gan Bwyllgor Rheoli GwE, gan gadarnhau bod y dyraniad yn briodol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau GwE a blaenoriaethau'r Grant. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y tîm rheoli** | Do. |
| **Ymateb y Tîm Rheoli** | Cytuno. |
| **Dyddiad gweithredu** | Yn ystod 2019-20 |

Cytunodd y Tîm Rheoli â'r argymhelliad a chafodd ei weithredu ar 11 Hydref 2019.

5.7.13 Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae'r cyfathrebu a'r ymgynghori ynghylch y trefniadau ariannol yn effeithiol ac mae staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a’r Cyd-bwyllgor i gyd yn adolygu’r cyllid craidd a’r gwariant grant yn rheolaidd.

5.7.14 Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni’r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu ill dau yn cyd-fynd â’r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data’n fwyfwy effeithiol i nodi blaenoriaethau allweddol, mae’r cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a'r penderfyniadau ynghylch cynllunio ariannol yn cael ei gryfhau gan fod y ffrydiau gwaith sy’n sail i’r cynllun busnes nodi’n glir yr adnoddau sydd i’w defnyddio.

5.7.15 Cynhyrchwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut i fesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

5.7.16 Cynigir gwella'r fframwaith gwerth am arian yn ystod y flwyddyn er mwyn dangos ymhellach sut mae adnoddau'n cael eu blaenoriaethu.

**5.8 Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.**

5.8.1 Mae GwE wedi defnyddio dull gweithredu agored a chyson ar gyfer adrodd ar ei fusnes, fel y nodir yn adrannau 5.4 a 5.5 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gyda'r nod o helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn ddealladwy i randdeiliaid a'u bod yn cael cyfle i herio perfformiad, cynlluniau a phenderfyniadau GwE.

5.8.2 Mae adolygiad o sampl o wybodaeth a adroddwyd i'r Cyd-bwyllgor wedi dangos:

- Bod Adroddiadau a Chynlluniau Blynyddol yn destun adroddiadau cyhoeddus, gan ddarparu trosolwg o berfformiad, er enghraifft;
- Bod adroddiadau rheoli perfformiad yn cael eu cynhyrchu bob chwarter a bod yr holl wybodaeth ar gael yn gyhoeddus;
- Bod cofnodion cyfarfodydd yn cadarnhau bod swyddogion dynodedig yn mynychu pob cyfarfod i gyflwyno adroddiadau ar lafar ac i ateb cwestiynau, a nodwyd nifer o achlysuron lle darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf ar ffurf cyflwyniadau.

**Rhan 6: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

6.1 Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan GwE i nodi'r materion llywodraethu mwyaf arwyddocaol sydd angen sylw.

6.2 Ar sail yr asesiad a gynhaliwyd, ystyrir bod trefniadau llywodraethu GwE yn addas i'r diben ac yn dangos yn gyhoeddus sut roeddent yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau gwell o ran perfformiad ysgolion, fel y nodir yn y Cynllun Busnes.

6.3 Sail y casgliad cyffredinol yw:

- Dull agored o ymgysylltu â rhanddeiliaid, o gynllunio gwasanaethau a'u darparu, ac o adrodd am berfformiad GwE a chraffu arno;
- Trefniadau clir ar gyfer gwneud penderfyniadau a gefnogir gan drefniadau rheoli gwasanaeth a rheolaeth ariannol cadarn;
- Adrodd am flaenoriaethau ac uchelgeisiau dealladwy, fel yr amlinellir yng Nghynllun Busnes GwE, ac adroddiadau cynnydd sy'n dangos gwelliannau mewn canlyniadau a pherfformiad ar yr un pryd â chynnal sefydlogrwydd ariannol;
- Trefniadau cadarn i helpu Aelodau a Swyddogion etholedig i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol, a chynnal safonau ymddygiad uchel wrth gyflawni busnes ar ran GwE;
- Dull gweithredu tymor canolig ar gyfer cynllunio ariannol, a oedd wedi helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau strategol ac ar flaenoriaethau adnoddau.

6.4 Serch y sefyllfa gyffredinol hon, mae'r asesiad wedi nodi meysydd lle ystyrir bod gwelliannau yn angenrheidiol i atgyfnerthu ymhellach effeithiolrwydd trefniadau presennol GwE. Mae manylion am y rhain yn adran 7.

6.5 Gan edrych i'r dyfodol, bydd trefniadau llywodraethu cadarn GwE, ynghyd â gweithredu'r cynigion ar gyfer gwella a nodir yn adran 7 isod, yn hanfodol wrth helpu'r sefydliad i addasu ac aildrefnu'r cymorth rhanbarthol, a pharhau i ddarparu gwasanaeth gwella ysgolion effeithiol yn ystod Covid-19 a'r cyfnod adfer.

**Rhan 7: CYNIGION AR GYFER GWELLA**

7.1 Ar ôl cwblhau'r asesiad o drefniadau llywodraethu GwE, mae'r cynigion ar gyfer gwella i'w gweld isod:

| **Egwyddor graidd** | **Cyf.** | **Cynnig ar gyfer gwella** | **Amserlen ar gyfer gweithredu** | **Enw'r Swyddog Cyfrifol** |
|---|---|---|---|---|
| Sicrhau ymgysylltiad agored a chynhwysfawr â rhanddeiliaid | 5.3.16 | Gwneud yn siŵr bod yr adolygiad llywodraethu'n cael ei gwblhau'n derfynol. | Mawrth 2021 | Awdurdod lletyol / Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan ohono | 5.6.6 | Parhau â datblygiad staff ac adeiladu arno yn ystod y flwyddyn nesaf, gan wneud yn siŵr bod staff yn cael unrhyw ofynion / datblygiadau cymorth newydd o ganlyniad i Covid-19. | Mawrth 2021 | Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn, a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref | 5.7.15 | Gwella'r fframwaith gwerth am arian yn ystod y flwyddyn er mwyn dangos ymhellach sut mae adnoddau'n cael eu blaenoriaethu. | Mawrth 2021 | Rheolwr Gyfarwyddwr |

7.2 Mae Uwch Dîm Arwain GwE wedi derbyn y cynigion ar gyfer gwella ac wedi ymrwymo i'w gweithredu yn ystod 2020/21. Cadarnhawyd hefyd y bydd diweddariad ar y cynnydd yn cael ei adrodd i'r Cyd-bwyllgor yn ystod y flwyddyn, er mwyn galluogi aelodau i adolygu a chraffu ar hyd a lled y cynnydd sy'n cael ei wneud.





**Swyddog Arweiniol GwE**

**Dyddiad : __15/07/2020_____________**

ARWYN LLOYD THOMAS

RHEOLWR GYFARWYDDWR GwE

**Cadeirydd GwE**

**Dyddiad: __15/07/2020_____________**

CYNGHORYDD PHIL WYNN

# Geirfa

**Amhariad** – Lleihad yng ngwerth cario ased sefydlog oddi tan ei werth cario (oherwydd darfodedigrwydd, difrod neu newid croes mewn amgylchedd statudol).

**Ased** - Eitem o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall golli gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

**Balansau (neu Reserfau)** - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyngor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu menterion diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymiadau gaiff eu hadnabod.

**CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting)** – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

**Costau Gwasanaeth Cyfredol** – Cynnydd mewn gwerth cyfredol ar ymrwymiadau cynllun pensiwn diffiniedig a ddisgwylir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

**Credydwyr** - Symiau yn ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Cronfa Gyffredinol** - Prif gronfa refeniw'r Cyngor sydd yn cynnwys cost net holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau Llywodraeth.

**Cynllun Buddiannau Diffiniedig** – Pensiwn neu fudd ymddeoliad arall sydd ddim yn cynnwys cynllun cyfraniad diffiniedig.

**Darpariaeth** – Rhwymedigaeth sydd ag amseru neu swm ansicr, sydd i'w gael ei dalu drwy drosglwyddo buddion economaidd.

**Dyledwyr** - Symiau yn ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Eiddo Buddsoddi** – Eiddo sydd yn bwrpasol ar gyfer ennill incwm rhent neu ar gyfer arbrisiant cyfalaf, neu'r ddau.

**Enillion a Cholledion Actiwaraidd** - Ar gyfer cynllun pensiwn diffiniedig, mae'r newidiadau mewn gwarged actiwaraidd sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu mae'r rhagdybiaeth actiwaraidd wedi newid.

**Gwariant Cyfalaf** - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

**Gwerth Teg** - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

**Offerynnau Ariannol** - Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymiadau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymiadau ariannol, o fasnach dderbyniadwy (anfoneb ddyledus) a masnach daladwy (anfoneb i'w casglu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewnblannu.

**Partïon Cysylltiedig** - Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu i ymarfer dylanwad penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

**Reserfau** - Swm a bennir i un ochr ar gyfer pwrpas penodol mewn un flwyddyn gaiff ei gario ymlaen i gyfarfod ymrwymiadau'r dyfodol.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh)** – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu defnyddio gan bob endidau sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o safle ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiad cyllidol endidau eraill.

**Ymrwymiadau** – Symiau sydd yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau fydd yn orfodol i'w dalu ar ryw ben yn y dyfodol.

**Adroddiad yr archwilydd annibynnol o Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyd-Bwyllgor GwE.**

## Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

### Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol a nodiadau cysylltiedig Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
Mae datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig.
Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).
Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2020 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y cyd-Bwyllgor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cyd-Bwyllgor i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.
Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

## Adrodd ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cyd-bwyllgor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif neu'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 7, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyd-bwyllgor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

| | |
|---|---|
| Anthony J Barrett | 24 Heol y Gadeirlan |
| Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| 15 Medi 2020 | CF11 9LJ |

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyd-bwyllgor GwE

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: 8 Medi 2020

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich cyfrifon. Mae rhai materion y mae angen rhoi gwybod ichi amdanynt cyn eu cymeradwyo.


Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon

Cyflwyniad 4

Effaith Covid-19 ar Archwiliad Eleni 5

Adroddiad Archwilio Arfaethedig 6

Materion Arwyddocaol 7

Argymhellion 7

Atodiadau

Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynnol 8

Atodiad 2 – Barn Archwilio Arfaethedig 11

Atodiad 3 – Argymhellion 14

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

## Cyflwyniad

1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2019-20. yn yr adroddiad hwn.

2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Prif Gyfrifydd – Addysg; Economi a Chymuned a'r Uwch Gyfrifydd.

3 Ni all archwilwyr byth roi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai arwain fel arall at gamarwain rhywun sy'n defnyddio'r cyfrifon.

4 Fe bennon ni lefel o £307,500 ar gyfer hyn yn archwiliad eleni.

5 Rydym bellach bron â bod wedi cwblhau archwiliad eleni ond mae'r gwaith canlynol yn dal heb ei gwblhau:

   a. Clirio gweddill y nodiadau adolygu archwilio;
   b. Derbyn ymatebion boddhaol i eithriadau rhestr wirio CIPFA;
   c. Cwblhau profion credydwyr ac incwm grant;
   d. Derbyn tystiolaeth foddhaol i gefnogi un dyledwr;
   e. Derbyn llythyr SCR 19 gan Archwilwyr y Gronfa Bensiwn;
   f. Adolygu, galw a chastio fersiwn derfynol y cyfrifon;
   g. Clirio gan adolygydd ansawdd; a
   h. Derbyn llythyr cynrychiolaeth.

6 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; bod yn annibynnol arnoch chi; ac, ni pheryglwyd ein gwrthrychedd mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthnasoedd rhyngom ni a chithau a allai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein tyb ni.

7 Yn gynwysedig yn ein Cynllun Archwilio 2020 roedd risg sylweddol yn ymwneud ag incwm grant ac asesu a yw GwE yn gweithredu fel prof gorff neu asiant. Yn dilyn gweithdrefnau cynllunio pellach, rydym wedi penderfynu nad yw hyn yn risg sylweddol gan fod grantiau newydd a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn yn amherthnasol, bod yr asesiad o brif gorff neu asiant ar gyfer grantiau presennol yn annhebygol o newid a bod dim cymhelliant i'r rheolwyr or-danddatgan / tanddatgan incwm grant a nodwyd. Fodd bynnag, rydym wedi ymgymryd â gwaith mewn perthynas â risg sylweddol wahanol na chafodd ei gynnwys yn ein Cynllun Archwilio. Mae'r manylion am hyn wedi'u cynnwys isod:

| Risg archwilio | Ymateb archwilio |
|---|---|
| Rheolwyr yn diystyru rheolaethau<br>Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid | Fe wnaeth fy nhîm archwilio:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio |
|---|---|
| Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio dadansoddeg data gwell i ddadansoddi'r boblogaeth gyfan o gyfnodolion am nodweddion o ddiddordeb;<br>• performio profion dylunio a gweithredu rheolaethau dros gofnodion cyfnodolion;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol (lle nodwyd).<br>**Ni nodwyd unrhyw faterion o ganlyniad i'n profion.** |

## Effaith Covid-19 ar Archwiliad Eleni

8 Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar bob agwedd ar ein cymdeithas ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith eich bod yn paratoi cyfrifon ac mae'n glod sylweddol i ymrwymiad eich tîm cyfrifon eich bod wedi llwyddo i wneud hynny eleni yn wyneb yr heriau a achosir gan y pandemig hwn. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i broffesiynoldeb y tîm o ran y modd y gwnaethant ein cynorthwyo ni i gwblhau ein harchwiliad dan amgylchiadau mor anodd.

9 Nid yw'n syndod bod y pandemig wedi effeithio ar ein harchwiliad ac rydym yn crynhoi'r prif effeithiau yn **Arddangosyn 1**. Ac eithrio lle'r ydym yn gwneud argymhellion yn benodol, darperir y manylder yn **Arddangosyn 1** er gwybodaeth yn unig i'ch helpu chi i ddeall effaith pandemig Covid-19 ar broses archwilio eleni.

**Arddangosyn 1 – effaith Covid-19 ar archwiliad eleni**

| | |
|---|---|
| **Amserlen** | • Newidiwyd y terfyn amser ar gyfer cwblhau eich cyfrifon gan Llywodraeth Cymru o 15 Mehefin 2020 i 30 Awst 2020, ac y terfyn amser i gyhoeddi'r cyfrifon archwiliedig o 15 Medi 2020 i 30 Tachwedd 2020.<br>• Cawsom y cyfrifon drafft ar 3 Mehefin 2020.<br>• Ni newidiwyd ein terfyn amser ar gyfer cwblhau ein harchwiliad o 31 Gorffennaf 2020, ond mae Covid-19 wedi cyflwyno heriau sydd wedi golygu, er bod cryn dipyn o'r archwiliad wedi cael ei gwblhau erbyn y dyddiad hwn, bod hefyd meysydd o waith yn barhaus, ac oedd hefyd yn golygu ein bod wedi cael ein effeithio gan wyliau blynyddol yn ystod mis Awst.<br>• Rydym yn disgwyl i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi ar 15 Medi 2020. |
| **Llofnodion electronig** | Rydym yn bwriadu defnyddio llofnodion electronig ar gyfer llofnodi'r cyfrifon. |
| **Tystiolaeth archwilio** | Ni nodwyd unrhyw effeithiau mawr. |

10 Byddwn yn adolygu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu ar gyfer ein proses archwilio o bandemig Covid-19 a pha un a oes arferion arloesol y gallem eu mabwysiadu yn y dyfodol i wella'r broses honno.

# Barn Archwilio Arfaethedig

11 **Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn ddiamod** ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.

12 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.

13 Mae'r Llythyr Sylwadau'n cynnwys rhai cadarnhadau y mae'n ofynnol inni eu cael gennych chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhad o wybodaeth benodol arall yr ydych chi wedi'i darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.

14 Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

# Materion Arwyddocaol sy’n codi o’r Archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

15 Nid oes unrhyw gamddatganiadau wedi’u canfod yn y cyfrifon, sy’n dal heb eu cywiro.

## Camddatganiadau a gywirwyd

16 Nid oedd angen cywiro unrhyw gamddatganiadau o ganlyniad i’n gwaith archwilio. Roedd y newidiadau i'r cyfrifon o ganlyniad i'n gwaith archwilio yn ymwneud â mân faterion datgelu yn unig.

## Materion Arwyddocaol eraill sy’n codi o’r Archwiliad

17 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy’n ymwneud â’r cyfrifon ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw faterion arwyddocaol sy’n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn y flwyddyn yma.

# Argymhellion

18 Caiff yr argymhellion sy’n codi o’n harchwiliad eu nodi yn **Atodiad 3**. Mae’r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol i ganfod pa gynnydd a wnaed gyda hwy yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Lle mae unrhyw gamau gweithredu heb eu cymryd, byddwn yn parhau i fonitro’r cynnydd ac yn adrodd wrthych am hynny yn adroddiad y flwyddyn nesaf. Yn 2018/19 gwnaethom godi argymhelliad yn ymwneud â Bwrdd Rheoli GwE yn cytuno'n benodol ar y dosbarthiad GGA blynyddol. Wrth archwilio cofnodion, rydym wedi nodi bod y Bwrdd Rheoli wedi cadarnhau a chytuno ar y dosbarthiad GGA blynyddol ar gyfer 2019/20 ar 11 Hydref 2019.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

CAERDYDD

CF11 9LJ

15 Medi 2020

# Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2019/20

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyd-bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

# Sylwadau rheolwyr

## Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i’r canlynol:
  - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt, yn eich barn chi.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyd-bwyllgor GwE ac yn ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

# Sylwadau ar y datganiadau ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Mae perthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig wedi'u cyfrifo a'u datgelu yn briodol.

Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n digwydd yn dilyn y dyddiad adrodd y mae angen eu haddasu neu eu datgelu wedi'u haddasu ar gyfer neu eu datgelu.

Yr holl ymgyfreitha gwirioneddol neu bosibl a hysbysir y dylai ei effeithiau gael eu hystyried wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi'u datgelu i'r archwilydd a'u cyfrifo a'u datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Cynhaliwyd asesiad priodol o a yw GwE yn gweithredu fel asiant neu prif gorff mewn perthynas â'r holl incwm grant a dderbyniwyd a dim ond yn y datganiadau ariannol lle mae GwE yn gweithredu fel penadur y mae incwm grant wedi'i gydnabod.

Mae'r sylfaen ar gyfer dosbarthu'r Grant Gwella Addysg rhwng awdurdodau lleol cyfansoddol GwE yn briodol.

Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau.

# Sylwadau gan y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyd-bwyllgor GwE ar 30 Gorffennaf 2020.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Dafydd L Edwards | Cyngorydd Phil Wynn |
| Pennaeth Cyllid | Cadeirydd |
| Cyngor Gwynedd | Cyd-bwyllgor GwE |
| Dyddiad: 15 Medi 2020 | Dyddiad: 15 Medi 2020 |

# Atodiad 2

## Adroddiad Archwilio Arfaethedig

**Adroddiad yr archwilydd annibynnol o Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyd-bwyllgor GwE**

### Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

**Barn**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor GwE yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2020 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o’r cyd-bwyllgor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

**Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu’r cyd-bwyllgor i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

#### Gwybodaeth arall

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### Adrodd ar ofynion eraill

#### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau.

#### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cyd-bwyllgor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif neu'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

### Cyfrifoldebau

#### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 7 mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyd-bwyllgor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.


| | |
|---|---|
| Anthony J Barrett | 24 Heol y Gadeirlan |
| Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| 15 Medi 2020 | CF11 9LJ |

# Atodiad 3

## Argymhellion

Rydym yn nodi’r holl argymhellion sy’n codi o’n harchwiliad gydag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf ac yn cynnwys unrhyw faterion sy’n dal heb gael sylw yn adroddiad archwilio’r flwyddyn nesaf:

**Arddangosyn 2: mater yn codi 1**

| **Mater yn codi 1 - Canfyddiadau TG** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Fel rhan o'n harchwiliad ariannol gwnaethom benodi arbenigwyr TG i helpu'r tîm archwilio wrth brofi priodoldeb systemau TG y Cyngor sy'n cael effaith uniongyrchol ar gynhyrchu'r datganiadau ariannol. Nododd yr arbenigwyr TG nifer o argymhellion sydd wedi cael eu cyfleu i'r rheolwyr. |
| **Blaenoriaeth** | Isel |
| **Argymhelliad** | Argymhellir bod y rheolwyr yn gweithio gyda'r Rheolwr TG er mwyn sicrhau y caiff yr argymhellion hyn eu rhoi ar waith yn brydlon. |
| **Manteision rhoi’r argymhelliad ar waith** | Gwella ansawdd a chadernid y systemau TG. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb y rheolwyr** | Mae nifer o’r argymhellion eisoes wedi cael eu gweithredu neu yn y broses o gael eu gweithredu |
| **Dyddiad rhoi ar waith** | Yn ystod 2020/21 |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales
Gwefan: www.audit.wales

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 15 Medi 2020 |
| **TEITL** | **Cyllideb GwE 2020/21 – Adolygiad Chwarter 1af** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2020/21.<br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. CASGLIAD

1.1 Mae'r adolygiad cychwynnol yma yn amcangyfrif sefyllfa net lled niwtral am eleni, gyda thanwariant net o (£1,849).

1.2 Er hynny mae effaith COVID-19 i'w weld yn effeithio ar benawdau unigol, ac mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Rhent:**
**Chwarter 1: gorwariant £58,080.**
Mae'r gyllideb rhent yn ddibynnol ar incwm allanol a defnydd adeiladau GwE gan brosiectau penodol fel rhan ohono. Yn sgil yr argyfwng mae ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu mabwysiadu, gyda llawer mwy o weithio o bellter, a chyfarfodydd wedi'u cynnal ar lein, yn defnyddio 'Teams' neu 'Zoom'.

Ni ragwelir y bydd llawer o ddefnydd o ystafelloedd y GwE yn y flwyddyn ariannol hon. Yn ogystal â hynny, nid oes dyddiad dychwelyd i'r swyddfa wedi'i bennu hyd yn hyn. Felly, mae'n anodd rhagweld os bydd modd denu unrhyw Incwm o dan y pennawd hwn. Golygai hyn orwariant tebygol ar y pennawd yn 2020/21, oherwydd diffyg incwm.

2.2 **Cludiant:**
**Chwarter 1: tanwariant (£59,929).**
Yn sgil yr argyfwng, bu ysgolion y rhanbarth wedi'u cau am llawer o'r flwyddyn. Gyda'r ysgolion yn agor o Fedi ymlaen, rhagwelir y bydd costau teithio'r swyddogion yn dychwelyd i'w lefel arferol am weddill y flwyddyn. Er hynny, rhagwelir tanwariant cychwynnol oddeutu 5/12 o'r gyllideb am y cyfnod Ebrill – Awst 2020.

2.3 **Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (GGYCR)**
**Chwarter 1: niwtral.**
Mae angen nodi y bu toriad cyffredinol o 3% (£957,939) i'r GGYCR, a thoriad (£1,263,019) ar gynlluniau penodol yn sgil ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng Covid-19 (gyda toriad GwE yn £328,361 a thoriad yr awdurdodau / ysgolion yn £1,892,597). Er hynny, gan fod rhai cynlluniau wedi'u gohirio, gyda chynllunio ariannol cadarn, disgwylir sefyllfa llêd-niwtral yn 2020/21.

Dadansoddiad o'r grant gyflawn isod:

| | |
|---|---|
| Datganoledig* | £27,468,198 |
| Heb ei ddatganoli | £ 7,634,359 |
| Cyfanswm | **£35,102,557** |
| Grant | £32,616,277 |
| Arian Cyfatebol | £ 2,486,280 |
| Cyfanswm | **£35,102,557** |

** Nid yw cyfrifon y GwE yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.*

## 3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2020/21 oedd £480,204.

3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £482,053 ar ddiwedd 2020/21, wedi ystyried y tanwariant ymylol a ragwelir uchod.

3.3 Oherwydd yr her ariannol yn sgil y toriad i'r grantiau, fe all arwain at fwy o ofyn ar y gyllideb graidd / cronfa tanwariant yn 2020/21.

**ATODIADAU**
Atodiad 1: Cyllideb GwE 2020/21 – Adolygiad Chwarter 1af.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad.

**CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - Adolygiad Cyllid 2020/21 : Chwarter Cyntaf Ebrill - Mehefin 2020**

| | Cyllideb Agoriadol £ | Addasiadau £ | Cyllideb Diwygiedig £ | Gwariant Rhagwelir £ | Gor / (Tan) Wariant Net £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | |
| Gweithwyr | | | | | **Adroddiad** |
| Cyflogau | | | | | |
| - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth | 895,243 | | 895,243 | 895,243 | 0 |
| - Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant | 3,741,134 | | 3,741,134 | 3,741,134 | 0 |
| - Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol' | (1,722,153) | | (1,722,153) | (1,722,153) | 0 |
| Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill | 42,043 | | 42,043 | 42,043 | 0 |
| Adeilad | | | | | |
| Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 171,027 | | 171,027 | 171,027 | 0 |
| Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd | (58,080) | | (58,080) | 0 | 58,080 |
| Cludiant | | | | | |
| Costau Teithio | 135,506 | | 135,506 | 75,577 | (59,929) |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb | 72,045 | | 72,045 | 72,045 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu) | 16,285 | | 16,285 | 16,285 | 0 |
| Ffioedd archwilio | 11,308 | | 11,308 | 11,308 | 0 |
| Broceru | 285,002 | | 285,002 | 285,002 | 0 |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | | | | | |
| Cyfreithiol | 5,652 | | 5,652 | 5,652 | 0 |
| Adnoddau Dynol | 9,692 | | 9,692 | 9,692 | 0 |
| Cyllid | 41,913 | | 41,913 | 41,913 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 46,356 | | 46,356 | 46,356 | 0 |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 | | 469,948 | 469,948 | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | 8,400,487 | (766,128) | 7,634,359 | 7,634,359 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | 970,600 | 59,800 | 1,030,400 | 1,030,400 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | 100,000 | | 100,000 | 100,000 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | 0 | 148,678 | 148,678 | 148,678 | 0 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | 346,769 | | 346,769 | 346,769 | 0 |
| Trawsnewid Y System Ady | 134,295 | (59,000) | 75,295 | 75,295 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **14,115,072** | **(616,650)** | **13,498,422** | **13,496,573** | **(1,849)** |

| | Cyllideb Agoriadol £ | Addasiadau £ | Cyllideb Diwygiedig £ | Gwariant Rhagwelir £ | Gor / (Tan) Wariant Net £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | |
| Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd | | | | | |
| - Cyngor Ynys Môn (19/20: 10.20% - 20/21: 10.15%) | (422,378) | | (422,378) | (422,378) | 0 |
| - Cyngor Gwynedd (19/20: 17.64% - 20/21: 17.63%) | (733,820) | | (733,820) | (733,820) | 0 |
| - Cyngor Conwy (19/20: 15.30% - 20/21: 15.30%) | (636,936) | | (636,936) | (636,936) | 0 |
| - Cyngor Dinbych (19/20: 15.26% - 20/21: 15.30%) | (637,104) | | (637,104) | (637,104) | 0 |
| - Cyngor Fflint (19/20: 22.71% - 20/21: 22.68%) | (944,123) | | (944,123) | (944,123) | 0 |
| - Cyngor Wrecsam (19/20: 18.89% - 20/21: 18.94%) | (788,560) | | (788,560) | (788,560) | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | (8,400,487) | 766,128 | (7,634,359) | (7,634,359) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | (970,600) | (59,800) | (1,030,400) | (1,030,400) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | (100,000) | | (100,000) | (100,000) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | 0 | (148,678) | (148,678) | (148,678) | 0 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | (346,769) | | (346,769) | (346,769) | 0 |
| Trawsnewid Y System Ady | (134,295) | 59,000 | (75,295) | (75,295) | 0 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(14,115,072)** | **616,650** | **(13,498,422)** | **(13,498,422)** | **0** |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** | **0** | **0** | **(1,849)** | **(1,849)** |

**Memorandwm -**
**Y Gronfa Tanwariant**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2020** | **(480,204)** |
| **Ychwaneger/Llai** - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2020/21 | (1,849) |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 0 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2021** | **(482,053)** |

**Cronfa Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2020** | **(71,320)** |
| **Ychwaneger -** Cyfraniad am y flwyddyn gyllidol 2020/21 | (16,285) |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 0 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2021** | **(87,605)** |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 MEDI 2020**

---

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas – Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Adroddiad Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd – Costau teithio GwE

---

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Rhoi sicrwydd i'r Cyd-bwyllgor fod GwE wedi cydymffurfio'n llwyr â pholisi Cyngor Gwynedd ar gyfer ad-dalu treuliau teithio, lle bydd swyddogion yn hawlio ad-daliad dim ond am nifer y milltiroedd busnes a deithir yn ychwanegol at nifer y milltiroedd a deithir rhwng y cartref a'r gwaith / y gwaith a'r cartref ar ôl ymgynghori ag adran Adnoddau Dynol (AD) Cyngor Gwynedd a dod i gytundeb llawn â'r adran honno. Ymhellach, i ddarparu sicrwydd bod GwE wedi mynd i'r afael â'r cam lliniaru a ddeilliodd o'r Adroddiad Archwilio Mewnol, sef 'Atgoffa rheolwyr i adolygu hawliadau treuliau teithio'.

**2.0 Cefndir**

2.1 Cyngor Gwynedd yw awdurdod lletyol GwE ac ef yw cyflogwr cyfreithiol staff GwE. Felly, mae staff GwE yn ddarostyngedig i delerau ac amodau cyflogaeth Cyngor Gwynedd.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae GwE yn cydnabod ei gyfrifoldeb i sicrhau gwerth am arian yn ei holl weithgareddau, ni waeth sut y caiff y gweithgareddau hyn eu hariannu. Mae GwE wedi ymrwymo i fynd ar drywydd darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd fel rhan o'i waith strategol a gweithredol. Bydd GwE yn ceisio rhoi arferion da ar waith ynghyd ag ymgorffori egwyddorion

gwerth am arian yn ei holl weithgareddau, gan gynnal adolygiadau ar adegau addas er mwyn sicrhau y gellir dangos gwerth am arian.

3.2 Term yw ‘gwerth am arian’ a ddefnyddir i asesu a yw sefydliad wedi sicrhau’r budd mwyaf o’r gwasanaethau y mae’n eu caffael ac yn eu darparu, o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo. Efallai y bydd rhai elfennau’n oddrychol, yn anodd i’w mesur ac yn anniriaethol, a hefyd efallai y cânt eu camddeall. Felly, rhaid arfer barn wrth ystyried a yw gwerth am arian wedi cael ei gyflawni’n foddhaol, ai peidio. Nid yn unig mae’n mesur cost y gwasanaethau, ond mae hefyd yn ystyried cymysgedd o ansawdd, cost, defnydd o adnoddau, addasrwydd i’r diben, amseroldeb a chyfleustra er mwyn barnu a ydynt, gyda’i gilydd, yn esgor ar werth da. Yn aml, disgrifir yr arfer o sicrhau gwerth am arian mewn perthynas â thair elfen – sef darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd:

(i) darbodaeth – lleihau cost adnoddau ar gyfer gweithgaredd (‘gwneud pethau ar gost isel’);

(ii) effeithlonrwydd – cyflawni tasgau gydag ymdrech resymol (‘gwneud pethau yn y ffordd iawn’);

ac

(iii) effeithiolrwydd – y graddau y caiff amcanion eu cyflawni (‘gwneud y pethau iawn’).

3.3 Aethpwyd ati i ymgynghori’n llwyr ynghylch y trefniadau arfaethedig gydag uwch reolwyr adran AD ein hawdurdod lletyol. Nid oes yr un aelod o staff yn hawlio unrhyw filltiroedd o’u cartref; yn hytrach, o un o’r canolfannau a nodir.

3.4 Yn ogystal, trafodwyd a chytunwyd ar y trefniadau arfaethiedig ym Mwrdd Rheoli GwE, a cynigwyd y canolfannau ychwanegol i ganiatau i’r gwasanaeth rhanbarthol weithredu yn fwy effeithiol drwy sicrhau bod GwE gyda phresenoldeb ymhob awdurdod lleol, yn enwedig wedi diddymu'r model hwb is-ranbarthol. Heb y cytundeb hwn ar waith, sy’n canitau i’r gwasanaeth weithio ar blatfform rhanbarthol llawn, byddai GwE hefyd wedi’i chael hi’n anodd iawn bod yn effeithlon ac yn effeithiol wrth benodi staff y dyfodol.

3.5 Mae’r polisi newydd wedi effeithio ar allu’r holl staff i hawlio costau teithio o’u cartref.

3.6 Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd – Tystysgrif Canslo Gwirfoddol. Cafodd ‘Hinsawdd Niwtral Nawr’ ei lansio gan y Cenhedloedd Unedig yn 2015 er mwyn annog pawb mewn cymdeithas i gymryd camau i geisio cael byd hinsawdd niwtral erbyn 2050, fel y nodir yng Nghytundeb Paris. Eisoes, mae GwE wedi cwblhau’r broses hon ar gyfer y teithio a wnaed gan y gwasanaeth. Rydym yn falch o ddweud ein bod bellach yn gwrthbwyso 77 tunnell o’n hôl troed carbon a’n bod yn chwilio am ffyrdd i leihau hyn o fewn y gwasanaeth. Trwy arwain y ffordd yn hyn o beth, ein gobaith yw y gallwn godi ymwybyddiaeth ac ysgogi mwy o ymdrechion o ran cynaliadwyedd mewn ysgolion ar draws y rhanbarth.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i’r Cyd-bwyllgor gadarnhau ei fod yn sicr bod GwE yn:

- dilyn y newid polisi gan Gyngor Gwynedd ers mis Gorffennaf 2018;
- cefnogi rheolwyr i adolygu hawliadau treuliau teithio

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Mae holl hawliadau’r staff yn berthnasol i leoliad dynodedig gwaith arferol. Mae hyn yn lleihau’n sylweddol yr hawliadau ‘o’r cartref’ a gâi eu caniatáu yn trafeilio i ysgolion ac ar fusnes arall GwE cyn mis Gorffennaf 2018. Roedd y polisi blaenorol yn nodi y gallai’r staff hawlio’u siwrnai lawn os oedd y siwrnai honno’n cychwyn ac yn gorffen yng nghartref y gweithiwr. Ar gyfer mwyafrif staff GwE, roedd hyn yn golygu eu bod yn hawlio’r milltiroedd llawn rhwng eu cartref a’r ysgol / busnes GwE ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau. Ni nodir mai eu cartref yw eu gweithle arferol yn achos yr un aelod o staff. Mae hyn wedi arwain at leihau’r treuliau teithio rhanbarthol a gaiff eu hawlio yn erbyn y gyllideb graidd.

5.2 Mae’r ystyriaeth y mae angen ei rhoi i’r cynnydd sylweddol mewn cymorth, rhaglen waith genedlaethol Llywodraeth Cymru a’r angen i deithio’n helaeth y tu allan i’r rhanbarth yn ystod y cyfnod hwn o Ddiwygio Addysgol yn ei gwneud hi’n anodd iawn nodi’n benodol beth yw’r effaith ariannol ar y gyllideb.

5.3 Mae niferoedd staff GwE wedi gweld cynnydd o 8 i gefnogi agenda Ddiwygio Llywodraeth Cymru.

5.4 Mae GwE wedi tanwario'n gyson ar y gyllideb deithio graidd.

5.5 Wrth reoli'r gyllideb flynyddol a sicrhau gwasanaeth rhanbarthol cynhwysfawr, nid yw treuliau teithio wedi bod yn faes y mae'r Cyd-bwyllgor wedi'i dargedu wrth ofyn i GwE gyflwyno arbedion i'r gyllideb.

**6.0 Yr Effaith ar Gydraddoldebau**

6.1 Wrth roi'r polisi newydd ar waith (ar gyfer ad-dalu treuliau teithio, lle bydd swyddogion yn hawlio ad-daliad dim ond am nifer y milltiroedd busnes a deithir yn ychwanegol at nifer y milltiroedd a deithir rhwng y cartref a'r gwaith / y gwaith a'r cartref) trwy adolygu lleoliad gwaith swyddogol y staff, rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r canlynol:

- y teithio sy'n ofynnol er mwyn mynd i'r afael â natur ranbarthol y rolau o fewn GwE;
- peidio â chyfyngu ar gyfleoedd i recriwtio darpar ymgeiswyr yn y dyfodol oherwydd eu hagosrwydd at ganolfannau.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn deillio o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori**

8.1 Ymgynghorwyd ag AD Gwynedd, Staff GwE a Bwrdd Rheoli GwE.

**9.0 Atodiadau**

- Atodiad 1 Yr adroddiad drafft a luniwyd ar gyfer y Cyd-bwyllgor, 22/05/2019
- Atodiad 2 Adroddiad Archwilio Mewnol Awdurdod Lleol Gwynedd

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae'n briodol i'r adroddiad yma ar weithrediad GwE ar argymhellion Pwyllgor Archwilio Gwynedd i ddod gerbron y Cydbwyllgor am ystyriaeth

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae GwE wedi gweithredu’r camau y cytunwyd arnynt o’r adroddiad Archwilio Mewnol, i ‘atgoffa rheolwyr i adolygu hawliadau treuliau teithio’, sy’n amlwg yn ddefnyddiol i liniaru’r risg o wallau wrth brosesu.  Bydd yr adroddiad hwn gan y Rheolwr Gyfarwyddwr yn rhoi hyder i'r Cyd-bwyllgor ynghylch trefniadau hawlio teithio GwE a lleoliadau gwaith arferol dynodedig y staff, sy'n adlewyrchu natur eu rolau arbenigol yn GwE.

**Atodiad 1** **Yr adroddiad drafft a luniwyd ar gyfer y Cyd-bwyllgor, 22/05/2019**

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**22/05/2019**

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Lleoliadau gwaith staff GwE

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor, i'w gymeradwyo, leoliadau gwaith staff GwE.

**2.0 Cefndir**

2.1 Cyngor Gwynedd yw awdurdod lletyol GwE; ac felly yn gyflogwr cyfreithiol staff GwE. Gan hynny, mae cytundeb cyflogaeth staff GwE yn seiliedig ar delerau ac amodau cyflogaeth Cyngor Gwynedd.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Fel rhan o foderneiddio a diwygio'r amodau gwaith lleol gwnaed y newidiadau isod:

*3.1.1 Diddymu'r atodiad o 20% (1/5) yr awr i gyflog staff sy'n gweithio rhwng 8 a 10 y nos. O wneud hyn, yr unig daliad ychwanegol am weithio oriau anghymdeithasol o fewn y Cyngor fydd i'r unigolion hynny sy'n gweithio shifftiau nos h.y. ar ôl 10. Bu i 1,140 o staff y Cyngor hawlio'r lwfans ychwanegol hwn yn ystod 2016/17.*

*3.1.2 Addasu'r Cynllun Colled Ariannol (Gwarchodaeth Cyflog) o 3 blynedd ar sail 100% o warchodaeth i;*

*(i) Blwyddyn ar sail 100% o warchodaeth*

*(ii) Blwyddyn ar sail 50% o warchodaeth*

3.1.3 *Addasu'r polisi ar gyfer adhawlio costau teithio ble bydd swyddogion yn hawlio ad-daliad am nifer y milltiroedd busnes a deithir* ***uwchben nifer y milltiroedd a deithir*** *o'r cartref i'r gwaith/gwaith i'r cartref yn unig.*

3.1.4 *Lleihau'r taliad ar gyfer bod 'ar ddyletswydd'" tu allan i oriau gwaith arferol h.y. y lefel uchaf o'r ddau daliad – a hynny o £265.88 yr wythnos ar hyn o bryd i £200 yr wythnos.*

3.2 Newidiadau 3.1.2 & 3.1.3 sy'n effeithio staff GwE.

3.3 Er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu newid 3.1.3 ym mis Gorffennaf 2018, cadarnhawyd canolfannau gwaith y staff ac fe'u cymeradwywyd gan Gyngor Gwynedd. Roedd hyn yn dilyn cydweithio agos a derbyn cyngor gan Adran Adnoddau Dynol Gwynedd. Gweler rhestr o'r lleoliadau isod:

- Bae Colwyn
- Bangor
- Caernarfon
- Dolgellau
- Llangefni
- Pwllheli
- Ruthin
- Wyddgrug

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r adroddiad.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Oherwydd natur rhaglen waith ranbarthol y staff a'r angen i deithio i Gaerdydd fwy a mwy yn ystod y cyfnod sylweddol hwn o Ddiwygio Addysg yng Nghymru, mae'n anodd iawn nodi beth yn union yw'r effaith ariannol ar y gyllideb.

5.2 Yng Nghynllun Busnes 2019-20, bydd GwE yn cynnal adolygiad o'i trefniadau gweinyddol a gwerth am arian. Yn ogystal, mae ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn adolygu'n gyson newidynnau sydd angen sylw wrth gynllunio a phroffilio ein cyllidebau.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Mae Gwasanaeth Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd wedi bod yn cynnal trafodaethau efo cynrychiolwyr yr undebau cydnabyddedig er Hydref 2015. Yn ogystal, bu iddynt lythyru mwy na 6,000 o staff er mwyn ymgynghori'n uniongyrchol â'r gweithlu a'u gwahodd i gysylltu â'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol gydag unrhyw ymholiadau neu sylwadau yn ymwneud â'r newidiadau arfaethedig.

8.2 Ymgynghorwyd â staff GwE.

8.3 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

8.4 Cymeradwywyd y lleoliadau gwaith gan Cyngor Gwynedd.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

**Swyddog Cyllid Statudol:**

**Atodiad 2** **Adroddiad Archwilio Mewnol Awdurdod Lleol Gwynedd**

***ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL***

# COSTAU TEITHIO

## GWE

## 2019/20

# COSTAU TEITHIO
# GwE

## 1. Cefndir

1.1 Mae Cyngor Gwynedd, sef Awdurdod lletuol GwE, wedi mabwysiadu trefn ble gall gweithwyr sydd â chyfrif TG hawlio unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth drwy system hunanwasanaeth. Fel rhan o'r drefn yma, cyflwynir manylion teithiau ar-lein ac nid oes angen awdurdodiad gan reolwr er mwyn i'r taliad gael ei brosesu, ond mae ganddynt y gallu i wrthod ceisiadau os ydynt o'r farn eu bod yn amhriodol neu'n anghywir. Bwriad y drefn newydd yw lleihau'r baich gweinyddol oedd ynghlwm â'r drefn flaenorol o gwblhau cais papur oedd angen awdurdodiad rheolwr llinell, ei ardystio gan ddaliwr y gyllideb ac yna ei fewnbynnu gan swyddogion gweinyddol i'r system i gynhyrchu'r taliad.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod proses effeithlon ac effeithiol mewn lle ar gyfer hawlio costau teithio drwy'r system hunanwasanaeth, sy'n lleihau'r baich gweinyddol ac yn cadw risg o golled drwy gamgymeriad neu dwyll i lefelau priodol. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu darganfod amlder cynnal gwiriadau gan reolwyr a gwirio sampl o geisiadau costau teithio a gyflwynwyd.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Dengys y matrics isod nifer y risgiau a adnabuwyd â'r sgôr risg cyfatebol. Dylid cyfeirio at y ddogfen atodol am ddisgrifiad llawn o ddiffiniadau tebygolrwydd ac effaith. Yn seiliedig ar y matrics risg y darparwyd lefel sicrwydd yr archwiliad.

| | | **Effaith** | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Catastroffig 5** | **Dinistriol 4** | **Sylweddol Iawn 3** | **Arwyddocaol 2** |
| **Tebygolrwydd** | **Digwydd rŵan 5** | | | 1 | |
| | **Tebygol Iawn 4** | | | | 1 |
| | **Tebygol 3** | | | | |
| | **Annhebygol 2** | | | | |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae’r drefn o gyflwyno ceisiadau drwy hunanwasanaeth yn lleihau'r gwaith gweinyddol yn sylweddol. Mae’r cyfrifoldeb am gynnal gwiriadau yn parhau gyda’r rheolwyr, felly mae’r risg o gamgymeriadau neu dwyll costus yn ddibynnol ar ba mor drylwyr mae’r rheolwyr yn gwirio ceisiadau. Yn yr ystyr yma, nid yw’r drefn wedi newid wrth gymharu â threfniant ceisiadau costau teithio papur, ond bod y drefn newydd yn ddibynnol ar ymrwymiad y rheolwyr i fewngofnodi i’r system hunanwasanaeth yn fisol i gynnal y gwiriadau.

5.2 Mae’r drefn yn tybio bod rheolwyr yn gwirio’r ceisiadau ac yn gwrthod rhai amhriodol. Cynhyrchiwyd adroddiad oedd yn dangos pa reolwyr sydd wedi a pha reolwyr sydd heb wirio ceisiadau dros gyfnod o fisoedd diweddar, a gwelwyd nad oedd y rhan helaeth o geisiadau staff GwE yn cael eu gwirio, er bod y system yn cynhyrchu e-byst i reolwyr sydd heb ymweld â’r system hunanwasanaeth i wirio costau teithio gan nodi’r angen “*i chwi wirio costau teithio eich staff yn y system Hunan Wasanaeth cyn y dyddiad rhyddhau*” gan nodi'r dyddiad rhyddhau perthnasol. Yn ogystal, mae neges atgoffa yn ymddangos yn y system hunanwasanaeth.

5.3 Darganfuwyd bod camgymeriadau yn gallu cael eu prosesu (e.e. gwelwyd cais am 800 milltir am daith 80 milltir) a daethpwyd â hyn i sylw GwE i’w cywiro. Dengys felly bod camgymeriadau amlwg yn gallu disgyn drwy’r rhwyd petai rheolwyr ddim yn cynnal gwiriadau.

5.4 Gwelwyd felly bod risg o geisiadau amhriodol yn bodoli, ond nid yw’n sylweddol uwch wrth gymharu â’r trefniant o gyflwyno ceisiadau costau teithio papur gan fod y ddwy drefn yn ddibynnol ar onestrwydd y swyddog a pharodrwydd y rheolwr i’w gwirio a’u herio ble’n briodol.

5.5 Cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd ar y 13eg o Fawrth 2018 i addasu'r rheolau ar gyfer adhawlio costau teithio. Yn weithredol o’r 1af o Orffennaf 2018 ymlaen, caiff swyddogion (gan gynnwys GwE) ond hawlio ad-daliad am y nifer o filltiroedd busnes a deithir uwchben y nifer o filltiroedd a deithir rhwng y cartref a’r man gwaith arferol. Mynegir yn y Polisi Teithio a Chynhaliaeth; “*Os yw taith fusnes yn dechrau ac yn gorffen yng nghartref yr unigolyn, yna dylid tynnu’r nifer milltiroedd a deithir yn ôl ac ymlaen i’r ganolfan waith arferol allan o’r cyfanswm sy’n cael eu hawlio.*” Bwriad y newid yn y Polisi yma yw arbed arian, ond gwelwyd fod gwariant GwE ar god gwariant 2GWR 2710 (lwfansau ceir cyffredinol, llai costau trên) wedi cynyddu rhwng 2017/18 a 2018/19. Mae cyfrifon alldro GwE yn dangos lleihad yng nghostau teithio sy’n cael ei ariannu o’r gyllideb craidd yn unig, h.y. gwaith craidd y gwasanaeth o wella ysgolion ar rhan y 6 awdurdod lleol o £123,391 yn 2017/18 i £122,416 yn 2018/19. Yn ôl GwE, mae cynnydd wedi bod yng nghostau teithio’r gwasanaeth ar y gwaith ehangach, h.y. oherwydd gofynion y grantiau gan Llwyodraeth Cymru yn benodol yn ystod y cyfnod sylweddol yma o ddiwygio addysg yng Nghymru.

5.6 Yn dilyn trafodaethau rhwng GwE a’r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, cytunwyd i adolygu lleoliadau gwaith pob aelod staff GwE, a hynny yn weithredol o’r 1af o Orffennaf 2018. Gwelwyd fod nifer o’r staff wedi dymuno newid lleoliad gwaith, a hynny i’r swyddfeydd sydd agosaf i’w cartrefi. Nid oes modd diystyru'r ffaith gall hyn fod wedi digwydd mewn ymateb i’r newid yn y Polisi a’r effaith caiff hyn ar gostau teithio'r swyddogion, yn hytrach nag am resymau ymarferol i GwE. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith bod ceisiadau costau teithio'r swyddogion yn awgrymu nad oes newid wedi bod o ran eu trefniadau gweithio, ond wrth reswm mae’r newidiadau wedi cael effaith ar gostau teithio'r swyddogion drwy leihau'r elfen rhaid iddynt dynnu o bob hawliad, yn ogystal â galluogi'r swyddogion i hawlio costau am deithio tu hwnt i’w lleoliadau swyddogol newydd.

5.7 Mae natur gwaith GwE yn golygu bod elfen fawr iawn o deithio ynghlwm â’r gwaith, gan gynnwys ymweliadau rheolaidd i ysgolion gwahanol, neu i’r amryw o swyddfeydd sydd ar draws y Gogledd. Mae’r swyddogion bellach gyda’r hawl i hawlio costau teithio am unrhyw daith sy’n fwy na’r pellter rhwng eu cartref a’u man gwaith swyddogol, sy’n golygu gall

swyddogion hawlio costau teithio i fynd i'w man gwaith 'arferol', sydd ddim o reidrwydd eu man gwaith swyddogol. Gan fod gan GwE fynediad at nifer o swyddfeydd, mae'n bosib i staff weithio yn y swyddfeydd sydd agosach i'w cartrefi o bryd i'w gilydd drwy drefniant 'hot desk'. Mae trefniant o'r fath o fudd i GwE a'r swyddogion, ond nid oes angen newid eu lleoliad gwaith swyddogol i gyflawni hyn.

5.8 Ymysg y trafodaethau i newid lleoliadau gwaith swyddogol, darganfuwyd fod GwE wedi ceisio symud rhai staff i leoliadau 'virtual', gan nad oedd ganddynt swyddfeydd yn y lleoliadau oedd y staff yn dymuno symud iddynt. Defnyddiwyd cyfleusterau 'hot desk' yn y lleoliadau fel man gwaith swyddogol yn y diwedd gan fod angen cael man gwaith ffisegol. Eto caiff hyn yr effaith o alluogi'r swyddog i hawlio costau teithio (ac amser, os yn berthnasol i delerau'r swydd) am unrhyw daith sydd yn fwy na'r pellter o'r cartref i'r man gwaith swyddogol yma.

5.9 Wrth wirio hawliadau costau teithio'r swyddogion, ymddengys bod y rhai sydd wedi newid lleoliad gwaith swyddogol wedi cael budd ariannol, boed drwy hawlio am y teithiau maent yn gwneud i'w lleoliadau gwaith arferol, neu drwy leihau'r golled sydd ynghlwm â'r pellter rhwng y cartref a'r man gwaith swyddogol - neu gyfuniad o'r ddau.

5.10 Nodir Polisi Gwerth am Arian GwE "*Mae Gwerth am Arian yn derm a ddefnyddir i asesu p'un a yw sefydliad wedi cael y budd gorau neu beidio o'r gwasanaethau y mae'n eu sicrhau a'u darparu, a hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael... Mae cyflawni Gwerth am Arian yn cael ei ddisgrifio yn aml yn nhermau'r 'tair E' - economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd:*

*(i) economi - lleihau cost yr adnoddau ar gyfer gweithgaredd ('gwneud pethau am bris is');*
*(ii) effeithlonrwydd - perfformio tasgau gydag ymdrech rhesymol ('gwneud pethau y ffordd gywir'); ac*
*(iii) effeithiolrwydd - i ba raddau y bodlonir amcanion ('gwneud y pethau iawn').*

*...Mae rhaid i Werth am Arian fod yn ran naturiol o'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel ar draws GwE. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gynllunio neu adolygu gweithgareddau sydd â goblygiadau ariannol sylweddol... Bydd rhaid bodloni'r Bwrdd Ansawdd Busnes yr eir i'r afael yn ddigonol â materion Gwerth am Arian a bod y prif feysydd gwariant, gan gynnwys costau staff, yn cael eu craffu yn briodol*." Gan fod goblygiadau ariannol ynghlwm â symud lleoliadau gwaith gweithwyr, credir ei fod yn rhesymol bod achos busnes mewn lle i gyfiawnhau y newidiadau ac i amlygu y buddion i GwE sy'n deillio o'r trefniadau arfaethedig. Lluniwyd adroddiad i'r cyd-bwyllgor GwE ar y 22ain o Fai 2019 gyda'r bwriad o gyflwyno, a chymeradwyo lleoliadau gwaith staff. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn crybwyll y ffaith bod lleoliadau gwaith wedi newid, nac y goblygiadau ariannol o hynny. Yn dilyn cyngor gan y Swyddog Monitro, ni gyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyd-Bwyllgor gan mai mater rheolaethol yw newid amodau gwaith unigol, a gan bod y newidiadu eisoes yn weithredol ers 1af o Orffennaf 2018.

5.11 Mae Polisi Gwerth am Arian GwE hefyd yn nodi "*er mai prif bwrpas archwilio mewnol yw asesu'r system reoli fewnol, mae'r archwilwyr mewnol mewn lle da yn aml i asesu Gwerth am Arian a chynnig sylwadau yn y meysydd a adolygir*". I'r perwyl yma, nid oes modd i Archwilio Mewnol roi sicrwydd bod ystyriaeth wedi ei roi i gael gwerth am arian wrth newid lleoliadau gwaith.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae GwE wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Atgoffa rheolwyr i wirio hawliadau costau teithio.**

**CYDNABYDDIAETH**

Yr archwiliwr ac awdur yr adroddiad hwn yw:

Bleddyn Rhys
Arweinydd Archwilio
BleddynRhys@gwynedd.llyw.cymru
Est. 34680

Adolygwyd yr adroddiad gan:

Luned Fôn Jones
Rheolwr Archwilio
LunedFonJones@gwynedd.llyw.cymru
Est. 34687

Hoffai'r archwiliwr ddiolch i'r swyddogion perthnasol am eu cydweithrediad wrth baratoi'r adroddiad archwilio hwn.

**LUNED FÔN JONES**
**Rheolwr Archwilio**
Mawrth 2020

**Dosbarthiad:**
**Drafft a Therfynol**
Pennaeth Cyllid
Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
Rheolwr Busnes a Chyllid GwE
Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol
Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol
Pennaeth Cynorthwyol - Cyllid

**CYNLLUN GWEITHREDU CYTUNEDIG**
**COSTAU TEITHIO**

| Rhif | Risg i'w Liniaru | Gweithrediad a Gytunwyd | Cyfrifoldeb Gweithredu | Amserlen Gweithredu | Sgôr Risg |
|---|---|---|---|---|---|
| **R01** | Ceisiadau amhriodol neu anghywir yn cael eu prosesu. | Atgoffa rheolwyr i wirio hawliadau costau teithio. | Rheolwr Busnes a Chyllid GwE | 30/06/2020 | 8 |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 MEDI 2020**

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch GwE (COVID-19 - Diogelu Cymru yn y Gwaith)

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Asesiadau Risg GwE i'r Cyd-bwyllgor (COVID-19 - Diogelu Cymru yn y Gwaith).

**2.0 Cefndir**

**2.1** Er mwyn atal lledaeniad COVID-19, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau Coronafirws, sy'n gosod cyfyngiadau llym. Rhaid i fusnesau sydd â'r hawl i weithredu, neu leoliadau sydd â'r hawl i agor wneud hynny'n ddiogel ac mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Coronafirws, yn ogystal â gofynion cyfreithiol eraill ar gyflogwyr (megis deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch).

**2.2** Mae gan GwE ddyletswydd gyfreithiol i reoli'r risgiau yn y gweithle, gan gynnwys y risgiau o COVID-19. Gweler ynghlwm yr Asesiadau Risg ar gyfer tair Swyddfa GwE, Ymweliadau ag Ysgolion a'r Gweithlu, sy'n nodi'r risgiau a'r mesurau i reoli'r risgiau newydd hyn. Darperir hefyd gofnod o'r camau gweithredu sydd angen eu cymryd.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae'r Asesiadau Risg yn ddogfennau byw a adolygir yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y mesurau yn dal yn effeithiol ac yn ymateb i sefyllfa COVID-19.

3.2 Byddant yn cael eu hadolygu yn unol ag unrhyw newidiadau i Reoliadau Llywodraeth Cymru, a rhaid i bob agwedd a nodir gydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Daeth y fersiwn presennol i rym ar 17 Awst, 2020.

3.3. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynghori pobl i weithio o gartref oni bai bod angen busnes clir i ddychwelyd i'r gweithle. O wybod nad oes sicrwydd ynghylch pa bryd y bydd unrhyw lacio pellach ar gyfyngiadau na natur y llacio hwnnw, bydd yr asesiadau risg a'r camau gweithredu a nodir yn ein galluogi i symud yn gyflym o un senario i'r llall.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo cynnwys yr Asesiadau Risg.

4.2. Y rhoddir awdurdod i Fwrdd Rheoli GwE gymeradwyo unrhyw newidiadau i'r Asesiadau Risg i ymateb i sefyllfa COVID-19, gan gydymffurfio â'r Rheoliadau Coronafirws, canllawiau LlC a deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Bydd hyn yn cynnwys rheoli dychwelyd i'r swyddfeydd, ysgolion a hyfforddiant wyneb yn wyneb, mewn ffordd ddiogel.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghorwyd â staff GwE a Bwrdd Rheoli GwE.

9.0 **Atodiadau**

Asesiad Risg ar gyfer: Swyddfeydd GwE, Ymweliadau ag Ysgolion a'r Gweithlu.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Nodaf y bydd yr aseisiadau yn cael eu hadolygu i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r rheoliadau perthnasol.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Felly, does gen i ddim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith



**CYFLWYNIAD**

Er mwyn atal COVID-19 rhag lledaenu, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau Coronafeirws, gan osod cyfyngiadau llym. Rhaid i fusnesau sy'n cael caniatâd i weithredu, neu leoliadau sy'n cael caniatád i agor, wneud hynny'n ddiogel mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Coronafeirws, yn ogystal â rhwymedigaethau cyfreithiol eraill sydd ar gyflogwyr (megis deddfwriaeth iechyd a diogelwch).

Nid yw'r coronafeirws wedi diflannu – mae pob un ohonom yn rhannu dyletswydd barhaus i ddiogelu Cymru. Dyma grynodeb byr o'r pum prif gam y dylai bawb sy'n gyfrifol am waith yng Nghymru eu cymryd i'n helpu i Gadw Cymru yn Ddiogel – gyda'n gilydd.

- **Cynnal asesiad risg COVID-19:** Cynnal asesiad risg drwy gynnal trafodaethau ystyrlon gyda staff a/neu eu hundeb llafur cydnabyddedig a rhannu'r canlyniadau gyda'ch gweithlu. Dylid ystyried yn benodol a yw'r bobl sy'n gwneud y gwaith mewn perygl arbennig oherwydd COVID-19. Mae asesiadau risg yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer merched beichiog beth bynnag yw maint y busnes.
- **Helpu staff i weithio o gartref pryd bynnag y bo modd:** Y ffordd fwyaf effeithiol o leihau'r cysylltiad â COVID-19 yw galluogi staff i weithio o gartref, rywfaint o'r amser neu drwy'r amser. Mae disgwyl i gyflogwyr fod mor hyblyg â phosibl a chyflwyno addasiadau pryd bynnag y bo modd. Gallai hynny gynnwys rhoi gliniaduron neu ffonau symudol i staff a'i gwneud yn haws iddynt gyfathrebu gyda phawb.
- **Gweithredu i sicrhau bod pobl yn cadw pellter corfforol o 2m rhyngddynt ar eich safle, pryd bynnag y bo modd:** Pan nad yw gweithio o gartref yn rhesymol ymarferol, mae'n rhaid i'r rheini sy'n gyfrifol am weithleoedd neu am adeiladau sy'n agored i'r cyhoedd, sicrhau bod popeth rhesymol yn cael ei wneud i gadw pellter o 2m rhwng pobl ar y safle pan fyddant yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau awyr agored. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol yng Nghymru o dan y Rheoliadau Coronafeirws. Mae'n rhaid i'r rheini sy'n gyfrifol ddilyn y Canllawiau Statudol sydd wedi'u cyhoeddi i'ch helpu i ddeall yr hyn y mae 'cymryd pob cam rhesymol' yn ei olygu, a beth i'w wneud os nad oes modd cadw pellter o 2m o dan rai amgylchiadau.
- **Rhoi camau eraill ar waith i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws**: Cymryd pob cam rhesymol i leihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â COVID-19, drwy, er enghraifft: Gyfyngu ar gysylltiad wyneb yn wyneb; Defnyddio rhwystrau corfforol; Mwy o hylendid, glanweithdra amgylcheddol ac atgoffa pobl am bwysigrwydd hylendid; Golchi dwylo'n dda am 20 eiliad gyda sebon, a'u sychu'n drylwyr, neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo sy'n cynnwys alcohol cyn ac ar ôl unrhyw gysylltiad agos; Lleihau synau uchel a fyddai'n golygu y byddai angen i bobl weiddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau Statudol ar gymryd camau rhesymol i leihau cysylltiad gyda COVID-19. Mae'n rhaid dilyn y Canllawiau hynny. Mae peidio â chymryd camau rhesymol i leihau cysylltiad â'r coronafeirws yn drosedd yng Nghymru, a gallai arwain at ddirwy pe byddech yn eich cael yn euog.
- **Mynd ati i Brofi, Olrhain a Diogelu yn y gweithle**. Mae Profi, Olrhain, Diogelu yn gweithio drwy: Brofi'r bobl hynny sydd â symptomau COVID-19 a thrwy ofyn iddynt hunanynysu tra byddant yn cael prawf ac yn aros am ganlyniad; Olrhain yr unigolion hynny sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â'r person sydd wedi profi'n bositif am COVID-19, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd gofal a hunanynysu (am 14 diwrnod). Mae Canllawiau ar gael i gyflogwyr yng Nghymru ar sut i Brofi, Olrhain a Diogelu.

**CANLLAWIAU O DAN REOLIAD 13 O RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS)**

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bawb y mae'n ofynnol iddynt o dan Reoliadau'r Coronafeirws gymryd pob cam rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod gofyniad cyfreithiol penodol ar y bobl sy'n gyfrifol am weithleoedd i sicrhau y gwneir popeth rhesymol i gynnal pellter o 2 fetr rhwng pobl wrth iddynt weithio. Mae cynnal pellter o 2 fetr rhwng pobl nad ydynt o'r un aelwyd neu **aelwyd estynedig** yn agwedd bwysig ar y mesurau y mae'n rhaid i bawb eu cymryd i leihau'r risgiau y bydd y coronafeirws yn lledaenu. Mae'n ddisgyblaeth y dylai pawb anelu at ei chynnal ym mhob agwedd ar fywyd beunyddiol.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynghori pobl i weithio gartref oni bai bod angen busnes clir iddynt ddychwelyd i'r gweithle. Mae gan gyflogwyr hefyd ddyletswydd i gymryd **pob mesur rhesymol** i leihau lledaeniad y coronafeirws. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i staff ddychwelyd i weithleoedd os nad oes angen busnes sydd wedi'i ddangos yn glir.

Y ffordd fwyaf effeithiol o gyfyngu ar y risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y gweithle yw galluogi rhai aelodau o'r staff, neu bob un, i weithio o'u cartrefi mor aml â phosibl. Fel "mesurau rhesymol" disgwylir i gyflogwyr fod yn hyblyg ac addasu lle bo'n bosibl i ganiatáu hynny. Gall hyn gynnwys rhoi gliniaduron a ffonau symudol i staff, a hwyluso unrhyw gyfathrebu ag aelodau staff, ble bynnag y maent.

Ni ddylid gofyn na rhoi pwysau ar staff i ddychwelyd i weithle os nad oes achos busnes clir dros wneud hynny. Dylai cyflogwyr sy'n ystyried ei gwneud yn ofynnol i staff ddychwelyd i'r gweithle asesu i ddechrau a oes modd gwneud trefniadau amgen i ddiwallu'r rhan fwyaf o anghenion y cyflogwr. Dylid trafod hyn gyda'r staff neu gynrychiolwyr ar ran y staff.

Wrth benderfynu a ddylid gofyn i staff ddychwelyd i weithle, dylai cyflogwyr ystyried a fyddai unrhyw effaith negyddol benodol ar les unigolion yn sgil dychwelyd i'r gwaith (er enghraifft os ydynt mewn perygl uwch neu'n gwarchod eu hunain, neu pe bai dychwelyd i'r gweithle yn achosi pryder difrifol iddynt).

Yn yr un modd, efallai bod rhai aelodau o'r staff yn awyddus i ddychwelyd i'r gweithle. Dan amgylchiadau o'r fath, mae lles y staff yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu pa fesurau i atal lledaeniad y coronafeirws sy'n rhesymol. Er mai prif flaenoriaeth y cyflogwr fyddai cyfyngu ar y risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, dylid cydbwyso hyn gydag effaith negyddol gweithio o'r cartref ar les y gweithiwr cyflogedig. Dan amgylchiadau o'r fath, os gall gweithwyr ddychwelyd i'r gweithle heb gynnydd sylweddol yn y risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, dylid caniatáu hyn. Wrth ystyried, dylai cyflogwyr feddwl i ba raddau y byddai'r gweithiwr sy'n dychwelyd yn dod i gysylltiad agos ag eraill, yn y gweithle ac wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith.

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

## Asesiad Risg GwE - Adfer Gwasanaeth/Adeilad yn dilyn pandemic Covid-19

DRAFT

| **Aseswr** *Assessor* | Uwch Dim Arwain GwE | | **Teitl Swydd** *Job Title* | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Safle / Lleoliad** *Site / Location* | Bryn Eirias, Bae Colwyn | | **Asesiad o** *Assessment of* | Adfer Gwasanaeth/Adeilad yn dilyn pandemic Covid-19 | |
| **Dyddiad Asesiad** *Assessment Date* | XXXXX | **Dyddiad Adolygiad Diwethaf** *Last Review Date* | | **Dyddiad Adolygu** *Next Review Date* | Dyddiad wythnos o rŵan gan fod cyngor yn newid yn rheolaidd |



| **Perygl** *Hazard* | **Math / Effaith Risg** *Type / Effect of Risk* | ***Risg / *Risk*** Cychwynnol *Initial* | **Dulliau Rheoli** *Control Measures* | ***Risg / *Risk*** Gweddilliol *Residual* |
|---|---|---|---|---|
| Heintio gyda Covid 19 tra'n gweithio yn y swyddfa<br><br>Gweithio yn y swyddfa yn ystod cyfnod pandemig Covid 19/firws Corona (ar gyfer tasgau penodol / amgylchiadau eithriadol pan nad yw gweithio o adra yn bosibl) | Risg:<br>Unigolyn(ion) yn gweithio yn y swyddfa all ei gwneud nhw'n fwy tebygol o fod yn dal neu yn trosglwyddo Covid 19<br><br>Effaith y risg: Gall hyn arwain at –<br>Farwloaeth(au)<br>Salwch difrifol<br>Lledaeniad y pandemig<br>Trawma<br>Straen<br>Pwysau gwaith<br>Colled staff | 1B | • Gweithio o adra ble'n bosib<br>• Ond teithio i'r gwaith i wneud tasgau penodol na ellir eu cwblhau o adra ac sydd wedi'u cytuno o flaen llaw gyda'r Rheolwr Llinell a'r Rheolwr Busnes.<br>• Cais wedi ei gyflwyno Rheolwr Busnes i staff gael defnydd o'r swyddfa. Bydd angen cadarnhad fod hyn wedi ei gytuno ymlaen llaw.<br>• Ond teithio i'r gwaith os nad ydych yn arddangos unrhyw symptomau o Covid 19 ac nad nad ydych chi neu neb yn eich cartref yn hunan-ynysu<br>• Uwch Dim Arwain i sicrhau nifer isel o swyddogion yn dod i'r swydddfa ar yr un pryd<br>• Staff unigol i fod yn gyfrifol am gofnodi eu hymweliad â'r swyddfa drwy ddilyn y ddolen yma: https://bit.ly/2Ov4COl rhag ofn i aelod staff ddatblygu symptomau a bod angen manylion i'r system prawf, olrhain a diogelu<br>• Staff i arwyddo mewn ag allan wrth ymweld â'r swyddfa gan ddefnyddio beiro ei hunain os yn bosib | 1E |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  | | | • Golchi dwylo gyda dŵr a sebon am o leiaf 20 eiliad neu ddefnyddio sanitiser dwylo os nad yw dwr a sebon ar gael yn dilyn cyrraedd yr adeilad<br>• Os yw unigolyn arall eisiau defnyddio'r grisiau yna bydd angen aros i un ochr i sicrhau fod 2m yn cael ei gadw pob amser.<br>• Agor ffenestri os yw'n bosib cael awyr iach naturiol i'r ystafell - diheintio'r handlen cyn ac ar ôl ei ddefnyddio<br>• Ni fydd staff yn cael "hot desgio" ac yn gorfod defnyddio ei man gwaith penodol / desg dynodedig.<br>• Ni ddylid symud o swyddfa i swyddfa, nac o ddesg i ddesg.<br>• Cadw eich man gwaith yn daclus ac yn lan. Cadw pellter o 2m oddi wrth eraill ar bob adeg gan gynnwys pan yn eistedd wrth ddesg, gwneud tasagau, symud o gwmpas a defnyddio cyfleusterau eraill<br>• Golchi dwylo yn rheolaidd gyda dwr a sebon am o leiaf 20 eiliad neu ddefnyddio sanitiser dwylo os nad yw dwr a sebon ar gael<br>• Cadw eich man gwaith yn daclus ac yn lan a'i lanhau a'i ddiheintio yn rheolaidd yn ystod y dydd<br>• Glanhau a diheintio unrhyw offer yr ydych yn eu defnyddio yn y man gwaith cyn a wedi i chi eu defnyddio<br>• Osgoi cyffwrdd eich gwyneb<br>• Tagu neu tisian i mewn i hances a llechio'r hances i'r bin ac yna golchi eich dwylo<br>• Dod ac unrhyw luniaeth gyda chi o adref (a mynd a phopeth adra ar ddiwedd y dydd)<br>• Cymorth cyntaf - Gan fod y swyddfeydd wedi cau i ran fwyaf o weithwyr fe all faint o unigolion sydd wedi cymhwyso gyda chymorth cyntaf fod yn isel / neu fod neb a'r gael yn y swyddfeydd. Sicrhau fod staff yn ymwybodol o | |

DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | hyn a bod angen galw 999 mewn argyfwng brys a bod kit cymorth cyntaf ar gael yn prif dderbynfa pencadlys | |
| Rhannu adeiladau / cyfleusterau efo asiantaethau eraill | Lledaenu'r afiechyd o fewn yr adeilad i staff ac eraill | 1B | • Cydweithio'n agos efo landlordiaid / Rheolwyr Safle i sicrhau fod mesurau ar waith ar gyfer cyfleusterau cymunedol a chyfleusterau a rennir.<br>• Sicrhau mynediad i Asesiadau Risg.<br>• Edrych ar y mesurau o ran glanhau, golchi dwylo, toiledau, arlwyo a defnydd o'r gofod/cyfleusterau a rennir. | 3C |
| Staff yn datblygu symptomau yn y gwaith | Lledaenu'r afiechyd o fewn yr adeilad i staff ac eraill<br><br>Trawma, straen, gor-bryder, ofn i staff neu eraill | 1B | **<u>Canllawiau penodol i unigolyn sydd wedi datblygu symptomau</u>**<br><br>• Os bydd staffyn datblygu unrhyw symptomau sy'n cael eu pwysleisio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel symptom o COVID-19 h.y.:<br><br>Peswch newydd, parhaus<br><br>Tymheredd uchel -<br><br>Diffyg neu newid mewn gallu i flasu ac arogli – anosmia<br><br>• Os bydd unrhywun yn dangos symptomau uchod (COVID-19), dylid dilyn canllawiau cenedlaethol diweddaraf<br><br>• Os oes angen iddynt fynd i'r ystafell ymolchi / toiledau, dylent ddefnyddio ystafell ymolchi ar wahân os oes modd. Dylid glanhau a diheintio'r ystafell ymolchi / toiledau gan ddefnyddio cynhyrchion glanhau safonol cyn cael ei defnyddio gan unrhyw un arall | 1E |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  | | | • Mewn perthynas â glanhau ardaloedd lle amheuir bod rhywun wedi datblygu symptomau, rhaid dilyn canllawiau / gweithdrefn adrodd ar unigolyn symptomatig yn y gweithle sydd wedi darparu gan Gyngor Gwynedd yn gorfforaethol a hyn i gyd fynd gyda chanllawiau cenedlaethol <https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings><br><br>• Rheolwr Busnes i gysylltu gyda Rheolwr Safle i'w hysbysu, neu am arweiniad pellach o ran trefnu glanhau'r safle neu leoliad<br><br>• Mewn perthynas â glanhau ardaloedd lle amheuir bod rhywun wedi datblygu symptomau, rhaid dilyn canllawiau / gweithdrefn adrodd ar unigolyn symptomatig yn y gweithle sydd wedi darparu gan Gyngor Gwynedd yn gorfforaethol a hyn i gyd fynd gyda chanllawiau cenedlaethol<br><br>• Os oes gan yr aelod staff symptomau bydd rhaid iddynt aros adref am 10 diwrnod a nes bydd symptomau wedi diflannu ers 24 awr a bod symptomau eraill Covid-19 yn gwella. Dilyn canllawiau'r Llywodraeth ar hunain ynysu os yn datblygu symptomau. | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhywun arall o gartref aelod staff yn datblygu symptomau Gweithdrefnau salwch | Lledaenu'r afiechyd i staff ac eraill<br><br>Trawma, straen, pwysau gwaith, gor-bryder, ofn | 1C | • Os ydi aelod staff yn byw gydag unigolyn â symptomau, rhaid iddynt aros adref am 14 diwrnod o'r amlygiad diwethaf â'r unigolun, ac os ydynt yn datblygu symptomau eu hunain, bydd rhaid iddynt aros adref am 10 diwrnod o ddechrau'r symptomau a nes bod y symptomau wedi mynd/gwella (gweler uchod) | 1E |
| Defnyddio gwrthrychau | Trosglwyddo a lledaenu'r afiechyd i staff ac eraill wrth ddefnyddio offer<br><br>Trosglwyddo a lledaenu'r afiechyd wrth gyffwrdd bylau drws, botymau goleuadau ayyb | 1B | • Gwrthrychau i'w rhannu cyn lleiaf â phosib a glanhau fel yr angen<br><br>• Bydd gwrthrychau ac arwynebedd cymunedol yn cael eu glanhau gan ddefnyddio dulliau glanhau safonol ond ar sail amlach. Hyn i gyd fynd gyda chanllawiau corfforaethol glanhau Covid-19<br><br>• Mewn perthynas â glanhau ardaloedd / offer lle amheuir bod rhywun wedi datblygu symptomau, rhaid dilyn canllawiau / gweithdrefn adrodd ar unigolyn symptomatig yn y gweithle sydd wedi darparu gan Gyngor Gwynedd yn gorfforaethol a hyn i gyd fynd gyda chanllawiau cenedlaethol<br><br>• Dylid hysbysu'r Rheolwr Safle am gyngor neu arweiniad pellach megis glanhau'r offer, glanhau safle neu drefnu i lanhau'r safle neu leoliad penodol a'r diwedd dydd<br><br>• Staff i ymgyfarwyddo gyda chodau lliw ar gyfer offer glanhau pe bai angen ei defnyddio. Sicrhau fod PPE addas yn cael ei | 1E |

DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | defnyddio, a'i gwisgo yn unol â chanllawiau'r daflen data sydd wedi ei ddarparu gan y gwneuthurwr | |
| Cymorth cyntaf | Anafiadau difrifol ddim yn derbyn triniaeth briodol<br>Staff ddim yn ymwybodol o gyflyrau meddygol penodol<br><br>Lledaenu'r afiechyd i eraill h.y. Staff ac eraill wrth gynnal gymorth cyntaf | 3C | • **Ble'n bosib** - Angen sicrhau fod un aelod staff ar gael wedi cymhwyso gyda oleiaf thystysgrif cymorth cyntaf mewn argyfwng ar y safle<br>• Glanhewch eich dwylo'n drylwyr gyda sebon a dŵr neu hylif di heintio cyn gwisgo PPE ac ar ôl ei dynnu. Yn dilyn defnyddio PPE o unrhyw fath mae hanfodol ei fod yn cael ei dynnu a'i waredu yn ddiogel er mwyn osgoi hunan-halogi<br>• Lle nad yw'n bosibl cynnal pellter cymdeithasu o 2 fetr i ffwrdd oddi wrth unigolyn arall, bydd menig tafladwy, ffedog blastig dafladwy, masg wyneb llawfeddygol ymlid hylif math IIR yn cael ei ddefnyddio yn ychwanegol i ddefnyddio amddiffyniad llygaid fel fisor wyneb neu sbectol lle rhagwelir y bydd risg o halogi â sblasio, defnynnau gwaed neu hylifau'r corff<br>• Wrth ddefnyddio mwgwd wyneb IIR llawfeddygol ymlid hylif, dylech fowldio strap metel y mwgwd dros bont y trwyn a sicrhau bod y mwgwd yn ffitio'n glyd o dan yr ên, o amgylch neu ar draws unrhyw wallt wyneb os yw'n bresennol<br>• Yn ddelfrydol dylid gwisgo fisor neu sbectol a gellir ei ail ddefnyddio a bydd angen ei glanhau yn unol â chanllawiau'r llywodraeth yn dilyn ei defnyddio. Os mai dim ond fisor neu sbectol dafladwy **un** defnydd sydd ar gael yna dylid ei gwared yn syth ar ôl ei defnyddio. | 3E |



DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tud. 116 | | | • Dylai PPE gael ei waredu wrth fagio dwbl h.y. gosod yr eitemau mewn bag sbwriel a'u clymu yna dylid gosod y bag plastig hwn mewn ail fag bin a'i glymu. Dylid ei storio mewn man addas a diogel a'i farcio â dyddiad a'i adael am o leiaf 72 awr. Unwaith mae’r 72 awr wedi mynd heibio fe allwch wared y bag sbwriel yn y bin gwastraff arferol<br><br>• Am fwy o wybodaeth gweler canllawiau corfforaethol - COVID19 cynnal cymorth cyntaf yn y gweithle<br><br>• **CPR – Yn ystod covid19- Oedolyn**<br>Os oes gennych unrhyw amheuaeth fod gan oedolyn symptomau covid19 ac angen cpr, yna mae ymgyfarwyddo â'r canllawiau cyfredol gan y Cyngor adfywio. Gwyliwch yn dilyn linc am arweiniad https://www.resus.org.uk/media/statements/resuscitation-council-uk-statements-on-covid-19-coronavirus-cpr-and-resuscitation/covid-community/<br><br>• Sicrhau fod unigolion yn ymwybodol o leoliadau'r bocsys cymorth cyntaf o amgylch y safle. Bydd angen sicrhau fod cyflenwad o nwyddau cymorth cyntaf a’r gael yn y bocsys a dylid ail lenwi fel yr angen<br><br>• Llenwi HS11 yn dilyn unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad ar y safle. Bydd angen ei sganio a’i yrru ymlaen yn electroneg am y cyfnod hwn i IechydADiogelwch@gwynedd.llyw.cymru | |

DRAFFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tân | Llosgiadau, anaf a achosir gan anadliad mwg neu farwolaeth i staff neu eraill yn yr adeilad | 1C | • Holl staff i ymgyfarwyddo gydag allanfeydd tân o amgylch y safle yn ogystal â lleoliad y man ymgynnull. Dylid ffonio 999 yn syth os oes tân.<br>• PEIDIWCH â defnyddio diffoddwyr tân oni bai eu bod yn gwbl hanfodol i allu gadael yr adeilad yn ddiogel, neu eich bod wedi derbyn hyfforddiant a’r sut a phryd i ddefnyddio’r diffoddwyr tân<br>• Sicrhau fod trefn arwyddo mewn ag allan a’r gael rhag ofn bydd angen gwacau’r adeilad mewn argyfwng<br>• Sicrhau fod gwybodaeth o bwy sy’n bresennol yn yr adeilad a’r gael i fynd allan i’r man ymgynnull<br>• Gadewch y llwybrau tân yn glir ar bob achlysur<br>• Ynysu rhannau o'r adeilad nad yw'n ofynnol eu defnyddio i atal mynediad heb awdurdod a heb gyfaddawdu llwybrau dianc mewn gwacáu brys<br>• Diangfeydd tân yw cadw yn glir ac ar gael mewn ardaloedd lle mae defnydd yn digwydd..<br>• Cau’r drysau / ffenestri ar y ffordd allan o’r adeilad<br>• Ymgyfarwyddo rhag ofn fod gan aelod staff gyda chynllun PEEP penodol mewn lle - (Cynllun unigol gwagio adeilad mewn argyfwng tân yw PEEP)<br>• Sicrhau fod profi’r larwm tân yn digwydd yn wythnosol ac yn cael ei gofnodi yn y llyfr log | 3E |

DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Adolygu Asesiad Risg Tân. Cadw pellter cymdeithasol wrth wagio'r adeilad, os yn ymarferol. Cadw pellter cymdeithasol mewn man ymgynnull tân. | |
| Legionella | Staff neu eraill yn dod i gysylltiad â bacteria legionella drwy ffynonellau dŵr e.e. ddefnyddio tapiau cawodydd, neu doiledau yn yr adeilad<br><br>Trefniadau arferol o fflysio ddim yn ddigonol oherwydd llai o ddefnydd dŵr yn yr adeilad yn ystod covid19 | 2C | • Bydd archwiliadau a phrofion (ee monitro dŵr legionella a thymheredd dŵr golchi dwylo) yn parhau i'w gynnal fel arferol mewn adeiladau sydd dal yn agored:<br><br>Bydd angen uwchraddio fflysio i **ddwywaith** yr wythnos am gyfnod pandemic covid19, a bydd angen **cadw cofnod** ar y daflen briodol. Gweler cyfarwyddiadau penodol am y cyfnod hwn:<br><br>• **Tapiau** - Mewn adeiladau mawr gyda hyd bibellau hir, bydd angen rhedeg y tapiau am fwy o amser, ond yn gyffredinol bydd angen rhedeg pob tap am o leiaf pum munud. Lle mae tap sy'n cymysgu dŵr poeth ac oer, bydd angen rhedeg y tap yn oer am bum munud ac wedyn yn boeth am bum munud arall<br><br>• **Toiledau** – Bydd angen fflysio'r toiledau. Os oes caead ar y toiled dylid cau hwnnw yn gyntaf | 2E |
| Cynnal a Chadw Adeilad | Diffyg neu nam yn yr adeilad / neu o amgylch y safle<br><br>Amharu a'r asbestos | 2C | • Dylid adrodd unrhyw ddiffygion i'r Rheolwr Safle yn syth<br>• Cynnal a chadw trefniadau tŷ yn dda fel arferol<br>• Pob contractwr i adrodd ac arwyddo mewn fel yr arferol cyn dechrau unrhyw waith yn yr adeilad<br>• Dilyn y drefn arferol pe bai unrhyw waith angen ei gynnal ar yr adeilad. | 2E |

DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Glanhau | Staff neu eraill yn cael niwed oherwydd gweithgareddau/cemegau glanhau yn yr adeilad | 3C | • Sicrhau fod y safle yn cael ei lanhau a'r diwedd y dydd. Sicrhau trefniadau glanhau digonol sydd wedi uwchraddio ar hyn o bryd yn cael ei dilyn yn unol â chanllawiau corfforaethol / cyngor cenedlaethol<br>• Staff i olchi ei dwylo ar ôl unrhyw weithgaredd glanhau<br>• Lle caiff cynhyrchion glanhau eu defnyddio gwisgwch PPE priodol yn unol â chanllawiau'r daflen data sydd wedi ei ddarparu gan y gwneuthurwr (ee menig, ffedogau ayyb)<br>• Storio deunydd glanhau yn unol ac argymhellion y gwneuthurwyr<br>• Bod yn ymwybodol o ble i gael rhagor o wybodaeth am y cemegau sy'n cael eu defnyddio yn unol â Rheoliadau COSHH | 3E |
| Dermatitis | Staff yn cael dermatitis oherwydd golchi ei dwylo yn aml | 3C | • Gwirio croen dwylo o dro i dro i weld os oes adwaith i'r deunyddiau glanhau/menyg/gel dwylo. Cysylltu gyda Iechyd Galwedigaethol os oes unrhyw bryder.<br>• Staff i ddefnyddio lleithydd (moisturiser) ei hunain fel yr angen | 4D |
| Llithro, baglu a chwympo | Staff neu eraill yn cael niwed oherwydd diffyg trefniadau o fewn y safle e.e. hylif wedi gollwng ar y llawr ayyb | 3C | • Staff i wisgo esgidiau priodol (ee nid fflip flops)<br>• Gweithdrefnau glanhau (gollyngiadau) mewn lle<br>• Trefniadau cynnal a chadw'r tŷ yn dda | 3E |
| Materion staffio | Absenoldebau staff<br>Diffyg cadw at y drefn | 3C | • Trefnu sesiynau hyfforddi i staff cyn adfer gwasanaeth<br>• Os oes staff newydd wedi ei adleoli yna bydd rhaid sicrhau ei bod wedi darllen y ddogfen anwythiad i safle newydd yn ystod pandemic covid19 | 3E |



DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Amgylchiadau penodol staff o ran anghenion a chyflyrau iechyd yn cael eu hystyried wrth drefnu tasgau gwaith, a chyswllt gyda Iechyd Galwedigaethol os oes angen.<br>• Staff sy'n Gwarchod i aros gartref neu weithio o gartref yn unol a chanllawiau cenedlaethol.<br>• Posteri ac arwyddion yn cael eu harddangos i atgoffa staff i gadw pellter 2m<br>• Pwysleisio'r angen i bawb warchod ei hun ac eraill<br>• Mae gweithwyr nad ydynt yn cydymffurfio ymbellhau cymdeithasol a gweithio'n ddiogel yn cael eu hatgoffa gan Reolwyr/trefn AD yn dilyn ar gyfer rhai sydd ddim yn cydymffurfio<br>• Staff i dderbyn copi o'r AR | |
| Darparu cinio<br><br>Defnyddio'r gegin | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i staff ddefnyddio'r gegin i ddarparu bwyd/panad<br><br>Diffyg hylendid da | 1B | • Dim ond caniatau un i fewn yn y gegin ar y tro<br>• Sicrhau bod arwynebedd sy'n cael ei gyffwrdd yn cael ei ddi-heintio ar ol defnydd (ee microdonnau, tegell, handlen oergell, tapiau dŵr poeth /oer, ayb)<br>• Dim ond bwyd / diodydd eich hun a ganiateir, a dylid eu paratoi ymlaen llaw .<br>• Staff i beidio rhannu llestri a chyllyll a ffyrc. Unigolion i olchi / storio offer eu hunain<br>• Pawb i ddod a'u bwyd a'u diod i mewn mewn cynhwysyddion wedi eu selio am y tro er mwyn lleihau defnydd y ceginau i baratoi bwyd<br>• Staff i gludo diodydd poeth mewn fflasg er mwyn osgoi rhannu llefrith/potel llaeth | 3E |
| | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i staff rannu swyddfa | 1B | • Cyfrifo cynhwysedd y swyddfa - yn ôl cyfrifiadau cynhwysedd, gallai 56 m2 safonol gymryd 8 unigolion i ganiatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol o 2m.<br>• Dim mwy na xx% o staff i gael mynediad yr un pryd. | 1E |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Swyddfeydd | | | • Rhannu yr adeilad i mewn i barthau fel nad ydi staff o un perth yn cael gadael eu parth nhw eu hunain i grwydro yr adeilad. Hynny i atal lledaeniad yr haint trwy adeilad cyfa a cyfyngu ar yr ardal fyddai angen ei di-heintio petai aelod staff yn datblygu symptomau yn ystod y dydd.<br>• Mapio a marcio pellter cymdeithasol yn y swyddfa.<br>• Defnyddio rotas ac adnabod pa staff sydd angen bod yn y swyddfa er mwyn cyfyngu'r niferoedd i isafswm ar unrhyw un adeg.<br>• Sicrhau bod clo / cod y drws yn cael ei ddi-heintio ar ol defnydd.<br>• A ellir cadw drysau (ar wahân i ddrysau tan, toiledau a diogelwch) ar agor i leihau lledaenu haint?<br>• Cadw at yr un cyd-gweithwyr i bod yn bresennol yn y swyddfa yr un adeg<br>• Sicrhau bod 2m rhwng pob gweithiwr.<br>• Sicrhau bod desgiau ddim yn wynebu ei gilydd yn uniongyrchol.<br>• Peidio â rhannu defnydd desgiau.<br>• Sicrhau fod prosesau diheintio mewn lle bob tro y gorffennir ac y cychwynnir gwaith.<br>• Staff i olchi dwylo cyn/wrth gyrraedd a gadael y swyddfa.<br>• Ni argymhellir defnyddio menig tafladwy yn y gweithle yn rheolaidd oherwydd mwy o debygolrwydd o ledaenu haint.<br>• Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth y DU yn cynghori defnyddio masgiau wyneb / gorchuddion arferol yn y gweithle ond gall gweithwyr eu gwisgo os dymunir.<br>• Anogir golchi dwylo'n rheolaidd gyda sebon a dŵr / geliau llaw yn unol â chanllawiau'r GIG. | |
| | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i staff gyfarfod wyneb i wyneb | 1B | • Cynnal cyfarfodydd rhithwir arlein fel dull cyfarfod – e.e. Microsoft Teams.<br>• Os oes angen cyfarfod wyneb i wyneb - ar gyfer tasgau penodol / amgylchiadau eithriadol pan nad yw cyfarfodydd rhithwir | 1E |



DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd | | | arlein yn bosib - yna cyfyngu niferoedd yn unol a maint yr ystafell a chadw pellter cymdeithasol o 2m drwy gydol y cyfarfod<br>• Agor ffenestr yr ystafell i gynyddu awyriant<br>• Gwneud defnydd o cyfrwng technoleg i leihau'r angen i rannu papurau e.g. rhannu sgrin, pecynnau cyn gyfarfod yn cael eu lawrlwytho/danfon yn electroneg, ayb. | |
| Cyrraedd a symud o gwmpas yr adeilad | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i staff symud o gwmpas yr adeilad | 1B | • Creu system un ffordd o fewn yr adeilad<br>• Arwyddion clir ar gyfer trefniadau mynediad i adeilad ar gyfer staff (a'r cyhoedd os yn berthnasol)<br>• Os oes angen ciwio i gael mewn i adeilad – llawr wedi ei farcio i ddangos y pellter dylid ei gadw<br>• Os yw unigolyn arall eisiau defnyddio'r grisiau yna bydd angen aros i un ochr i sicrhau fod 2m yn cael ei gadw pob amser. | 1E |
| Derbynfa | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1B | • Cyfyngu ar y nifer aelod staff/ cyhoedd sy'n cael bod yn y dderbynfa ar unrhyw un adeg<br>• Aelod o staff sydd wedi ei ddynodi ar gyfer defnyddio y weithfan i ddefnyddio'r ffôn yn unig.<br>• Holl staff ac ymwelwyr i ddefnyddio yr un fynedfa er mwyn cadw trefn ar fynd a dod i'r adeilad ac i osgoi mynediad gan y cyhoedd heb apwyntiad.<br>• Y brif fynedfa yn y Cyntedd i weithredu system pellter cymdeithasol gyda marciau llawr a shifftiau penodol i'r timau gyrrwyr sy'n defnyddio'r gofod.<br>• Defnydd o sgriniau acrylig pan fo cyswllt gyda'r cyhoedd i osgoi heintiad wyneb yn wyneb | 1E |
| Toiledau | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1B | • Trefnu bod y toiledau'n cael eu glanhau'n gyson<br>• Rheoli nifeoredd sy'n gallu defnyddio'r toiledau. | 1E |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Sicrhau cyflenwad digonol o sebon golchi dwylo a thywelion dychu dwylo<br>• Glanhau cyson a sicrhau fod digon o sebon a thywelion papur mewn lle.<br>• Gwahardd defnydd cyhoeddus o doiledau staff | |
| Hylendid Dwylo | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1B | • Golchi dwylo'n rheolaidd gyda sebon a dŵr / geliau llaw yn unol â chanllawiau'r GIG<br>• Geliau llaw yn cael eu cadw mewn lle addas allan o olau neu wres uniongyrchol | 1E |
| Lifft | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1B | • Glanhau'r botwm galw lifft cyn ei ddefnyddio<br>• Un person i ddefnyddio'r lifft ar y tro<br>• Arwyddion i nodi cyfyngder defnyddwyr | 1E |
| Trin eitemau gan y cyhoedd | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth drin eitemau gan y cyhoedd | 1C | • Golchi dwylo am o leiaf 20 eiliad wedi trin eitemau gan aelodau'r cyhoedd<br>• Os nad oes bosib golchi dwylo – yna defnyddio gel dwylo addas ar ol trin eitemau'r cyhoedd | 1E |
| Rhannu offer swydda | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1C | • Osgoi'r angen i rannu offer swyddfa cyn belled a phosibl<br>• Di-heintio offer sy'n cael ei rannu<br>• Darparu cynhyrchion glanhau addas i staff lanhau'r ardal / offer (ee desgiau, bysellfyrddau, ffonau, llungopiwr) cyn ac ar ôl iddynt ei ddefnyddio. | 1E |
| Awyriant | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1C | • Ni ddylid defnyddio'r system 'air-condtioning' hyd nes bydd arweiniad pellach.<br>• Agor ffenestri/drysau allannol ble bo'n bosib<br>• Cynyddu'r awyriant yn yr adeilad<br>• Sicrhau bod awyriant yn dod a chyflenwad ffres o awyr i'r adeilad ac ddim yn ail-gylchdroi'r aer. | 1E |

DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ymwelwyr | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i ymwelwyr ymweld â'r swyddfa | 1C | • Cyfyngu ar nifer yr ymwelwyr a dim ond gyda chytundeb ymlaen llaw yr UDA y caniateir hynny<br>• Ymwelwyr i ddilyn y canllawiau - mae'n ofynnol i'r ymwelwyr i gwblhau'r daenlen log fel y staff<br>• Hylif diheintio dwylo a chanllawiau ar weithdrefnau'r staff ar gael i bob ymwelyd.<br>• Pob ymwelydd i fod wedi'i drefnu o flaen llaw. | 1E |
| Nwyddau | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i nwyddau gael eu cludo i'r swyddfa | 1C | • Cyfyngu ar y nifer a sicrhau fod y sawl sy'n cludo yn dilyn y canllawiau<br>• Prynu troliau i gario parseli trwm.<br>• Dylai'r aelod staff gymryd y gofal angenrheidiol a sicrhau ei fod yn golchi ei ddwylo'n drylwyr wrth gasglu / dadbacio'r nwyddau.<br>• Lleihau cyswllt wrth ddanfon parseli/cyfnewid dogfennau a defnyddio llofnod/taliadau electronig ble'n bosibl<br>• Person enwebedig yn casglu'r post/parseli a rhoi cadach efo hylif diheintio drostynt. | 1E |
| Contractwyr ar safle | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1C | • Gofyn i gontractwyr ddod i'r safle pan mae'r safle yn wag neu'n dawel<br>• Sicrhau fod contractwyr ond yn dod i mewn i'r gweithle pan fo hynny'n hanfodol a'u bod yn cadw at yr holl fesurau a roddwyd ar waith mewn perthynas â phellter cymdeithasol, hylendid ac ati.<br>• Dim ond gwaith hanfodol cynnal a chadw i'w wneud.<br>• Sicrhau fod y contractwr wedi darparu asesiad risg addas ar gyfer ymgymryd ag unrhyw waith.<br>• Cytuno ar reolau a phrotocolau safle gyda'r rheolwr safle | 1E |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Lles Meddyliol | Effaith ar les meddyliol unigolion | 1B | • Cynnal asesiadau unigol gyda'r staff i'w paratoi.<br>• Mynediad i wasanaeth cwnsela Medra a'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol ar gyfer gweithwyr sydd ei angen<br>• Sicrhau fod y staff yn ymwybodol o'r gwasanaethau a chynnwys gwybodaeth ar y mewnrwyd. | 1E |
| Teithio yn y gwaith | Haint yn cael ei drosglwyddo oherwydd bod staff yn rhannu cerbydau yn y gwaith | 1B | • Dim ond un aelod o staff i deithio mewn cerbyd, a chael aelod(au) eraill i ddilyn mewn car arwahan er mwyn osgoi'r angen i rannu cerbyd.<br>• Dilyn asesiad risg penodol ar deithio gan y Gwasanaeth<br>• Ni ddylai gweithwyr rannu car (oni bai eu bod yn byw yn yr un tŷ).<br>• Rhaid cadw pellter cymdeithasol yn y maes parcio efo digon o le rhwng cerbydau a fydd yn lleihau faint o geir all barcio yno.<br>• Rhaid cadw pellter cymdeithasol yn y maes parcio/mannau danfon efo digon o le rhwng pobl/cerbydau. | 1E |



*Risg = Tebygolrwydd + Canlyniad. Gweler 6.2b – Matrics Asesu Risg

| **Nodiadau ar Gyfer Gweithredu / *Notes for Implementation*** | **Person Cyfrifol** ***Responsible Person*** | **Cwblhau Erbyn** ***Complete By*** |
|---|---|---|
| 1. Cyfeirio at asesiad risg "Diffyg darpariaeth cymorthyddion cyntaf yn ystod pandemic covid19" os nad oes cymhorthydd cyntaf ar gael. | | |
| 2. Creu cofrestr staff sydd yn 'fregus'. Holiadur bregusrwydd / Asesiad risg unigol yw cwblhau gydag aelodau staff sydd wedi bod gartref ohewrydd shielding neu gyflyrau meddygol yn ystod covid19. Cynghori fel yr angen o ran trefniadau sydd angen ei weithredu yn dilyn cwblhau'r holiadur / asesiad risg. | | |
| 3. Cynnal sgyrsiau unigol gyda staff i'w paratoi a'u cynghori o ran y trefniadau sydd angen eu dilyn. | | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 4. Sicrhau cyflenwad digonol o sebon, sanitiser a deunyddiau glanhau a diheintio offer swyddfa. | | |
| 5. Sicrhau cyflenwad digonol o arwyddion ar gyfer y swyddfa. | | |
| 6. Mapio a marcio pellter cymdeithasol yn y swyddfa a sicrhau fod arwyddion perthnasol yn cael ei arddangos – e.e. posteri ac arwyddion yn cael eu harddangos i atgoffa staff i gadw pellter 2m, arwyddion clir ar gyfer trefniadau mynediad i adeilad ar gyfer staff (a'r cyhoedd os yn berthnasol), arwyddion i nodi cyfyngder defnyddwyr. | | |
| 7. Sefydlu system unffordd drwy'r swyddfa ac/neu goridorau wedi'i marcio'n glir ar gyfer cerdded ar yr ochr chwith yn unig. | | |
| 8. Sicrhau cyflenwad digonol o offer PPE ar gyfer Cymorth Cyntaf. | | |
| 9. Rhannu yr adeilad i mewn i barthau fel nad ydi staff o un perth yn cael gadael eu parth nhw eu hunain i grwydro yr adeilad. Hynny i atal lledaeniad yr haint trwy adeilad cyfa a cyfyngu ar yr ardal fyddai angen ei di-heintio petai aelod staff yn datblygu symptomau yn ystod y dydd. | | |
| 10. Adnabod pa staff sydd angen bod yn y swyddfa er mwyn cyfyngu'r niferoedd i isafswm ar unrhyw un adeg. | | |
| 11. Llunio rota's i gyfyngu'r niferoedd i isafswm yn y swyddfa ar unrhyw un adeg pan fydd hi'n briodol i wneud hynny. | | |
| 12. Gosod sgrins yn y swyddfeydd i osgoi heintiad wyneb yn wyneb. | | |
| 13. Cyfrifo cynhwysedd y swyddfa. | | |
| 14. Symud desgiau i sicrhau bod 2m rhwng pob gweithiwr a bod desgiau ddim yn wynebu ei gilydd yn uniongyrchol. | | |
| 15. Ail drefnu'r hot desks i sicrhau bod 2m rhwng pob gweithiwr a bod desgiau ddim yn wynebu ei gilydd yn uniongyrchol. | | |
| 16. Mesur ystafelloedd cyfarfod er mwyn adnabod nifer o unigolion a all fynychu - cyfyngu ar y nifer aelod staff sy'n cael bod yn y yr ystafell ar unrhyw un adeg. | | |
| 17. Sicrhau mynediad i Asesiadau Risg y Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu | | |

DRAFFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| | | |
|---|---|---|
| 18. Bydd angen edrych ar y mesurau o ran glanhau, golchi dwylo, toiledau, arlwyo a defnydd o'r gofod cymdeithasol. | | |
| 19. Gwirio gyda'r Rheolwyr Safle fod yr holl wiriadau iechyd a diogelwch wedi'u cwblhau ar ôl cyfnod o gau fel clefyd Legionnaire, profi larymau tân a systemau chwistrellu dŵr, tynnu llwch ac ati. Bydd angen cysylltu gyda'r ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch am asesiad cyfansawdd. | | |
| 20. Canllawiau eglur ar ofynion cadw pellter cymdeithasol - angen rhoi arweiniad pendant i bawb ar gadw pellter cymdeithasol yn y swyddfa. Mae angen rhannu unrhyw ganllawiau diwygiedig mewn da bryd â'r holl staff. | | |
| 21. Trefn bendant ar gyfer dod i mewn i'r swyddfa - sefydlu system unffordd a.y.b. | | |
| 22. A ellir cadw drysau (ar wahân i ddrysau tan, toiledau a diogelwch) ar agor i leihau lledaenu haint. | | |
| 23. Cynyddu oriau glanhau a chanolbwyntio ar arwynebau, drysau a mannau cyffredin. Cynyddu oriau glanhau i sicrhau bod yr holl arwynebau yn cael eu glanhau yn drylwyr ar ddiwedd y diwrnod. | | |
| 24. Prynu troliau i gario parseli trwm. | | |
| 25. Adolygu Asesiad Risg Tân. Cadw pellter cymdeithasol wrth wagio'r adeilad, os yn ymarferol. Cadw pellter cymdeithasol mewn man ymgynnull tân. | | |
| 26. Arweiniad pellach o ran ddefnyddio'r system 'air-condtioning'. | | |
| 27. Bydd angen diweddaru wrth i'r sefyllfa ddeinamig hon newid a bydd angen cyfleu unrhyw newid mewn statws mewn da bryd cyn i'r statws newydd ddechrau. | | |
| 28. Gosod strwythur adolygu AR i sicrhau craffu a chymeradwyaeth gan y Bwrdd Rheoli / Cydbwyllgor | | |

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith



**CYFLWYNIAD**

Er mwyn atal COVID-19 rhag lledaenu, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau Coronafeirws, gan osod cyfyngiadau llym. Rhaid i fusnesau sy'n cael caniatâd i weithredu, neu leoliadau sy'n cael caniatád i agor, wneud hynny'n ddiogel mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Coronafeirws, yn ogystal â rhwymedigaethau cyfreithiol eraill sydd ar gyflogwyr (megis deddfwriaeth iechyd a diogelwch).

Nid yw'r coronafeirws wedi diflannu – mae pob un ohonom yn rhannu dyletswydd barhaus i ddiogelu Cymru. Dyma grynodeb byr o'r pum prif gam y dylai bawb sy'n gyfrifol am waith yng Nghymru eu cymryd i'n helpu i Gadw Cymru yn Ddiogel – gyda'n gilydd.

- **Cynnal asesiad risg COVID-19:** Cynnal asesiad risg drwy gynnal trafodaethau ystyrlon gyda staff a/neu eu hundeb llafur cydnabyddedig a rhannu'r canlyniadau gyda'ch gweithlu. Dylid ystyried yn benodol a yw'r bobl sy'n gwneud y gwaith mewn perygl arbennig oherwydd COVID-19. Mae asesiadau risg yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer merched beichiog beth bynnag yw maint y busnes.
- **Helpu staff i weithio o gartref pryd bynnag y bo modd:** Y ffordd fwyaf effeithiol o leihau'r cysylltiad â COVID-19 yw galluogi staff i weithio o gartref, rywfaint o'r amser neu drwy'r amser. Mae disgwyl i gyflogwyr fod mor hyblyg â phosibl a chyflwyno addasiadau pryd bynnag y bo modd. Gallai hynny gynnwys rhoi gliniaduron neu ffonau symudol i staff a'i gwneud yn haws iddynt gyfathrebu gyda phawb.
- **Gweithredu i sicrhau bod pobl yn cadw pellter corfforol o 2m rhyngddynt ar eich safle, pryd bynnag y bo modd:** Pan nad yw gweithio o gartref yn rhesymol ymarferol, mae'n rhaid i'r rheini sy'n gyfrifol am weithleoedd neu am adeiladau sy'n agored i'r cyhoedd, sicrhau bod popeth rhesymol yn cael ei wneud i gadw pellter o 2m rhwng pobl ar y safle pan fyddant yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau awyr agored. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol yng Nghymru o dan y Rheoliadau Coronafeirws. Mae'n rhaid i'r rheini sy'n gyfrifol ddilyn y Canllawiau Statudol sydd wedi'u cyhoeddi i'ch helpu i ddeall yr hyn y mae 'cymryd pob cam rhesymol' yn ei olygu, a beth i'w wneud os nad oes modd cadw pellter o 2m o dan rai amgylchiadau.
- **Rhoi camau eraill ar waith i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws**: Cymryd pob cam rhesymol i leihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â COVID-19, drwy, er enghraifft: Gyfyngu ar gysylltiad wyneb yn wyneb; Defnyddio rhwystrau corfforol; Mwy o hylendid, glanweithdra amgylcheddol ac atgoffa pobl am bwysigrwydd hylendid; Golchi dwylo'n dda am 20 eiliad gyda sebon, a'u sychu'n drylwyr, neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo sy'n cynnwys alcohol cyn ac ar ôl unrhyw gysylltiad agos; Lleihau synau uchel a fyddai'n golygu y byddai angen i bobl weiddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau Statudol ar gymryd camau rhesymol i leihau cysylltiad gyda COVID-19. Mae'n rhaid dilyn y Canllawiau hynny. Mae peidio â chymryd camau rhesymol i leihau cysylltiad â'r coronafeirws yn drosedd yng Nghymru, a gallai arwain at ddirwy pe byddech yn eich cael yn euog.
- **Mynd ati i Brofi, Olrhain a Diogelu yn y gweithle**. Mae Profi, Olrhain, Diogelu yn gweithio drwy: Brofi'r bobl hynny sydd â symptomau COVID-19 a thrwy ofyn iddynt hunanynysu tra byddant yn cael prawf ac yn aros am ganlyniad; Olrhain yr unigolion hynny sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â'r person sydd wedi profi'n bositif am COVID-19, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd gofal a hunanynysu (am 14 diwrnod). Mae Canllawiau ar gael i gyflogwyr yng Nghymru ar sut i Brofi, Olrhain a Diogelu.

**CANLLAWIAU O DAN REOLIAD 13 O RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS)**

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bawb y mae'n ofynnol iddynt o dan Reoliadau'r Coronafeirws gymryd pob cam rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod gofyniad cyfreithiol penodol ar y bobl sy'n gyfrifol am weithleoedd i sicrhau y gwneir popeth rhesymol i gynnal pellter o 2 fetr rhwng pobl wrth iddynt weithio. Mae cynnal pellter o 2 fetr rhwng pobl nad ydynt o'r un aelwyd neu **aelwyd estynedig** yn agwedd bwysig ar y mesurau y mae'n rhaid i bawb eu cymryd i leihau'r risgiau y bydd y coronafeirws yn lledaenu. Mae'n ddisgyblaeth y dylai pawb anelu at ei chynnal ym mhob agwedd ar fywyd beunyddiol.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynghori pobl i weithio gartref oni bai bod angen busnes clir iddynt ddychwelyd i'r gweithle. Mae gan gyflogwyr hefyd ddyletswydd i gymryd **pob mesur rhesymol** i leihau lledaeniad y coronafeirws. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i staff ddychwelyd i weithleoedd os nad oes angen busnes sydd wedi'i ddangos yn glir.

Y ffordd fwyaf effeithiol o gyfyngu ar y risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y gweithle yw galluogi rhai aelodau o'r staff, neu bob un, i weithio o'u cartrefi mor aml â phosibl. Fel "mesurau rhesymol" disgwylir i gyflogwyr fod yn hyblyg ac addasu lle bo'n bosibl i ganiatáu hynny. Gall hyn gynnwys rhoi gliniaduron a ffonau symudol i staff, a hwyluso unrhyw gyfathrebu ag aelodau staff, ble bynnag y maent.

Ni ddylid gofyn na rhoi pwysau ar staff i ddychwelyd i weithle os nad oes achos busnes clir dros wneud hynny. Dylai cyflogwyr sy'n ystyried ei gwneud yn ofynnol i staff ddychwelyd i'r gweithle asesu i ddechrau a oes modd gwneud trefniadau amgen i ddiwallu'r rhan fwyaf o anghenion y cyflogwr. Dylid trafod hyn gyda'r staff neu gynrychiolwyr ar ran y staff.

Wrth benderfynu a ddylid gofyn i staff ddychwelyd i weithle, dylai cyflogwyr ystyried a fyddai unrhyw effaith negyddol benodol ar les unigolion yn sgil dychwelyd i'r gwaith (er enghraifft os ydynt mewn perygl uwch neu'n gwarchod eu hunain, neu pe bai dychwelyd i'r gweithle yn achosi pryder difrifol iddynt).

Yn yr un modd, efallai bod rhai aelodau o'r staff yn awyddus i ddychwelyd i'r gweithle. Dan amgylchiadau o'r fath, mae lles y staff yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu pa fesurau i atal lledaeniad y coronafeirws sy'n rhesymol. Er mai prif flaenoriaeth y cyflogwr fyddai cyfyngu ar y risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, dylid cydbwyso hyn gydag effaith negyddol gweithio o'r cartref ar les y gweithiwr cyflogedig. Dan amgylchiadau o'r fath, os gall gweithwyr ddychwelyd i'r gweithle heb gynnydd sylweddol yn y risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, dylid caniatáu hyn. Wrth ystyried, dylai cyflogwyr feddwl i ba raddau y byddai'r gweithiwr sy'n dychwelyd yn dod i gysylltiad agos ag eraill, yn y gweithle ac wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith.

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

GwE
Tuag at Ragoriaeth

## Asesiad Risg GwE - Adfer Gwasanaeth/Adeilad yn dilyn pandemic Covid-19 – Swyddfa Penrallt

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Aseswr** ***Assessor*** | Uwch Dim Arwain GwE | | **Teitl Swydd** ***Job Title*** | | |
| **Safle / Lleoliad** ***Site / Location*** | Penrallt, Caernarfon | | **Asesiad o** ***Assessment of*** | Adfer Gwasanaeth/Adeilad yn dilyn pandemic Covid-19 | |
| **Dyddiad Asesiad** ***Assessment Date*** | XXXXX | **Dyddiad Adolygiad Diwethaf** ***Last Review Date*** | | **Dyddiad Adolygu** ***Next Review Date*** | Dyddiad wythnos o rŵan gan fod cyngor yn newid yn rheolaidd |

| **Perygl** ***Hazard*** | **Math / Effaith Risg** ***Type / Effect of Risk*** | ***Risg / *Risk*** Cychwynnol *Initial* | **Dulliau Rheoli** ***Control Measures*** | ***Risg / *Risk*** Gweddilliol *Residual* |
|---|---|---|---|---|
| Heintio gyda Covid 19 tra'n gweithio yn y swyddfa<br><br>Gweithio yn y swyddfa yn ystod cyfnod pandemig Covid 19/firws Corona (ar gyfer tasgau penodol / amgylchiadau eithriadol pan nad yw gweithio o adra yn bosibl) | Risg:<br>Unigolyn(ion) yn gweithio yn y swyddfa all ei gwneud nhw'n fwy tebygol o fod yn dal neu yn trosglwyddo Covid 19<br><br>Effaith y risg: Gall hyn arwain at –<br>Farwloaeth(au)<br>Salwch difrifol<br>Lledaeniad y pandemig<br>Trawma<br>Straen<br>Pwysau gwaith<br>Colled staff | 1B | • Gweithio o adra ble'n bosib<br>• Ond teithio i'r gwaith i wneud tasgau penodol na ellir eu cwblhau o adra ac sydd wedi'u cytuno o flaen llaw gyda'r Rheolwr Llinell a'r Rheolwr Busnes.<br>• Cais wedi ei gyflwyno i'r gwasanaeth eiddo gan y Rheolwr Busnes i staff gael defnydd o'r swyddfa. Bydd angen cadarnhad fod y gwasanaeth eiddo wedi cytuno<br>• Ond teithio i'r gwaith os nad ydych yn arddangos unrhyw symptomau o Covid 19 ac nad nad ydych chi neu neb yn eich cartref yn hunan-ynysu<br>• Uwch Dim Arwain i sicrhau nifer isel o swyddogion yn dod i'r swydddfa ar yr un pryd<br>• Staff unigol i fod yn gyfrifol am gofnodi eu hymweliad â'r swyddfa drwy ddilyn y ddolen yma: https://bit.ly/2Ov4COl rhag ofn i aelod staff ddatblygu symptomau a bod angen manylion i'r system prawf, olrhain a diogelu<br>• Staff i arwyddo mewn ag allan wrth ymweld â'r swyddfa gan ddefnyddio beiro ei hunain os yn bosib | 1E |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Golchi dwylo gyda dŵr a sebon am o leiaf 20 eiliad neu ddefnyddio sanitiser dwylo os nad yw dwr a sebon ar gael yn dilyn cyrraedd yr adeilad<br>• Os yw unigolyn arall eisiau defnyddio’r grisiau yna bydd angen aros i un ochr i sicrhau fod 2m yn cael ei gadw pob amser.<br>• Agor ffenestri os yw’n bosib cael awyr iach naturiol i’r ystafell - diheintio'r handlen cyn ac ar ôl ei ddefnyddio<br>• Ni fydd staff yn cael “hot desgio” ac yn gorfod defnyddio ei man gwaith penodol / desg dynodedig.<br>• Ni ddylid symud o swyddfa i swyddfa, nac o ddesg i ddesg.<br>• Cadw eich man gwaith yn daclus ac yn lan.  Cadw pellter o 2m oddi wrth eraill ar bob adeg gan gynnwys pan yn eistedd wrth ddesg, gwneud tasagau, symud o gwmpas a defnyddio cyfleusterau eraill<br>• Golchi dwylo yn rheolaidd gyda dwr a sebon am o leiaf 20 eiliad neu ddefnyddio sanitiser dwylo os nad yw dwr a sebon ar gael<br>• Cadw eich man gwaith yn daclus ac yn lan a’i lanhau a’i ddiheintio yn rheolaidd yn ystod y dydd<br>• Glanhau a diheintio unrhyw offer yr ydych yn eu defnyddio yn y man gwaith cyn a wedi i chi eu defnyddio<br>• Osgoi cyffwrdd eich gwyneb<br>• Tagu neu tisian i mewn i hances a llechio’r hances i’r bin ac yna golchi eich dwylo<br>• Dod ac unrhyw luniaeth gyda chi o adref (a mynd a phopeth adra ar ddiwedd y dydd)<br>• Cymorth cyntaf - Gan fod y swyddfeydd wedi cau i ran fwyaf o weithwyr fe all faint o unigolion sydd wedi cymhwyso gyda chymorth cyntaf fod yn isel / neu fod neb a’r gael yn y swyddfeydd. Sicrhau fod staff yn ymwybodol o | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | hyn a bod angen galw 999 mewn argyfwng brys a bod kit cymorth cyntaf ar gael yn prif dderbynfa pencadlys | |
| Rhannu adeiladau / cyfleusterau efo asiantaethau eraill | Lledaenu'r afiechyd o fewn yr adeilad i staff ac eraill | 1B | • Cydweithio'n agos efo landlordiaid / Rheolwyr Safle i sicrhau fod mesurau ar waith ar gyfer cyfleusterau cymunedol a chyfleusterau a rennir.<br>• Sicrhau mynediad i Asesiadau Risg y Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu.<br>• Edrych ar y mesurau o ran glanhau, golchi dwylo, toiledau, arlwyo a defnydd o'r gofod/cyfleusterau a rennir. | 3C |
| Tud. 132<br><br>Staff yn datblygu symptomau yn y gwaith | Lledaenu'r afiechyd o fewn yr adeilad i staff ac eraill<br><br>Trawma, straen, gor-bryder, ofn i staff neu eraill | 1B | **<u>Canllawiau penodol i unigolyn sydd wedi datblygu symptomau</u>**<br><br>• Os bydd staffyn datblygu unrhyw symptomau sy'n cael eu pwysleisio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel symptom o COVID-19 h.y.:<br><br>Peswch newydd, parhaus<br><br>Tymheredd uchel -<br><br>Diffyg neu newid mewn gallu i flasu ac arogli – anosmia<br><br>• Os bydd unrhywun yn dangos symptomau uchod (COVID-19), dylid dilyn canllawiau cenedlaethol diweddaraf<br><br>• Os oes angen iddynt fynd i'r ystafell ymolchi / toiledau, dylent ddefnyddio ystafell ymolchi ar wahân os oes modd. Dylid glanhau a diheintio'r ystafell ymolchi / toiledau gan ddefnyddio cynhyrchion glanhau safonol cyn cael ei defnyddio gan unrhyw un arall | 1E |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  | | | • Mewn perthynas â glanhau ardaloedd lle amheuir bod rhywun wedi datblygu symptomau, rhaid dilyn canllawiau / gweithdrefn adrodd ar unigolyn symptomatig yn y gweithle sydd wedi darparu gan Gyngor Gwynedd yn gorfforaethol a hyn i gyd fynd gyda chanllawiau cenedlaethol <https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings><br><br>• Rheolwr Busnes i gysylltu gyda swyddogion o'r gwasanaeth arlwyo glanhau i'w hysbysu, neu am arweiniad pellach o ran trefnu glanhau'r safle neu leoliad<br><br>• Mewn perthynas â glanhau ardaloedd lle amheuir bod rhywun wedi datblygu symptomau, rhaid dilyn canllawiau / gweithdrefn adrodd ar unigolyn symptomatig yn y gweithle sydd wedi darparu gan Gyngor Gwynedd yn gorfforaethol a hyn i gyd fynd gyda chanllawiau cenedlaethol<br><br>• Os oes gan yr aelod staff symptomau bydd rhaid iddynt aros adref am 10 diwrnod a nes bydd symptomau wedi diflannu ers 24 awr a bod symptomau eraill Covid-19 yn gwella. Dilyn canllawiau'r Llywodraeth ar hunain ynysu os yn datblygu symptomau. | |

DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhywun arall o gartref aelod staff yn datblygu symptomau Gweithdrefnau salwch | Lledaenu'r afiechyd i staff ac eraill<br><br>Trawma, straen, pwysau gwaith, gor-bryder, ofn | 1C | • Os ydi aelod staff yn byw gydag unigolyn â symptomau, rhaid iddynt aros adref am 14 diwrnod o'r amlygiad diwethaf â'r unigolun, ac os ydynt yn datblygu symptomau eu hunain, bydd rhaid iddynt aros adref am 10 diwrnod o ddechrau'r symptomau a nes bod y symptomau wedi mynd/gwella (gweler uchod) | 1E |
| Defnyddio gwrthrychau | Trosglwyddo a lledaenu'r afiechyd i staff ac eraill wrth ddefnyddio offer<br><br>Trosglwyddo a lledaenu'r afiechyd wrth gyffwrdd bylau drws, botymau goleuadau ayyb | 1B | • Gwrthrychau i'w rhannu cyn lleiaf â phosib a glanhau fel yr angen<br><br>• Bydd gwrthrychau ac arwynebedd cymunedol yn cael eu glanhau gan ddefnyddio dulliau glanhau safonol ond ar sail amlach. Hyn i gyd fynd gyda chanllawiau corfforaethol glanhau Covid-19<br><br>• Mewn perthynas â glanhau ardaloedd / offer lle amheuir bod rhywun wedi datblygu symptomau, rhaid dilyn canllawiau / gweithdrefn adrodd ar unigolyn symptomatig yn y gweithle sydd wedi darparu gan Gyngor Gwynedd yn gorfforaethol a hyn i gyd fynd gyda chanllawiau cenedlaethol<br><br>• Mewn adeiladau'r Cyngor - dylid hysbysu'r Gwasanaeth arlwyo a glanhau am gyngor neu arweiniad pellach megis glanhau'r offer, glanhau safle neu drefnu i lanhau'r safle neu leoliad penodol a'r diwedd dydd<br><br>• Staff i ymgyfarwyddo gyda chodau lliw ar gyfer offer glanhau pe bai angen ei defnyddio. Sicrhau fod PPE addas yn cael ei | 1E |



DRAFFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | defnyddio, a'i gwisgo yn unol â chanllawiau'r daflen data sydd wedi ei ddarparu gan y gwneuthurwr | |
| Cymorth cyntaf | Anafiadau difrifol ddim yn derbyn triniaeth briodol<br>Staff ddim yn ymwybodol o gyflyrau meddygol penodol<br><br>Lledaenu'r afiechyd i eraill h.y. Staff ac eraill wrth gynnal gymorth cyntaf | 3C | • **Ble'n bosib** - Angen sicrhau fod un aelod staff ar gael wedi cymhwyso gyda oleiaf thystysgrif cymorth cyntaf mewn argyfwng ar y safle<br>• Glanhewch eich dwylo'n drylwyr gyda sebon a dŵr neu hylif di heintio cyn gwisgo PPE ac ar ôl ei dynnu. Yn dilyn defnyddio PPE o unrhyw fath mae hanfodol ei fod yn cael ei dynnu a'i waredu yn ddiogel er mwyn osgoi hunan-halogi<br>• Lle nad yw'n bosibl cynnal pellter cymdeithasu o 2 fetr i ffwrdd oddi wrth unigolyn arall, bydd menig tafladwy, ffedog blastig dafladwy, masg wyneb llawfeddygol ymlid hylif math IIR yn cael ei ddefnyddio yn ychwanegol i ddefnyddio amddiffyniad llygaid fel fisor wyneb neu sbectol lle rhagwelir y bydd risg o halogi â sblasio, defnynnau gwaed neu hylifau'r corff<br>• Wrth ddefnyddio mwgwd wyneb IIR llawfeddygol ymlid hylif, dylech fowldio strap metel y mwgwd dros bont y trwyn a sicrhau bod y mwgwd yn ffitio'n glyd o dan yr ên, o amgylch neu ar draws unrhyw wallt wyneb os yw'n bresennol<br>• Yn ddelfrydol dylid gwisgo fisor neu sbectol a gellir ei ail ddefnyddio a bydd angen ei glanhau yn unol â chanllawiau'r llywodraeth yn dilyn ei defnyddio. Os mai dim ond fisor neu sbectol dafladwy **un** defnydd sydd ar gael yna dylid ei gwared yn syth ar ôl ei defnyddio. | 3E |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tud. 136 | | | • Dylai PPE gael ei waredu wrth fagio dwbl h.y. gosod yr eitemau mewn bag sbwriel a'u clymu yna dylid gosod y bag plastig hwn mewn ail fag bin a'i glymu. Dylid ei storio mewn man addas a diogel a'i farcio â dyddiad a'i adael am o leiaf 72 awr. Unwaith mae’r 72 awr wedi mynd heibio fe allwch wared y bag sbwriel yn y bin gwastraff arferol<br><br>• Am fwy o wybodaeth gweler canllawiau corfforaethol - COVID19 cynnal cymorth cyntaf yn y gweithle<br><br>• **CPR – Yn ystod covid19- Oedolyn**<br>Os oes gennych unrhyw amheuaeth fod gan oedolyn symptomau covid19 ac angen cpr, yna mae ymgyfarwyddo â'r canllawiau cyfredol gan y Cyngor adfywio. Gwyliwch yn dilyn linc am arweiniad<br>https://www.resus.org.uk/media/statements/resuscitation-council-uk-statements-on-covid-19-coronavirus-cpr-and-resuscitation/covid-community/<br><br>• Sicrhau fod unigolion yn ymwybodol o leoliadau'r bocsys cymorth cyntaf o amgylch y safle. Bydd angen sicrhau fod cyflenwad o nwyddau cymorth cyntaf a’r gael yn y bocsys a dylid ail lenwi fel yr angen<br><br>• Llenwi HS11 yn dilyn unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad ar y safle. Bydd angen ei sganio a’i yrru ymlaen yn electroneg am y cyfnod hwn i IechydADiogelwch@gwynedd.llyw.cymru | |

DRAFFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tân | Llosgiadau, anaf a achosir gan anadliad mwg neu farwolaeth i staff neu eraill yn yr adeilad | 1C | • Holl staff i ymgyfarwyddo gydag allanfeydd tân o amgylch y safle yn ogystal â lleoliad y man ymgynnull. Dylid ffonio 999 yn syth os oes tân.<br>• PEIDIWCH â defnyddio diffoddwyr tân oni bai eu bod yn gwbl hanfodol i allu gadael yr adeilad yn ddiogel, neu eich bod wedi derbyn hyfforddiant a'r sut a phryd i ddefnyddio'r diffoddwyr tân<br>• Sicrhau fod trefn arwyddo mewn ag allan a'r gael rhag ofn bydd angen gwacau'r adeilad mewn argyfwng<br>• Sicrhau fod gwybodaeth o bwy sy'n bresennol yn yr adeilad a'r gael i fynd allan i'r man ymgynnull<br>• Gadewch y llwybrau tân yn glir ar bob achlysur<br>• Ynysu rhannau o'r adeilad nad yw'n ofynnol eu defnyddio i atal mynediad heb awdurdod a heb gyfaddawdu llwybrau dianc mewn gwacáu brys<br>• Diangfeydd tân yw cadw yn glir ac ar gael mewn ardaloedd lle mae defnydd yn digwydd..<br>• Cau'r drysau / ffenestri ar y ffordd allan o'r adeilad<br>• Ymgyfarwyddo rhag ofn fod gan aelod staff gyda chynllun PEEP penodol mewn lle - (Cynllun unigol gwagio adeilad mewn argyfwng tân yw PEEP)<br>• Sicrhau fod profi'r larwm tân yn digwydd yn wythnosol ac yn cael ei gofnodi yn y llyfr log | 3E |



DRAFFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

GwE
Tuag at Ragoriaeth



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Adolygu Asesiad Risg Tân. Cadw pellter cymdeithasol wrth wagio'r adeilad, os yn ymarferol. Cadw pellter cymdeithasol mewn man ymgynnull tân. | |
| Legionella | Staff neu eraill yn dod i gysylltiad â bacteria legionella drwy ffynonellau dŵr e.e. ddefnyddio tapiau cawodydd, neu doiledau yn yr adeilad<br><br>Trefniadau arferol o fflysio ddim yn ddigonol oherwydd llai o ddefnydd dŵr yn yr adeilad yn ystod covid19 | 2C | • Bydd archwiliadau a phrofion sydd wedi trefnu gan yr adran diogelwch eiddo (ee monitro dŵr legionella a thymheredd dŵr golchi dwylo) yn parhau i'w gynnal fel arferol mewn adeiladau sydd dal yn agored:<br><br>Bydd angen uwchraddio fflysio i **ddwywaith** yr wythnos am gyfnod pandemic covid19, a bydd angen **cadw cofnod** ar y daflen briodol. Gweler cyfarwyddiadau penodol am y cyfnod hwn:<br><br>• **Tapiau** - Mewn adeiladau mawr gyda hyd bibellau hir, bydd angen rhedeg y tapiau am fwy o amser, ond yn gyffredinol bydd angen rhedeg pob tap am o leiaf pum munud. Lle mae tap sy'n cymysgu dŵr poeth ac oer, bydd angen rhedeg y tap yn oer am bum munud ac wedyn yn boeth am bum munud arall<br><br>• **Toiledau** – Bydd angen fflysio'r toiledau. Os oes caead ar y toiled dylid cau hwnnw yn gyntaf<br><br>• **Cawodydd** - Os oes cawod gyda "flexi hose", dylech dynnu pen y gawod i ffwrdd a'i gadw yn ddiogel. Gallwch wedyn adael y bibell yn pwyntio i lawr at y draen cyn troi'r dŵr ymlaen. Eto, os oes tap cymysgu, bydd angen rhedeg yn oer ac wedyn yn boeth am bum munud yr un | 2E |
| Cynnal a Chadw Adeilad | Diffyg neu nam yn yr adeilad / neu o amgylch y safle | 2C | • Dylid adrodd unrhyw ddiffygion i'r adran eiddo yn syth<br>• Cynnal a chadw trefniadau tŷ yn dda fel arferol | 2E |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Amharu a'r asbestos | | • Pob contractwr i adrodd ac arwyddo mewn fel yr arferol cyn dechrau unrhyw waith yn yr adeilad<br>• Dilyn trefn gorfforaethol C1 pe bai unrhyw waith angen ei gynnal ar yr adeilad.<br>• Dilyn canllawiau cynllun rheoli asbestos pe bai amheuaeth fod asbestos wedi ei styrbio yn yr adeilad (manylion wedi ei gadw yn y bocs glas)<br>• Cysylltu gyda'r adran diogelwch eiddo yn syth pe bai ymyrraeth ar asbestos | |
| Glanhau | Staff neu eraill yn cael niwed oherwydd gweithgareddau/cemegau glanhau yn yr adeilad | 3C | • Mi fydd y safle yn cael ei lanhau a'r diwedd y dydd a bydd trefniadau glanhau digonol sydd wedi uwchraddio ar hyn o bryd yn cael ei dilyn yn unol â chanllawiau corfforaethol / cyngor cenedlaethol<br>• Staff i olchi ei dwylo ar ôl unrhyw weithgaredd glanhau<br>• Lle caiff cynhyrchion glanhau eu defnyddio gwisgwch PPE priodol yn unol â chanllawiau'r daflen data sydd wedi ei ddarparu gan y gwneuthurwr (ee menig, ffedogau ayyb)<br>• Storio deunydd glanhau yn unol ac argymhellion y gwneuthurwyr<br>• Bod yn ymwybodol o ble i gael rhagor o wybodaeth am y cemegau sy'n cael eu defnyddio yn unol â Rheoliadau COSHH | 3E |
| Dermatitis | Staff yn cael dermatitis oherwydd golchi ei dwylo yn aml | 3C | • Gwirio croen dwylo o dro i dro i weld os oes adwaith i'r deunyddiau glanhau/menyg/gel dwylo. Cysylltu gyda Iechyd Galwedigaethol os oes unrhyw bryder.<br>• Staff i ddefnyddio lleithydd (moisturiser) ei hunain fel yr angen | 4D |



DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llithro, baglu a chwympo | Staff neu eraill yn cael niwed oherwydd diffyg trefniadau o fewn y safle e.e. hylif wedi gollwng ar y llawr ayyb | 3C | • Staff i wisgo esgidiau priodol (ee nid fflip flops)<br>• Gweithdrefnau glanhau (gollyngiadau) mewn lle<br>• Trefniadau cynnal a chadw'r tŷ yn dda | 3E |
| Materion staffio | Absenoldebau staff<br>Diffyg cadw at y drefn | 3C | • Trefnu sesiynau hyfforddi i staff cyn adfer gwasanaeth<br>• Os oes staff newydd wedi ei adleoli yna bydd rhaid sicrhau ei bod wedi darllen y ddogfen anwythiad i safle newydd yn ystod pandemic covid19<br>• Amgylchiadau penodol staff o ran anghenion a chyflyrau iechyd yn cael eu hystyried wrth drefnu tasgau gwaith, a chyswllt gyda Iechyd Galwedigaethol os oes angen.<br>• Staff sy'n Gwarchod i aros gartref neu weithio o gartref yn unol a chanllawiau cenedlaethol.<br>• Posteri ac arwyddion yn cael eu harddangos i atgoffa staff i gadw pellter 2m<br>• Pwysleisio'r angen i bawb warchod ei hun ac eraill<br>• Mae gweithwyr nad ydynt yn cydymffurfio ymbellhau cymdeithasol a gweithio'n ddiogel yn cael eu hatgoffa gan Reolwyr/trefn AD yn dilyn ar gyfer rhai sydd ddim yn cydymffurfio<br>• Staff i dderbyn copi o'r AR | 3E |
| Darparu cinio<br><br>Defnyddio'r gegin | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i staff ddefnyddio'r gegin i ddarparu bwyd/panad<br><br>Diffyg hylendid da | 1B | • Dim ond caniatau un i fewn yn y gegin ar y tro<br>• Sicrhau bod arwynebedd sy'n cael ei gyffwrdd yn cael ei ddi-heintio ar ol defnydd (ee microdonnau, tegell, handlen oergell, tapiau dŵr poeth /oer, ayb)<br>• Dim ond bwyd / diodydd eich hun a ganiateir, a dylid eu paratoi ymlaen llaw . | 3E |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Staff i beidio rhannu llestri a chyllyll a ffyrc. Unigolion i olchi / storio offer eu hunain<br>• Pawb i ddod a'u bwyd a'u diod i mewn mewn cynhwysyddion wedi eu selio am y tro er mwyn lleihau defnydd y ceginau i baratoi bwyd<br>• Staff i gludo diodydd poeth mewn fflasg er mwyn osgoi rhannu llefrith/potel llaeth | |
| Swyddfeydd | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i staff rannu swyddfa | 1B | • Cyfrifo cynhwysedd y swyddfa - yn ôl cyfrifiadau cynhwysedd, gallai 56 m2 safonol gymryd 8 unigolion i ganiatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol o 2m.<br>• Dim mwy na xx% o staff i gael mynediad yr un pryd.<br>• Rhannu yr adeilad i mewn i barthau fel nad ydi staff o un perth yn cael gadael eu parth nhw eu hunain i grwydro yr adeilad. Hynny i atal lledaeniad yr haint trwy adeilad cyfa a cyfyngu ar yr ardal fyddai angen ei di-heintio petai aelod staff yn datblygu symptomau yn ystod y dydd.<br>• Mapio a marcio pellter cymdeithasol yn y swyddfa.<br>• Defnyddio rotas ac adnabod pa staff sydd angen bod yn y swyddfa er mwyn cyfyngu'r niferoedd i isafswm ar unrhyw un adeg.<br>• Cadw at yr un cyd-gweithwyr i bod yn bresennol yn y swyddfa yr un adeg<br>• Sicrhau bod 2m rhwng pob gweithiwr.<br>• Sicrhau bod desgiau ddim yn wynebu ei gilydd yn uniongyrchol.<br>• Peidio â rhannu defnydd desgiau.<br>• Sicrhau fod prosesau diheintio mewn lle bob tro y gorffennir ac y cychwynnir gwaith.<br>• Staff i olchi dwylo cyn/wrth gyrraedd a gadael y swyddfa.<br>• Ni argymhellir defnyddio menig tafladwy yn y gweithle yn rheolaidd oherwydd mwy o debygolrwydd o ledaenu haint. | 1E |



DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth y DU yn cynghori defnyddio masgiau wyneb / gorchuddion arferol yn y gweithle ond gall gweithwyr eu gwisgo os dymunir.<br>• Anogir golchi dwylo'n rheolaidd gyda sebon a dŵr / geliau llaw yn unol â chanllawiau'r GIG. | |
| Cyfarfodydd | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i staff gyfarfod wyneb i wyneb | 1B | • Cynnal cyfarfodydd rhithwir arlein fel dull cyfarfod – e.e. Microsoft Teams.<br>• Os oes angen cyfarfod wyneb i wyneb - ar gyfer tasgau penodol / amgylchiadau eithriadol pan nad yw cyfarfodydd rhithwir arlein yn bosib - yna cyfyngu niferoedd yn unol a maint yr ystafell a chadw pellter cymdeithasol o 2m drwy gydol y cyfarfod<br>• Agor ffenestr yr ystafell i gynyddu awyriant<br>• Gwneud defnydd o cyfrwng technoleg i leihau'r angen i rannu papurau e.g. rhannu sgrin, pecynnau cyn gyfarfod yn cael eu lawrlwytho/danfon yn electroneg, ayb. | 1E |
| Cyrraedd a symud o gwmpas yr adeilad | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i staff symud o gwmpas yr adeilad | 1B | • Creu system un ffordd o fewn yr adeilad<br>• Arwyddion clir ar gyfer trefniadau mynediad i adeilad ar gyfer staff (a'r cyhoedd os yn berthnasol)<br>• Os oes angen ciwio i gael mewn i adeilad – llawr wedi ei farcio i ddangos y pellter dylid ei gadw<br>• Os yw unigolyn arall eisiau defnyddio'r grisiau yna bydd angen aros i un ochr i sicrhau fod 2m yn cael ei gadw pob amser. | 1E |
| Derbynfa | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1B | • Cyfyngu ar y nifer aelod staff/ cyhoedd sy'n cael bod yn y dderbynfa ar unrhyw un adeg<br>• Aelod o staff sydd wedi ei ddynodi ar gyfer defnyddio y weithfan i ddefnyddio'r ffôn yn unig. | 1E |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Holl staff ac ymwelwyr i ddefnyddio yr un fynedfa er mwyn cadw trefn ar fynd a dod i'r adeilad ac i osgoi mynediad gan y cyhoedd heb apwyntiad.<br>• Y brif fynedfa yn y Cyntedd i weithredu system pellter cymdeithasol gyda marciau llawr a shifftiau penodol i'r timau gyrrwyr sy'n defnyddio'r gofod.<br>• Defnydd o sgriniau acrylig pan fo cyswllt gyda'r cyhoedd i osgoi heintiad wyneb yn wyneb | |
| Toiledau | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1B | • Trefnu bod y toiledau'n cael eu glanhau'n gyson<br>• Rheoli nifeoredd sy'n gallu denyddio'r toiledau e.e. gosod cloeon newydd ar y drysau fel mai on un person all fynd mewn ar unwaith<br>• Sicrhau cyflenwad digonol o sebon golchi dwylo a thywelion dychu dwylo<br>• Glanhau cyson a sicrhau fod digon o sebon a thywelion papur mewn lle.<br>• Gwahardd defnydd cyhoeddus o doiledau staff | 1E |
| Hylendid Dwylo | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1B | • Golchi dwylo'n rheolaidd gyda sebon a dŵr / geliau llaw yn unol â chanllawiau'r GIG<br>• Geliau llaw yn cael eu cadw mewn lle addas allan o olau neu wres uniongyrchol | 1E |
| Lifft | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1B | • Glanhau'r botwm galw lifft cyn ei ddefnyddio<br>• Un person i ddefnyddio'r lifft ar y tro<br>• Arwyddion i nodi cyfyngder defnyddwyr | 1E |
| Trin eitemau gan y cyhoedd | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth drin eitemau gan y cyhoedd | 1C | • Golchi dwylo am o leiaf 20 eiliad wedi trin eitemau gan aelodau'r cyhoedd<br>• Os nad oes bosib golchi dwylo – yna defnyddio gel dwylo addas ar ol trin eitemau'r cyhoedd | 1E |

DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhannu offer swydda | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1C | • Osgoi'r angen i rannu offer swyddfa cyn belled a phosibl<br>• Di-heintio offer sy'n cael ei rannu<br>• Darparu cynhyrchion glanhau addas i staff lanhau'r ardal / offer (ee desgiau, bysellfyrddau, ffonau, llungopiwr) cyn ac ar ôl iddynt ei ddefnyddio. | 1E |
| Awyriant | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1C | • Agor ffenestri/drysau allannol ble bo'n bosib<br>• Cynyddu'r awyriant yn yr adeilad<br>• Sicrhau bod awyriant yn dod a chyflenwad ffres o awyr i'r adeilad ac ddim yn ail-gylchdroi'r aer. | 1E |
| Ymwelwyr | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i ymwelwyr ymweld â'r swyddfa | 1C | • Cyfyngu ar nifer yr ymwelwyr a dim ond gyda chytundeb ymlaen llaw yr UDA y caniateir hynny<br>• Ymwelwyr i ddilyn y canllawiau - mae'n ofynnol i'r ymwelwyr i gwblhau'r daenlen log fel y staff<br>• Hylif diheintio dwylo a chanllawiau ar weithdrefnau'r staff ar gael i bob ymwelyd.<br>• Pob ymwelydd i fod wedi'i drefnu o flaen llaw. | 1E |
| Nwyddau | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i nwyddau gael eu cludo i'r swyddfa | 1C | • Cyfyngu ar y nifer a sicrhau fod y sawl sy'n cludo yn dilyn y canllawiau<br>• Prynu troliau i gario parseli trwm.<br>• Dylai'r aelod staff gymryd y gofal angenrheidiol a sicrhau ei fod yn golchi ei ddwylo'n drylwyr wrth gasglu / dadbacio'r nwyddau.<br>• Lleihau cyswllt wrth ddanfon parseli/cyfnewid dogfennau a defnyddio llofnod/taliadau electronig ble'n bosibl<br>• Person enwebedig yn casglu'r post/parseli a rhoi cadach efo hylif diheintio drostynt. | 1E |
| Contractwyr ar safle | | 1C | • Gofyn i gontractwyr ddod i'r safle pan mae'r safle yn wag neu'n dawel | 1E |

DRAFT

DRAFFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Afiechyd yn cael ei ledaenu | | • Sicrhau fod contractwyr ond yn dod i mewn i'r gweithle pan fo hynny'n hanfodol a'u bod yn cadw at yr holl fesurau a roddwyd ar waith mewn perthynas â phellter cymdeithasol, hylendid ac ati.<br>• Dim ond gwaith hanfodol cynnal a chadw i'w wneud.<br>• Sicrhau fod y contractwr wedi darparu asesiad risg addas ar gyfer ymgymryd ag unrhyw waith.<br>• Cytuno ar reolau a phrotocolau safle gyda'r rheolwr safle | |
| Lles Meddyliol | Effaith ar les meddyliol unigolion | 1B | • Cynnal asesiadau unigol gyda'r staff i'w paratoi.<br>• Mynediad i wasanaeth cwnsela Medra a'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol ar gyfer gweithwyr sydd ei angen<br>• Sicrhau fod y staff yn ymwybodol o'r gwasanaethau a chynnwys gwybodaeth ar y mewnrwyd. | 1E |
| Teithio yn y gwaith | Haint yn cael ei drosglwyddo oherwydd bod staff yn rhannu cerbydau yn y gwaith | 1B | • Dim ond un aelod o staff i deithio mewn cerbyd, a chael aelod(au) eraill i ddilyn mewn car arwahan er mwyn osgoi'r angen i rannu cerbyd.<br>• Dilyn asesiad risg penodol ar deithio gan y Gwasanaeth<br>• Ni ddylai gweithwyr rannu car (oni bai eu bod yn byw yn yr un tŷ).<br>• Rhaid cadw pellter cymdeithasol yn y maes parcio efo digon o le rhwng cerbydau a fydd yn lleihau faint o geir all barcio yno.<br>• Rhaid cadw pellter cymdeithasol yn y maes parcio/mannau danfon efo digon o le rhwng pobl/cerbydau. | 1E |

*Risg = Tebygolrwydd + Canlyniad. Gweler 6.2b – Matrics Asesu Risg

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| Nodiadau ar Gyfer Gweithredu / *Notes for Implementation* | Person Cyfrifol *Responsible Person* | Cwblhau Erbyn *Complete By* |
|---|---|---|
| 1. Cyfeirio at asesiad risg "Diffyg darpariaeth cymorthyddion cyntaf yn ystod pandemic covid19" os nad oes cymhorthydd cyntaf ar gael. | | |
| 2. Creu cofrestr staff sydd yn 'fregus'. Holiadur bregusrwydd / Asesiad risg unigol yw cwblhau gydag aelodau staff sydd wedi bod gartref ohewrydd shielding neu gyflyrau meddygol yn ystod covid19. Cynghori fel yr angen o ran trefniadau sydd angen ei weithredu yn dilyn cwblhau'r holiadur / asesiad risg. | | |
| 3. Cynnal sgyrsiau unigol gyda staff i'w paratoi a'u cynghori o ran y trefniadau sydd angen eu dilyn. | | |
| 4. Sicrhau cyflenwad digonol o sebon, sanitiser a deunyddiau glanhau a diheintio offer swyddfa. | | |
| 5. Sicrhau cyflenwad digonol o arwyddion ar gyfer y swyddfa. | | |
| 6. Mapio a marcio pellter cymdeithasol yn y swyddfa a sicrhau fod arwyddion perthnasol yn cael ei arddangos – e.e. posteri ac arwyddion yn cael eu harddangos i atgoffa staff i gadw pellter 2m, arwyddion clir ar gyfer trefniadau mynediad i adeilad ar gyfer staff (a'r cyhoedd os yn berthnasol), arwyddion i nodi cyfyngder defnyddwyr. | | |
| 7. Sefydlu system unffordd drwy'r swyddfa ac/neu goridorau wedi'i marcio'n glir ar gyfer cerdded ar yr ochr chwith yn unig. | | |
| 8. Sicrhau cyflenwad digonol o offer PPE ar gyfer Cymorth Cyntaf. | | |
| 9. Rhannu yr adeilad i mewn i barthau fel nad ydi staff o un perth yn cael gadael eu parth nhw eu hunain i grwydro yr adeilad. Hynny i atal lledaeniad yr haint trwy adeilad cyfa a cyfyngu ar yr ardal fyddai angen ei di-heintio petai aelod staff yn datblygu symptomau yn ystod y dydd. | | |
| 10. Adnabod pa staff sydd angen bod yn y swyddfa er mwyn cyfyngu'r niferoedd i isafswm ar unrhyw un adeg. | | |
| 11. Llunio rota's i gyfyngu'r niferoedd i isafswm yn y swyddfa ar unrhyw un adeg pan fydd hi'n briodol i wneud hynny. | | |
| 12. Gosod sgrins yn y swyddfeydd i osgoi heintiad wyneb yn wyneb. | | |

DRAFFT

| | | |
|---|---|---|
| 13. Cyfrifo cynhwysedd y swyddfa. | | |
| 14. Symud desgiau i sicrhau bod 2m rhwng pob gweithiwr a bod desgiau ddim yn wynebu ei gilydd yn uniongyrchol. | | |
| 15. Ail drefnu'r hot desks i sicrhau bod 2m rhwng pob gweithiwr a bod desgiau ddim yn wynebu ei gilydd yn uniongyrchol. | | |
| 16. Mesur ystafelloedd cyfarfod er mwyn adnabod nifer o unigolion a all fynychu - cyfyngu ar y nifer aelod staff sy'n cael bod yn y yr ystafell ar unrhyw un adeg. | | |
| 17. Sicrhau mynediad i Asesiadau Risg y Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu | | |
| 18. Bydd angen edrych ar y mesurau o ran glanhau, golchi dwylo, toiledau, arlwyo a defnydd o'r gofod cymdeithasol. | | |
| 19. Gwirio gyda'r Rheolwyr Safle fod yr holl wiriadau iechyd a diogelwch wedi'u cwblhau ar ôl cyfnod o gau fel clefyd Legionnaire, profi larymau tân a systemau chwistrellu dŵr, tynnu llwch ac ati. Bydd angen cysylltu gyda'r ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch am asesiad cyfansawdd. | | |
| 20. Canllawiau eglur ar ofynion cadw pellter cymdeithasol - angen rhoi arweiniad pendant i bawb ar gadw pellter cymdeithasol yn y swyddfa. Mae angen rhannu unrhyw ganllawiau diwygiedig mewn da bryd â'r holl staff. | | |
| 21. Trefn bendant ar gyfer dod i mewn i'r swyddfa - sefydlu system unffordd a.y.b. | | |
| 22. A ellir cadw drysau (ar wahân i ddrysau tan, toiledau a diogelwch) ar agor i leihau lledaenu haint. | | |
| 23. Cynyddu oriau glanhau a chanolbwyntio ar arwynebau, drysau a mannau cyffredin. Cynyddu oriau glanhau i sicrhau bod yr holl arwynebau yn cael eu glanhau yn drylwyr ar ddiwedd y diwrnod. | | |
| 24. Prynu troliau i gario parseli trwm. | | |
| 25. Adolygu Asesiad Risg Tân. Cadw pellter cymdeithasol wrth wagio'r adeilad, os yn ymarferol. Cadw pellter cymdeithasol mewn man ymgynnull tân. | | |

| | | |
|---|---|---|
| 26. Bydd angen diweddaru wrth i'r sefyllfa ddeinamig hon newid a bydd angen cyfleu unrhyw newid mewn statws mewn da bryd cyn i'r statws newydd ddechrau. | | |
| 27. Gosod strwythur adolygu AR i sicrhau craffu a chymeradwyaeth gan y Bwrdd Rheoli / Cydbwyllgor. | | |

DRAFFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith



**CYFLWYNIAD**

Er mwyn atal COVID-19 rhag lledaenu, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau Coronafeirws, gan osod cyfyngiadau llym. Rhaid i fusnesau sy'n cael caniatâd i weithredu, neu leoliadau sy'n cael caniatád i agor, wneud hynny'n ddiogel mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Coronafeirws, yn ogystal â rhwymedigaethau cyfreithiol eraill sydd ar gyflogwyr (megis deddfwriaeth iechyd a diogelwch).

Nid yw'r coronafeirws wedi diflannu – mae pob un ohonom yn rhannu dyletswydd barhaus i ddiogelu Cymru. Dyma grynodeb byr o'r pum prif gam y dylai bawb sy'n gyfrifol am waith yng Nghymru eu cymryd i'n helpu i Gadw Cymru yn Ddiogel – gyda'n gilydd.

- **Cynnal asesiad risg COVID-19:** Cynnal asesiad risg drwy gynnal trafodaethau ystyrlon gyda staff a/neu eu hundeb llafur cydnabyddedig a rhannu'r canlyniadau gyda'ch gweithlu. Dylid ystyried yn benodol a yw'r bobl sy'n gwneud y gwaith mewn perygl arbennig oherwydd COVID-19. Mae asesiadau risg yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer merched beichiog beth bynnag yw maint y busnes.
- **Helpu staff i weithio o gartref pryd bynnag y bo modd:** Y ffordd fwyaf effeithiol o leihau'r cysylltiad â COVID-19 yw galluogi staff i weithio o gartref, rywfaint o'r amser neu drwy'r amser. Mae disgwyl i gyflogwyr fod mor hyblyg â phosibl a chyflwyno addasiadau pryd bynnag y bo modd. Gallai hynny gynnwys rhoi gliniaduron neu ffonau symudol i staff a'i gwneud yn haws iddynt gyfathrebu gyda phawb.
- **Gweithredu i sicrhau bod pobl yn cadw pellter corfforol o 2m rhyngddynt ar eich safle, pryd bynnag y bo modd:** Pan nad yw gweithio o gartref yn rhesymol ymarferol, mae'n rhaid i'r rheini sy'n gyfrifol am weithleoedd neu am adeiladau sy'n agored i'r cyhoedd, sicrhau bod popeth rhesymol yn cael ei wneud i gadw pellter o 2m rhwng pobl ar y safle pan fyddant yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau awyr agored. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol yng Nghymru o dan y Rheoliadau Coronafeirws. Mae'n rhaid i'r rheini sy'n gyfrifol ddilyn y Canllawiau Statudol sydd wedi'u cyhoeddi i'ch helpu i ddeall yr hyn y mae 'cymryd pob cam rhesymol' yn ei olygu, a beth i'w wneud os nad oes modd cadw pellter o 2m o dan rai amgylchiadau.
- **Rhoi camau eraill ar waith i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws**: Cymryd pob cam rhesymol i leihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â COVID-19, drwy, er enghraifft: Gyfyngu ar gysylltiad wyneb yn wyneb; Defnyddio rhwystrau corfforol; Mwy o hylendid, glanweithdra amgylcheddol ac atgoffa pobl am bwysigrwydd hylendid; Golchi dwylo'n dda am 20 eiliad gyda sebon, a'u sychu'n drylwyr, neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo sy'n cynnwys alcohol cyn ac ar ôl unrhyw gysylltiad agos; Lleihau synau uchel a fyddai'n golygu y byddai angen i bobl weiddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau Statudol ar gymryd camau rhesymol i leihau cysylltiad gyda COVID-19. Mae'n rhaid dilyn y Canllawiau hynny. Mae peidio â chymryd camau rhesymol i leihau cysylltiad â'r coronafeirws yn drosedd yng Nghymru, a gallai arwain at ddirwy pe byddech yn eich cael yn euog.
- **Mynd ati i Brofi, Olrhain a Diogelu yn y gweithle**. Mae Profi, Olrhain, Diogelu yn gweithio drwy: Brofi'r bobl hynny sydd â symptomau COVID-19 a thrwy ofyn iddynt hunanynysu tra byddant yn cael prawf ac yn aros am ganlyniad; Olrhain yr unigolion hynny sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â'r person sydd wedi profi'n bositif am COVID-19, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd gofal a hunanynysu (am 14 diwrnod). Mae Canllawiau ar gael i gyflogwyr yng Nghymru ar sut i Brofi, Olrhain a Diogelu.

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith



**CANLLAWIAU O DAN REOLIAD 13 O RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS)**

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bawb y mae'n ofynnol iddynt o dan Reoliadau'r Coronafeirws gymryd pob cam rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod gofyniad cyfreithiol penodol ar y bobl sy'n gyfrifol am weithleoedd i sicrhau y gwneir popeth rhesymol i gynnal pellter o 2 fetr rhwng pobl wrth iddynt weithio. Mae cynnal pellter o 2 fetr rhwng pobl nad ydynt o'r un aelwyd neu **aelwyd estynedig** yn agwedd bwysig ar y mesurau y mae'n rhaid i bawb eu cymryd i leihau'r risgiau y bydd y coronafeirws yn lledaenu. Mae'n ddisgyblaeth y dylai pawb anelu at ei chynnal ym mhob agwedd ar fywyd beunyddiol.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynghori pobl i weithio gartref oni bai bod angen busnes clir iddynt ddychwelyd i'r gweithle. Mae gan gyflogwyr hefyd ddyletswydd i gymryd **pob mesur rhesymol** i leihau lledaeniad y coronafeirws. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i staff ddychwelyd i weithleoedd os nad oes angen busnes sydd wedi'i ddangos yn glir.

Y ffordd fwyaf effeithiol o gyfyngu ar y risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y gweithle yw galluogi rhai aelodau o'r staff, neu bob un, i weithio o'u cartrefi mor aml â phosibl. Fel "mesurau rhesymol" disgwylir i gyflogwyr fod yn hyblyg ac addasu lle bo'n bosibl i ganiatáu hynny. Gall hyn gynnwys rhoi gliniaduron a ffonau symudol i staff, a hwyluso unrhyw gyfathrebu ag aelodau staff, ble bynnag y maent.

Ni ddylid gofyn na rhoi pwysau ar staff i ddychwelyd i weithle os nad oes achos busnes clir dros wneud hynny. Dylai cyflogwyr sy'n ystyried ei gwneud yn ofynnol i staff ddychwelyd i'r gweithle asesu i ddechrau a oes modd gwneud trefniadau amgen i ddiwallu'r rhan fwyaf o anghenion y cyflogwr. Dylid trafod hyn gyda'r staff neu gynrychiolwyr ar ran y staff.

Wrth benderfynu a ddylid gofyn i staff ddychwelyd i weithle, dylai cyflogwyr ystyried a fyddai unrhyw effaith negyddol benodol ar les unigolion yn sgil dychwelyd i'r gwaith (er enghraifft os ydynt mewn perygl uwch neu'n gwarchod eu hunain, neu pe bai dychwelyd i'r gweithle yn achosi pryder difrifol iddynt).

Yn yr un modd, efallai bod rhai aelodau o'r staff yn awyddus i ddychwelyd i'r gweithle. Dan amgylchiadau o'r fath, mae lles y staff yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu pa fesurau i atal lledaeniad y coronafeirws sy'n rhesymol. Er mai prif flaenoriaeth y cyflogwr fyddai cyfyngu ar y risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, dylid cydbwyso hyn gydag effaith negyddol gweithio o'r cartref ar les y gweithiwr cyflogedig. Dan amgylchiadau o'r fath, os gall gweithwyr ddychwelyd i'r gweithle heb gynnydd sylweddol yn y risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, dylid caniatáu hyn. Wrth ystyried, dylai cyflogwyr feddwl i ba raddau y byddai'r gweithiwr sy'n dychwelyd yn dod i gysylltiad agos ag eraill, yn y gweithle ac wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith.

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

GwE
Tuag at Ragoriaeth

## Asesiad Risg GwE - Adfer Gwasanaeth/Adeilad yn dilyn pandemic Covid-19 – Swyddfa Penrallt

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Aseswr** *Assessor* | Uwch Dim Arwain GwE | | **Teitl Swydd** *Job Title* | | |
| **Safle / Lleoliad** *Site / Location* | Tŷ Linden, Yr Wyddgrug | | **Asesiad o** *Assessment of* | Adfer Gwasanaeth/Adeilad yn dilyn pandemic Covid-19 | |
| **Dyddiad Asesiad** *Assessment Date* | XXXXX | **Dyddiad Adolygiad Diwethaf** *Last Review Date* | | **Dyddiad Adolygu** *Next Review Date* | Dyddiad wythnos o rŵan gan fod cyngor yn newid yn rheolaidd |



| **Perygl** *Hazard* | **Math / Effaith Risg** *Type / Effect of Risk* | ***Risg / *Risk*** Cychwynnol *Initial* | **Dulliau Rheoli** *Control Measures* | ***Risg / *Risk*** Gweddilliol *Residual* |
|---|---|---|---|---|
| Heintio gyda Covid 19 tra'n gweithio yn y swyddfa<br><br>Gweithio yn y swyddfa yn ystod cyfnod pandemig Covid 19/firws Corona (ar gyfer tasgau penodol / amgylchiadau eithriadol pan nad yw gweithio o adra yn bosibl) | Risg:<br>Unigolyn(ion) yn gweithio yn y swyddfa all ei gwneud nhw'n fwy tebygol o fod yn dal neu yn trosglwyddo Covid 19<br><br>Effaith y risg: Gall hyn arwain at –<br>Farwloaeth(au)<br>Salwch difrifol<br>Lledaeniad y pandemig<br>Trawma<br>Straen<br>Pwysau gwaith<br>Colled staff | 1B | • Gweithio o adra ble'n bosib<br>• Ond teithio i'r gwaith i wneud tasgau penodol na ellir eu cwblhau o adra ac sydd wedi'u cytuno o flaen llaw gyda'r Rheolwr Llinell a'r Rheolwr Busnes.<br>• Cais wedi ei gyflwyno Rheolwr Busnes i staff gael defnydd o'r swyddfa. Bydd angen cadarnhad fod hyn wedi ei gytuno ymlaen llaw.<br>• Ond teithio i'r gwaith os nad ydych yn arddangos unrhyw symptomau o Covid 19 ac nad nad ydych chi neu neb yn eich cartref yn hunan-ynysu<br>• Uwch Dim Arwain i sicrhau nifer isel o swyddogion yn dod i'r swydddfa ar yr un pryd<br>• Staff unigol i fod yn gyfrifol am gofnodi eu hymweliad â'r swyddfa drwy ddilyn y ddolen yma: https://bit.ly/2Ov4COl rhag ofn i aelod staff ddatblygu symptomau a bod angen manylion i'r system prawf, olrhain a diogelu<br>• Staff i arwyddo mewn ag allan wrth ymweld â'r swyddfa gan ddefnyddio beiro ei hunain os yn bosib | 1E |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tud. 152 | | | • Golchi dwylo gyda dŵr a sebon am o leiaf 20 eiliad neu ddefnyddio sanitiser dwylo os nad yw dwr a sebon ar gael yn dilyn cyrraedd yr adeilad<br>• Agor ffenestri os yw'n bosib cael awyr iach naturiol i'r ystafell - diheintio'r handlen cyn ac ar ôl ei ddefnyddio<br>• Ni fydd staff yn cael "hot desgio" ac yn gorfod defnyddio ei man gwaith penodol / desg dynodedig.<br>• Ni ddylid symud o swyddfa i swyddfa, nac o ddesg i ddesg.<br>• Cadw eich man gwaith yn daclus ac yn lan. Cadw pellter o 2m oddi wrth eraill ar bob adeg gan gynnwys pan yn eistedd wrth ddesg, gwneud tasagau, symud o gwmpas a defnyddio cyfleusterau eraill<br>• Golchi dwylo yn rheolaidd gyda dwr a sebon am o leiaf 20 eiliad neu ddefnyddio sanitiser dwylo os nad yw dwr a sebon ar gael<br>• Cadw eich man gwaith yn daclus ac yn lan a'i lanhau a'i ddiheintio yn rheolaidd yn ystod y dydd<br>• Glanhau a diheintio unrhyw offer yr ydych yn eu defnyddio yn y man gwaith cyn a wedi i chi eu defnyddio<br>• Osgoi cyffwrdd eich gwyneb<br>• Tagu neu tisian i mewn i hances a llechio'r hances i'r bin ac yna golchi eich dwylo<br>• Dod ac unrhyw luniaeth gyda chi o adref (a mynd a phopeth adra ar ddiwedd y dydd)<br>• Cymorth cyntaf - Gan fod y swyddfeydd wedi cau i ran fwyaf o weithwyr fe all faint o unigolion sydd wedi cymhwyso gyda chymorth cyntaf fod yn isel / neu fod neb a'r gael yn y swyddfeydd. Sicrhau fod staff yn ymwybodol o hyn a bod angen galw 999 mewn argyfwng brys a bod kit cymorth cyntaf ar gael yn prif dderbynfa pencadlys | |

DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhannu adeiladau / cyfleusterau efo asiantaethau eraill | Lledaenu’r afiechyd o fewn yr adeilad i staff ac eraill | 1B | • Cydweithio’n agos efo landlordiaid / Rheolwyr Safle i sicrhau fod mesurau ar waith ar gyfer cyfleusterau cymunedol a chyfleusterau a rennir.<br>• Sicrhau mynediad i Asesiadau Risg.<br>• Edrych ar y mesurau o ran glanhau, golchi dwylo, toiledau, arlwyo a defnydd o'r gofod/cyfleusterau a rennir. | 3C |
| Staff yn datblygu symptomau yn y gwaith | Lledaenu’r afiechyd o fewn yr adeilad i staff ac eraill<br><br>Trawma, straen, gor-bryder, ofn i staff neu eraill | 1B | **<u>Canllawiau penodol i unigolyn sydd wedi datblygu symptomau</u>**<br><br>• Os bydd staffyn datblygu unrhyw symptomau sy’n cael eu pwysleisio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel symptom o COVID-19 h.y.:<br><br>Peswch newydd, parhaus<br><br>Tymheredd uchel -<br><br>Diffyg neu newid mewn gallu i flasu ac arogli – anosmia<br><br>• Os bydd unrhywun yn dangos symptomau uchod (COVID-19), dylid dilyn canllawiau cenedlaethol diweddaraf<br><br>• Os oes angen iddynt fynd i'r ystafell ymolchi / toiledau, dylent ddefnyddio ystafell ymolchi ar wahân os oes modd. Dylid glanhau a diheintio'r ystafell ymolchi / toiledau gan ddefnyddio cynhyrchion glanhau safonol cyn cael ei defnyddio gan unrhyw un arall<br><br>• Mewn perthynas â glanhau ardaloedd lle amheuir bod rhywun wedi datblygu symptomau, rhaid dilyn canllawiau / gweithdrefn adrodd ar unigolyn symptomatig yn y gweithle sydd wedi darparu gan Gyngor Gwynedd yn gorfforaethol a | 1E |



DRAFFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | hyn i gyd fynd gyda chanllawiau cenedlaethol <https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings><br>• Rheolwr Busnes i gysylltu gyda Rheolwr Safle i’w hysbysu, neu am arweiniad pellach o ran trefnu glanhau’r safle neu leoliad<br>• Mewn perthynas â glanhau ardaloedd lle amheuir bod rhywun wedi datblygu symptomau, rhaid dilyn canllawiau / gweithdrefn adrodd ar unigolyn symptomatig yn y gweithle sydd wedi darparu gan Gyngor Gwynedd yn gorfforaethol a hyn i gyd fynd gyda chanllawiau cenedlaethol<br>• Os oes gan yr aelod staff symptomau bydd rhaid iddynt aros adref am 10 diwrnod a nes bydd symptomau wedi diflannu ers 24 awr a bod symptomau eraill Covid-19 yn gwella. Dilyn canllawiau’r Llywodraeth ar hunain ynysu os yn datblygu symptomau. | |
| Rhywun arall o gartref aelod staff yn datblygu symptomau Gweithdrefnau salwch | Lledaenu’r afiechyd i staff ac eraill<br><br>Trawma, straen, pwysau gwaith, gor-bryder, ofn | 1C | • Os ydi aelod staff yn byw gydag unigolyn â symptomau, rhaid iddynt aros adref am 14 diwrnod o’r amlygiad diwethaf â’r unigolun, ac os ydynt yn datblygu symptomau eu hunain, bydd rhaid iddynt aros adref am 10 diwrnod o ddechrau’r symptomau a nes bod y symptomau wedi mynd/gwella (gweler uchod) | 1E |



DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Defnyddio gwrthrychau | Trosglwyddo a lledaenu'r afiechyd i staff ac eraill wrth ddefnyddio offer<br><br>Trosglwyddo a lledaenu'r afiechyd wrth gyffwrdd bylau drws, botymau goleuadau ayyb | 1B | • Gwrthrychau i'w rhannu cyn lleiaf â phosib a glanhau fel yr angen<br><br>• Bydd gwrthrychau ac arwynebedd cymunedol yn cael eu glanhau gan ddefnyddio dulliau glanhau safonol ond ar sail amlach. Hyn i gyd fynd gyda chanllawiau corfforaethol glanhau Covid-19<br><br>• Mewn perthynas â glanhau ardaloedd / offer lle amheuir bod rhywun wedi datblygu symptomau, rhaid dilyn canllawiau / gweithdrefn adrodd ar unigolyn symptomatig yn y gweithle sydd wedi darparu gan Gyngor Gwynedd yn gorfforaethol a hyn i gyd fynd gyda chanllawiau cenedlaethol<br><br>• Dylid hysbysu'r Rheolwr Safle am gyngor neu arweiniad pellach megis glanhau'r offer, glanhau safle neu drefnu i lanhau'r safle neu leoliad penodol a'r diwedd dydd<br><br>• Staff i ymgyfarwyddo gyda chodau lliw ar gyfer offer glanhau pe bai angen ei defnyddio. Sicrhau fod PPE addas yn cael ei defnyddio, a'i gwisgo yn unol â chanllawiau'r daflen data sydd wedi ei ddarparu gan y gwneuthurwr | 1E |
| Cymorth cyntaf | Anafiadau difrifol ddim yn derbyn triniaeth briodol<br>Staff ddim yn ymwybodol o gyflyrau meddygol penodol<br><br>Lledaenu'r afiechyd i eraill h.y. Staff ac eraill wrth gynnal gymorth cyntaf | 3C | • **Ble'n bosib** - Angen sicrhau fod un aelod staff ar gael wedi cymhwyso gyda oleiaf thystysgrif cymorth cyntaf mewn argyfwng ar y safle<br><br>• Glanhewch eich dwylo'n drylwyr gyda sebon a dŵr neu hylif di heintio cyn gwisgo PPE ac ar ôl ei dynnu. Yn dilyn defnyddio PPE | 3E |

DRAFT

Tud. 156

o unrhyw fath mae hanfodol ei fod yn cael ei dynnu a'i waredu yn ddiogel er mwyn osgoi hunan-halogi

- Lle nad yw'n bosibl cynnal pellter cymdeithasu o 2 fetr i ffwrdd oddi wrth unigolyn arall, bydd menig tafladwy, ffedog blastig dafladwy, masg wyneb llawfeddygol ymlid hylif math IIR yn cael ei ddefnyddio yn ychwanegol i ddefnyddio amddiffyniad llygaid fel fisor wyneb neu sbectol lle rhagwelir y bydd risg o halogi â sblasio, defnynnau gwaed neu hylifau'r corff

- Wrth ddefnyddio mwgwd wyneb IIR llawfeddygol ymlid hylif, dylech fowldio strap metel y mwgwd dros bont y trwyn a sicrhau bod y mwgwd yn ffitio'n glyd o dan yr ên, o amgylch neu ar draws unrhyw wallt wyneb os yw'n bresennol

- Yn ddelfrydol dylid gwisgo fisor neu sbectol a gellir ei ail ddefnyddio a bydd angen ei glanhau yn unol â chanllawiau'r llywodraeth yn dilyn ei defnyddio. Os mai dim ond fisor neu sbectol dafladwy **un** defnydd sydd ar gael yna dylid ei gwared yn syth ar ôl ei defnyddio.

- Dylai PPE gael ei waredu wrth fagio dwbl h.y. gosod yr eitemau mewn bag sbwriel a'u clymu yna dylid gosod y bag plastig hwn mewn ail fag bin a'i glymu. Dylid ei storio mewn man addas a diogel a'i farcio â dyddiad a'i adael am o leiaf 72 awr. Unwaith mae'r 72 awr wedi mynd heibio fe allwch wared y bag sbwriel yn y bin gwastraff arferol

- Am fwy o wybodaeth gweler canllawiau corfforaethol - COVID19 cynnal cymorth cyntaf yn y gweithle

- **CPR – Yn ystod covid19- Oedolyn**

DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Os oes gennych unrhyw amheuaeth fod gan oedolyn symptomau covid19 ac angen cpr, yna mae ymgyfarwyddo â'r canllawiau cyfredol gan y Cyngor adfywio. Gwyliwch yn dilyn linc am arweiniad https://www.resus.org.uk/media/statements/resuscitation-council-uk-statements-on-covid-19-coronavirus-cpr-and-resuscitation/covid-community/ <br><br>• Sicrhau fod unigolion yn ymwybodol o leoliadau'r bocsys cymorth cyntaf o amgylch y safle. Bydd angen sicrhau fod cyflenwad o nwyddau cymorth cyntaf a'r gael yn y bocsys a dylid ail lenwi fel yr angen <br><br>• Llenwi HS11 yn dilyn unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad ar y safle. Bydd angen ei sganio a'i yrru ymlaen yn electroneg am y cyfnod hwn i IechydADiogelwch@gwynedd.llyw.cymru | |
| Tân | Llosgiadau, anaf a achosir gan anadliad mwg neu farwolaeth i staff neu eraill yn yr adeilad | 1C | • Holl staff i ymgyfarwyddo gydag allanfeydd tân o amgylch y safle yn ogystal â lleoliad y man ymgynnull. Dylid ffonio 999 yn syth os oes tân. <br><br>• PEIDIWCH â defnyddio diffoddwyr tân oni bai eu bod yn gwbl hanfodol i allu gadael yr adeilad yn ddiogel, neu eich bod wedi derbyn hyfforddiant a'r sut a phryd i ddefnyddio'r diffoddwyr tân <br><br>• Sicrhau fod trefn arwyddo mewn ag allan a'r gael rhag ofn bydd angen gwacau'r adeilad mewn argyfwng <br><br>• Sicrhau fod gwybodaeth o bwy sy'n bresennol yn yr adeilad a'r gael i fynd allan i'r man ymgynnull | 3E |

DRAFFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tud. 158 | | | • Gadewch y llwybrau tân yn glir ar bob achlysur<br>• Ynysu rhannau o'r adeilad nad yw'n ofynnol eu defnyddio i atal mynediad heb awdurdod a heb gyfaddawdu llwybrau dianc mewn gwacáu brys<br>• Diangfeydd tân yw cadw yn glir ac ar gael mewn ardaloedd lle mae defnydd yn digwydd..<br>• Cau'r drysau / ffenestri ar y ffordd allan o'r adeilad<br>• Ymgyfarwyddo rhag ofn fod gan aelod staff gyda chynllun PEEP penodol mewn lle - (Cynllun unigol gwagio adeilad mewn argyfwng tân yw PEEP)<br>• Sicrhau fod profi'r larwm tân yn digwydd yn wythnosol ac yn cael ei gofnodi yn y llyfr log<br>• Adolygu Asesiad Risg Tân. Cadw pellter cymdeithasol wrth wagio'r adeilad, os yn ymarferol. Cadw pellter cymdeithasol mewn man ymgynnull tân. | |
| Legionella | Staff neu eraill yn dod i gysylltiad â bacteria legionella drwy ffynonellau dŵr e.e. ddefnyddio tapiau cawodydd, neu doiledau yn yr adeilad<br><br>Trefniadau arferol o fflysio ddim yn ddigonol oherwydd llai o ddefnydd dŵr yn yr adeilad yn ystod covid19 | 2C | • Bydd archwiliadau a phrofion (ee monitro dŵr legionella a thymheredd dŵr golchi dwylo) yn parhau i'w gynnal fel arferol mewn adeiladau sydd dal yn agored:<br><br>Bydd angen uwchraddio fflysio i **ddwywaith** yr wythnos am gyfnod pandemic covid19, a bydd angen **cadw cofnod** ar y daflen briodol. Gweler cyfarwyddiadau penodol am y cyfnod hwn:<br><br>• **Tapiau** - Mewn adeiladau mawr gyda hyd bibellau hir, bydd angen rhedeg y tapiau am fwy o amser, ond yn gyffredinol | 2E |

DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith



DRAFFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | bydd angen rhedeg pob tap am o leiaf pum munud. Lle mae tap sy'n cymysgu dŵr poeth ac oer, bydd angen rhedeg y tap yn oer am bum munud ac wedyn yn boeth am bum munud arall<br>• **Toiledau** – Bydd angen fflysio'r toiledau. Os oes caead ar y toiled dylid cau hwnnw yn gyntaf | |
| Cynnal a Chadw Adeilad | Diffyg neu nam yn yr adeilad / neu o amgylch y safle<br><br>Amharu a'r asbestos | 2C | • Dylid adrodd unrhyw ddiffygion i'r Rheolwr Safle yn syth<br>• Cynnal a chadw trefniadau tŷ yn dda fel arferol<br>• Pob contractwr i adrodd ac arwyddo mewn fel yr arferol cyn dechrau unrhyw waith yn yr adeilad<br>• Dilyn y drefn arferol pe bai unrhyw waith angen ei gynnal ar yr adeilad. | 2E |
| Glanhau | Staff neu eraill yn cael niwed oherwydd gweithgareddau/cemegau glanhau yn yr adeilad | 3C | • Sicrhau fod y safle yn cael ei lanhau a'r diwedd y dydd. Sicrhau trefniadau glanhau digonol sydd wedi uwchraddio ar hyn o bryd yn cael ei dilyn yn unol â chanllawiau corfforaethol / cyngor cenedlaethol<br>• Staff i olchi ei dwylo ar ôl unrhyw weithgaredd glanhau<br>• Lle caiff cynhyrchion glanhau eu defnyddio gwisgwch PPE priodol yn unol â chanllawiau'r daflen data sydd wedi ei ddarparu gan y gwneuthurwr (ee menig, ffedogau ayyb)<br>• Storio deunydd glanhau yn unol ac argymhellion y gwneuthurwyr<br>• Bod yn ymwybodol o ble i gael rhagor o wybodaeth am y cemegau sy'n cael eu defnyddio yn unol â Rheoliadau COSHH | 3E |
| Dermatitis | Staff yn cael dermatitis oherwydd golchi ei dwylo yn aml | 3C | | 4D |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Gwirio croen dwylo o dro i dro i weld os oes adwaith i'r deunyddiau glanhau/menyg/gel dwylo. Cysylltu gyda Iechyd Galwedigaethol os oes unrhyw bryder.<br>• Staff i ddefnyddio lleithydd (moisturiser) ei hunain fel yr angen | |
| Llithro, baglu a chwympo | Staff neu eraill yn cael niwed oherwydd diffyg trefniadau o fewn y safle e.e. hylif wedi gollwng ar y llawr ayyb | 3C | • Staff i wisgo esgidiau priodol (ee nid fflip flops)<br>• Gweithdrefnau glanhau (gollyngiadau) mewn lle<br>• Trefniadau cynnal a chadw'r tŷ yn dda | 3E |
| Materion staffio | Absenoldebau staff<br>Diffyg cadw at y drefn | 3C | • Trefnu sesiynau hyfforddi i staff cyn adfer gwasanaeth<br>• Os oes staff newydd wedi ei adleoli yna bydd rhaid sicrhau ei bod wedi darllen y ddogfen anwythiad i safle newydd yn ystod pandemic covid19<br>• Amgylchiadau penodol staff o ran anghenion a chyflyrau iechyd yn cael eu hystyried wrth drefnu tasgau gwaith, a chyswllt gyda Iechyd Galwedigaethol os oes angen.<br>• Staff sy'n Gwarchod i aros gartref neu weithio o gartref yn unol a chanllawiau cenedlaethol.<br>• Posteri ac arwyddion yn cael eu harddangos i atgoffa staff i gadw pellter 2m<br>• Pwysleisio'r angen i bawb warchod ei hun ac eraill<br>• Mae gweithwyr nad ydynt yn cydymffurfio ymbellhau cymdeithasol a gweithio'n ddiogel yn cael eu hatgoffa gan Reolwyr/trefn AD yn dilyn ar gyfer rhai sydd ddim yn cydymffurfio<br>• Staff i dderbyn copi o'r AR | 3E |

DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Darparu cinio<br><br>Defnyddio'r gegin | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i staff ddefnyddio'r gegin i ddarparu bwyd/panad<br><br>Diffyg hylendid da | 1B | • Dim ond caniatau un preson yn safle'r gegin ar y tro<br>• Sicrhau bod arwynebedd sy'n cael ei gyffwrdd yn cael ei ddi-heintio ar ol defnydd (ee microdonnau, tegell, handlen oergell, tapiau dŵr poeth /oer, ayb)<br>• Dim ond bwyd / diodydd eich hun a ganiateir, a dylid eu paratoi ymlaen llaw .<br>• Staff i beidio rhannu llestri a chyllyll a ffyrc. Unigolion i olchi / storio offer eu hunain<br>• Pawb i ddod a'u bwyd a'u diod i mewn mewn cynhwysyddion wedi eu selio am y tro er mwyn lleihau defnydd y ceginau i baratoi bwyd<br>• Staff i gludo diodydd poeth mewn fflasg er mwyn osgoi rhannu llefrith/potel llaeth | 3E |
| Swyddfeydd | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i staff rannu swyddfa | 1B | • Cyfrifo cynhwysedd y swyddfa - yn ôl cyfrifiadau cynhwysedd, gallai 56 m2 safonol gymryd 8 unigolion i ganiatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol o 2m.<br>• Dim mwy na xx% o staff i gael mynediad yr un pryd.<br>• Rhannu yr adeilad i mewn i barthau fel nad ydi staff o un perth yn cael gadael eu parth nhw eu hunain i grwydro yr adeilad. Hynny i atal lledaeniad yr haint trwy adeilad cyfa a cyfyngu ar yr ardal fyddai angen ei di-heintio petai aelod staff yn datblygu symptomau yn ystod y dydd.<br>• Mapio a marcio pellter cymdeithasol yn y swyddfa.<br>• Defnyddio rotas ac adnabod pa staff sydd angen bod yn y swyddfa er mwyn cyfyngu'r niferoedd i isafswm ar unrhyw un adeg.<br>• Sicrhau bod clo y drws a'r larwm yn cael ei ddi-heintio ar ol defnydd.<br>• A ellir cadw drysau (ar wahân i ddrysau tan, toiledau a diogelwch) ar agor i leihau lledaenu haint? | 1E |



DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Cadw at yr un cyd-gweithwyr i bod yn bresennol yn y swyddfa yr un adeg<br>• Sicrhau bod 2m rhwng pob gweithiwr.<br>• Sicrhau bod desgiau ddim yn wynebu ei gilydd yn uniongyrchol.<br>• Peidio â rhannu defnydd desgiau.<br>• Sicrhau fod prosesau diheintio mewn lle bob tro y gorffennir ac y cychwynnir gwaith.<br>• Staff i olchi dwylo cyn/wrth gyrraedd a gadael y swyddfa.<br>• Ni argymhellir defnyddio menig tafladwy yn y gweithle yn rheolaidd oherwydd mwy o debygolrwydd o ledaenu haint.<br>• Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth y DU yn cynghori defnyddio masgiau wyneb / gorchuddion arferol yn y gweithle ond gall gweithwyr eu gwisgo os dymunir.<br>• Anogir golchi dwylo'n rheolaidd gyda sebon a dŵr / geliau llaw yn unol â chanllawiau'r GIG. | |
| Cyfarfodydd | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i staff gyfarfod wyneb i wyneb | 1B | • Cynnal cyfarfodydd rhithwir arlein fel dull cyfarfod – e.e. Microsoft Teams.<br>• Os oes angen cyfarfod wyneb i wyneb - ar gyfer tasgau penodol / amgylchiadau eithriadol pan nad yw cyfarfodydd rhithwir arlein yn bosib - yna cyfyngu niferoedd yn unol a maint yr ystafell a chadw pellter cymdeithasol o 2m drwy gydol y cyfarfod<br>• Agor ffenestr yr ystafell i gynyddu awyriant<br>• Gwneud defnydd o cyfrwng technoleg i leihau’r angen i rannu papurau e.g. rhannu sgrin, pecynnau cyn gyfarfod yn cael eu lawrlwytho/danfon yn electroneg, ayb. | 1E |
| Cyrraedd a symud o gwmpas yr adeilad | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i staff symud o gwmpas yr adeilad | 1B | • Creu system un ffordd o fewn yr adeilad<br>• Arwyddion clir ar gyfer trefniadau mynediad i adeilad ar gyfer staff (a’r cyhoedd os yn berthnasol) | 1E |



DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Os oes angen ciwio i gael mewn i adeilad – llawr wedi ei farcio i ddangos y pellter dylid ei gadw<br>• Os yw unigolyn arall eisiau defnyddio'r grisiau yna bydd angen aros i un ochr i sicrhau fod 2m yn cael ei gadw pob amser. | |
| Derbynfa | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1B | • Cyfyngu ar y nifer aelod staff/ cyhoedd sy'n cael bod yn y dderbynfa ar unrhyw un adeg<br>• Aelod o staff sydd wedi ei ddynodi ar gyfer defnyddio y weithfan i ddefnyddio'r ffôn yn unig.<br>• Holl staff ac ymwelwyr i ddefnyddio yr un fynedfa er mwyn cadw trefn ar fynd a dod i'r adeilad ac i osgoi mynediad gan y cyhoedd heb apwyntiad.<br>• Y brif fynedfa yn y Cyntedd i weithredu system pellter cymdeithasol gyda marciau llawr a shifftiau penodol i'r timau gyrrwyr sy'n defnyddio'r gofod.<br>• Defnydd o sgriniau acrylig pan fo cyswllt gyda'r cyhoedd i osgoi heintiad wyneb yn wyneb | 1E |
| Toiledau | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1B | • Trefnu bod y toiledau'n cael eu glanhau'n gyson<br>• Rheoli nifeoredd sy'n gallu defnyddio'r toiledau.<br>• Sicrhau cyflenwad digonol o sebon golchi dwylo a thywelion dychu dwylo<br>• Glanhau cyson a sicrhau fod digon o sebon a thywelion papur mewn lle.<br>• Gwahardd defnydd cyhoeddus o doiledau staff | 1E |
| Hylendid Dwylo | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1B | • Golchi dwylo'n rheolaidd gyda sebon a dŵr / geliau llaw yn unol â chanllawiau'r GIG<br>• Geliau llaw yn cael eu cadw mewn lle addas allan o olau neu wres uniongyrchol | 1E |



DRAFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Trin eitemau gan y cyhoedd | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth drin eitemau gan y cyhoedd | 1C | • Golchi dwylo am o leiaf 20 eiliad wedi trin eitemau gan aelodau'r cyhoedd<br>• Os nad oes bosib golchi dwylo – yna defnyddio gel dwylo addas ar ol trin eitemau'r cyhoedd | 1E |
| Rhannu offer swydda | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1C | • Osgoi'r angen i rannu offer swyddfa cyn belled a phosibl<br>• Di-heintio offer sy'n cael ei rannu<br>• Darparu cynhyrchion glanhau addas i staff lanhau'r ardal / offer (ee desgiau, bysellfyrddau, ffonau, llungopiwr) cyn ac ar ôl iddynt ei ddefnyddio. | 1E |
| Awyriant | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1C | • Agor ffenestri/drysau allannol ble bo'n bosib<br>• Cynyddu'r awyriant yn yr adeilad<br>• Sicrhau bod awyriant yn dod a chyflenwad ffres o awyr i'r adeilad ac ddim yn ail-gylchdroi'r aer. | 1E |
| Ymwelwyr | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i ymwelwyr ymweld â'r swyddfa | 1C | • Cyfyngu ar nifer yr ymwelwyr a dim ond gyda chytundeb ymlaen llaw yr UDA y caniateir hynny<br>• Ymwelwyr i ddilyn y canllawiau - mae'n ofynnol i'r ymwelwyr i gwblhau'r daenlen log fel y staff<br>• Hylif diheintio dwylo a chanllawiau ar weithdrefnau'r staff ar gael i bob ymwelydd.<br>• Pob ymwelydd i fod wedi'i drefnu o flaen llaw. | 1E |
| Nwyddau | Afiechyd yn cael ei ledaenu wrth i nwyddau gael eu cludo i'r swyddfa | 1C | • Cyfyngu ar y nifer a sicrhau fod y sawl sy'n cludo yn dilyn y canllawiau<br>• Prynu troliau i gario parseli trwm.<br>• Dylai'r aelod staff gymryd y gofal angenrheidiol a sicrhau ei fod yn golchi ei ddwylo'n drylwyr wrth gasglu / dadbacio'r nwyddau.<br>• Lleihau cyswllt wrth ddanfon parseli/cyfnewid dogfennau a defnyddio llofnod/taliadau electronig ble'n bosibl | 1E |



DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Person enwebedig yn casglu'r post/parseli a rhoi cadach efo hylif diheintio drostynt. | |
| Contractwyr ar safle | Afiechyd yn cael ei ledaenu | 1C | • Gofyn i gontractwyr ddod i'r safle pan mae'r safle yn wag neu'n dawel<br>• Sicrhau fod contractwyr ond yn dod i mewn i'r gweithle pan fo hynny'n hanfodol a'u bod yn cadw at yr holl fesurau a roddwyd ar waith mewn perthynas â phellter cymdeithasol, hylendid ac ati.<br>• Dim ond gwaith hanfodol cynnal a chadw i'w wneud.<br>• Sicrhau fod y contractwr wedi darparu asesiad risg addas ar gyfer ymgymryd ag unrhyw waith.<br>• Cytuno ar reolau a phrotocolau safle gyda'r rheolwr safle | 1E |
| Lles Meddyliol | Effaith ar les meddyliol unigolion | 1B | • Cynnal asesiadau unigol gyda'r staff i'w paratoi.<br>• Mynediad i wasanaeth cwnsela Medra a'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol ar gyfer gweithwyr sydd ei angen<br>• Sicrhau fod y staff yn ymwybodol o'r gwasanaethau a chynnwys gwybodaeth ar y mewnrwyd. | 1E |
| Teithio yn y gwaith | Haint yn cael ei drosglwyddo oherwydd bod staff yn rhannu cerbydau yn y gwaith | 1B | • Dim ond un aelod o staff i deithio mewn cerbyd, a chael aelod(au) eraill i ddilyn mewn car arwahan er mwyn osgoi'r angen i rannu cerbyd.<br>• Dilyn asesiad risg penodol ar deithio gan y Gwasanaeth<br>• Ni ddylai gweithwyr rannu car (oni bai eu bod yn byw yn yr un tŷ).<br>• Rhaid cadw pellter cymdeithasol yn y maes parcio efo digon o le rhwng cerbydau a fydd yn lleihau faint o geir all barcio yno.<br>• Rhaid cadw pellter cymdeithasol yn y maes parcio/mannau danfon efo digon o le rhwng pobl/cerbydau. | 1E |

DRAFFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

*Risg = Tebygolrwydd + Canlyniad. Gweler 6.2b – Matrics Asesu Risg

| Nodiadau ar Gyfer Gweithredu / *Notes for Implementation* | Person Cyfrifol *Responsible Person* | Cwblhau Erbyn *Complete By* |
|---|---|---|
| 1. Cyfeirio at asesiad risg "Diffyg darpariaeth cymorthyddion cyntaf yn ystod pandemic covid19" os nad oes cymhorthydd cyntaf ar gael. | | |
| 2. Creu cofrestr staff sydd yn 'fregus'. Holiadur bregusrwydd / Asesiad risg unigol yw cwblhau gydag aelodau staff sydd wedi bod gartref ohewrydd shielding neu gyflyrau meddygol yn ystod covid19. Cynghori fel yr angen o ran trefniadau sydd angen ei weithredu yn dilyn cwblhau'r holiadur / asesiad risg. | | |
| 3. Cynnal sgyrsiau unigol gyda staff i'w paratoi a'u cynghori o ran y trefniadau sydd angen eu dilyn. | | |
| 4. Sicrhau cyflenwad digonol o sebon, sanitiser a deunyddiau glanhau a diheintio offer swyddfa. | | |
| 5. Sicrhau cyflenwad digonol o arwyddion ar gyfer y swyddfa. | | |
| 6. Mapio a marcio pellter cymdeithasol yn y swyddfa a sicrhau fod arwyddion perthnasol yn cael ei arddangos – e.e. posteri ac arwyddion yn cael eu harddangos i atgoffa staff i gadw pellter 2m, arwyddion clir ar gyfer trefniadau mynediad i adeilad ar gyfer staff (a'r cyhoedd os yn berthnasol), arwyddion i nodi cyfyngder defnyddwyr. | | |
| 7. Sefydlu system unffordd drwy'r swyddfa ac/neu goridorau wedi'i marcio'n glir ar gyfer cerdded ar yr ochr chwith yn unig. | | |
| 8. Sicrhau cyflenwad digonol o offer PPE ar gyfer Cymorth Cyntaf. | | |
| 9. Rhannu yr adeilad i mewn i barthau fel nad ydi staff o un perth yn cael gadael eu parth nhw eu hunain i grwydro yr adeilad. Hynny i atal lledaeniad yr haint trwy adeilad cyfa a cyfyngu ar yr ardal fyddai angen ei di-heintio petai aelod staff yn datblygu symptomau yn ystod y dydd. | | |
| 10. Adnabod pa staff sydd angen bod yn y swyddfa er mwyn cyfyngu'r niferoedd i isafswm ar unrhyw un adeg. | | |

DRAFFT

# COVID-19 – Cadw Cymru yn Ddiogel yn y Gwaith

| | | |
|---|---|---|
| 11. Llunio rota's i gyfyngu'r niferoedd i isafswm yn y swyddfa ar unrhyw un adeg pan fydd hi'n briodol i wneud hynny. | | |
| 12. Gosod sgrins yn y swyddfeydd i osgoi heintiad wyneb yn wyneb. | | |
| 13. Cyfrifo cynhwysedd y swyddfa. | | |
| 14. Symud desgiau i sicrhau bod 2m rhwng pob gweithiwr a bod desgiau ddim yn wynebu ei gilydd yn uniongyrchol. | | |
| 15. Ail drefnu'r hot desks i sicrhau bod 2m rhwng pob gweithiwr a bod desgiau ddim yn wynebu ei gilydd yn uniongyrchol. | | |
| 16. Mesur ystafelloedd cyfarfod er mwyn adnabod nifer o unigolion a all fynychu - cyfyngu ar y nifer aelod staff sy'n cael bod yn y yr ystafell ar unrhyw un adeg. | | |
| 17. Sicrhau mynediad i Asesiadau Risg asiantaethau eraill. | | |
| 18. Bydd angen edrych ar y mesurau o ran glanhau, golchi dwylo, toiledau, arlwyo a defnydd o'r gofod cymdeithasol. | | |
| 19. Gwirio gyda'r Rheolwyr Safle fod yr holl wiriadau iechyd a diogelwch wedi'u cwblhau ar ôl cyfnod o gau fel clefyd Legionnaire, profi larymau tân a systemau chwistrellu dŵr, tynnu llwch ac ati. Bydd angen cysylltu gyda'r ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch am asesiad cyfansawdd. | | |
| 20. Canllawiau eglur ar ofynion cadw pellter cymdeithasol - angen rhoi arweiniad pendant i bawb ar gadw pellter cymdeithasol yn y swyddfa. Mae angen rhannu unrhyw ganllawiau diwygiedig mewn da bryd â'r holl staff. | | |
| 21. Trefn bendant ar gyfer dod i mewn i'r swyddfa - sefydlu system unffordd a.y.b. | | |
| 22. A ellir cadw drysau (ar wahân i ddrysau tan, toiledau a diogelwch) ar agor i leihau lledaenu haint. | | |
| 23. Cynyddu oriau glanhau a chanolbwyntio ar arwynebau, drysau a mannau cyffredin. Cynyddu oriau glanhau i sicrhau bod yr holl arwynebau yn cael eu glanhau yn drylwyr ar ddiwedd y diwrnod. | | |
| 24. Prynu troliau i gario parseli trwm. | | |
| 25. Adolygu Asesiad Risg Tân. Cadw pellter cymdeithasol wrth wagio'r adeilad, os yn ymarferol. Cadw pellter cymdeithasol mewn man ymgynnull tân. | | |

| | | |
|---|---|---|
| 26. Bydd angen diweddaru wrth i'r sefyllfa ddeinamig hon newid a bydd angen cyfleu unrhyw newid mewn statws mewn da bryd cyn i'r statws newydd ddechrau. | | |
| 27. Gosod strwythur adolygu AR i sicrhau craffu a chymeradwyaeth gan y Bwrdd Rheoli / Cydbwyllgor. | | |

DRAFFT

# COVID-19 – Asesiad Risg ar gyfer ymweld ag ysgolion

**Disgrifiad o'r hyn sy'n cael ei asesu**



***ASESIAD RISG ENGHREIFFTIOL yw hwn - Nid yw popeth wedi'i gynnwys ar y templed, ond gellir ei ddefnyddio i ddatblygu ymhellach asesiad risg i gyd-fynd â'ch amgylchiadau.***

***Mae angen i bob aelod o'r tîm gynnal eu hasesiad risg eu hunain, yn unol â'u gweithgareddau gwaith.***

***Mae'r farn am y risg sydd mewn coch yno i roi syniad yn unig. Ewch ati i asesu a sgorio'r risgiau, ar sail eich gwybodaeth a'ch gweithgareddau gwaith.***

## Asesiad Risg ar gyfer ymweld ag ysgolion

**(Darllenwch ochr yn ochr â'r Asesiad Unigol ac asesiadau risg COVID-19 penodol yr ysgol).**

- Mae angen asesiad risg a mesurau rheoli ar gyfer gweithwyr addysg peripatetig er mwyn gallu ail gydio mewn gweithgareddau arferol yn raddol.
- Mae dychwelyd i'r gwaith yn dibynnu ar ganllawiau'r Llywodraeth a mesurau rheoli am amser amhenodol.
- Drwy'r sylw sydd yn y wasg a chanllawiau GwE, mae pob gweithiwr yn ymwybodol o symptomau Covid-19, gofynion cadw pellter cymdeithasol a rhagofalon golchi dwylo/hylendid personol.

DRAFFT

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | | **Adran/tîm** | | **Dyddiad adolygu** | / / | / / | / / |
| **Aseswr(wyr)** | | **Dyddiad asesu** | / / | **Gan** | | | |

# COVID-19 – Asesiad Risg ar gyfer ymweld ag ysgolion



DRAFFT

| Adnabod y Peryglon sylweddol | Adnabod pwy allai gael ei niweidio a sut<br><br>(Rhowch fras amcan o nifer y bobl y mae'r perygl yn effeithio arnynt) | • Adnabod sut mae'r risg yn cael ei rheoli ar hyn o bryd<br><br>• (Os ydych chi'n cynllunio gweithgaredd newydd, beth wnewch chi i reoli'r risg?) | Asesu lefel y risg efo'r mesurau rheoli | | | Nodi unrhyw gamau gweithredu eraill<br><br>(Mae'r camau hyn yn bethau y gallech chi neu y dylech chi wneud, efallai byddant yn lleihau'r risg ymhellach neu ddim o gwbl). | Lefel y risg wedi unrhyw fesurau rheoli ychwanegol | | | Gweithredu gan | Dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Lefel y risg U / C / I | | Difrifoldeb | Tebygolrwydd | Lefel y risg U / C / I | | |
| **Dal neu Drosglwyddo COVID-19 drwy deithio ar draws y rhanbarth a nifer o ymweliadau safle** | **Pwy**: Gweithiwr Peripatetig, Cydweithwyr Ysgol, Dysgwyr o'r Ysgol, Teulu Dysgwyr<br><br>**Sut**: Dal/Trosglwyddo COVID-19 drwy ddod i gyswllt agos ag amryw o grwpiau/carfanau ac ymweliadau rhwng amryw o safleoedd. | • Ymwybyddiaeth bersonol o symptomau COVID-19.<br>• Cyfrifoldeb personol am fonitro eich iechyd a'ch ffitrwydd (a hunan ynysu os bydd unrhyw arwyddion o symptomau COVID-19).<br>• Dilyn canllawiau cenedlaethol ar gadw pellter cymdeithasol.<br>• Sylw manwl i olchi dwylo'n rheolaidd, diheintio, a ffyrdd eraill o atal (e.e. hylendid wrth dagu/tisian).<br>• Sylw manwl i ddilyn y rheolau ar safleoedd. | 5 | 2 | 10 (C) | • Parhau i gadw llygad ar ganllawiau cenedlaethol a chanllawiau GwE ac ymateb yn briodol. | | | | | |
| **Gwybodaeth a Chyfarwyddiadau ar Reolau/Polisïau'r Safle**<br><br>**Diffyg gwybodaeth yr unigolyn am y safle** | **Pwy**: Gweithwyr Peripatetig, Cydweithwyr Ysgol, Dysgwyr yr ysgol. | • Ymwybyddiaeth o asesiadau risg a rheolau/polisïau'r safle cyn mynd yno. | 5 | 2 | 10 (C) | • Parhau i gadw llygad ar ganllawiau cenedlaethol a chanllawiau GwE ac ymateb yn briodol. | | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Sut**: Methu dilyn rheolau/protocolau y safle.<br>Lledaenu'r haint o bosibl rhwng safleoedd. | • Trafod unrhyw faterion penodol nad ydynt wedi'u nodi yn rheolau'r safle â'r Pennaeth/UDA cyn mynd i'r safle.<br>• Ymwybyddiaeth o symptomau COVID-19 ac iechyd/ffitrwydd personol i fynd i'r gwaith. (Ni ddylai unigolion sydd â symptomau fynd i'r gweithle). | | | | | | | | | |
| **Cludiant/mynediad i'r safle** | **Pwy**: Gweithiwr<br><br>**Sut**: Lledaenu'r haint o bosibl<br>(cyswllt wyneb yn wyneb/cyffwrdd ag arwynebau ac ati) | • Dylai gweithwyr fynd i'r safle gan ddefnyddio eu cludiant eu hunain yn hytrach na thrafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Ni ddylai gweithwyr rannu car (oni bai eu bod yn byw yn yr un tŷ).<br>• Gweithiwr i sicrhau bod arwynebau tu mewn/handlenni y cerbyd, ac ati, yn lân.<br>• Gofalu bod diheintio digonol yn digwydd wrth gyrraedd/gadael y cerbyd. | 5 | 2 | 10 (C) | • Gofalu bod hylif diheintio/cadachau hylan ar gael i'w defnyddio mewn cerbydau. | | | | | |
| **Cyrraedd/gadael adeiladau'r ysgol** | **Pwy**: Gweithwyr Peripatetig, Cydweithwyr Ysgol, Dysgwyr yr Ysgol.<br><br>**Sut**: Lledaenu'r haint o bosibl drwy gyswllt wyneb yn | • Rhaid trefnu pob ymweliad o flaen llaw efo'r safle.<br>• Wrth gyrraedd y safle, ewch at y Pennaeth/Brif Swyddfa i ddweud eich bod wedi cyrraedd ar | 5 | 2 | 10 (C) | | | | | | |

DRAFFT

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | wyneb/arwynebau wedi'u heintio. | gyfer gofynion 'Profi, olrhain, diogelu'.<br>• Dilyn holl reolau'r safle wrth ddod i gyswllt â dysgwyr, cadw pellter cymdeithasol, golchi dwylo/hylendid, cyfarpar diogelu personol a gorchudd wyneb.<br>• Os nad yw'n ymarferol cadw pellter cymdeithasol, ystyriwch ddefnyddio gorchudd wyneb. | | | | | | | | | |
| **Ymdrin â Gwrthrychau / Eitemau / Gwaith Papur** | **Pwy**: Gweithwyr Peripatetig, Cydweithwyr Ysgol, Dysgwyr yr Ysgol.<br><br>**Sut**: Lledaenu'r haint o bosibl drwy gyswllt wyneb yn wyneb/arwynebau wedi'u heintio. | • Ni ddylai staff afael yn llyfrau'r disgyblion. Os ydynt ar gael, dylai'r staff ystyried adolygu llyfrau trwy ddull arall (e.e. *visualiser)*<br>• Dim ond yn electronig y dylai staff adolygu gwaith papur ysgol, gan gynnwys CDY<br>• Ni ddylai staff fynd â deunyddiau i'r ysgol na chymryd deunyddiau allan o'r ysgol. | 5 | 2 | 10 (C) | Parhau i gadw llygad ar ganllawiau cenedlaethol a chanllawiau GwE ac ymateb yn briodol. | | | | | |

| Matrics Risg | | Difrifoldeb | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 Ansylweddol | 2 Bach | 3 Cymedrol | 4 Mawr | 5 Trychinebus |
| Tebygolrwydd | 1 Annhebygol | Isel iawn | Isel | Isel | Isel | Canolig |
| | 2 Prin | Isel | Isel | Canolig | Canolig | Canolig |

# COVID-19 – Asesiad Risg ar gyfer ymweld ag ysgolion

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **3 Posibl** | **Isel** | **Canolig** | **Canolig** | **Canolig** | **Uchel** |
| | **4 Tebygol** | **Isel** | **Canolig** | **Canolig** | **Uchel** | **Uchel** |
| | **5 Tebygol iawn** | **Canolig** | **Canolig** | **Uchel** | **Uchel** | **Uchel iawn** |
| **Enghreifftiau o Ddifrifoldeb** | | | | | | |
| **Mathau o Risg** | **Anaf** | Anaf dibwys ond werth cofnodi | Mân grafiadau, lympiau a chleisiau | Anaf efo effaith tymor byr neu ymweliad â'r ysbyty | Digwyddiad Lefel RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus) | Un farwolaethu neu fwy |
| | **Difrod/Colled** | Difrod dibwys ond werth cofnodi | Difrod bach i adeilad neu gyfarpar | Difrod i gyfarpar neu eiddo - effaith tymor byr | Colli cyfleuster neu gyfarpar dros dro | Colli adeilad neu gyfarpar yn gyfan gwbl. |
| | **Effaith ar wasanaethau** | Effaith ddibwys ond werth cofnodi | Effaith ar rai gwasanaethau/dinasyddion | Effaith amlwg ar wasanaeth/dinasyddion | Effaith niweidiol ar wasanaeth/dinasyddion | Colli gwasanaeth/cysylltiadau cyhoeddus andwyol |

DRAFFT

# ADNODD ASESU RISG COVID-19 CYMRU GYFAN AR GYFER Y GWEITHLU ADDYSG, GOFAL PLANT, GWAITH CHWARAE, GWAITH IEUENCTID A LLEOLIADAU ADDYSG BELLACH – FFURFLEN GYFRINACHOL AR ÔL CAEL EI LLENWI

Mae'r diagram isod yn dangos y broses y bydd angen i bob aelod o staff ei ddilyn.




Cwblhewch y ffurflen isod, sef cam 2 y broses, a rhannwch y canlyniadau gyda'ch rheolwr llinell. Os yw eich sgôr yn 4 neu uwch yna mae angen i chi drafod unrhyw gymorth ac addasiadau y gallai fod eu hangen i reoli'r risg.

Pan fyddwch wedi'i llenwi, a fyddech cystal â'i hanfon at anwengwilym@GwEGogledd.Cymru.

**ADRAN 1: MANYLION YR AELOD STAFF – Y GWEITHIWR CYFLOGEDIG I LENWI'R ADRAN HON**

| |
|---|
| ***Gwybodaeth Diogelu Data:*** *Bydd yr holl wybodaeth a roddir yn y ddogfen hon yn cael ei chadw'n gyfrinachol ac yn ddiogel yn unol â GDPR a Deddf Diogelu Data 2018). Bydd eich rheolwr llinell a'r Uwch Dîm Arwain yn gallu gweld yr wybodaeth hon. Os bydd addasiadau rhesymol yn angenrheidiol, mae'n bosibl y bydd yr wybodaeth amlwg (fel yr angen am gyfarpar diogelu personol ychwanegol) ar gael yn unig i unigolion ar 'sail angen i wybod' er mwyn eich cefnogi chi'n well yn y gwaith. Os oes risg yn cael ei hadnabod naill ai i chi neu i rywun arall, mae gennym ddyletswydd gofal i ddatgelu'r wybodaeth hon i'r awdurdodau perthnasol. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i'ch cynnwys chi yn y penderfyniad hwn, ond efallai na fydd hynny bob amser yn bosibl.* |

**1.0** Ydych chi'n rhoi caniatâd i'ch data gael eu cofnodi yn unol â'r datganiad uchod?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

| | |
|---|---|
| **Enw cyntaf** | |
| **Cyfenw** | |
| **Dyddiad yr hunan-ddatganiad** | |
| **Llofnod** | |

***Os bydd eich amgylchiadau'n newid yng nghyswllt unrhyw rai o'r ffactorau risg isod, eich cyfrifoldeb chi fel unigolyn yw adolygu'r hunan-ddatganiad, ei lenwi a'i anfon at [anwengwilym@GwEGogledd.Cymru](mailto:anwengwilym@GwEGogledd.Cymru)***

## 2.0 HUNAN-DDATGANIAD: FFACTORAU RISG – I'W LENWI GAN Y GWEITHIWR CYFLOGEDIG

Atebwch yr holiadur isod mor gywir ag y gallwch chi. Cewch roi cyfanswm y sgôr yn unig os nad ydych chi'n dymuno datgelu unrhyw gyflyrau unigol.

| | Ffactor risg | Sgôr risg | Sgôr |
|---|---|---|---|
| **2.1** | **Oedran – Mae'n ymddangos bod COVID-19 yn cael mwy o effaith ar bobl hŷn** | | |
| | Os ydych chi rhwng 50 a 59 oed | 1 | |
| | Os ydych chi rhwng 60 a 69 oed | 2 | |
| | Os ydych chi'n 70 oed neu'n hŷn | 4 | |
| **2.2** | **Rhywedd adeg geni – Mae'n ymddangos bod COVID-19 yn cael mwy o effaith ar ddynion na menywod** | | |
| | Dyn | 1 | |
| **2.3** | **Ethnigrwydd – Mae'n ymddangos bod COVID-19 yn cael mwy o effaith ar bobl o rai cefndiroedd ethnig** | | |
| | Ydych chi'n ystyried eich hun yn aelod o un o'r grwpiau BAME neu hil gymysg a nodir yn y ddolen hon? | 1 | |
| **2.4** | **Cyflyrau Meddygol Presennol (cydafiachedd) – Mae'n ymddangos bod COVID-19 yn cael mwy o effaith os oes gennych chi gyflyrau iechyd eraill eisoes. Efallai yr hoffech siarad â'ch meddyg teulu os nad ydych chi'n siŵr am y cwestiynau hyn.** | | |
| | **Clefyd cardiofasgwlaidd**<br>Ydych chi'n cael unrhyw driniaeth ar gyfer gorbwysedd (pwysedd gwaed uchel), Ffibriliad Atrïaidd (cyfradd curiad y galon yn afreolaidd), Methiant y galon, Cnawdnychiant Myocardiaidd blaenorol (wedi cael trawiad ar y galon), wedi cael strôc neu Bwl Ischaemig Byrhoedlog (mân strôc)? | 1 | |
| | **Diabetes mellitus** Math 1 neu 2 | 1 | |
| | **Clefyd cronig yr ysgyfaint** (gan gynnwys asthma, COPD, clefyd interstitaidd yr ysgyfaint) | 1 | |
| | **Clefyd cronig yn yr arennau** (unrhyw gam rhwng 1 a 5) | 1 | |
| | **Nodwedd y crymangelloedd, nodwedd thalasaemia neu haemoglobinopathi arall** | 1 | |
| **2.5** | **Gordewdra – Mae'n ymddangos bod COVID-19 yn cael mwy o effaith ar bobl sydd dros bwysau** | | |
| | Bydd y ddolen hon yn eich helpu i gyfrifo eich BMI – os yw eich BMI dros 30 NEU os yw o amgylch eich canol yn mesur fel hyn:<br>Dros 33 modfedd (84cm) i fenywod o gefndir De Asiaidd; dros 34.5 modfedd (88cm) i fenywod o gefndir BAME arall neu i fenywod o gefndir gwyn | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dros 35 modfedd (89cm) i ddynion o gefndir De Asiaidd; dros 40 modfedd (102cm) i ddynion o gefndir BAME arall neu i ddynion o gefndir gwyn | | |
| **2.6** | **Hanes y teulu – Mae’n ymddangos bod rhai pobl, yn enwedig gefeilliaid, yn fwy tueddol o gael COVID-19 am resymau teuluol.** | | |
| | A oes aelod o’ch teulu agosaf (rhiant o dan 70 oed, brawd, chwaer neu blentyn) wedi bod yn yr uned therapi dwys neu wedi marw â COVID-19? | 1 | |
| | | **Cyfanswm y sgôr** | |

**Adnodd Asesu Risg COVID-19 Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu addysg, gofal plant, gwaith chwarae, gwaith ieuenctid a lleoliadau addysg bellach – cyfrinachol ar ôl ei gwblhau**

Cam 2 **Deall eich risg – yr hyn y mae eich sgôr yn ei olygu yn eich lleoliad gwaith**

| | Sgôr | | |
|---|---|---|---|
| **Lleoliad Gwaith** | **Risg Isel 0-3** | **Risg Uchel 4-6** | **Risg Uchel Iawn 7 neu uwch** |
| **Addysg**<br>**Gofal Plant**<br>**Gwaith chwarae**<br>**Gwaith ieuenctid**<br>**Addysg Bellach (mewn coleg)** | Parhau i weithio a dilyn yr holl fesurau hylendid a chadw pellter cymdeithasol a argymhellir | Defnyddiwch hierarchaeth o reolaethau i liniaru risgiau:<br>➢ Cadwch 2m oddi wrth eraill<br>➢ ystyried defnydd priodol o orchuddion wyneb lle mae pellter cymdeithasol yn annibynadwy<br>➢ sicrhau hylendid dwylo a hylendid adnodd<br>➢ aros gartref a trefnu prawf os daw symptomau i'r amlwg<br>Cyfeiriwch at enghreifftiau o arfer da yn y canllawiau. | **Gallwch fynd i'r gwaith, cyn belled â bod y gweithle yn ddiogel – ond parhewch i weithio o gartref os gallwch.**<br>**Sicrhau phellterau cymdeithasol 2m llym.**<br>**Cyfeiriwch at enghreifftiau o arfer da yn y canllawiau.** |

Nawr trefnwch amser i drafod hyn â'ch rheolwr llinell er mwyn cytuno ar gynllun a sicrhau y cewch eich diogelu'n briodol. Gall hyn gynnwys trafodaeth â'r adran Iechyd Galwedigaethol.

Os ydych angen rhagor o gymorth yna cwblhewch Cam 3 isod a thrafodwch gyda'ch rheolwr llinell. Bydd y ffurflen yn cael ei rhannu gydag Uwch Dîm Arwain GwE er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch cymorth yn ôl yr angen i chi gwblhau eich gwaith.

**Adnodd Asesu Risg COVID-19 Cymru Gyfan ar gyfer y Gweithlu addysg, gofal plant, gwaith chwarae, gwaith ieuenctid a lleoliadau addysg bellach – cyfrinachol ar ôl ei gwblhau**

Cam 3 **Nodi'r camau gweithredu sy'n addas i chi**

Gan eich bod bellach wedi cyfrifo eich sgôr yn yr Asesiad Risg COVID-19, dylech drafod â'ch rheolwr llinell, yr adran Iechyd Galwedigaethol, tîm y gweithlu, eich cynrychiolydd undeb neu eiriolwr er mwyn sicrhau y cewch eich diogelu'n briodol.

**Pethau y gallaf eu gwneud fy hun**

Gwnewch y pethau pwysig i'ch cadw'n ddiogel yn y gweithle

- Cynnal hylendid dwylo da, gan ddefnyddio sebon a dŵr neu gel sy'n cynnwys alcohol yn aml.
- Cynnal pellter o 2 fetr, pan fo'n briodol gwneud hynny, i leihau'r risgiau o ymlediad COVID 19, mewn gweithgaredd ffurfiol ac anffurfiol yn y gweithle. Defnyddio cyfarpar diogelu personol a nodwyd ar gyfer eich rôl a gwybod sut i'w ddefnyddio'n briodol.
- Bodloni'r gofynion ynysu ar gyfer achosion hysbys neu bosibl o COVID-19.
- Sicrhau hylendid dwylo a hylendid adnodd/byrddau a.y.y.b

**Pethau y gall fy nghyflogwr fy helpu i'w gwneud**

- Bydd eich rheolwr llinell neu'ch cynrychiolydd undeb yn eich helpu i ddefnyddio'r adnoddau a nodi'r camau gweithredu sy'n addas i chi.
- Gwneud addasiadau
  - ➢ A all rhai o'ch dyletswyddau, neu bob un ohonynt, gael eu cyflawni mewn ffordd wahanol?
  - ➢ A ellir gwneud addasiadau er mwyn eich galluogi i weithio'n ddiogel?
    - Lleihau gwaith grŵp i garfannau llai
    - Ymgymryd â gwaith awyr agored
    - digidol ac allgymorth
  - ➢ A ellir lleihau neu osgoi cyswllt wyneb yn wyneb
  - ➢ Sicrhau mesurau priodol i gadw pellter corfforol yn y gweithle
  - ➢ A fydd addasiadau yn eich galluogi i weithio gartref?

**Cam 4**

Bydd angen adolygu unrhyw gynllun y cytunwyd arno'n rheolaidd. Cwblhewch y canlynol pan fyddwch yn gwneud unrhyw addasiadau.

| | |
|---|---|
| **Pa addasiadau rhesymol sydd wedi'u nodi a'u rhoi ar waith i liniaru'r risgiau a nodwyd ar eich cyfer?** | |
| **Dyddiad adolygu:**<br><br>***Gall hyn fod yn seiliedig ar amser neu gael ei ysgogi gan ddigwyddiad sy'n effeithio ar eich amgylchiadau*** | |
| **Dyddiad cyflwyno'r addasiadau:** | |
| **Llofnod (staff):** | |
| **Llofnod (rheolwr llinell):** | |

Mae rhagor o arweiniad i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon ar gael yn https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-08/adnodd-asesu-risg-covid-19-ar-gyfer-y-gweithlu-addysg-lleoliadau-plant-ieuenctid-2020-08-13.pdf

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 MEDI 2020**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE** |
| **Pwnc:** | **Adolygiad Annibynnol - Cymwysterau 2020** |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 I godi ymwybyddiaeth y Cyd-bwyllgor o'r Adolygiad Annibynnol o ddyfarnu Cymwysterau yng Nghymru yn 2020.

## 2.0 Cefndir

2.1 Dydd Llun , 17 Awst 2020, cadarnhaodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, y bydd graddau Safon Uwch, Safon UG, TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yng Nghymru bellach yn cael eu dyfarnu ar sail Graddau Asesu Canolfannau ac y byddai'n gwneud datganiad pellach ar adolygiad annibynnol o'r digwyddiadau yn dilyn canslo'r arholiadau eleni.

2.2 Yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 18 Awst 2020, nododd y Gweinidog Addysg y bydd yn comisiynu adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau cyfres arholiadau haf 2020, a'r ystyriaethau ar gyfer 2021. Bydd yr adolygiad yn cael ei gadeirio gan Louise Casella, Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru sydd â phrofiad helaeth mewn rolau strategol o fewn y sector addysg yng Nghymru.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Bydd yr adolygiad yn ystyried cwestiynau allweddol sydd wedi codi yn sgil y trefniadau a sefydlwyd ar gyfer cymwysterau yr haf hwn, a'r heriau a wynebwyd yn 2020. Bydd yr adolygiad yn darparu argymhellion a nodi materion i'w hystyried ar gyfer 2021.

3.2 Bydd adroddiad interim o'r prif ganfyddiadau yn cael ei ddarparu erbyn diwedd Hydref, ac adroddiad terfynol ac argymhellion erbyn canol Rhagfyr.

3.3 Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r materion a godwyd gan y rhanbarth mewn perthynas â sgôp yr adolygiad, y broses ei hun a'r materion i'w hystyried wrth symud ymlaen.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys y papur a sicrhau mewnbwn i'r adolygiad annibynnol.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE, Cydbwyllgor GwE a'r Grŵp Gweithredol Uwchradd Rhanbarthol o benaethiaid.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 – Adolygiad Annibynnol o Gymwysterau 2020 – materion i'w hystyried.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Felly, does gen i ddim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Adolygiad Annibynnol o Gymwysterau yng Nghymru 2020**

**Materion i'r Adolygiad eu hystyried**

**Sgôp**

- Beth yw pwrpas moesol system gymwysterau effeithiol?
- I ba raddau oedd tryloywder a chyfathrebu agored â rhanddeiliaid allweddol?
- Sut mae'r digwyddiadau diweddar wedi effeithio:
    - Hyder pobl ifanc yn y system addysg
    - Morâl Penaethiaid ac Athrawon
    - Ymddiriedaeth y proffesiwn yn LlC, CC a CBAC
- Sut mae, a sut bydd partneriaid unigol yn cael eu dwyn i gyfrif am ansawdd eu penderfyniadau, eu tryloywder a'u cyfathrebu?
- A yw rolau a chyfrifoldebau CC a CBAC wedi'u hegluro'n glir wrth benderfynu ar y cyfeiriad strategol ac yna gweithredu'r broses gymwysterau?
- Beth oedd y prosesau gwneud penderfyniadau a arweiniodd at ddisgrifio'r algorithm fel un teg a chadarn?
- Sut y gellir adfer ymddiriedaeth rhwng rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys pobl ifanc a'r cyhoedd, a CBAC, CC a LlC?
- Sut fydd hyn yn effeithio ar ddyfodol pobl ifanc i'r proffesiwn addysg?
- Pa gamau sydd angen eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw'r sefyllfa hon yn codi eto?

**Materion am y broses**

- Pa asesiadau effaith a wnaed cyn penderfynu ar eu dewis o algorithm?

- Pa risgiau a adnabuwyd ar ôl penderfynu ar eu dewis o algorithm?

- Pwy wnaeth y penderfyniad terfynol, yn y pendraw, ar y dewis o algorithm a sut a phryd y cafodd hyn ei rannu â Llywodraeth Cymru?

- Pam na rannwyd yr algorithm ag ysgolion a rhanddeiliaid eraill cyn y diwrnod canlyniadau, neu cyn casglu'r data?

- Pam nad yw manylion pellach yr algorithm wedi'u rhannu â'r rhanddeiliaid hyd yma?

- Beth oedd pwrpas y graddau wedi'u hasesu gan ganolfan a threfn rancio y ganolfan, a sut defnyddiwyd y rhain?

- A oedd yr ymgynghoriad yn arweiniol ac nid yn agored? Pam oedd ffocws y broses ymgynghori mor gul?

- Petai manylion yr algorithm wedi'u rhannu adeg yr ymgynghori, a fyddid wedi cytuno bod safoni yn briodol ac i beidio â defnyddio graddau wedi'u hasesu gan ganolfan a threfn rancio canolfan?

- Pam na ymgynghorwyd â'r ysgolion oedd â graddau asesu gan ganolfan tra gwahanol i'r algorithm, a hynny er mwyn cael mwy o dystiolaeth fel yr addawyd yn wreiddiol cyn i'r canlyniadau fod yn derfynol?

- Mae'n ymddangos bod Cymwysterau Cymru wedi gwneud penderfyniad o flaen llaw oherwydd gwerthwyd lefel goddefiant o 3% yn ystod yr ymgynghoriad. Nid oedd y gwelliannau mewn canlyniadau Safon-U eleni yn ddim mwy na 2.9% (A*-A).

- A oedd gor-ddibyniaeth ar ddatblygu algorithm i sicrhau deilliannau oedd yn debyg iawn yn hytrach na sicrhau bod dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr yn cael eu trin yn deg ac yn cael eu graddau haeddiannol?

- Pam na wnaeth unrhyw swyddog o Gymwysterau Cymru, Llywodraeth Cymru na CBAC rannu bod unrhyw broblem efo'r canlyniadau a gynhyrchodd yr algorithm? Dyma rai o'r materion:
    - Ysgolion sydd yn gwella yn cael eu cosbi
    - Dysgwyr bregus yn cael eu hisraddio yn ormodol
    - Dysgwyr mewn ysgolion PYD isel â llwyddiant blaenorol yn cael eu gwobrwyo ar gais ysgolion â dysgwyr PYD uchel
    - Anwybyddu asesiadau canolfan yn ystod y broses
    - Graddau ddim yn cael eu dyfarnu i'r unigolion iawn (fel yr aseswyd gan yr ysgolion yn eu graddau wedi'u hasesu gan ganolfan a'u trefn rancio)
    - Amrywiad sylweddol o fewn pynciau, ac ar draws pynciau, nad oedd yn rhesymegol.

- Pam na brofwyd y model algorithm efo ystod o ysgolion i sicrhau nad y canlyniad fyddai'n cael ei adnabod, ond yn hytrach unigolion a grwpiau o ddysgwyr oedd mewn perygl o beidio â chael eu graddau?

- Pa wersi a ddysgwyd o lanast TGAU Saesneg Iaith yn 2019, ble gwelwyd yr un broblem yn codi ac yn cael ei hanwybyddu i raddau helaeth, a'i gweld fel problem ranbarthol yng Ngogledd Cymru? Cafodd y rheiny a safodd TGAU yn fuan fantais sylweddol dros y rheiny a safodd TGAU yn yr Haf.

- Pryd wnaeth CC roi gwybod i Pearson, cwmni yn gyfrifol am BTEC, bod angen newid eu proses?

- Pa dystiolaeth sydd yno i ddangos bod Cymwysterau Cymru yn bodloni angen y gyfundrefn yng Nghymru?

**Ystyriaethau wrth symud ymlaen**

- Sut rydym am adeiladu ymddiriedaeth yn ôl rhwng y cyhoedd, staff ysgolion, CBAC, CC a LlC?

- Sut fydd hyn yn effeithio ar ddyfodol pobl ifanc yn y proffesiwn addysg?

- Sut allwn ni sicrhau llinellau atebolrwydd clir a pha gamau sydd angen eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw'r sefyllfa hon yn codi eto?

- A oes angen i ni ystyried disodli system safonol flynyddol sy'n capio cyflawniad, gyda phroses fwy cywir a thecach sy'n adlewyrchu cyflawniad pobl ifanc yng Nghymru yn gyfannol?

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 MEDI 2020**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE** |
| **Pwnc:** | **Rhaglen waith GwE a'r Blaenoriaethau** |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno adroddiad wedi ei ddiweddaru i aelodau'r Cyd-Bwyllgor am raglen waith GwE yn ystod Tymor yr Haf 2020 ac i amlinellu ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion. Ar 23 Mawrth newidiwyd pwrpas ysgolion, i gefnogi plant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus ar yr un pryd â chefnogi pob dysgwr i aros yn ddiogel a dal ati i ddysgu gartref.

2.2 Ar 3 Mehefin cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) y byddai ysgolion yn ailagor yn raddol o 29 Mehefin, 2020 er mwyn rhoi cyfle i bob disgybl "ddod i'r ysgol, dal ati i ddysgu a pharatoi". Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chanllawiau Dysgu [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19] i gynnig cyngor ar y dysgu a'r addysgu fyddai'n digwydd mewn ysgolion a lleoliadau yn ystod gweddill tymor yr haf ac i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer tymor yr hydref.

2.3 Ar 9 Gorffennaf, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y bydd pob disgybl yn gallu dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, ac y bydd ysgolion yn dychwelyd yn llawn erbyn 14 Medi, hynny os byddwn yn dal i weld dirywiad cyson yn nifer yr achosion o COVID-19 yn y gymuned. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau dysgu pellach [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19] ar gyfer tymor yr hydref, sy'n rhoi set gyffredin o flaenoriaethau ar gyfer dysgu i ysgolion a phartneriaid cefnogi, waeth beth yw lefel y gweithredu mewn ymateb i COVID-19.

2.4 Mae staff GwE wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogi ein holl ysgolion a'u cymunedau. Y peth pwysicaf i bob ysgol yng ngogledd Cymru yn ystod y cyfnod hwn o newid a tharfu digynsail fu diogelwch a lles ei dysgwyr a'i gweithlu. Bu ysgolion a lleoliadau yn ymdrechu i wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol eu plant a'u pobl ifanc trwy gydol y cyfnod hwn er mwyn sicrhau eu bod yn dychwelyd i'r ysgol gyda chymhelliant a brwdfrydedd i ddysgu.

**3.0 Materion i’w hystyried**

3,1 Yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, cefnogwyd ysgolion i ddatblygu modelau dysgu o bell effeithiol, gan gynnwys arferion ymgysylltu â dysgwyr a rhieni.

3.2 Mae'r chwe awdurdod lleol a GwE wedi cydymdrechu a gweithredu ar y cyd i gefnogi ysgolion yn ystod y cyfnod clo yn sgil y pandemig. Roedd hyn i'w weld yn glir yn y dull rhanbarthol cyson i ddatblygu fframwaith cefnogol i sicrhau bod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisïau priodol mewn lle ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr er mwyn creu amgylchedd diogel i groesawu disgyblion yn ôl i ysgolion.

3.3 Yn ogystal, yn ystod y cyfnod clo hwn, fe wnaeth yr Awdurdodau Lleol a GwE gydweithio i barhau i gefnogi ysgolion gyda'u dysgu o bell ac ymgysylltu â dysgwyr, ar yr un pryd â chefnogi ysgolion i ddatblygu modelau dysgu cyfunol i baratoi ar gyfer croesawu dysgwyr yn ôl i'r ysgol ar 29 Mehefin, ac wedi hynny.

3.4 Mae'r Awdurdodau Lleol a GwE hefyd wedi gweithio ar faterion sydd angen mynd i'r afael â hwy o ran ffitrwydd dysgwyr ar gyfer dysgu wrth baratoi at fod yn ôl yn eu hysgolion ym mis Medi.

3.5 Mae'r chwe awdurdod lleol a GwE wedi gweithio'n ddiflino i fynd i'r afael ag anghenion addysgol dysgwyr yn ystod y cyfnod clo. Mae cyd-ymrwymiad clir yn y rhanbarth i sicrhau y caiff pob dysgwr y cyfleoedd gorau posib i gael eu cefnogi ynghyd â'r lefel fwyaf priodol o ymyrraeth i'w galluogi i ffynnu a pharhau ar eu taith addysgol.

3.6 Ceir cofnod o weithgareddau, yr amser a dreuliwyd ynghyd â chrynodeb o weithgareddau, deilliannau ac effaith yn Atodiad 1.

3.7 Ein prif flaenoriaethau wrth symud ymlaen fydd:

- Cadw’n ddiogel a diogelu eraill;
- Cwricwlwm i Gymru ac agenda trawsnewid;
- Gwaith cymheiriolac arfarnu cadarnhaol;
- Cynlluniau gwella ôl-categoreiddio igynnwys ysgolion mewn categori statudol;
- Cefnogi dysgu carlam.

3.8 Mae’r rhaglen waith ar gyfer swyddogion GwE yn nhymor yr hydref wedi ei amlinellu yn Atodiad 1. Bydd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) rôl hanfodol yn ystod y misoedd nesaf o ran cefnogi ysgolion wrth i ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol yn llawn o 14 Medi.

3.9 Rhaid i bob agwedd a nodir fod yn unol â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Daeth y fersiwn presennol i rym ar 17 Awst, 2020.

3.10 Adolygir y rhaglen waith yn gyson i ymateb i sefyllfa Covid-19 a chanllawiau a rheoliadau'r llywodraeth, a'i chymeradwyo gan Fwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor. Yn ogystal, bydd y rhaglen waith a'r dull o'i chyflwyno yn cael ei thrafod a'i chytuno gyda Penaethiaid ac ysgolion.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad, rhaglen waith GwE a'r blaenoriaethau drafft a fydd yn cael eu hadolygu'n barhaus i ymateb i sefyllfa Covid-19 a chanllawiau a rheoliadau'r llywodraeth.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cydbwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 – Adroddiad wedi'i ddiweddaru ar raglen waith GwE Tymor yr Haf 2020

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwy'n gwerthfawrogi bod y rhaglen waith wedi'i hadolygu i ymateb i sefyllfa Covid-19, a bod hyn wedi'i gynllunio'n drylwyr, yn gynhwysol, ac i'w gyflawni o fewn adnoddau presennol GwE.

**ADRODDIAD WEDI'I DDIWEDDARU AR RAGLEN WAITH GWE, TYMOR YR HAF 2020**

**Cyd-destun a chrynodeb**

Mae’r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion. Ar 23 Mawrth newidiwyd pwrpas ysgolion, i gefnogi plant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus ar yr un pryd â chefnogi pob dysgwr i aros yn ddiogel a dal ati i ddysgu gartref.

Ar 3 Mehefin cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) y byddai ysgolion yn ailagor yn raddol o 29 Mehefin, 2020 er mwyn rhoi cyfle i bob disgybl "ddod i'r ysgol, dal ati i ddysgu a pharatoi". Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chanllawiau Dysgu [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19] i gynnig cyngor ar y dysgu a'r addysgu fyddai'n digwydd mewn ysgolion a lleoliadau yn ystod gweddill tymor yr haf ac i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer tymor yr hydref.

Ar 9 Gorffennaf, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y bydd pob disgybl yn gallu dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, ac y bydd ysgolion yn dychwelyd yn llawn erbyn 14 Medi, hynny os byddwn yn dal i weld dirywiad cyson yn nifer yr achosion o COVID-19 yn y gymuned. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau dysgu pellach [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19] ar gyfer tymor yr hydref, sy'n rhoi set gyffredin o flaenoriaethau ar gyfer dysgu i ysgolion a phartneriaid cefnogi, waeth beth yw lefel y gweithredu mewn ymateb i COVID-19.

Mae staff GwE wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogi ein holl ysgolion a'u cymunedau. Y peth pwysicaf i bob ysgol yng ngogledd Cymru yn ystod y cyfnod hwn o newid a tharfu digynsail fu diogelwch a lles ei dysgwyr a'i gweithlu. Bu ysgolion a lleoliadau yn ymdrechu i wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol eu plant a'u pobl ifanc trwy gydol y cyfnod hwn er mwyn sicrhau eu bod yn dychwelyd i'r ysgol gyda chymhelliant a brwdfrydedd i ddysgu.

Mae rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi'u llacio, ac nid oedd y ddarpariaeth a'r dysgu yn ystod tymor yr haf yn adlewyrchiad o'r hyn fyddai ysgolion yn ei gynnig yn arferol. O ganlyniad, mae ysgolion wedi gallu datblygu modelau dysgu o bell a dysgu cyfunol sy'n rhoi cyfleoedd i:

- gynnal a datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol;
- datblygu gwytnwch a myfyrio ar les personol;
- cynnal cysylltiadau ag athrawon, staff cymorth a chymheiriaid yn ystod y cyfnod hwn o ymbellhau cymdeithasol a'r integreiddio yn ôl i ysgolion.

**Rhaglen waith**

Yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, cefnogwyd ysgolion i ddatblygu modelau dysgu o bell effeithiol, gan gynnwys arferion ymgysylltu â dysgwyr a rhieni.

Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- Cysylltu ag ysgolion yn rheolaidd er mwyn sicrhau iechyd a lles staff a disgyblion.
- Cefnogi ysgolion unigol neu Hybiau i aros ar agor pan fu prinder staff.
- Gwneud gwaith ymchwil ar arferion effeithiol yn rhyngwladol ym maes dysgu o bell, a chyfeirnodi hyn.
- Darparu cyfres o adnoddau, gwefannau a phwyntiau cyfeirio i athrawon y Cyfnod Sylfaen, CA2, CA3 a CA4 trwy Google Classroom.

- Modelu enghreifftiau o ddysgu o bell effeithiol, a rannwyd yn genedlaethol. Bu llawer o ddefnyddio ar y modelau hyn yn y rhanbarth, neu eu haddasu.
- Cefnogi ysgolion gyda sut orau i ddarparu Dysgu o Bell drwy ddull cyfunol, sy'n cynnwys fidios wedi'u recordio, defnyddio Hwb yn effeithiol, rhoi deunydd ar Google Classroom, defnyddio copïau papur pan nad oes mynediad i'r We ac ati.
- Cefnogi ysgolion gyda rhoi adborth cadarnhaol ar waith a gyflwynir.
- Cefnogi ysgolion yn eu Hybiau neu ysgolion unigol pan fu prinder staff.
- Trefnu cyfarfodydd cyswllt 'Teams' rheolaidd gyda phob clwstwr ar draws y rhanbarth i rannu diweddariadau, ystyried y gwersi a ddysgwyd er mwyn llywio arferion a gwaith paratoi a sicrhau y caiff Penaethiaid gyswllt rheolaidd ac amser i rannu unrhyw broblemau sy'n codi.
- Cefnogi ysgolion gyda Dysgu Digidol a chynhyrchu fidios cymorth defnyddiol fel y gall athrawon ddatblygu ymhellach ac amrywio eu dysgu o bell.
- Cefnogi Cymorthyddion Dysgu yn eu rôl drwy ddatblygu Google Classroom i gymorthyddion dysgu, gan gynnwys cyfres o gyfleoedd datblygiad proffesiynol.
- Darparu cefnogaeth unigol i athrawon pwnc benodol yn y sector uwchradd.
- Trefnu cyfarfodydd rheolaidd efo grwpiau o athrawon pwnc yn y sector uwchradd.
- Mynd i'r afael â Dysgu Proffesiynol y gweithlu er mwyn datblygu dealltwriaeth o ddysgu o bell, gan gynnwys ymchwil ar arferion gorau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae'r chwe awdurdod lleol a GwE wedi cydymdrechu a gweithredu ar y cyd i gefnogi ysgolion yn ystod y cyfnod clo yn sgil y pandemig. Roedd hyn i'w weld yn glir yn y dull rhanbarthol cyson i ddatblygu ffframwaith cefnogol i sicrhau bod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisïau priodol mewn lle ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr er mwyn creu amgylchedd diogel i groesawu disgyblion yn ôl i ysgolion.

Roedd y fframwaith yn cynnwys adnoddau i gefnogi cynllunio ar gyfer:
1. Gofynion iechyd a diogelwch
2. Trefniadau safle a chyfleusterau
3. Cludiant
4. Trefniadau staffio
5. Dysgu ac addysgu cyfunol
6. Cynhwysiant a chymorth i ddisgyblion
7. Tasgau rheolaethol allweddol.

Yn ogystal, yn ystod y cyfnod clo hwn, fe wnaeth yr Awdurdodau Lleol a GwE gydweithio i barhau i gefnogi ysgolion gyda'u dysgu o bell ac ymgysylltu â dysgwyr, ar yr un pryd â chefnogi ysgolion i ddatblygu modelau dysgu cyfunol i baratoi ar gyfer croesawu dysgwyr yn ôl i'r ysgol ar 29 Mehefin, ac wedi hynny.

Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:
- Rannu arferion llwyddiannus ar draws y rhanbarth o ran dysgu o bell ac ymgysylltu â dysgwyr.
- Hwyluso gweithio clwstwr a chefnogaeth cymheiriaid i gymheiriaid ar draws y rhanbarth
- Cefnogi'r ysgolion hynny a oedd yn ei chael yn heriol ymgysylltu â dysgwyr penodol.
- Cefnogi athrawon yn y pontio rhwng atgyfnerthu dysgu blaenorol ac addysgu agweddau newydd.
- Dysgu o fodelau cenedlaethol a rhyngwladol am sut i ddatblygu dysgu cyfunol.
- Cyhoeddi canllawiau dysgu cyfunol a luniwyd ar y cyd ag Estyn a'r consortia rhanbarthol eraill.

- Datblygu modelau dysgu cyfunol enghreifftiol ar y cyd ag Estyn a'r consortia rhanbarthol eraill.
- Darparu dysgu proffesiynol i ysgolion ar fodelau ac addysgeg dysgu cyfunol effeithiol.
- Parhau i gefnogi iechyd a lles athrawon (fydd efallai yn addysgu sawl grŵp blwyddyn) pan fydd angen iddynt addysgu rhai dysgwyr yn yr ysgol a pharhau i gefnogi eraill gartref.
- Parhau i gefnogi ysgolion i sicrhau iechyd a lles dysgwyr, fydd yn dychwelyd yn raddol i ddosbarth gwahanol iawn.
- Darparu Dysgu Proffesiynol pellach i athrawon a chymorthyddion dysgu ar sut orau i fodelu'r ddarpariaeth 'economi gymysg' hon.

Mae'r Awdurdodau Lleol a GwE hefyd wedi gweithio ar faterion sydd angen mynd i'r afael â hwy o ran ffitrwydd dysgwyr ar gyfer dysgu wrth baratoi at fod yn ôl yn eu hysgolion ym mis Medi. Mae'r rhanbarth yn credu'n gryf y bydd angen i barodrwydd ysgolion neu eu dull o sicrhau dysgu i bob disgybl ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar dair cydran rhyng-gysylltiedig a fyddai'n asesu ffitrwydd disgyblion ar gyfer dysgu:

- Lles emosiynol a meddyliol;
- Iechyd a ffitrwydd corfforol; a
- Sgiliau craidd rhifedd a llythrennedd, dysgu sut i ddysgu, sgiliau annibyniaeth.

Gellir rhannu'r tair gydran hon yn dri chategori o angen, fel y gwelir yn y triongl isod:




Bydd angen i ysgolion sicrhau y gallant gynnig darpariaeth i'w dysgwyr yn erbyn pob maes er sicrhau tegwch a chydraddoldeb. Wrth symud ymlaen, bydd AauLl, GwE ac asiantaethau eraill megis iechyd yn cytuno ar y cyfrifoldeb o gefnogi ysgolion i gyflawni pob elfen.

Mae'r chwe awdurdod lleol a GwE wedi gweithio'n ddiflino i fynd i'r afael ag anghenion addysgol dysgwyr yn ystod y cyfnod clo. Mae cyd-ymrwymiad clir yn y rhanbarth i sicrhau y caiff pob dysgwr y cyfleoedd gorau posib i gael eu cefnogi ynghyd â'r lefel fwyaf priodol o ymyrraeth i'w galluogi i ffynnu a pharhau ar eu taith addysgol.

Ceir cofnod o weithgareddau, yr amser a dreuliwyd ynghyd â chrynodeb o weithgareddau, deilliannau ac effaith yn yr atodiadau.

**Y camau nesaf - rhaglen waith ar gyfer tymor yr hydref**

Bydd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) rôl hanfodol yn ystod y misoedd nesaf o ran cefnogi ysgolion wrth i ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol yn llawn o 14 Medi. Dyma amlinelliad o raglen waith i swyddogion GwE ar gyfer tymor yr hydref. Rhaid i bob agwedd a nodir fod yn unol â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Daeth y fersiwn presennol i rym ar 17 Awst, 2020. Adolygir y rhaglen waith yn gyson i ymateb i sefyllfa Covid-19 a chanllawiau a rheoliadau'r llywodraeth, a'i chymeradwyo gan Fwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor. Yn ogystal, bydd y rhaglen waith a'r dull o'i chyflwyno yn cael ei thrafod a'i chytuno gyda Penaethiaid ac ysgolion.

Dyma amlinelliad o'r rhaglen waith:

- Cysylltu ag ysgolion i gael trafodaeth gychwynnol am les staff a disgyblion, ac i adnabod unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen yn syth. Ymgyfarwyddo â chyd-destun yr ysgol a safonau (darllen am gefndir yr ysgol drwy G6 a thrafodaethau efo'r Arweinydd Craidd, a chytuno ar unrhyw ddull gweithredu gwahaniaethol gydag Ysgolion sy'n Destun Pryder).

- Myfyrio gydag ysgolion ar y gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod clo a gwneud gwaith cynllunio senario ar gyfer cyfnod clo pellach:
  - Iechyd a lles: dylai dysgu gefnogi lles meddyliol, emosiynol, corfforol a cymdeithasol dysgwyr yn ogystal â chydnabod pwysigrwydd dysgu a chwarae tu allan.
  - Pwrpas: dylid cael pwrpas clir i'r dysgu, sy'n ymwneud â'r hyn sy'n bwysig i ddysgwyr yn awr ac yn y tymor hir
  - Cymhwysedd llythrennedd, rhifedd a digidol: dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau hyn a'u cymhwyso ar draws y cwricwlwm
  - Eang a chytbwys: dylai dysgwyr gael profiadau dysgu sy'n cwmpasu cwricwlwm eang, sy'n cynnwys cyfleoedd i ehangu dealltwriaeth a datblygu ystod o sgiliau a gwybodaeth.
  - Dilyniant ac asesu: dylai dysgwyr wneud cynnydd ystyrlon trwy gydol y cyfnod hwn. Dylid cynllunio ar gyfer dysgu sy'n fwy dwfn a soffistigedig dros amser. Annog defnyddio asesiadau i helpu dysgwyr i symud i'r camau nesaf yn eu dysgu.
  - Y bartneriaeth gyda llywodraethwyr, rhieni, gofalwyr a dysgwyr: dylai ysgolion ddatblygu dealltwriaeth a iaith gyffredin gyda rhieni, gofalwyr a dysgwyr. Gall hyn helpu i ategu'r dysgu a chefnogi profiadau dysgu.

- Cefnogi cynllunio ar gyfer gwelliant [yn amodol ar ddull ymgysylltu â chymheiriaid]:
  - adnabod blaenoriaethau
  - adnabod anghenion Dysgu Proffesiynol staff
  - datblygu cynllun cymorth tymhorol a sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n effeithiol
  - datblygu a chyflawni rhaglenni dysgu carlam effeithiol
  - adolygu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau yn y Cynllun Datblygu Ysgol / Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg, gan gynnwys cynnydd yn erbyn Cwricwlwm i Gymru a pharatoadau ar gyfer diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol.
  - adnabod yr hyn gellir ei gynnig i eraill

- Cefnogi hunan arfarnu a'r ymwneud â'r Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol [yn amodol ar ddull ymgysylltu â chymheiriaid]:
  - cyd-graffu ar gynnydd disgyblion ar lefel ysgol gyfan a lefel dosbarth
  - modelu gweithdrefnau hunan asesu a chofnodi manwl gywir a thrylwyr
- Sicrhau defnydd priodol o grantiau:

   - Grant Datblygu Disgyblion (GDD) ac addasrwydd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr bregus.
   - Grant Gwella Addysg
   - Dysgu Proffesiynol
   - Rhaglen Dysgu Carlam
   - Dyraniadau clwstwr

- Hybu cydweithredu cymheiriaid i gymheiriaid gan gynnwys Adolygu gan Gymheiriaid (EDT a lleol) - cefnogi/hwyluso cyfarfodydd cymheiriaid pan fo angen yn y bartneriaeth.

- Cyflwyno rhaglen o ddysgu proffesiynol ar agweddau ar angen a nodir:
   - ysgolion unigol, er enghraifft cymorth pwnc benodol
   - clwstwr
   - cydweithredu cymheiriaid

- Cytuno ar a chyflwyno cynnig dysgu proffesiynol Arweinyddiaeth GwE

- Hwyluso rhwydweithiau pwnc/agwedd benodol GwE

- Cefnogi cyfarfodydd rheoli perfformiad y Pennaeth

- Helpu gyda phenodi staff ysgol

**Atodiad 1: Gweithgareddau a gofnodwyd ac amser a dreuliwyd**

Mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) yn cysylltu â'i r(h)eolwr llinell bob bore a chofnodir rhestr o'u tasgau dyddiol yn eu calendr. Dyma grynodeb o weithgareddau staff GwE ers i'r cyfnod clo ddechrau ac yn ystod tymor yr haf:

**1. Am y cyfnod rhwng 23 Mawrth a 22 Mai, 2020 .**

| Categori | Oriau | % |
|---|---|---|
| Cefnogi a gweithio gydag ysgolion | 9049 | 44% |
| Gwaith Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol | 6992 | 34% |
| Cefnogi Dysgu Proffesiynol | 1645 | 8% |
| Parhad Dysgu Cenedlaethol | 2879 | 14% |
| Arall | 45 | <1% |



**2. Am y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 17 Gorffennaf, 2020**

| Categori | Oriau | % |
|---|---|---|
| Cenedlaethol | 1044 | 7% |
| Gwaith Rhanbarthol | 3704 | 25% |
| Ysgolion - gwaith Rhanbarthol wrth gefnogi ysgolion | 3619 | 24% |
| cyfarfodydd Awdurdod Lleol | 653 | 4% |
| Ysgolion - cymorth unigryw/clwstwr | 2788 | 19% |
| Arall, er enghraifft paratoi a datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati | 3084 | 21% |



**Atodiad 2: Crynodeb o'r gweithgareddau, deilliannau ac effaith**

| GWEITHGAREDDAU |
|---|
| **Cefnogi a gweithio gydag ysgolion**<br>• Cefnogi ysgolion unigol neu Hybiau pan fu prinder staff.<br>• Cysylltu ag ysgolion yn rheolaidd er mwyn sicrhau iechyd a lles staff a disgyblion.<br>• Cefnogi ysgolion i sicrhau iechyd a lles dysgwyr, fydd yn dychwelyd yn raddol i ddosbarth gwahanol iawn<br>• Datblygu canllawiau, cymorth ac adnoddau i ysgolion er mwyn cefnogi dysgu o bell effeithiol mewn ysgolion.<br>• Cyfeirnodi arferion effeithiol yn rhyngwladol ym maes dysgu o bell.<br>• Darparu cyfres o Wefannau a phwyntiau cyfeirio i athrawon y Cyfnod Sylfaen, CA2, CA3 a CA4.<br>• Modelu enghreifftiau o ddysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol a'u rhannu'n genedlaethol.<br>• Cefnogi ysgolion gyda sut orau i ddarparu Dysgu o Bell drwy ddull cyfunol sy'n cynnwys fidios wedi'u recordio, defnyddio Hwb yn effeithiol, rhoi deunydd ar Google Classroom, defnyddio copïau papur pan nad oes mynediad i'r We ac ati.<br>• Trefnu cyfarfodydd cyswllt 'Teams' rheolaidd gyda phob clwstwr (cynradd, uwchradd, ysgolion arbennig ac UauCD) er mwyn rhannu diweddariadau rheolaidd a sicrhau y caiff Penaethiaid gyswllt rheolaidd ac amser i rannu unrhyw broblemau sy'n codi.<br>• Cefnogi ysgolion gyda Dysgu Digidol a chynhyrchu fidios cymorth defnyddiol fel y gall athrawon ddatblygu ymhellach ac amrywio eu dysgu o bell.<br>• Cefnogi ysgolion wrth symud i fonitro a rhoi adborth cadarnhaol ar waith a gyflwynir.<br>• Cefnogaeth unigol i athrawon pwnc benodol yn y sector uwchradd.<br>• Cyfarfodydd rheolaidd efo grwpiau o athrawon pwnc yn y sector uwchradd.<br>• Sicrhau arweiniad a chefnogaeth ar faterion perthnasol i fforymau Penaethiaid yn y chwe Awdurdod Lleol. Cyflwyno diweddariadau mewn cyfarfodydd ac ateb cwestiynau sy'n codi.<br>• Darparu cymorth i ysgolion mewn perthynas â Chymwysterau - cyfres arholiadau haf 2020 a 2021.<br>• Cymorth i ysgolion gyda'u paratoadau ar gyfer addasu ysgolion at pan fydd dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol yn ystod gwahanol gamau llacio'r cyfyngiadau.<br>• Adnabod arfer dda, yr angen am gymorth ac ymgysylltu disgyblion/rhieni ag ysgolion. |
| **Gwaith Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol**<br>• Rhannu gwybodaeth, negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith â Swyddogion ALl.<br>• Diweddaru swyddogion ALl am ysgolion ac amrywiol faterion GwE<br>• Mynychu cyfarfodydd Bwrdd Ansawdd Sirol, rhoi sylwi i faterion gweithredu dilynol.<br>• Trafod strategaethau cychwynnol, ymgysylltu a rhwystrau.<br>• Cefnogi cyfweliadau Penaethiaid - cyfarfodydd gyda'r panel penodi i gefnogi a thrafod y rhestr fer, trefniadau'r cyfweliad a chwestiynau.<br>• Mynychu a chyfrannu i alwadau cynadledda Penaethiaid.<br>• Cefnogi gyda dysgu o bell ac ymgysylltu/cefnogi dysgwyr bregus.<br>• Datblygu rhestr wirio mewn perthynas â lles cyffredinol.<br>• Sicrhau cymorth ac arweiniad i Arweinwyr Craidd.<br>• Adrodd yn ôl am ysgolion a gwaith clwstwr.<br>• Rhannu gwybodaeth ranbarthol a sicrhau negeseuon cyson. |

| |
|---|
| • Cefnogi ysgolion i ailagor - mae YCG GwE wedi cydweithio â chynrychiolwyr awdurdod lleol i lunio cynllun dychwelyd i'r ysgol cadarn, a fydd yn cefnogi bob ysgol yn y rhanbarth i sicrhau bod ganddynt y polisïau cywir mewn lle ac asesiad risg cynhwysfawr y gallant ei deilwra at ddibenion eu hysgol.<br>• Dysgwyr yn trosglwyddo yn ôl i'r ysgol - datblygu asesiad risg a chanllawiau.<br>• Polisïau generig y cytunwyd arnynt gydag AauLl, y gall ysgolion eu defnyddio a'u haddasu gyda'u Llywodraethwyr i ymateb i'r cymhlethdodau iechyd a diogelwch niferus yn sgil COVID-19.<br>• Gan weithio mewn partneriaeth efo'r tîm ehangach o gyd-weithwyr yr ALl, er enghraifft cynhwysiant, AD, cludiant, bydd GwE yn ystyried anghenion ymarferol, anghenion lles ac anghenion hyfforddiant staff ysgolion, gan sicrhau y cefnogir y rhain yn briodol, i gynnwys dysgu proffesiynol ble bo'n briodol.<br>• Datblygu canllawiau rhanbarthol, cymorth ac adnoddau i ysgolion.<br>• Datblygu adnoddau a dulliau o weithredu dysgu o bell a dysgu cyfunol trwy sgiliau, a sicrhau ansawdd deunyddiau a ddatblygir.<br>• Sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth genedlaethol a rhanbarthol.<br>• Sicrhau cyfathrebu effeithiol â holl aelodau'r tîm trwy gyfarfodydd Tîm Llawn wythnosol, cyfarfodydd tîm Lleol ac ati.<br>• Cynnal adolygiadau Rheoli Perfformiad<br>• Coladu gwybodaeth am ddysgu o bell ac ymgysylltu dysgwyr ag ysgolion.<br>• Adnabod a rhannu arfer dda, yr angen am gymorth ac ymgysylltu disgyblion/rhieni ag ysgolion.<br>• Paratoi ar gyfer a mynychu cyfarfodydd rhanbarthol - y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.<br>• Adolygu cynlluniau busnes, adroddiadau blynyddol.<br>• Cydlynu ymateb rhanbarthol ac ymateb lleol i ymgynghori cenedlaethol.<br>• Cysylltu â rhanddeiliaid allweddol, er enghraifft ymweliadau ACALl Estyn, Colegau Addysg Bellach, SauAU ac ati. |
| **Cefnogi Dysgu Proffesiynol**<br>• Rhannu modelau cenedlaethol a rhyngwladol ar sut orau i ddatblygu dysgu o bell effeithiol.<br>• Darparu modelau dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol i ysgolion eu defnyddio a'u haddasu fel y gwelont orau.<br>• Myfyrio ar addysgeg - o ran arferion presennol ac ar gyfer y cwricwlwm newydd.<br>• Darparu canllawiau a chyngor gan Awdurdodau Lleol a GwE o ran paratoi disgyblion at ddychwelyd i ysgolion.<br>• Catalog cynhwysfawr o Ddysgu Proffesiynol i Gymorthyddion Dysgu. Ceir Google Classroom penodol i gymorthyddion dysgu. Eisoes, mae mwy o aelodau na sydd o le, ac mae dros 1,500 o aelodau.<br>• Canllawiau a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o Cwricwlwm i Gymru i athrawon<br>• Gweminarau ar Reoli Newid yn benodol i Benaethiaid, gan roi sylw i ddatblygu gweledigaeth ysgol, creu amser a gofod ar gyfer Dysgu Proffesiynol, Cynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm ac Arwain Addysgeg. Bydd y rhain yn cynnwys peth rhyngweithio wyneb-yn-wyneb, trafodaethau grŵp a darnau meddwl ar glipiau fidio at ddibenion myfyrio.<br>• Cyfrannu at y strategaeth genedlaethol ar gyfer cefnogi ANG yn ystod y cyfnod hwn, ble bydd eu ffocws ar addysgeg ac ymchwil gan na allant fod ar lawr dosbarth. |

| |
|---|
| Mae YCG wedi ymgymryd ag amryfal weithgareddau Datblygiad Proffesiynol er mwyn sicrhau'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf:<br>• Deall Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol effeithiol er mwyn darparu canllawiau a chreu modelau.<br>• Gwella'r sylfaen wybodaeth o ran dysgu ac addysgu effeithiol mewn llythrennedd, a hynny o waith ymchwil/gweithiau byd-eang.<br>• Defnyddio TGCh i weithredu Dysgu o Bell/Dysgu Cyfunol<br>• Deall sut orau i gefnogi lles corfforol ac emosiynol.<br><br>Gweler hefyd **adroddiad ar Ddysgu Proffesiynol** a manylion ynghylch y cymorth ar gyfer:<br>• Dysgu Digidol<br>• Dysgu ac Addysgu<br>• Llesiant<br>• Arweinyddiaeth<br>• Cymorthyddion Dysgu<br>• Y Gymraeg<br>• Llwybr DP Cynnar |
| **Cenedlaethol**<br>• Strategaeth Parhad Dysgu Cenedlaethol - cyfraniad rhanbarthol i ffrydiau gwaith cenedlaethol LlC.<br>• Canllawiau a strategaeth ar gyfer dysgu o bell: datblygu strategaeth a chanllawiau cenedlaethol gyda rhanbarthau mewn perthynas ag allbynnau Parhad Dysgu<br>• Datblygu canllawiau, cymorth ac adnoddau i athrawon, ysgolion a rhanddeiliaid.<br>• Darparu modelau ac adnoddau i ysgolion, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Ystyried dull lleol, i gynnwys modelau, cynllunio, asesu a monitro cynnydd.<br>• Sicrhau ansawdd deunyddiau a ddatblygir.<br>• Datblygu dysgu digidol.<br>• Mynychu cyfarfodydd gydag Estyn, LlC a'r Consortia eraill<br>• Cyfrannu i brosiectau parhaus, er enghraifft MATh, Ôl-16.<br>• Cefnogi gwaith dilynol Prosiect PISA Cymru 2020.<br>• Paratoi rhaglen CALU newydd.<br>• Darparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru i lywio'r Bil ar y Cwricwlwm newydd. |
| **Arall**<br>• Cefnogaeth i Athrawon sydd Newydd Gymhwyso a sicrhau eglurder o ran cwblhau'r flwyddyn sefydlu.<br>• Gweithio partneriaeth cadarn gyda Phrifysgol Cymru er sicrhau bod y system benodi ar gyfer flwyddyn nesaf yn glir i fyfyrwyr HCA<br>• Gweithio partneriaeth cadarn gyda CaBan er sicrhau mwy o gyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil a chydnabod rhagoriaeth mewn ysgolion. |
| **DEILLIANNAU AC EFFAITH** |
| • Darparu cyfathrebu effeithiol drwy gyfrwng un pwynt cyswllt (YCG) ar gyfer arweinwyr ysgolion, a'u bod yn medru cael gafael ar gymorth yn rhwydd.<br>• Mae ysgolion wedi gallu aros ar agor i weithwyr allweddol os oes diffyg staff.<br>• Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth ar gael os oes angen. Cefnogir lles arweinwyr ysgolion trwy gyfathrebu rheolaidd.<br>• Cyd-ddealltwriaeth o bwysigrwydd lles disgyblion, rhieni ac aelodau staff.<br>• Rhoddir canllawiau clir ar sut i flaenoriaethu a threfnu Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol.<br>• Cysondeb o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion. |

- Mae gan ysgolion fynediad i doreth o adnoddau o safon uchel, adnoddau y gallant gyfeirio atyn nhw wrth baratoi ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol a'u cyflwyno.
- Mae ysgolion rhanbarthol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio modelau DoB/DP GwE ac wedi addasu arferion i fod yn unol â'r canllawiau a'r modelau enghreifftiol a rannwyd.
- Modelau dysgu o bell/dysgu cyfunol cynhwysfawr ar gael i ysgolion eu defnyddio, eu haddasu neu gyfeirio atyn nhw. Mae hyn, yn ei dro, wedi sicrhau arweinyddiaeth fwy cadarn a gwell cydbwysedd o ran gwaith y gellir ei gwblhau gartref.
- Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol mewn ysgolion yn gallu cynllunio'n well ar gyfer cyfleoedd a heriau dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- Dull cydlynol o gefnogi ysgolion, sydd wedi arwain at well cysondeb ac ansawdd o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol yn y rhanbarth.
- Rhannu arferion gorau ar draws ysgolion, hynny yw, ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, ac ati.
- Defnydd fwy cadarn o DGCh, i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng ysgolion, o fewn ysgolion a chyda rhanddeiliaid ysgolion.
- Uwchsgilio staff ysgolion drwy ddefnyddio llwyfan digidol ar gyfer datblygiad proffesiynol.
- Rhennir yr wybodaeth ddiweddaraf ag AauLl a rhoddir cymorth amserol i unrhyw ysgol.
- Ar y cyd â'r ALl, sicrheir bod y broses o benodi ymgeiswyr arweinyddiaeth ysgol yn briodol a theg.
- Swyddogion GwE/ALl yn rhannu negeseuon cyson ag ysgolion.
- Cydweithredu fwy cadarn rhwng cymheiriaid ar lefel clwstwr trwy ddull digidol, sy'n sicrhau meddwl strategol ar y cyd.
- Cydweithredu fwy cadarn rhwng swyddogion awdurdod lleol a GwE.
- Dull rhanbarthol a lleol clir mewn lle ar gyfer addasu ysgolion at wahanol ddibenion.
- Dull gweithredu rhanbarthol mewn lle ar gyfer datblygu fframwaith cefnogol er sicrhau bod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisïau priodol mewn lle, ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr i greu amgylchedd diogel ar gyfer ailagor ysgolion.
- Cyd-ymdrech a gweithredu effeithiol rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE i gefnogi ysgolion yn ystod y cyfnod clo yn sgil y pandemig.
- Mae holl staff GwE wedi'u huwchsgilio ac yn hyderus i ddarparu hyfforddiant a chymorth unigryw i ysgolion/clystyrau.
- Rhannu negeseuon allweddol yn effeithiol â staff ysgolion er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder.
- Mwy o gydweithredu rhwng y rhanbarthau a rhanddeiliaid eraill.
- Gwell dealltwriaeth o negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith.
- Arweinwyr ysgolion yn fwy ymwybodol o strategaethau effeithiol i sicrhau parhad busnes ysgol.
- Datblygu Dysgu Proffesiynol o ansawdd uchel, i fod yn barod am anghenion y dyfodol.
- Eglurder i Athrawon sydd Newydd Gymhwyso o ran cwblhau eu blwyddyn sefydlu.
- Gweithio partneriaeth cadarn gyda Phrifysgol Cymru er sicrhau bod y system benodi ar gyfer flwyddyn nesaf yn glir i fyfyrwyr HCA
- Gweithio partneriaeth cadarn gyda CaBan er sicrhau mwy o gyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil a chydnabod rhagoriaeth mewn ysgolion.
- Mae gan staff GwE well dealltwriaeth o strategaethau dysgu carlam ac arfer orau wrth gynllunio ar gyfer addysgu sgiliau annibynnol. Maen nhw wedi'u huwchsgilio ac yn wybodus er mwyn gallu cefnogi ysgolion yn ystod tymor yr hydref.

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 MEDI 2020**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE** |
| **Pwnc:** | **Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE mewn ymateb i Covid-19** |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno adroddiad i aelodau'r Cyd-Bwyllgor am y Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE mewn ymateb i Covid-19.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion. Mae staff yn yr awdurdodau lleol a GwE wedi addasu ac ailgyfeirio eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i gymunedau eu hysgolion.

2.2 O dan amgylchiadau arferol, mae cynnig Dysgu Proffesiynol (DP) GwE yn gynhwysfawr ac yn eang gan ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol i holl staff yr ysgol. Yn ystod pandemig COVID-19, mae GwE a'r ALlau wedi blaenoriaethu iechyd a lles yr holl ddysgwyr a staff addysgu. Mae'r cynnig proffesiynol 'arferol' wedi ei addasu er mwyn bod ysgolion a lleoliadau yn derbyn cefnogaeth berthnasol a phwrpasol. Mae hyn wedi eu galluogi i addasu i'r amgylchiadau heriol. Mae'r dull rhanbarthol o gefnogi cydweithio trwy waith clwstwr wedi parhau gydol y cyfnod hwn.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Mae'r cynnig Dysgu Proffesiynol wedi rhoi blaenoriaeth i gefnogi ysgolion i wella sgiliau digidol eu staff a'u galluogi i ddatblygu dulliau Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol effeithiol ac ymgysylltu â dysgwyr yn fwy effeithiol. Rhoddodd ysgolion groeso cynnes i ddatblygu a rhannu modelau enghreifftiol o ddysgu o bell a dysgu cyfunol ac fe sicrhaodd fod gennym lefelau uwch o gysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth a'r cyflwyniad ledled y rhanbarth.

3.2 Mae'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn sail i'r DP ac yn cefnogi staff addysgu ac arweinwyr gydag addysgeg, cydweithredu, arweinyddiaeth, arloesedd a'u dysgu proffesiynol.

3.3 Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol hefyd wedi defnyddio dull colegaidd a chyfunol wrth ddatblygu fframwaith cefnogol. Roedd hyn yn sicrhau fod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisïau cywir ar waith ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr ar gyfer creu amgylchedd diogel er mwyn croesawu plant yn ôl i'r ysgolion.

3.4 Mae'r awdurdodau lleol a GwE wedi cydweithio er mwyn sicrhau dysgu proffesiynol helaeth i gefnogi'r newid i drefniadau mewn ysgolion.

3.5 Mae'r adroddiad hwn (Atodiad 1) yn amlinellu'r cynnig dysgu proffesiynol i ysgolion yn ystod pandemig COVID-19. Mae'n darparu crynodebau a dolenni i'r adnoddau a ddatblygwyd ac a rannwyd ag ysgolion yn ogystal ag amlinelliad byr o'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a gynigiwyd.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE mewn ymateb i Covid-19.

## 5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

## 7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

## 8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cydbwyllgor.

## 9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 – Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE mewn ymateb i Covid-19

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

---

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.



# Dysgu Proffesiynol

# ADRODDIAD AR Y CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL MEWN YMATEB I COVID-19

## Cefndir a chyd-destun

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn syfrdanol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y gyfundrefn addysg ac ysgolion ond mae'n parhau i fod o bwysigrwydd canolog.

Ar 23 Mawrth, newidiwyd swyddogaeth ysgolion er mwyn cefnogi plant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus tra hefyd yn parhau i gefnogi pob dysgwr i gadw'n ddiogel a pharhau i ddysgu gartref.



Yn ystod y cyfnod hwn cynghorwyd ysgolion a lleoliadau i wneud pob ymdrech i wneud y canlynol:

- cadw pob plentyn yn iach a diogel;
- cynnig mynediad at ofal plant i weithwyr allweddol;
- sicrhau bod y disgyblion mewn mwyaf o berygl yn cael eu cefnogi;
- cefnogi lles y gweithlu addysg;
- rhoi mynediad i ddysgwyr at ddysgu trwy ddulliau digidol neu ddulliau hygyrch eraill mewn modd ymarferol a syml;
- cefnogi cyd-ddealltwriaeth yr holl bartneriaid o sut gall dysgu o bell effeithiol a threfnus ddarparu ystod o brofiadau dysgu;
- cefnogi rhieni/gofalwyr i gael mynediad at arweiniad er mwyn deall eu rôl wrth gefnogi eu plant gyda dysgu o bell;
- cefnogi lles a sgiliau sylfaenol dysgwyr trwy gyswllt a chyfathrebu effeithiol.

## Cefndir a chyd-destun (parhad)



Ar 3 Mehefin cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) y byddai ysgolion yn ailagor yn raddol o 29 Mehefin, 2020 er mwyn rhoi cyfle i bob disgybl "ailgydio, dal i fyny a pharatoi." Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Canllawiau Dysgu [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19] er mwyn darparu cyngor ar addysgu a dysgu fyddai'n disgwydd mewn ysgolion a lleoliadau am weddill tymor yr haf ac i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer tymor yr hydref.

Ar 9 Gorffennaf, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y byddai pob disgybl yn gallu dychwelyd i'r ysgol fis Medi, ac y byddai ysgolion yn dychwelyd at gapasiti llawn erbyn 14 Medi, yn amodol ar ostyngiad parhaus a chyson mewn achosion o COVID-19 yn y gymuned. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau dysgu pellach ar gyfer tymor yr hydref [https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19**]** sy'n cynnig casgliad cyffredin o flaenoriaethau ar gyfer dysgu, waeth beth yw'r lefel gweithredu mewn ymateb i COVID-19.

# Cyflwyniad

Mae cynnig dysgu proffesiynol blynyddol GwE yn gynhwysfawr ac eang. Rydym yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer yr ystod lawn o staff ysgol sy’n cynnwys cymhwyster Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch, Rhaglen Datblygu Darpar Arweinwyr, Rhaglen Datblygu Arweinwyr Canol, a rhaglenni ar gyfer darpar benaethiaid hyd at CPCP. Mae ein cynnig proffesiynol hefyd wedi cynnwys cyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn nifer o agweddau eraill ar fywyd ysgol, er enghraifft: datblygu llythrennedd a rhifedd yn y sector cynradd, darpariaeth effeithiol mewn pynciau craidd mewn ysgolion uwchradd, cynllunio’r cwricwlwm a lles.

Mae’r gwasanaeth wedi esblygu i fod mewn sefyllfa i gynnig hyfforddiant yn seiliedig ar yr egwyddor o ‘ysgolion fel sefydliadau sy’n dysgu’. Mae ffocws ar ddarparu dysgu a chefnogaeth broffesiynol sydd â mentora, cydweithio ysgol i ysgol ac ymgysylltiad cymheiriaid yn gonglfeini ac sy’n defnyddio dulliau a llwyfannau amrywiol i ganiatáu ar gyfer cyflwyno o bell ac ar y safle pan fo gofyn am hynny.




Mae pob un yn hyrwyddo hunanwelliant ac addysgeg gyda’r nod o ledaenu arfer da.

# Cyflwyniad (parhad)

Cynlluniwyd cynnig proffesiynol GwE er mwyn sicrhau cefnogaeth effeithiol ar gyfer darpar arweinwyr ac arweinwyr profiadol ar bob lefel, ar gyfer datblygu ymarferwyr dosbarth ac ar gyfer meysydd/agweddau ysgol gyfan megis addysgeg, asesu a lles.

Rydym yn annog ysgolion i gydweithio ac i gymryd rhan mewn clystyrau ac rydym yn gallu ymateb i ofynion ac anghenion penodol ein ALl partner.




Caiff y cynnig proffesiynol ei lunio yn dilyn ymgynghori gofalus gyda'r holl randdeiliaid a'r grwpiau defnyddwyr a chaiff ei seilio ymhellach ar wybodaeth gadarn yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant. Rydym yn hyderus bod y pecyn cynhwysfawr sydd ar gael ar gyfer ysgolion yn diwallu gofynion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.



Mae egwyddorion Cwricwlwm i Gymru wedi eu hymgorffori yn ein holl gynigion hyfforddi ac mae pedwar diben y cwricwlwm yn ystyriaeth sylfaenol wrth gynllunio hyfforddiant perthnasol, cyfredol a gafaelgar. Ymhellach, mae'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn sail i ddysgu proffesiynol ac yn cefnogi athrawon ac arweinwyr gydag addysgeg, cydweithredu, arweinyddiaeth, arloesi a dysgu proffesiynol.

Fel rhan o gynnig Dysgu Proffesiynol GwE, rydym wedi cynnal agwedd integredig tuag at y Daith Ddiwygio ac wedi cefnogi cydweithio ar draws clystyrau gan edrych ar y continwwm 3-16. Gan weithio'n agos gydag arweinwyr, rydym wedi adnabod adnoddau a meysydd dysgu proffesiynol ar gyfer cynnwys y 12 Egwyddor Addysgegol yng nghyd-destun ehangach addysgu a dysgu, asesu, rhwydweithiau MDaPh lleol a chynllunio cwricwlwm a chynllunio ar lefel ysgol.

# Cefnogi Dysgu Proffesiynol (DP) er mwyn mynd i'r afael ag anghenion addysgol dysgwyr mewn ymateb i COVID-19



Mae staff yn yr awdurdodau lleol a GwE wedi addasu ac ailgyfeirio eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i gymunedau eu hysgolion. Mae'r cynnig proffesiynol 'arferol' wedi ei addasu er mwyn bod ysgolion a lleoliadau yn derbyn cefnogaeth berthnasol a phwrpasol. Mae hyn wedi eu galluogi i addasu i'r amgylchiadau heriol. Mae'r dull rhanbarthol o gefnogi cydweithio trwy waith clwstwr wedi parhau gydol y cyfnod hwn.

Yn ystod pandemig COVID-19 mae GwE a'r awdurdodau lleol wedi rhoi blaenoriaeth i iechyd a lles yr holl ddysgwyr a'r staff addysgu. Gan weithio o fewn yr Ymagwedd Genedlaethol at Ddysgu Proffesiynol, mae egwyddorion ymgysylltu wedi'u sefydlu. Mae'r cynnig Dysgu Proffesiynol wedi rhoi blaenoriaeth i gefnogi ysgolion i wella sgiliau digidol eu staff a'u galluogi i ddatblygu dulliau Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol effeithiol ac ymgysylltu â dysgwyr yn fwy effeithiol. Rhoddodd ysgolion groeso cynnes i ddatblygu a rhannu modelau enghreifftiol o ddysgu o bell a dysgu cyfunol ac fe sicrhaodd fod gennym lefelau uwch o gysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth a'r cyflwyniad ledled y rhanbarth.

Mae'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn sail i'r DP ac yn cefnogi staff addysgu ac arweinwyr gydag addysgeg, cydweithredu, arweinyddiaeth, arloesedd a'u dysgu proffesiynol.

# Cefnogi Dysgu Proffesiynol (DP) er mwyn mynd i'r afael ag anghenion addysgol dysgwyr mewn ymateb i COVID-19 (parhad)

Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol hefyd wedi defnyddio dull colegaidd a chyfunol wrth ddatblygu fframwaith cefnogol. Roedd hyn yn sicrhau fod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisïau cywir ar waith ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr ar gyfer creu amgylchedd diogel er mwyn croesawu plant yn ôl i'r ysgolion.

Roedd y fframwaith yn cynnwys adnoddau ar gyfer cefnogi cynllunio ar gyfer y canlynol:

1. Gofynion iechyd a diogelwch
2. Trefniadau safle a chyfleusterau
3. Trafnidiaeth
4. Trefniadau staffio
5. Addysgu a dysgu cyfunol
6. Cynhwysiad a chefnogaeth i ddisgyblion
7. Tasgau rheolaeth allweddol.

# Cefnogi Dysgu Proffesiynol (DP) er mwyn mynd i'r afael ag anghenion addysgol dysgwyr mewn ymateb i COVID-19 (parhad)



Mae'r awdurdodau lleol a GwE wedi cydweithio er mwyn sicrhau dysgu proffesiynol helaeth i gefnogi'r newid i drefniadau mewn ysgolion.

Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- Rhannu arfer llwyddiannus ar draws y rhanbarth o ran dysgu o bell ac ymgysylltu â dysgwyr.
- Hwyluso gweithio clwstwr a chefnogaeth cymheiriaid i gymheiriaid ledled y rhanbarth.
- Cefnogi'r ysgolion hynny a oedd yn ei chael hi'n heriol ymgysylltu â dysgwyr penodol..
- Cefnogi athrawon wrth iddynt newid o gadarnhau dysgu blaenorol i addysgu agweddau newydd.
- Dysgu o fodelau cenedlaethol a rhyngwladol ar sut i ddatblygu dysgu cyfunol.
- Cyhoeddi canllawiau dysgu cyfunol a luniwyd ar y cyd ag Estyn a'r consortia rhanbarthol eraill.
- Datblygu modelau dysgu cyfunol enghreifftiol mewn cydweithrediad ag Estyn a'r consortia rhanbarthol eraill.
- Darparu dysgu proffesiynol i ysgolion ar fodelau dysgu cyfunol effeithiol ac addysgeg.
- Parhau i gefnogi iechyd a lles athrawon (a allai fod yn dysgu sawl grŵp oedran) wrth iddynt gynllunio a darparu darpariaeth effeithiol ar gyfer y disgyblion hynny sydd wedi dychwelyd i'r ysgol ac ar gyfer y rhai sy'n parhau i gael mynediad at ddysgu gartref.
- Parhau i gefnogi ysgolion wrth sicrhau iechyd a lles dysgwyr sy'n dychwelyd i ystafell ddosbarth wahanol iawn yn ystod y dychweliad graddol.
- Darparu Dysgu Proffesiynol pellach i athrawon a chymorthyddion ar y ffordd orau i fodelu'r ddarpariaeth 'economi gymysg' hon.
- Cefnogi ystod eang o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau digidol i wella profiadau addysgu a dysgu

# Diben yr adroddiad

Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu’r cynnig dysgu proffesiynol i ysgolion yn ystod pandemig COVID-19.

Mae’n darparu crynodebau a dolenni i’r adnoddau a ddatblygwyd ac a rannwyd ag ysgolion yn ogystal ag amlinelliad byr o’r cyfleoedd dysgu proffesiynol a gynigiwyd.

Cliciwch ar y dewisiadau isod:

**Adnoddau Dysgu Proffesiynol**

**Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol**





# Adnoddau Dysgu Proffesiynol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynnwys | Dysgu Digidol | Dysgu ac Addysgu | Llês |
| Arweinyddiaeth | Cymorthyddion | Y Gymraeg | Llwybrau Dysgu Proffesiynol Cynnar |

Hafan

# Cynnwys


**Dysgu Digidol**

- Webinarau
- Fideos 'Sut i'
- Adnoddau Dysgu o Bell

**Dysgu ac Addysgu**

- Cwricwlwm i Gymru
- Adborth
- Dysgu o Bell
- Dysgu Cyfunol
- Rhwydweithiau
- Dysgu ar Garlam

**Llês**

- Llês Cyffredinol
- Dulliau Llês wedi'u Targedu/Gwahaniaethol
- Llês Staff
- Ymgysylltu â Dysgwyr

Hafan

# Cynnwys (parhad)

**Arweinyddiaeth**

- Paratoi i ail-agor ysgolion
- Cynllun Datblygu Ysgol

**Cymorddyddion**

- Cyflwyniad
- Cynnwys ‘Classroom’
- Ymuno a’r ‘Classroom’

Tud. 212

**Y Gymraeg**

- Cynradd
- Uwchradd
- Newyddlenni
- Cynllun Gwefeillio

**Llwybr Dysgu Proffesiynol Cynnar**

- Addysg gychwynnol athrawon
- Athrawon Newydd Gymwyso

# Dysgu Digidol

Hafan






https://sites.google.com/d/1OUacLOYambS55w7HKx0cRU8BjhWKBbEE/p/1deFE6OxSWRVMkhVPksYoihedLEhnIlee/edit

# Dysgu Digidol

Hafan






https://sites.google.com/d/1OUacLOYambS55w7HKx0cRU8BjhWKBbEE/p/1IoF41dH_mAfa6bSL4-Bn-sFOXrlnBqtw/edit

# Dysgu Digidol

Hafan






https://sites.google.com/d/1OUacLOYambS55w7HKx0cRU8BjhWKBbEE/p/1IoF41dH_mAfa6bSL4-Bn-sFOXrlnBqtw/edit

# Dysgu Digidol

Hafan

Tud. 216




[https://sites.google.com/d/1OUacLOYambS55w7HKx0cRU8BjhWKBbEE/p/1IoF41dH_mAfa6bSL4-Bn-sFOXrlnBqtw/edit](https://sites.google.com/d/1OUacLOYambS55w7HKx0cRU8BjhWKBbEE/p/1IoF41dH_mAfa6bSL4-Bn-sFOXrlnBqtw/edit)

# Addysgu a Dysgu

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

Hafan

# Addysgu a Dysgu (Cwricwlwm i Gymru)




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Adborth)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu o Bell)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu o Bell)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu o Bell)

Hafan

- ADDYSGU A DYSGU
- Cwricwlwm i Gymru
- Adborth
- Dysgu ar Garlam
- Dysgu o Bell
  - Dysgu o Bell Cynradd
  - Dysgu o bell Uwchradd
- Dysgu Cyfunol
- Rhwydweithiau Pynciol
- PISA
- Ymchwil
- Ôl 16

## CYFNOD ALLWEDDOL 2

### Blwyddyn 3 a 4

Model 1 Dysgu Adref

Model 1 Ynys Baradwys

Model 2 Themau

Model 2 Dewis

Model 3 Generig

Model 4 Wythnosol

Model 4 Ysgol GwE

### Blwyddyn 5 a 6

Modelau Blwyddyn 5 a 6

https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu o Bell)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu o Bell)

Hafan




[https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit](https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit)

# Addysgu a Dysgu (Dysgu o Bell)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu o Bell)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu Cyfunol)

Hafan






https://sites.google.com/hwbcymru.net/dysgucyfunol-blendedlearning/cartref-home

# Addysgu a Dysgu (Dysgu Cyfunol)

Hafan

***Mae'r safle hwn ar ganol cael ei ddatblygu. Byddwn yn parhau i uwchlwytho'r cynnwys rhwng nawr a mis Medi.***

Dysgu Cyfunol CS | Model Dysgu Cyfunol CS | Gweithdy Dysgu Cyfunol | Cartref Dysgu Cyfunol | Esiamplau o Weithgareddau | Ystyriaethau | Arfau ac Apiau Defnyddiol | Cyfnod Allweddol 2 | Cynllun Datblygu Ysgol | English

# DYSGU CYFUNOL

# CYFNOD SYLFAEN

## MODEL DYSGU CYFUNOL Y CYFNOD SYLFAEN

**SGROLIWCH LAWR I WAELOD Y DUDALEN AR GYFER ESIAMPLAU I GYD-FYND Â'R MODEL**

Dysgu Cyfunol yn y Cyfnod Sylfaen






https://sites.google.com/hwbcymru.net/dysgu-cyfunol-cs/model-dysgu-cyfunol-csl

# Addysgu a Dysgu (Dysgu Cyfunol)

Hafan

***Mae'r safle hwn ar ganol cael ei ddatblygu. Byddwn yn parhau i uwchlwytho'r cynnwys rhwng nawr a mis Medi.***






Yn yr Ysgol | Yn y Cartref

Dylid dilyn y canllawiau gweithredol ac asesiad risg yr ysgol wrth gynllunio a chyflwyno gweithgareddau.

Cyfeiriwch at y ddogfen ystyriaethau cyfnod sylfaen am ganllawiau pellach.

Mae'r rhain yn enghreifftiau o weithgareddau ffocws a rhai o fewn y ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi. Dylid cadw'r tasgau ffocws yn fyr gyda chyfleoedd i ail-adrodd. (10 - 15 munud Meithrin a Derbyn / 15 - 20 munud Bl1 a Bl2). Sicrhewch bod darpariaeth barhaus ar gael.

Ystyriaethau'r Cyfnod Sylfaen

# Addysgu a Dysgu (Dysgu Cyfunol)

Hafan



# Addysgu a Dysgu (Dysgu Cyfunol)







ON YOUR MARKS



SPECIAL DAY




BLM / WILDLIFE

# Addysgu a Dysgu (Dysgu Cyfunol)

Hafan

Tud. 232



# Addysgu a Dysgu (Dysgu Cyfunol)

Hafan




Tud. 233

https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Ieithoedd Ryngwladol)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Ieithoedd Rhyngwladol)

Hafan






https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Ieithoedd Ryngwladol)

Hafan






https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu ar Garlam)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu ar Garlam)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu ar Garlam)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu ar Garlam)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GflwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu ar Garlam)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Addysgu a Dysgu (Dysgu ar Garlam)

Hafan




https://sites.google.com/d/1vu4MZYzYr4UHJgvwl_E636V2dqqOP_MJ/p/1GfIwKbd3_mVZNLQ0xnceqZ73ECeVuoHX/edit

# Llês

Hafan






https://sites.google.com/d/16Mw-pr7m6H40Nvd8_C09XRuQAP0GzY9w/p/1XF7I9cvNDLD-qBeyhjlvXD3mz5c8sYf1/edit

# Llês

Hafan

LLES

Lles

**Llesiant cyffredinol**

Ymgysylltu â Dysgwyr

Cefnogaeth gwahaniaethol / wedi ei thargedu ar gyfer grwpiau o ddysgwyr

Llesiant staff




## DOSBARTH GOOGLE

**Dosbarth Google Classroom CA2, CA3 and CA4**

Creuwyd dobarth Google ar gyfer cefnogi ysgolion gyda'r eflen Dysgu o Bell. Mae pob dosbarth gyda adran Llesiant sydd ac amrediad o adnoddau o fewn y maes lles corfforol, cymdeithasol, meddyliol ac emosiynol. Mae angen côd ar gyfer cael mynediad i'r dosbarth sydd wedi ei rhannu gyda eich ysgol.

## CA2

https://sites.google.com/d/16Mw-pr7m6H40Nvd8_C09XRuQAP0GzY9w/p/1XF7I9cvNDLD-qBeyhjlvXD3mz5c8sYf1/edit

# Llês






https://sites.google.com/d/16Mw-pr7m6H40Nvd8_C09XRuQAP0GzY9w/p/1XF7I9cvNDLD-qBeyhjlvXD3mz5c8sYf1/edit

# Llês

Hafan






https://sites.google.com/d/16Mw-pr7m6H40Nvd8_C09XRuQAP0GzY9w/p/1XF7I9cvNDLD-qBeyhjlvXD3mz5c8sYf1/edit

# Llês

Hafan






https://sites.google.com/d/16Mw-pr7m6H40Nvd8_C09XRuQAP0GzY9w/p/1XF7I9cvNDLD-qBeyhjlvXD3mz5c8sYf1/edit

# Arweinyddiaeth

Hafan




https://sites.google.com/d/13lxOcGlqFOfcfohi7pQJTIBmpkY2ylTw/p/1j5VwapWJU9o_0YeDHPXEKbB-TYj0zzni/edit

# Arweinyddiaeth

Hafan

**PARATOADAU I AIL-AGOR YSGOLION**

Trosolwg Dashfwrdd | Egwyddorion Trosfwaol

Diogelwch | Safle a Chyfleusterau | Trafnidiaeth

Staffio | Dysgu ac Addysgu | Cefnogi Dysgwyr

Cyfathrebu | Tasgau Rheolaethol Allweddol Eraill | Dogfennaeth a Chanllawiau LlC

Asesiadau Risg

Trosolwg | Sgorio | Canllawiau

Ysgol Gynradd | Ysgol Uwchradd | Ysgol Arbennig | UCD

**PREPARATION TO RE-OPEN SCHOOLS**

Dashboard Overview | Overarching Principles

Safety | Site & Facilities | Transport

Staffing | Teaching & Learning | Learner Support

Communication | Other Key Management Tasks | WG Guidance Documents

Risk Assessments

Overview | Scoring | Guidance

Primary Schools | Secondary Schools | Special Schools | PRU

**Fel ar y 15-06-2020**

**As at 15-06-2020**

Preparation to re-open schools

Hafan



## COVID-19 - PARATOI I AIL AGOR YSGOLION - ASESIAD RISG YSGOL UWCHRADD

| Grŵp | Maes Pryder | Mesurau Presennol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Mesurau Ychwanegol | Tebygolrwydd | Difrifoldeb | Sgôr | Sylwadau Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Logisteg | Adeiladau | • Cyfrifo cynhwysedd ysgol | | | 12 | • Yn ôl cyfrifiadau cynhwysedd, gallai 56 m2 safonol gymryd 8 disgybl i ganiatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol o 2m.<br>• Ar gyfer ysgol arferol efo amrywiaeth o ddosbarthiadau byddai hyn yn awgrymu cynhwysedd posibl o 35% o ddefnydd arferol.<br>• Mae'r dosbarth cyfartalog, efo dodrefn a staff ychwanegol yn 6 disgybl.<br>• Gallai ysgolion fod eisiau gweithredu ffactorau cyfyngu eraill neu edrych ar raddoli cynhwysedd o 20% i 33% yn dibynnu ar eu cyfyngiadau unigol.<br>• Gallai ysgolion fod eisiau dechrau ar ben isaf yr ystod ac, ar sail profiad, addasu cynhwysedd dros yr wythnosau dilynol. | | | | • Mae gan ALl ddata ar gynhwysedd a gellid cynnal amrywiaeth o fodelau wrth i'r cyngor ar gadw pellter cymdeithasol aeddfedu gwyddonol cyfredol. Dylid gweithredu'r un egwyddorion diogelu i'r ystafell athrawon. |
| Logisteg | Yr ystafelloedd | • Gofynion iechyd a diogelwch o safbwynt yr ystafell ddosbarth a defnyddio lle o fewn yr ysgol. | | | 16 | • Bydd angen i ysgolion edrych ar y mesurau o ran glanhau, golchi dwylo, toiledau, arlwyo a defnydd o'r gofod cymdeithasol. | | | | • Mae angen i ysgolion ofalu bod yr holl wiriadau iechyd a diogelwch wedi'u cwblhau ar ôl cyfnod o gau fel clefyd Legionnaire, a systemau chwistrellu dŵr, tynnu llwch ac ati.<br>• Sylwch nad yw hon yn rhestr lawn ac y bydd angen i ysgolion gysylltu â'u hymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch am asesiad cyfa |
| Logisteg | Cludiant | • Penodol iawn i'r ysgol, yn amrywio o ychydig iawn o ofynion gyda'r mwyafrif yn byw o fewn 3 milltir ac yn teithio'n ddiogel i'r ysgol, hyd at ysgolion lle mae mwyafrif y dysgwyr yn cael eu cludo i'r ysgol.<br>• Hefyd, mae angen ystyried dysgwyr bregus y mae arnynt angen trefniadau unigryw. | | | 12 | • Cysylltu â'r ALl am gludiant mewn perthynas â'r diwrnod ysgol a faint fydd angen.<br>• Parhau i leihau niferoodd sydd yn cael cludiant. | | | | • Bydd pob giât heblaw am y giât ffrynt ar gau.<br>• UDA ar y giât i adael bysus a thacsis i mewn ac allan unwaith y bydd yn ddiogel.<br>• Rhaid i hyn fod yn berthnasol i bob safle - dylai fod yn hyblyg i bob ysgol.<br>• Bydd angen i blant ar fysus fod ar rota hefyd.<br>• Creu mannau gollwng disgyblion - meysydd parcio gerllaw ac ati.<br>• Efallai bydd rhaid i ddysgwyr beidio â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar adegau prysur ac felly, o ganlyniad, gall ysgolion cynnal diwrnod ysgol tu allan i oriau teithio prysur. |
| | | | | | | | | | | • Angen cymorth gan bob gwasanaeth ALl i reoli disgwyliadau rhieni/gofalwyr. |




## PROGRESS TOWARDS SDP PRIORITIES 2019-20

Reviewing the progress of the 2019-20 school development plan remains statutory. Most schools have reviewed their priorities up to March 2020. This document offers sentences and possible content to report on progress since then. It can usually be reviewed at the school's G6 site or an annex to the SDP 2019-20 document.

Click here to open the document in a new window - there will be an option here for you to download.

# Cymorthyddion

Hafan






https://sites.google.com/d/1rIeofBz-sfln_0S332fQ7R1elYfxgUQ_/p/1a0VwAxXux3muAkkqJkrxVC5QbMER0Zh1/edit

# Cymorthyddion

Hafan




Tud. 253

https://sites.google.com/d/1rIeofBz-sfln_0S332fQ7R1elYfxgUQ_/p/1a0VwAxXux3muAkkqJkrxVC5QbMER0Zh1/edit

Hafan

# Cymorthyddion




https://sites.google.com/d/1rIeofBz-sfln_0S332fQ7R1elYfxgUQ_/p/1-CyrXC7fOcElMPnoJPb4ikJC5u9v7zod/edit

# Y Gymraeg

Hafan




Tud. 255

https://sites.google.com/hwbcymru.net/ygymraeg/

# Y Gymraeg

Hafan






https://sites.google.com/hwbcymru.net/ygymraeg/cynradd/cyfnod-sylfaen

# Y Gymraeg








https://sites.google.com/hwbcymru.net/ygymraeg/cynradd/cyfnod-allweddol-2

# Y Gymraeg

Hafan




Tud. 258

https://sites.google.com/hwbcymru.net/ygymraeg/uwchradd/ca3

# Y Gymraeg

Hafan

Tud. 259




https://sites.google.com/hwbcymru.net/ygymraeg/uwchradd/ca4

# Y Gymraeg

Hafan




Tud. 260

https://sites.google.com/hwbcymru.net/ygymraeg/newyddlenni

# Llwybr Dysgu Proffesiynol Cynnar

Hafan




https://sites.google.com/hwbcymru.net/ygymraeg/cynllun-gwefeillio

# Llwybr Dysgu Proffesiynol Cynnar

Hafan






https://sites.google.com/hwbcymru.net/itenqt/early-professional-development-pathways

# Llwybr Dysgu Proffesiynol Cynnar

Hafan






[https://sites.google.com/hwbcymru.net/itenqt/ite/learning-to-teach](https://sites.google.com/hwbcymru.net/itenqt/ite/learning-to-teach)





# Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol

- Dysgu Digidol
- Addysgu a Dysgu
- Lles
- Arweinyddiaeth
- Cymorthyddion Dysgu
- Y Gymraeg
- Llwybrau DP Cynnar

# Dysgu Digidol

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Gweminarau byw ac wedi'u recordio ar gyfer arweinwyr ac athrawon a oedd yn cynnwys:<br>• Cyflwyniad i Hwb<br>• Cyflwyniadau ar sut i ddefnyddio *Flipgrid, Office 365, Google for Education, Screencastify, Adobe Spark*<br>• Rhannu adnoddau dysgu proffesiynol pellach pe bai'r gynulleidfa angen gwybodaeth ychwanegol | • Gwell ymwybyddiaeth o'r offer a'r gwasanaethau a gynigir drwy Hwb<br>• Cynnydd ymysg ysgolion yn y ddealltwriaeth o'r manteision o ddefnyddio Hwb<br>• Cynnydd yn y defnydd o Hwb ar gyfer cefnogi dysgu o bell | 5 sesiwn<br>14 awr<br>470 wedi mynychu sesiwn fyw<br>720 wedi mynychu sesiwn a recordiwyd |

# Dysgu Digidol

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Gweithdai dysgu digidol a gyflwynwyd i staff GwE i'w galluogi i gefnogi pob ysgol a chlwstwr ledled y rhanbarth â'u strategaethau dysgu o bell a dysgu cyfunol. | • Cefnogaeth ar gael ac wedi ei chyflwyno i bob un o'r 413 o ysgolion a'r 53 clwstwr yn y rhanbarth<br>• Cynnydd mewn hyder ac yn y defnydd o ddysgu digidol ar draws yr holl ysgolion<br>• Cynnydd yn y cyfleoedd dysgu proffesiynol a'r adnoddau sydd ar gael i ysgolion ar gyfer cefnogi dysgu o bell a dysgu cyfunol | 60 sesiwn<br>132 awr<br>65 o staff GwE |

# Dysgu Digidol

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi eu darparu ar gyfer holl arweinwyr ac athrawon ysgolion y rhanbarth drwy'r canlynol:<br>• Creu gwefan dysgu o bell er mwyn rhannu gwybodaeth ac offer i gefnogi ysgolion<br>• Creu *Google Classrooms* er mwyn rhannu adnoddau ac arfer da gyda staff addysgu<br>• Creu *Google Classroom* er mwyn cynnig dysgu proffesiynol i gymorthyddion dysgu<br>• Creu gwefan dysgu cyfunol er mwyn cyflwyno modiwlau a dulliau dysgu cyfunol i ysgolion | • Adnoddau a gwybodaeth ar gael ac wedi eu cyflwyno i'r 413 o ysgolion a'r 53 clwstwr yn y rhanbarth<br>• Gwybodaeth wedi ei choladu mewn un lle er mwyn hwyluso mynediad<br>• Gwell ymwybyddiaeth o'r gwahanol fethodoleg a dulliau o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol<br>• Cynnydd yn y cyfleoedd dysgu proffesiynol a'r adnoddau sydd ar gael i ysgolion ar gyfer cefnogi dysgu o bell a dysgu cyfunol<br>• Rhannu arfer da ar draws y rhanbarth | 25 awr<br>Adnoddau a gwybodaeth ar gael ar gyfer y 413 o ysgolion a'r 53 clwstwr yn y rhanbarth |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

Tud. 268

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Uwchsgilio **Ymarferwyr Cyfnod Sylfaen ac UDA,** gan ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth bwrpasol ar ddarpariaeth CS i ysgolion unigol a chlystyrau o ysgolion.<br>• Arweiniad a chefnogaeth ar ailagor ysgolion, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth y cyfnod sylfaen, ar gyfer ysgolion unigol, clystyrau ac YCG.<br>• Sesiynau hyfforddi clwstwr ar Ddysgu y Tu Allan ac ar sut i ddefnyddio'r tu allan yn effeithiol pan fydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol.<br>• Arweiniad, cefnogaeth a hyfforddiant penodol ar gyfer ysgolion yng nghategori Estyn ac ysgolion sy'n risg o ran eu cynllunio a darparu dysgu o bell.<br>• Hyfforddiant mathemateg a rhifedd i gefnogi staff y CS i gynllunio profiadau dysgu pwrpasol trwy ddysgu o bell a dysgu cyfunol.<br>• Rhannu model a gweithgareddau enghreifftiol Dysgu Cyfunol CS gyda'r YCG a chlystyrau o ysgolion ar draws y rhanbarth er mwyn cefnogi trosglwyddo a sefyllfaoedd lle mae ysgolion wedi cau yn lleol. | • Uwchsgilio ymarferwyr CS ac UDA ar addysgeg CS da.<br>• Cynnydd yn yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r angen i ddarparu amgylchedd buddiol o ansawdd uchel i ddisgyblion ar gyfer dychwelyd i'r ysgol.<br>• Cynnydd yn y ddealltwriaeth o'r angen i gynllunio gweithgareddau pwrpasol a darparu cyfarwyddiadau/deunyddiau cam wrth gam, i gefnogi rhieni gyda dysgu o bell. | 33 sesiwn<br>50 awr<br>172 o fynychwyr |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Arweiniad i staff GwE ar ganllawiau a modelau enghreifftiol dysgu cyfunol CA2 - o ran cynnwys a chefnogaeth i ysgolion**<br><br>• Cydweithiodd 6 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i ysgrifennu cynlluniau dysgu cyfunol enghreifftiol, wedi eu cefnogi gan 5 YCG arall gydag arbenigedd Llythrennedd, Rhifedd a Digidol. Ysgrifennwyd tri chynllun enghreifftiol gwahanol gydag arweiniad i rieni ar gyfer pob un. Roedd pob un o'r 3 enghraifft yn cydymffurfio ag egwyddorion addysgegol a 4 diben y Cwricwlwm i Gymru a'r arweiniad ar gynllunio cwricwlwm.<br>• Mae cyflwyniad *PowerPoint,* sy'n cyd-fynd â'r enghreifftiau, yn cynnig arweiniad ar y modelau dysgu cyfunol gwahanol, ystyriaethau ar gyfer gweithredu effeithiol ac arweiniad digidol ar gyfer athrawon.<br>• Rhannwyd gwybodaeth am yr enghreifftiau gyda phob YCG cynradd trwy gyflwyniadau mewn cyfarfodydd craidd a lleol ar draws y rhanbarth. Cafodd arweiniad ei rannu hefyd er mwyn paratoi YCG ar gyfer rhannu gwybodaeth â phob ysgol gynradd yn y rhanbarth fel rhan o'r Gweithdai Dysgu Cyfunol a gynhaliwyd yn wythnosau olaf tymor yr haf. | Roedd gan yr YCG ganllaw eglur i'w cynorthwyo i rannu gwybodaeth ag ysgolion ar draws y rhanbarth ac ar gyfer rhoi negeseuon eglur a chyson i ysgolion.<br>O ganlyniad:<br>• Mae gan ysgolion cynradd y rhanbarth wybodaeth dda ynghylch y deunyddiau enghreifftiol a'u cynnwys.<br>• Mae gan ysgolion arweiniad eglur ar fodelau dysgu cyfunol gwahanol. Mae ganddynt hefyd arweiniad a syniadau ymarferol er mwyn helpu athrawon gynllunio ar gyfer Medi a thu hwnt.<br>• Mae arweinwyr ac athrawon wedi croesawu'r deunyddiau gan nodi y byddant yn ddefnyddiol iawn.<br>• Mae gweld a thrafod y deunyddiau wedi lleihau'r ansicrwydd ymhlith athrawon, gan ddyfnhau eu dealltwriaeth o sut allai dysgu cyfunol edrych yn ymarferol ac mae wedi lleihau llwyth gwaith athrawon o ran cynllunio. | • Paratoi deunyddiau - 400 awr<br>• Cyfarfodydd - 5 awr<br>• 32 YCG cynradd |

# Addysgu a Dysgu





| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **DP ar gyfer modelau a darpariaeth Dysgu o Bell cynradd**<br>• Uwchsgilio staff GwE ymhellach a chynhyrchu modelau DoB enghreifftiol – rhannu modelau dysgu o bell a ddatblygwyd gan dîm cynradd GwE ar gyfer CS M/D, B1/2, B3/4, B5/6<br>• Cyfarfodydd DP gydag ALl (trwy gyfarfodydd BAS) i sicrhau eglurder ac adborth ar ddulliau DD.<br>• Dysgu proffesiynol ar gyfer penaethiaid – cynhaliodd pob YCG sesiwn DP unigol ar y ffôn gyda phob pennaeth, ac anfonwyd negeseuon e-bost dilynol oedd yn cynnwys yr holl ddogfennaeth a'r modelau, fel nad oedd y modelau'n cael eu hanfon yn 'oer' nac yn cael eu camddehongli – wythnos 20/04/20<br>• Roedd sesiynau dysgu proffesiynol yr YCG yn datblygu penaethiaid ar sail unigol o ran sut i ddefnyddio 'Teams' a sut i weithredu modelau'r YCG. Dysgu proffesiynol dilynol a rhannu arfer gorau mewn cyfarfodydd clwstwr; dysgu | • Aelodau'r tîm wedi'u harfogi'n fwy effeithiol i gefnogi ysgolion.<br>• Cysondeb o ran negeseuon, arweiniad a chefnogaeth i ysgolion.<br>• Cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel wedi'u cyflwyno i ysgolion [yn cynnwys arweiniad pwrpasol lle bo angen].<br>• Mwy o gysondeb o ran y dulliau a fabwysiadwyd ar draws ysgolion ac o fewn ALl.<br>• Uwchsgilio penaethiaid ac athrawon o ran sgiliau a'r adnoddau a'r offer sydd ar gael i ysgolion ar gyfer dysgu o bell<br>• Gwell cydweithio ar draws clystyrau<br>• Gwell darpariaeth dysgu o bell ar gyfer plant<br>• Gwell safonau o ran ymgysylltiad, lles a sgiliau plant | • 330+ sgwrs dysgu proffesiynol unigol gyda phenaethiaid<br>• 54 cyfarfod clwstwr<br>• x2 (ail ymweld)<br>1 cyfarfod tîm cynradd<br>1 cyfarfod tîm llawn – 30 munud<br>3 chyfarfod ardal leol x3 (ail ymweld)<br>6 x cyfarfod penaethiaid-rhanddeiliaid<br>6 x cyfarfod BAS<br>• 240 awr |

# Addysgu a Dysgu

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Gweithdai Dysgu Cyfunol ar gyfer CA2**<br>Cynlluniwyd y sesiwn er mwyn datblygu dealltwriaeth gychwynnol o hanfodion Dysgu Cyfunol er mwyn paratoi ysgolion i gynnig darpariaeth effeithiol i ddisgyblion.<br><br>Roedd disgwyl i unigolion / ysgolion wneud y canlynol:<br>• Cyfrannu i sgyrsiau a thrafodaethau yn dilyn darllen cefndirol am Ddysgu Cyfunol cyn y gweithdy<br>• Gwylio fideo am hanfodion Dysgu Cyfunol a thrafod diffiniadau a modelau posib<br>• Nodi pa gyfleoedd sydd i ysgolion wrth addasu eu darpariaeth ar gyfer Medi 2020 (yn benodol o dan y penawdau Lles, Addysgeg, CiG , Dysgu Cyfunol ac Adborth).<br>• Ystyried sut allent ymateb i unrhyw heriau o ran addasu ar gyfer Medi 2020.<br>• Ystyried pa gefnogaeth bellach fydd ei hangen arnynt er mwyn darparu Dysgu Cyfunol yn llwyddiannus ac ystyried sut all cydweithio clwstwr gynorthwyo hyn wrth symud ymlaen. | • Gwell dealltwriaeth o hanfodion Dysgu Cyfunol.<br>• Ysgogi penaethiaid ac Arweinwyr Addysgu a Dysgu i ddatblygu modelau Dysgu Cyfunol yn eu hysgolion.<br>• Arweinwyr Addysgu a Dysgu wedi eu hwuchsgilio a'u harfogi i ddatblygu Dysgu Cyfunol yn eu hysgolion ac i gefnogi eu staff addysgu'n well.<br>• Pob ysgol glwstwr yn gallu cydweithio gyda'r YCG i nodi pa gefnogaeth bellach sydd ei hangen ar gyfer cyflwyno Dysgu Cyfunol yn llwyddiannus fel bod modd targedu'r rhain mewn cyfarfodydd dilynol.<br>• Sgiliau digidol penaethiaid ac Arweinwyr DacA wedi gwella o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithdy ar-lein. Penaethiaid ac Arweinwyr yn gallu trafod ac ymwneud â thasgau ymarferol digidol yn llwyddiannus.<br>• Datblygu sgiliau ar gyfer cydweithio digidol ymhlith ysgolion clwstwr - e.e., creu dogfen ar y cyd ar gyfer ymateb i gyfleoedd a heriau cyfredol. | 54 sesiwn<br>54 awr<br>330 ysgol (hyd at 2 gynrychiolydd o bob ysgol yn mynychu) |

# Addysgu a Dysgu



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **DP wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus i'r tîm uwchradd er mwyn cefnogi ysgolion yn llwyddiannus gyda Dysgu o Bell**<br><br>• Yn y cyfnod clo cychwynnol, buddsoddwyd amser sylweddol yn cyfathrebu ag ysgolion mewn perthynas â'u dealltwriaeth o ddysgu o bell, gan arwain at ymchwil i arferion cyfredol yn genedlaethol a rhyngwladol, er mwyn cefnogi ysgolion yn effeithiol. Roedd yr amser hwn yn cynnwys ymchwilio i DdoB o safbwynt arweinwyr ysgolion, athrawon, disgyblion a rhieni.<br>• Yn dilyn hyn, treuliwyd llawer o amser yn creu rhesymwaith ar gyfer DoB a oedd yn cydnabod yr arfer gorau, a oedd yn realistig, ond eto yn uchelgeisiol ar gyfer pob dysgwr.<br>• Arweiniodd y rhesymwaith at drafodaeth a chreu nifer o ddulliau strwythurol a sefydliadol ar gyfer DoB mewn ysgolion, yn amrywio o gynlluniau eithaf anhyblyg a oedd yn cydnabod angen cwricwlaidd i atgyfnerthu dysgu ac archwilio syniadau newydd, i gynlluniau mwy hyblyg oedd yn annog dysgu thematig a dewis ar gyfer dysgwyr a rhieni. | • Uwchsgilio aelodau'r tîm uwchradd, naill ai drwy ymwneud uniongyrchol neu rannu diweddarach, mewn perthynas ag egwyddorion sylfaenol DoB a'i gymhwyso mewn amrywiaeth o ysgolion.<br>• Aelodau'r tîm wedi'u harfogi'n well i gefnogi ysgolion, gyda dealltwriaeth eang o DdoB a gwybodaeth am ddulliau amrywiol a allai weithio yng nghyd-destun ysgolion unigol.<br>• O ganlyniad, roedd penaethiaid ac aelodau UDRh wedi'u harfogi'n fwy effeithiol i gefnogi athrawon yn eu hysgolion eu hunain, o ran darparu dysgu addas i ddisgyblion a chefnogi rhieni.<br>• Cysondeb o ran negeseuon, arweiniad a chefnogaeth i ysgolion<br>• Modelau o ansawdd uchel wedi'u rhannu â phob ysgol yn y rhanbarth, trwy gyflwyniadau hyderus gan staff GwE, o ganlyniad i fuddsoddi amser yn ymchwilio a chreu rhesymwaith.<br>• Ysgolion yn datblygu eu strategaeth Dysgu o Bell eu hunain yn seiliedig ar arweiniad GwE.<br>• Gwell dealltwriaeth gan yr holl ysgolion o gynllunio naill ai ddull pwnc-ganolog neu un amlddisgyblaethol yn CA3 gan drefnu bod staff ar yn cydweithio ar gynllunio a chyflwyno.<br>• Penaethiaid ac UDRh wedi'u grymuso i arwain, datblygu a chefnogi staff yn eu hysgolion.<br>• Cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel wedi'u cyflwyno i ysgolion [yn cynnwys arweiniad pwrpasol lle bo angen]. | • Yr holl staff yng nghyfarfod llawn GwE pan rannwyd syniadau a phan eglurwyd y rhesymwaith.<br>• 6+ aelod o staff yn y tîm craidd, ac 13+ aelod o staff yng nghyfarfodydd y tîm uwchradd i rannu syniadau a diweddaru staff er mwyn iddynt weithio'n gynhyrchiol mewn ysgolion, gyda'r holl fanylder angenrheidiol.<br>• Gweithiodd 6 aelod o staff uwchradd GwE ar ymchwil, rhesymwaith a modelu DoB.<br>• 350 awr |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Dysgu proffesiynol wedi ei ddarparu trwy **fforymau a rhwydweithiau uwchradd** a'i ategu gyda gweminarau i godi ymwybyddiaeth o egwyddorion **Dysgu o Bell** effeithiol a'r ystyriaethau a allai effeithio ar unrhyw gynllunio. | • Holl ysgolion uwchradd y rhanbarth yn cydymffurfio ar arweiniad Llywodraeth Cymru, a'r rhan fwyaf o ysgolion wedi mabwysiadu modelau GwE ac wedi addasu arferion fel eu bod yn cyd-fynd â'r arweiniad a'r modelau.<br>• Mwy o ddealltwriaeth gan bob ysgol o hanfodion Dysgu o Bell effeithiol.<br>• Gwell dealltwriaeth gan bob ysgol o sut i gynllunio dull amlddisgyblaethol yn CA3 a threfnu bod staff yn cydweithio i gynllunio a chyflwyno.<br>• Mwy o gysondeb yn y dulliau a fabwysiadwyd ar draws ysgolion ac o fewn ALl.<br>• Arferion da wedi eu rhannu trwy'r ddogfen '10 Ffordd' a thrwy'r arweiniad dysgu ac addysgu lletach a gynigiwyd fis Mehefin. | • 12 sesiwn + cyfarfodydd a chyswllt rheolaidd yr YGC gyda phenaethiaid ac UDRh - 325 awr<br>• 200 (penaethiaid, UDRh, fforymau Pynciau Craidd ac athrawon) wedi mynychu'r gweminarau<br>• Cefnogaeth bwrpasol ychwanegol hefyd wedi'i darparu ar gyfer ysgolion unigol yn ôl y gofyn. |

# Addysgu a Dysgu

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Dysgu proffesiynol ar Ddysgu Cyfunol ar gyfer penaethiaid ac Arweinwyr Dysgu UDA**<br>• Datblygu dealltwriaeth o ddysgu cyfunol er mwyn paratoi ysgolion ar gyfer cynnig darpariaeth effeithiol i ddisgyblion. Rhoi trosolwg o'r arweiniad ar ddysgu cyfunol a ddatblygwyd gan dîm GwE<br>• Canolbwyntio ar y tasgau allweddol yr oedd angen i arweinwyr ysgolion ymgymryd â nhw cyn diwedd tymor yr haf<br>• Codi ymwybyddiaeth o'r ystyriaethau a allai effeithio ar unrhyw gynllunio ar gyfer tymor yr hydref<br>• Canolbwyntio ar fodelau dysgu cyfunol penodol yn cynnwys enghreifftiau pynciol a modelau amlddisgyblaethol CA3 ( Dysgu Gyda'n Gilydd)<br>• Cefnogi penaethiaid ac arweinwyr dysgu i ddefnyddio technoleg wrth ddarparu dysgu cyfunol ac i uchafu ymgysylltiad disgyblion<br>• Galluogi ysgolion i rannu syniadau ac arfer da<br>• Defnyddio cysylltiadau YCG er mwyn darparu | • Cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel wedi'u darparu i ysgolion yn cynnwys arweiniad pwrpasol lle bo angen<br>• Penaethiaid ac arweinwyr UDA wedi'u harfogi'n fwy effeithiol i gefnogi eu timau staff wrth gynllunio a chyflwyno dysgu cyfunol<br>• Mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddysgu cyfunol, y modelau amrywiol a sut i gynllunio ar eu cyfer<br>• Cysondeb o ran y gefnogaeth, y negeseuon a'r arweiniad i ysgolion y rhanbarth<br>• Ymatebodd ysgolion y rhanbarth yn dda i ansawdd a defnyddioldeb arweiniad GwE gan ddatblygu eu strategaethau eu hunain ar ei sail<br>• Roedd yr arweiniad yn sail i benderfyniadau ysgolion o ran gofynion dysgu proffesiynol ar gyfer tymor yr hydref. Arweinwyr dysgu ac addysgu wedi'u grymuso i ddarparu HMS ar ddysgu cyfunol yn eu hysgolion eu hunain.<br>• Rhoddwyd cyfleoedd i grwpiau dysgu ac addysgu i gydweithio a rhannu arfer da<br>• Dysgu cyfunol yn rhan o gynllunio paratoadol ysgolion ar gyfer tymor yr hydref | • 12 cyfarfod penaethiaid a 18 cyfarfod o'r grwpiau dysgu<br>• 54 pennaeth a 62 arweinydd addysgu a dysgu<br>• 65 awr |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Dysgu proffesiynol ar Ddysgu Cyfunol wedi'i gyflwyno trwy fforymau uwchradd, grwpiau dysgu ac addysgu a rhwydweithiau arweinwyr canol pynciau craidd.**<br><br>• Rhannu arweiniad GwE ar ddysgu cyfunol, yn cynnwys crynodeb o ymchwil rhyngwladol ynghylch modelau effeithiol a'r arweiniad diweddaraf ar addysgu a dysgu effeithiol<br>• Arweiniad ar gynllunio effeithiol ar gyfer dysgu cyfunol<br>• Defnyddio offer digidol i gefnogi dysgu cyfunol<br>• Rhannu deunyddiau enghreifftiol pwnc-benodol ar gyfer Saesneg, Cymraeg, llenyddiaeth, gwyddoniaeth, mathemateg a hanes er mwyn darparu enghreifftiau ymarferol o'r uchod | • Uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn meddu ar allu gwell i i gynllunio ar gyfer cyfleoedd a heriau dysgu cyfunol. Yr arweiniad wedi cael derbyniad cadarnhaol iawn.<br>• Cefnogaeth ar lefel ymarferol i athrawon i gynllunio a chyflwyno dysgu cyfunol. Roedd ysgolion yn defnyddio ac addasu hwn ar gyfer eu cyd-destun.<br>• Ysgolion yn gallu adeiladu ar y profiad o ddysgu o bell mewn meysydd megis y defnydd o offer digidol<br>• Ysgolion yn defnyddio'r arweiniad ar ddysgu cyfunol i fodelu addysgu a dysgu effeithiol<br>• Cysondeb o ran y gefnogaeth, y negeseuon a'r arweiniad i ysgolion y rhanbarth | • 46 sesiwn<br>• 350 awr<br>• 236 ( 54 pennaeth, 62 arweinydd addysgu a dysgu, 120 arweinydd canol pynciau craidd ) |

# Addysgu a Dysgu

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Gweithgor Dysgu Cyfunol uwchradd**<br>• Thema ganolog y sesiynau oedd ymchwilio ac ysgrifennu'r arweiniad i ysgolion ar gyfer y cyfnod 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' a ddechreuodd ar 29 Mehefin. Cafodd hwn ei rannu ag ysgolion ar 16 Mehefin fel adran dysgu ac addysgu uwchradd y dangosfwrdd<br>• Roedd arweiniad 29 Mehefin yn cynnwys yr egwyddorion allweddol ar gyfer dysgu yn y cyfnod hwn, gan gefnogi iechyd a lles, cyfuno dysgu yn yr ysgol a dysgu o bell, y goblygiadau i'r cwricwlwm, yr amserlen ac arferion dosbarth yn ogystal ag arweiniad ar ffitrwydd dysgu.<br>• Roedd arweiniad 29 Mehefin hefyd yn cyfeirio at ddeunyddiau eraill a ddatblygwyd ac a gynhwyswyd ar y dangosfwrdd. Roedd y rhain yn ddeunyddiau ar adborth ac asesu, modelau dysgu cyfunol, 10 ffordd o ddatblygu dysgu o bell, iechyd a lles, trosglwyddo a chwricwlwm adferiad<br>• Ail thema ganolog y sesiynau oedd ymchwilio ac ysgrifennu arweiniad GwE ar ddysgu cyfunol i gefnogi ysgolion gyda'u cynllunio a'u paratoadau ar gyfer Medi. Rhannwyd hwn ag ysgolion ar 30 Mehefin. Rhannwyd fersiwn wedi'i ddiweddaru ar 6 Gorffennaf.<br>• Roedd yr arweiniad ar ddysgu cyfunol yn cynnwys diffiniadau o'r termau allweddol, egwyddorion cyffredin, tasgau allweddol ar gyfer tymor yr haf, cynllunio ysgol gyfan ar gyfer dysgu cyfunol, modelau o ddysgu cyfunol, cynllunio pynciol, deunyddiau enghreifftiol ar gyfer chwe phwnc ac adolygiad o'r offer digidol sydd ar gael i gefnogi dysgu cyfunol.<br>• Rhannwyd ac eglurwyd yr arweiniad mewn manylder i benaethiaid, arweinwyr addysgu a dysgu ac arweinwyr pynciau craidd ledled y rhanbarth gan arweinwyr craidd ac arweinwyr pynciau craidd GwE.<br>• Roedd y deunyddiau cefnogol a rannwyd ag ysgolion hefyd yn cynnwys gweminarau yn y Gymraeg a'r Saesneg a oedd yn egluro'r arweiniad ymhellach | • Roedd y dull dangosfwrdd yn cynnig un lle hwylus i ysgolion gael mynediad at yr ystod cyfan o arweiniad ar ailagor.<br>• Cafodd ysgolion fynediad at yr ymchwil ddiweddaraf ac at ddeunyddiau cefnogol ym meysydd allweddol iechyd a lles a ffitrwydd dysgu, ac roeddent yn gallu cefnogi disgyblion yn well wrth iddynt ddychwelyd.<br>• Roedd yr arweiniad yn cefnogi ysgolion wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm ac wrth sicrhau arfe dosbarth effeithiol yng nghyd-destun ymbellhau cymdeithasol.<br>• Trwy ddarparu fframwaith a diffiniadau cyffredin fel sail ar gyfer cynllunio cafwyd gwelliant yn y cydweithio rhwng ysgolion ac oddi mewn i ysgolion.<br>• Datblygwyd a rhannwyd arfer da yn yr amrywiol fforymau.<br>• Roedd y dull 'ystyriaethau allweddol' yn cefnogi cynllunio ysgol gyfan a chynllunio adrannol ar gyfer dysgu cyfunol ac roedd yn cynnig mynediad i'r ymchwil diweddaraf<br>• Defnyddiwyd y deunyddiau enghreifftiol pynciol ar gyfer Saesneg, Cymraeg, llenyddiaeth, gwyddoniaeth, mathemateg a hanes i gynllunio darpariaeth tymor yr hydref. Roedd y fformat yn hygyrch ac roedd pob tîm pwnc yn gallu ei ddefnyddio.<br>• Mae'r arweiniad yn cynnwys yr arferion addysgu a | • 18 sesiwn<br>• 36 awr ac amser paratoi<br>• 6 YCG |

# Addysgu a Dysgu

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Uwchsgilio YCG GwE i gefnogi CA3**<br>***Deunyddiau Dysgu Gyda'n Gilydd***<br>• DP trwy greu adnoddau – ymchwilio i fodelau effeithiol ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol<br>• Cyflwyniad i YGC uwchradd ar y daith a'r egwyddorion y tu ôl i greu'r uned '*Dysgu Gyda'n Gilydd*' gyntaf<br>• 2 x diweddariad ar gyfer Arweinwyr Craidd ar ddatblygiad y deunyddiau '*Dysgu Gyda'n Gilydd*' | • Darparu gwybodaeth i YCG am ddeunyddiau 'Dysgu Gyda'n Gilydd' er mwyn cefnogi ysgolion yn effeithiol a chyson<br>• Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Arweinwyr Craidd ar y deunyddiau er mwyn trosglwyddo hynny i holl benaethiaid y rhanbarth. | • 3 sesiwn<br>• 25 o fynychwyr |

# Addysgu a Dysgu

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **CA3 *Deunyddiau Dysgu Gyda'n Gilydd***<br>• DP trwy greu adnoddau - ymchwilio i fodelau effeithiol ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol<br>• Cyflwyniad *Power Point* cychwynnol wedi ei baratoi fel bod Arweinwyr Craidd yn gallu cyflwyno deunyddiau '*Dysgu Gyda'n Gilydd*' i benaethiaid ym mhob sir<br>• Trafodaethau pellach a chyflwyniadau mwy manwl i benaethiaid ar sut mae deunyddiau '*Dysgu Gyda'n Gilydd*' yn cefnogi dysgu o bell / dysgu cyfunol yn CA3<br>• Cyflwyniad manwl ar ddeunyddiau '*Dysgu Gyda'n Gilydd' i* Arweinwyr Addysgu a Dysgu<br>• Cyfarfodydd ag arweinwyr pwnc i drafod defnydd posib ar gyfer y deunyddiau<br>• Cyfarfodydd a thrafodaethau dilynol ag ysgolion unigol i drafod rhoi deunyddiau '*Dysgu Gyda'n Gilydd*' ar waith. | • Arweiniad a chefnogaeth gyson i ysgolion ym mhob sir.<br>• Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ysgolion o'r unedau dysgu integredig enghreifftiol i gefnogi dysgu cyfunol yn CA3<br>• Cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel wedi'u cyflwyno i ysgolion unigol<br>• Rhoddodd cyfarfodydd Arweinwyr Addysgu a Dysgu gyfle i gydweithio a rhannu arfer da<br>• Arweinwyr Addysgu a Dysgu wedi'u grymuso i arwain a chefnogi staff yn eu hysgolion<br>• Roedd ychydig o ysgolion wedi gwneud defnydd o uned enghreifftiol fel sail ar gyfer darparu profiadau dysgu yn ystod y cyfnod cyn 29 Mehefin<br>• Roedd ychydig o ysgolion wedi gwneud defnydd o uned enghreifftiol fel sail ar gyfer darparu profiadau dysgu yn ystod y cyfnod ar ôl 29 Mehefin. | • 22 sesiwn yn ogystal â chefnogaeth i ysgolion unigol<br>• 500 awr – creu adnoddau<br>• 105 awr – cyflwyno<br>• 108 o fynychwyr |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Rhwydwaith pynciol Saesneg ar gyfer Penaethiaid Adran Saesneg ac Athrawon Saesneg**<br>• Rhannwyd a thrafodwyd egwyddorion dulliau dysgu o bell effeithiol<br>• Hyfforddiant ymarferol ar y denfnydd o offer amrywiol er mwyn gwella ymgysylltiad ac ansawdd dysgu<br>• Rhannwyd egwyddorion model dysgu cyfunol effeithiol ac archwiliwyd pob agwedd yn fanwl<br>• Rhannwyd ymchwil ynghylch arfer adalw a chysylltu dysgu<br>• Cynllunio cwricwlwm a phwysigrwydd mapio gwybodaeth yn ogystal â sgiliau Saesneg<br>• Rhannwyd dogfennaeth enghreifftiol ar gynllunio cwricwlwm a thrafodwyd cryfderau. | • Gwelliant yn sgiliau ac arbenigedd athrawon wrth ddefnyddio'r offer digidol sydd ar gael ar Hwb<br>• Gwell darpariaeth ar gyfer dysgwyr<br>• Cynnydd yn y ddealltwriaeth o nodweddion dysgu cyfunol effeithiol a strategaethau ymarferol<br>• Gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd cynllunio cwricwlwm a'r effaith gaiff hyn ar athrawon dosbarth<br>• Gwell dealltwriaeth o'r angen i gynllunio dysgu gwybodaeth, yn ogystal â sgiliau, er mwyn gwella perfformiad mewn Saesneg. | • 18 sesiwn (3 i bob ALl)<br>• 28 awr<br>• 110 o fynychwyr |

# Addysgu a Dysgu

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Rhwydwaith Dyfodol Byd-eang a chefnogaeth trwy *Google Classroom***<br><br>• Ymchwilio i offer digidol a gwefannau effeithiol a defnyddiol ar gyfer hwyluso dysgu ieithoedd o bell.<br>• Casglu a rhannu adnoddau sy'n hawdd eu defnyddio ar gyfer dysgu o bell (digidol neu beidio).<br>• Gwylio a rhannu'r gweminarau mwyaf defnyddiol ar offer digidol a chyngor addysgegol ar gyfer dysgu o bell.<br>• Cysylltwyd â phob ysgol uwchradd a phob ysgol gynradd beilot trwy e-bost i'w hysbysu ynghylch unrhyw ddatblygiadau ac i gynnig cefnogaeth pe bai angen | • Roedd athrawon cynradd yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ac o ganlyniad roeddent yn gallu gosod gwaith priodol o ansawdd.<br>• Roedd athrawon uwchradd a oedd angen cefnogaeth un gallu dibynnu ar y rhwydwaith ac yn gallu cael mynediad at hyfforddiant uwchsgilio fel bo'r angen.<br>• Arfer da wedi'i fodelu a'i rannu. | • 70 awr<br>• Ar gael i holl benaethiaid adran ac athrawon Ieithoedd Tramor Modern |

# Addysgu a Dysgu



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Rhwydweithiau ôl-16**<br>Mae'r fforymau rhwydwaith wedi canolbwyntio ar y canlynol:<br>• Cefnogi ysgolion i roi strategaethau effeithiol ar waith ar gyfer trosglwyddo i Flwyddyn 12 mewn amgylchedd dysgu o bell<br>• Cefnogi ysgolion wrth iddynt baratoi Blwyddyn 13 ar gyfer trosglwyddo i brifysgol<br>• Rhannu deunyddiau a llyfrynnau i gefnogi trosglwyddiad Blwyddyn 11<br>• Rhannu syniadau ynghylch gwaith dysgu o bell effeithiol gyda Blwyddyn 12<br>• Rhannu ac edrych ar oblygiadau'r cyfnod clo cenedlaethol<br>• 'Sut i fynd ati ar ddiwrnod canlyniadau'. Rhannu syniadau a dulliau.<br>Sesiwn ar gyfer ysgolion ym mhrosiect VESPA – dan arweiniad tîm VESPA.  Adolygu'r cynnydd hyd yma a chynllunio ymyriadau ar gyfer y flwyddyn nesaf – 10 ysgol wedi mynychu<br><br>Sesiwn arwahanol ar gyfer cynrychiolwyr arweinyddiaeth ôl-16 cenedlaethol – sesiwn 'dal i fyny' – a gynhaliwyd ar | • Mae'r adborth ar y deunyddiau trosglwyddo wedi bod yn dda iawn. Mae ysgolion wedi eu defnyddio gyda disgyblion Blwyddyn 11 a hefyd wedi eu defnyddio i ehangu'r ddarpariaeth bresennol mewn rhai achosion (mae'r ymateb ledled Cymru wedi bod yn dda)<br>• Mae cydweithwyr wedi nodi pa mor gymwynasgar yw penaethiaid yn y 6 chyfarfod rhwydwaith – yn arbennig ar yr adeg hon<br>• Adolygiad VESPA – mae pob ysgol wedi cael y rhaglen yn ddefnyddiol ac maent yn bwriadu ei gweithredu ymhellach y flwyddyn nesaf. | • 8 sesiwn<br>• 10 awr<br>• 40+ o fynychwyr |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| **Cwricwlwm i Gymru**<br>• Ar gais ysgolion, darparwyd mynediad at adnoddau cenedlaethol CiG.<br>• Wedi rhannu trosolwg o weithdai rhanbarthol a ddarparwyd yn flaenorol cyn y cyfnod clo trwy G6 ac a oedd yn cynnwys egwyddorion CiG, gwybodaeth am strwythur y cwricwlwm newydd, Dysgu Proffesiynol a'r gefnogaeth sydd ar gael gan GwE. | • Roedd unigolion a oedd yn dymuno cael mynediad at adnoddau yn gallu gwneud hynny er mwyn darllen ymhellach, datblygu dealltwriaeth ddyfnach o egwyddorion CiG ac yn benodol ymgyfarwyddo â MDaPh Iechyd a Lles.<br>• GwE yn gallu darparu cydraddoldeb mynediad at adnoddau a chysondeb negeseuon | • Yn unol â'r cytundeb rhanbarthol a chenedlaethol, ni chynigiwyd sesiynau ffurfiol. Fodd bynnag, roedd YCG yn gallu ymateb i geisiadau gan ysgolion/clystyrau am rannu gwybodaeth yn ystod y sesiynau cyswllt arferol. |

# Addysgu a Dysgu

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Arweiniad ar asesu ac adborth**<br>• Datblygu a rhannu arweiniad ac egwyddorion yn seiliedig ar ymchwil cyfredol.<br>• Uwchsgilio staff ar y defnydd ohono fel eu bod yn gallu cefnogi ysgolion yn effeithiol. | • Mae gan bob YCG yr adnoddau a'r wybodaeth berthnasol ar gyfer cefnogi ysgolion yn effeithiol<br>• Arweiniad eglur a chysondeb o ran y negeseuon a'r gefnogaeth a gynigir i ysgolion ar draws y rhanbarth.<br>• Yr arweiniad wedi'i rannu gyda holl gonsortia Cymru. | Pob YCG wedi mynychu cyfarfod tîm llawn GwE<br>YCG mewn cyswllt rheolaidd er mwyn cynnig cyngor i'r 413 ysgol a'r clystyrau |

# Addysgu a Dysgu

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| **Gweithdai sgiliau carlam er mwyn datblygu arweiniad ar gyfer ysgolion**<br>Mae adnabod strategaethau addysgu effeithiol yn nodwedd bwysig o gynlluniau dysgu cyfunol ysgolion. Fodd bynnag, yn ystod y cyfod pan fo ysgolion ar gau, mae'n debyg y bydd llawer o ddysgwyr angen cefnogaeth ychwanegol—ar ffurf ymyriadau strwythuredig, wedi'u targedu o ansawdd uchel—er mwyn cyflymu eu dysgu. Trwy adolygu'r llenyddiaeth ymchwil, ynghyd â'r ymchwil a wnaethpwyd gydag ysgolion GwE, bwriad y canllaw hwn yw cynorthwyo ysgolion i nodi'r strategaethau addysgu a'r rhaglenni ar-lein mwyaf effeithiol a allai helpu ysgolion i wella'r sgiliau craidd canlynol:<br>• Darllen sylfaenol a rhuglder wrth ddarllen<br>• Darllen a deall a sgiliau geirfa<br>• Rhifedd sylfaenol a rhuglder gyda sgiliau rhifedd<br>Mae rhai o'r strategaethau a'r deunyddiau cefnogol yn yr arweiniad hwn wedi eu llunio'n benodol ar gyfer eu defnyddio yn yr ysgol a gan rieni gartref er mwyn cefnogi dysgu eu plant. | • Cafodd swyddogion GwE ddealltwriaeth o arfer gorau o ran cynllunio ar gyfer sgiliau penodol mewn cyd-destun dysgu cyfunol, ac roeddent yn gallu ehangu a gwella modelau dysgu cyfunol a oedd yn bodoli eisoes.<br>• Elwodd swyddogion GwE ar sawl cyfarfod gyda myfyrwyr ymchwil gan ddysgu sut i gynnal adolygiad cyflym o'r sail dystiolaeth ar gyfer rhaglenni llythrennedd, rhifedd a lles.<br>• Dysgodd staff GwE am agweddau allweddol ar gyfarwyddo effeithiol, a gweithio gydag awduron allanol ar lunio deunydd cyfrwng Cymraeg pwrpasol.<br>• Dysgodd staff GwE am agweddau allweddol ar gyfarwyddo effeithiol yn ogystal â strategaethau addysgu manwl a chyfarwyddo uniongyrchol<br>• Dysgodd staff GwE am agweddau allweddol ar gyfarwyddo effeithiol ar gyfer darpariaeth gydamserol ac anghydamserol. | • 5 swyddog GwE<br>4 o staff ymchwil o Brifysgol Bangor<br>2 fyfyriwr ymchwil o Brifysgol Bangor<br>1 athro o Sir Ddinbych<br>• 15 sesiwn<br>• 30 awr<br>• Mae llawer o'r adnoddau a'r strategaethau yn y cynnig hwn yn deillio o ymchwil cydweithredol diweddar gan CIEREI, Prifysgol Bangor, gydag ysgolion GwE. |

# Addysgu a Dysgu



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Gweithdai sgiliau carlam ar gyfer pob ysgol gynradd, arbennig ac uwchradd**<br>Prif nodweddion yr adnoddau *Dysgu Carlam* newydd, i'w rhannu trwy weithdai yw:<br>• Enghreifftiau o strategaethau addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd effeithiol gan ddefnyddio fframwaith cynllunio EEF (o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2)<br>• Dull chwilio systematig o'r dystiolaeth ar gyfer y dulliau a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin er mwyn gwella sgiliau llythrennedd<br>• Dull chwilio systematig o'r dystiolaeth ar gyfer y dulliau a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin er mwyn gwella sgiliau rhifedd<br>• Dull chwilio systematig o'r dystiolaeth ar gyfer y dulliau a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin er mwyn gwella ymddygiad a lles<br>• Adolygu'r dystiolaeth ar gyfer rhaglenni addysgu ar-lein<br>• Prosiectau ar gyfer cynorthwyo ysgolion a rhieni/gofalwyr i ailadeiladu sgiliau llythrennedd Cymraeg a Saesneg disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 3. | • Cafodd arweinwyr ysgolion ac athrawon ddealltwriaeth o'r arfer gorau wrth gynllunio ar gyfer addysgu sgiliau penodol mewn cyd-destun dysgu cyfunol, ac roeddent yn gallu ehangu a gwella modelau dysgu cyfunol a oedd yn bodoli eisoes.<br>• Cafodd arweinwyr ysgolion ddealltwriaeth o nodweddion allweddol rhaglenni llythrennedd, rhifedd a lles effeithiol, ac o'r meini prawf cynhwysiad cynradd ac uwchradd y dylid eu defnyddio er mwyn penderfynu a ddylid mabwysiadu rhaglen benodol.<br>• Bydd gan ysgolion fynediad at ystod o ddeunyddiau ar gyfer ysgol a rhieni a fydd ar gael yn y ddwy iaith erbyn Medi 2020.<br>• Rhieni yn ymgysylltu ac yn cefnogi eu dysgwyr i wella eu sgiliau sylfaenol. | • Hyd at 55 digwyddiad hyfforddi clwstwr a sesiynau gweithredu a chefnogi tymhorol gan yr All wedi hynny<br>• Pob clwstwr GwE wedi eu gwahodd<br>• Deunyddiau cefnogi rhieni hefyd ar gael<br>• Amser a glustnodwyd i'w gadarnhau |

# Lles

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **DP Dychwelyd i'r Ysgol, Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma**<br>Hwyluswyd sesiwn dull ysgol gyfan gan yr Athro Coral Harper, *Trauma Informed Schools,* ar strategaethau i'w hystyried wrth i ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol gan gynnwys effaith y pandemig / ethos ysgol / egwyddorion a modelau allweddol o fewn dysgu ac addysgu. Ariannwyd y sesiwn gan Awdurdodau Lleol gan dargedu pob ysgol yn yr awdurdod, ond gan ganolbwyntio ar ysgolion / lleoliadau a oedd eisoes wedi cwblhau diwrnod o ddysgu proffesiynol trwy GwE a chyllid Plant sy'n Derbyn Gofal GAD. Targedwyd hefyd leoliadau oedd â niferoedd uchel o ddysgwyr sy'n derbyn gofal. ALl - cafodd Gwynedd/Ynys Môn/Sir Ddinbych a Chonwy sesiwn 3 awr trwy ZOOM. Cafodd YCG GwE hefyd gyfle i fynychu'r grŵp UCD/CAPsDG rhanbarthol. | • Strategaethau cyfathrebu cryfach ar waith ar gyfer hysbysu CAPDG, staff ALl/ staff ysgolion a rhanddeiliaid ehangach am y prosesau ar gyfer hawlio cyllid sy'n gysylltiedig ag ymchwil ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Cynnydd yn nifer yr ysgolion/lleoliadau sy'n wybodus am drawma/ sy'n ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Bydd hyn yn effeithio ar staff addysgu drwy eu gwneud yn fwy hyderus i ymdrin â dysgwyr a nodi cefnogaeth a darpariaeth addas, a bydd yn cynyddu'r nifer o ysgolion sydd â dull cynhwysol mewn perthynas ag addysgu a dysgu gyda'r ffocws ar ddysgu cyfunol.<br>• Mwy o sefydliadau'n hyderus wrth ddefnyddio ystod o fesurau effaith a gwerthuso mewn perthynas â dysgwyr bregus. | • 1308 o fynychwyr<br>• 12 awr o gyflwyniad gan *Trauma Informed Schools*<br>• Cefnogaeth ar gyfer sefydliadau unigol(6 awr) |

# Lles

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Grŵp Rhanbarthol CAPsDG GAD**<br>Roedd y grŵp yn cyfarfod bob pythefnos gyda'r ffocws ar rannu dulliau allweddol / ymchwil ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn ysgolion y rhanbarth. Mae gwybodaeth ar gael ar yriant gaiff ei rannu gan yr ALl ac ar y dangosfwrdd Rhanbarthol. Mewn un cyfarfod, cyflwynwyd y DP gan *Fostering Network* trwy ddosbarthiadau meistr llesiant. Yn ogystal, cyflwynwyd sesiwn i'r tîm ar y defnydd effeithiol o GAD PsDG er mwyn rhannu gwybodaeth allweddol am y GAD ar gyfer 2020/21 ar draws ysgolion ac ALl. | • Cysondeb o ran dulliau allweddol / ymchwil ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn ysgolion y rhanbarth.<br>• Gwell ymwybyddiaeth o'r materion mewn perthynas â lles.<br>• Rhannu arfer da/ dosbarthiadau meistr. | • 18 o fynychwyr<br>• 12 awr |

# Lles

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Tîm Rhanbarthol ADY/Cynhwysiad**<br>Caiff y grŵp ei hwyluso gan yr ALl ac mae'n cyfarfod bob pythefnos. Ffocws y cydweithio gyda GwE oedd nodi'r heriau allweddol mewn perthynas â dychwelyd i'r ysgol ac effaith hynny ar grwpiau allweddol o ddysgwyr. Mae ystod o ddogfennau allweddol wedi'u datblygu yn ychwanegol at sesiynau gwybodaeth ar y dangosfwrdd rhanbarthol / diweddariad ar fodelau dysgu o bell a dysgu cyfunol GwE a sesiwn ar y GAD ar gyfer PsDG 2020/21. | • Cysondeb yn y negeseuon a'r gefnogaeth a roddir i ysgolion.<br>• Gwell ymwybyddiaeth o'r materion a rhannu arfer da. | • 6 o fynychwyr<br>• 6 awr |

# Lles

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **GAD PsDG**<br>Rhannu sesiwn cyflwyno gwybodaeth ar y gefnogaeth gyffredinol a dargedir gyda GAD PYD a GAD ar gyfer PsDG | • Cysondeb yn y gefnogaeth ar gyfer ysgolion a gwell ymwybyddiaeth o faterion ac arferion da. | • 18 o fynychwyr<br>• 6 awr |

# Lles

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Dangosfwrdd Cyffredinol ar gyfer Lles a Chefnogaeth Dysgwyr**<br>Mae ystod o ganllawiau a chyfeirlyfr dysgu proffesiynol wedi'u datblygu a'u rhannu gyda'r holl ysgolion / lleoliadau ledled y rhanbarth. Cyfathrebwyd hyn trwy'r dull clwstwr a thrwy gyfarfodydd yr arweinwyr craidd â'r ALl. Cynhyrchwyd trosolwg clir ar gyfer yr Arweinwyr Craidd / YCG mewn perthynas â'r elfen hon ar y dangosfwrdd. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chasglu gan Arweinwyr Craidd. | • Canllawiau eglur wedi eu rhannu gyda'r ysgolion.<br>• Dull cyson o sicrhau bod YCG yn ymwybodol o'r strategaethau allweddol ar gyfer cefnogi ysgolion o ran modelau lles a'r cynnig dysgu.<br>• Cydlynu a chydweithio effeithiol gyda staff allweddol yr ALl o ran datblygu dangosfwrdd Cymorth a Lles Dysgwyr ar gyfer ysgolion. | • Gwybodaeth wedi'i chasglu o fewn rhaglen waith YCG. Rhannwyd y canllawiau gyda phob un o'r 53 clwstwr cynradd a fforwm penaethiaid uwchradd. Cefnogaeth bwrpasol a ddarperir i ysgolion unigol trwy YCG.<br>• Cyfathrebwyd y dull gyda'r ALl trwy fyrddau ansawdd wythnosol. |

# Lles

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Ymgysylltiad Dysgwyr (Themâu Allweddol)** Mae 7 sesiwn ddigidol â thema benodol (gweminarau / *screencastify*) wedi'u cynhyrchu ar gyfer ysgolion a lleoliadau ar draws y rhanbarth mewn perthynas â rhannu arfer effeithiol ar ymgysylltiad dysgwyr o ran dysgu o bell a dulliau a ddefnyddiwyd gan ysgolion yn ystod y cyfnod clo. Mae modd cael mynediad at 6 ohonynt drwy ein Hadran Lles ac maent ar gael i bob lleoliad a phartneriaid allweddol. | • Rhannu arfer effeithiol ar ymgysylltiad dysgwyr mewn perthynas â dysgu o bell a dulliau a ddefnyddiwyd gan ysgolion yn ystod y cyfnod clo.<br>• Cynnydd mewn ymgysylltiad disgyblion yn dilyn y cyfnod clo cychwynnol. | • 50 awr ar gyfer cynhyrchu.<br>• Ar gael i staff y 413 ysgol a phartneriaid allweddol.<br>• Cyswllt rheolaidd rhwng YCG ag ysgolion / clystyrau gyda ffocws ar wella ymgysylltiad dysgwyr a rhannu arfer da. |

# Lles



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| **Ymgysylltu gyda Dysgwyr a Rhieni**<br><br>• Cydweithio gydag ysgolion i gwblhau cyfres o gwestiynau mewn perthynas ag ymgysylltiad dysgwyr.<br>• Datblygu trosolwg rhanbarthol o arfer cyfredol o ran sut mae dysgwyr yn cael mynediad at ddysgu o bell ac yn ymgysylltu.<br>• Adnabod arfer effeithiol fel sail ac i gefnogi arweiniad a modelau rhanbarthol<br>• Nodi rhwystrau allweddol a sut i gefnogi ysgolion mewn cydweithrediad â'r Awdurdod Lleol a phartneriaid. | • Mae'r gwaith hwn cynhyrchu trosolwg gwerthfawr o sut mae ysgolion yn ymgysylltu gyda dysgwyr .<br>• Yr adroddiad wedi'i fwydo i adroddiad cenedlaethol sydd wedi'i ddefnyddio i rannu'r arfer gorau yn genedlaethol.<br>• Defnyddiwyd cynnwys yr adroddiad i adeiladu ar yr arfer effeithiol a nodwyd ledled y rhanbarth a hefyd i ddatblygu a darparu cefnogaeth i ysgolion mewn perthynas â meysydd allweddol sydd angen eu cryfhau.<br>• Bwriedir paratoi cronfa o weminarau ar gyfer ysgolion sy'n arddangos yr arferion gorau. | • 3 x sesiwn gyda thîm llawn GwE<br>• Pob YCG wedi cynnal trafodaethau gyda 53 chlwstwr a oedd yn cynnwys 413 ysgol<br>• Un YCG wedi casglu gwybodaeth bob ALl x 6<br>• 3 x sesiwn gyda'r tîm a gyflawnodd y gwaith<br>• 60 awr |

# Lles

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Cefnogaeth bwrpasol wedi'i theilwra i Ysgolion / Clystyrau**<br>Mae cefnogaeth unigol wedi'i darparu i ysgolion penodol yn ôl y gofyn mewn perthynas â strategaethau lles ysgol gyfan / mesurau lles megis PASS / Boxall / arweiniad unigol ar fodelau arfer da a defnydd effeithiol o'r GAD i gefnogi plant sy'n derbyn gofal gyda'r GAD PsDG. | • Gwell ymwybyddiaeth o strategaethau lles ysgol gyfan / mesurau llesiant megis PASS / Boxall<br>• Rhannu arweiniad unigol ar arfer da a defnydd effeithiol o'r GAD / GAD PsDG.<br>• Cydweithio clwstwr cryfach o ran GAD PsDG. | • 14 sesiwn<br>• 26 o fynychwyr<br>• 18 awr |

# Arweinyddiaeth

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| Cynhaliwyd **Cyfarfodydd Arweinwyr Craidd Cynradd** yn rheolaidd er mwyn cytuno ar ffocws y dysgu proffesiynol ar gyfer cyfarfodydd ardal leol. Y nod oedd sicrhau bod galluoedd, gwybodaeth a sgiliau YCG yn cael eu diweddaru a'u hehangu'n brydlon er mwyn darparu'r hyn yr oedd ei angen ar ysgolion.<br><br>Mae dysgu proffesiynol YCG wedi cynnwys y canlynol:<br>• *Sut i ddatblygu ymagwedd clwstwr o ran dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion*<br>• *Sut i ddatblygu dysgu o bell ar draws clystyrau ac o fewn ysgolion*<br>• *Sut i gefnogi a datblygu dychwelyd i'r ysgol, yn cynnwys asesiadau risg*<br>• *Sut i ddatblygu dysgu cyfunol ar draws clystyrau* Cefnogwyd YGC unigol ymhellach gan Arweinwyr Craidd a gan YCG sydd ag arbenigedd mewn maes penodol | • Uwchsgiliwyd aelodau tîm yn effeithiol â'r wybodaeth a'r sgiliau er mwyn cefnogi ysgolion e.e. sgiliau TG. Arfogwyd YGC hefyd ag atebion ac ymatebion cyson i gwestiynau a holwyd gan ysgolion.<br>• Roedd gan YCG ddealltwriaeth ar y cyd o strategaethau LlC a'r arweiniad cenedlaethol. O ganlyniad, roedd cysondeb o ran negeseuon, arweiniad a chefnogaeth yn berthnasol i ysgolion ar draws y rhanbarth.<br>• Darparwyd cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i bob ysgol (yn cynnwys arweiniad pwrpasol yn ôl y gofyn).<br>• Mwy o gysondeb o ran y dulliau a fabwysiadwyd o fewn awdurdodau lleol ac ar draws y rhanbarth.<br>• Cydweithio gwell o fewn Cyfarfodydd Tîm Cynradd Lleol, yn cynnwys rhannu arbenigedd YCG.<br>• Gwell cysondeb a chydweithio ar draws y tîm cynradd llawn.<br>• Anogodd yr YGC wytnwch mewn ysgolion, gan hwyluso ysgolion i gynllunio ar gyfer mwy nag un sefyllfa er mwyn bod yn fwy parod. | • 1 Tîm Cynradd llawn<br>• 12 Cyfarfod Tîm Cynradd Ardal Leol wedi eu cynnal ym mhob ardal (cyfanswm o 36 cyfarfod).<br>• 39 awr<br>• 35 YCG wedi mynychu |

# Arweinyddiaeth

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Sesiynau briffio i uwchsgilio penaethiaid ar agweddau amrywiol mewn perthynas â'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion yn ystod y pandemig, yn cynnwys:**<br><br>• Dysgu o bell – Rhannu gwybodaeth, systemau darparu ac adnoddau. Sesiynau pwrpasol gyda rhai clystyrau.<br>• Dysgu cyfunol - Rhannu gwybodaeth, modelau darparu a deunyddiau enghreifftiol. Sesiynau pwrpasol ac unigol gyda rhai clystyrau.<br>• Parhad dysgu – Rhannu dogfennau arweiniad allweddol a dulliau ar gyfer cefnogi ysgolion gyda chynllunio'r ddarpariaeth ac ailagor ysgolion.<br>• Rhannu canfyddiadau ymchwil a modelau arfer da.<br>• Rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau dull cyson o gefnogi ysgolion ar draws y rhanbarth.<br>• Asesu risg – Adnabod yr heriau allweddol a dulliau/modelau ar gyfer lleihau risg i ysgolion.<br>• Dysgu Digidol – rhannu offer digidol a hyfforddiant ar ddefnydd effeithiol o'r offer ar gyfer cefnogi dysgu o bell a dysgu cyfunol. | • Yr holl benaethiaid wedi'u hysbysu a'u diweddaru parthed y gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion.<br>• Cysondeb o ran y negeseuon, yr arweiniad a'r gefnogaeth i ysgolion ar draws y rhanbarth.<br>• Penaethiaid wedi'u hysbysu ac yn ymwybodol o'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i ysgolion [yn cynnwys arweiniad pwrpasol lle bo angen hynny].<br>• Gwell defnydd o offer digidol ar gyfer ymgysylltu â disgyblion a'u dysgu. | • 60 sesiwn ar draws y 6 ALl<br>• 119 awr<br>• Penaethiaid cynradd a chadeiryddion clystyrau |

# Arweinyddiaeth

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **DP ar gyfer tîm er mwyn cefnogi ysgolion gydag ailagor ysgolion, yn cynnwys:**<br>Arweiniad ar y fframwaith /dangosfwrdd rhanbarthol a ddatblygwyd ar y cyd gan swyddogion ALl a swyddogion GwE er mwyn cefnogi ysgolion gyda chynllunio ar gyfer ailagor ysgolion, yn cynnwys:<br>• Gofynion iechyd a diogelwch<br>• Trefniadau safle a chyfleusterau<br>• Trafnidiaeth<br>• Trefniadau staffio<br>• Addysgu a dysgu cyfunol<br>• Cynhwysiad a chefnogaeth i ddisgyblion<br>• Tasgau rheolaeth allweddol<br><br>Cynigiwyd y DP i holl staff GwE fel eu bod wedi'u huwchsgilio i ddarparu hyfforddiant i ysgolion/clystyrau a chynnig cefnogaeth ddilynol bwrpasol. | • Dull rhanbarthol ar gyfer datblygu fframwaith cefnogol er mwyn sicrhau fod gan bob ysgol yn y rhanbarth bolisïau cywir ar waith ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr er mwyn creu amgylchedd diogel ar gyfer ailagor ysgolion.<br>• Dull 'ar y cyd' effeithiol rhwng chwe awdurdod lleol y rhanbarth a GwE ar gyfer cefnogi ysgolion yn ystod cyfnod clo'r pandemig.<br>• Pob aelod o staff GwE wedi'i uwchsgilio ac yn hyderus i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth bwrpasol i ysgolion/clystyrau. | • 12 sesiwn<br>• 6 awr<br>• 60 o fynychwyr<br>• YCG wedi'u huwchsgilio i gefnogi pob ysgol a chlwstwr mewn sesiwn bwrpasol. |

# Arweinyddiaeth

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **DP ar gyfer ailagor ysgolion, yn cynnwys:**<br><br>Arweiniad a chefnogaeth ar y cyd wedi eu darparu gan swyddogion ALl a GwE trwy fframwaith/dangosfwrdd rhanbarthol i gefnogi ysgolion gyda chynllunio ar gyfer ailagor ysgolion, yn cynnwys:<br>• Gofynion iechyd a diogelwch<br>• Trefniadau safle a chyfleusterau<br>• Trafnidiaeth<br>• Trefniadau staffio<br>• Addysgu a dysgu cyfunol<br>• Cynhwysiad a chefnogaeth i ddisgyblion<br>• Tasgau rheolaeth allweddol<br><br>Roedd hyn yn cynnwys asesiad risg cynhwysfawr wedi ei fodelu er mwyn creu amgylchedd diogel i groesawu plant yn ôl i'r ysgolion.<br><br>Sesiynau/gweithdai hyfforddi ffurfiol a chefnogaeth bwrpasol wedi'u cynnig i holl ysgolion/clystyrau'r rhanbarth. | • Dull rhanbarthol ar gyfer datblygu fframwaith cefnogol er mwyn sicrhau fod gan bob ysgol yn y rhanbarth bolisïau cywir ar waith ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr er mwyn creu amgylchedd diogel ti groesawu dysgwyr yn ôl i'r ysgolion<br>• Dull rhanbarthol colegaidd a chyfunol effeithiol rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE i gefnogi ysgolion yn ystod cyfnod clo y pandemig<br>• Mae ymateb penaethiaid wedi bod yn gadarnhaol gyda gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth a'r arweiniad sydd ar gael<br>• Rhannodd penaethiaid, Arweinwyr Craidd a chynrychiolwyr ALl farn a phryderon, gan ddysgu o arfer gorau | • Pob un o 413 pennaeth y rhanbarth - uwchradd, cynradd, arbennig ac UCD<br>• 30 sesiwn uwchradd<br>• 53 clwstwr cynradd. Darparwyd ar y cyd â swyddogion ALl x 2 gyfarfod<br>• 272 awr<br>• Cefnogaeth ddilynol bwrpasol i ysgolion a chlystyrau unigol gan YCG/swyddogion ALl |

# Arweinyddiaeth

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Uwchsgilio aelodau'r Awdurdod Addysg Lleol ar agweddau amrywiol mewn perthynas â'r gefnogaeth effeithiol a gynigir i ysgolion/clystyrau:<br><br>• Dysgu o bell – Rhannu gwybodaeth, systemau darparu ac adnoddau.<br>• Dysgu cyfunol - Rhannu gwybodaeth, modelau darparu a deunyddiau enghreifftiol.<br>• Parhad dysgu – Rhannu dogfennau arweiniad allweddol a dulliau ar gyfer cefnogi ysgolion gyda chynllunio'r ddarpariaeth ac ailagor ysgolion.<br>• Rhannu canfyddiadau ymchwil a modelau arfer da.<br>• Rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau dull cyson o gefnogi ysgolion ar draws y rhanbarth.<br>• Asesu risg – Adnabod yr heriau allweddol a dulliau/modelau ar gyfer lleihau risg i ysgolion. | • Aelodau Awdurdodau Lleol wedi'u hysbysu a'u diweddaru parthed y gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion.<br>• Cysondeb o ran y negeseuon, yr arweiniad a'r gefnogaeth i ysgolion ar draws y rhanbarth.<br>• Aelodau Awdurdodau Lleol wedi'u hysbysu ac yn ymwybodol o'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i ysgolion [yn cynnwys arweiniad pwrpasol lle bo angen hynny]. | • 35 sesiwn ar draws y 6 ALl<br>• 52 awr<br>• 210+ o fynychwyr (6 ym mhob sesiwn gyda rhai aelodau ychwanegol, yn ddibynnol ar yr agenda) |

# Cymorthyddion

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Llwyfan dysgu proffesiynol wedi'i ddatblygu a'i rannu ag ysgolion. *Google Classroom* yn cynnwys sawl gweithgaredd DP ar gyfer yr agweddau canlynol:<br>• Pasbort Proffesiynol y CGA<br>• Llwybr Dysgu ar gyfer Cymorthyddion Dysgu<br>• CALU<br>• Sgiliau Hanfodol<br>• Safonau Proffesiynol<br>• Cwricwlwm i Gymru<br>• Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu<br>• Hwb<br>• Addysgu a Dysgu<br>• ADY<br>• Cyflyrau Sbectrwm Awtistig<br>• Hawliau plant<br>• Diogelu<br>• Siaradwyr sy'n ysbrydoli<br>• Ffynonellau gwybodaeth | • Cafodd dros 1,700 o gymorthyddion fynediad at weithgareddau dysgu proffesiynol yn ystod cyfnod COVID-19.<br>• Adborth a gwerthusiadau cadarnhaol gan gymorthyddion y rhanbarth.<br>• Mae llawer o gymorthyddion wedi manteisio ar y cyfnod clo i ddiweddaru eu tystysgrifau, e.e. hylendid bwyd<br>• Nododd llawer o gymorthyddion bod ganddynt well gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i'w helpu yn eu gwaith beunyddiol wrth gefnogi dysgwyr.<br>• Nododd llawer gynnydd yn eu sgiliau digidol ac yn sut maent yn eu cymhwyso. | Mae 1,700 o gymorthyddion wedi ymuno â'r 'dosbarth' ac ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol. |

# Cymorthyddion

Hafan

| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Darparu a datblygu rhaglen genedlaethol er mwyn cefnogi darpar GALU**<br><br>Cyfres o gyfarfodydd/gweithdai cenedlaethol ar gyfer grŵp cyfan neu is-grwpiau er mwyn dylunio a datblygu'r rhaglen. | • Deunyddiau cyflwyno'r rhaglen ar gael i'r consortiwm eu defnyddio'n rhanbarthol (cyflwyniadau *Powerpoint* / deunyddiau hyfforddi).<br>• Llawlyfr yr Ymgeisydd, Llawlyfr yr Aseswr a Llawlyfr yr Hwylusydd nail ai wedi'u cwblhau neu'n cael eu cynhyrchu.<br>• Y broses asesu a'r meini prawf yn cael eu datblygu. | • 171 awr (cyfarfod a pharatoi/datblygu deunyddiau cenedlaethol) |

# Y Gymraeg



| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Cefnogi ymarferwyr y **Cyfnod Sylfaen**, Uwch Dimau Arwain ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, gyda chynllunio a pharatoi cyfarwyddiadau/adnoddau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg gyda disgyblion o gartrefi di-Gymraeg/ail-iaith, wrth ddysgu o bell/dysgu cyfunol. | • Codi ymwybyddiaeth athrawon, Uwch Dimau Arwain ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ysgolion o'r adnoddau sydd ar gael yn y Gymraeg yn y CS ar 'google classroom' i gefnogi'r dysgu. Athrawon CS yn eu defnyddio wrth chwilio am syniadau ac adnoddau fel rhan o'u gwaith cynllunio dysgu o bell.<br>• Athrawon yn cynllunio a pharatoi cyfarwyddiadau dwyieithog, cam wrth gam, wedi eu trosleisio fel bo'r disgyblion yn clywed yr iaith Gymraeg, ac yn gwrando a dilyn y cyfarwyddiadau. | • 11 sesiwn<br>• 13 awr<br>• 140 o fynychwyr |

# Y Gymraeg



| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Cefnogi ymarferwyr yng **Nghyfnod Allweddol 2**, Uwch Dimau Arwain ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, gyda chynllunio a pharatoi cyfarwyddiadau/adnoddau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg gyda disgyblion o gartrefi di-Gymraeg/ail-iaith, wrth ddysgu o bell/dysgu cyfunol. | • 10 adnodd i danio'r dychymyg a phum gweithgaredd amrywiol o fewn pob adnodd sy'n cefnogi Sgiliau llythrennedd dysgwyr Cymraeg iaith gyntaf Cyfnod Allweddol 2 a 3 ar gael i bos ysgol cyfrwng Gymraeg.<br>• Canllaw i rieni ar gael iddynt gefnogi eu plant.<br>• Modelu ffurf effeithiol o gyflwyno tasgau i ddysgwyr.<br>• Fframiau siarad ar gael i ysgolion ar gyfer hybu sgiliau llafar Cymraeg | • Adnoddau ac arweiniad wedi eu rhannu ag holl ysgolion cyfrwng Gymraeg y rhanbarth |

# Y Gymraeg

Hafan

| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| Darparu adnoddau dysgu o bell yn 'Google Classroom' ar gyfer **CA3 a CA4**.<br><br>Hysbysebwyd athrawon GwE am yr adnodd drwy ebyst uniongyrchol i ysgolion, drwy Fwletin GwE a thrwy Newyddlen Cymraeg GwE. Diweddarwyd athrawon am gynnwys y dosbarth yn gyson ar ebost a rhoddwyd sylw ac arweiniad i'r adnoddau mewn cyfarfodydd rhwydwaith. | • Sicrhau fod gan athrawon fynediad at yr adnoddau gorau i hybu dysgu o bell a dysgu cyfunol yn eu hadrannau<br>• Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion glywed a gweld y Gymraeg a siarad Cymraeg.<br>• Modelu arfer dda o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol i benaethiaid adran ac athrawon<br>• Rhannu copïau digidol o destunau darllen, gyda chaniatâd y gweisg, er mwyn sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr ddarllen yn y Gymraeg<br>• Rhoi arweiniad a hyfforddiant digidol i athrawon mewn un lle ar sut i ddefnyddio meddalwedd Hwb megis Google Classroom, Screencastify, Adobe Spark, Flipgrid a gweminnarau er mwyn eu datblygu'n broffesiynol | • 134 aelod yn nosbarth CA3<br>• 116 aelod yn nosbarth CA4 |

# Y Gymraeg

Hafan

| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| Cyfarfodydd **Rhwydwaith Cymraeg** i gyflwyno Modelau Dysgu Cyfunol ‘Ein Byd’ **CA3 a CA4**.<br><br>• Cynhaliwyd sesiynau dysgu proffesiynol mewn cyfarfodydd rhwydwaith digidol i benaethiaid adran Cymraeg drwy Teams. Yn y cyfarfodydd rhoddwyd sylw i’r gwahanol blatfformau sydd ar gael i athrawon Cymraeg gael mynediad at ddeunyddiau sydd wedi eu haddasu ar gyfer y cyfnod dysgu o bell a dysgu cyfunol;<br>➢ y ddau ddosbarth Google<br>➢ Rhwydwaith ‘Cymraeg GwE’ yn Hwb<br>➢ Rhwydwaith ‘Y Pair’ yn Hwb.<br>• Clustnodwyd amser yn y cyfarfod hefyd i egluro’r Model Dysgu Cyfunol a oedd wedi ei greu ar y thema ‘Ein Byd’ i ddysgwyr Bl.5-9, i ddygwyr Bl.9 a oedd yn pontio i Fl.10 ac i ddysgwyr Bl.10. Eglurwyd y prif egwyddorion a’r gwaith ymchwil tu ôl i’r modelau hyn a rhannwyd yr ymchwil gyda’r arweinwyr canol. Dangoswyd y model iddynt hefyd gan egluro ei hyblygrwydd – gellid eu ddefnyddio fel cynllun gwaith cyflawn o Fedi ymlaen (gyda digon o dasgau am hanner tymor) neu fe ellid defnyddio’r tasgau’n unigol. | • Mae’r deunyddiau yn rhoi arweiniad i arweinwyr canol am yr arferion dysgu o bell / dysgu cyfunol gorau gan ddefnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd (gweler isod)<br>• Bydd yr arweinwyr canol yn fwy hyderus yn mynd yn ôl i’w hadrannau i arwain ar ddysgu cyfunol effeithiol<br>• Mae’r Modelau yn rhai parod a hygyrch y gellid eu defnyddio gyda’r dysgwyr o Fedi ymlaen a roedd pawb yn werthfawrogol iawn o hynny – roedd yn cynnig model clir ynghanol cyfnod o ddryswch. | • 3 sesiwn<br>• 3 awr<br>• 26 wedi mynychu |

# Y Gymraeg



| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Y GIST – Rhwydwaith Athrawon Cymraeg Ail Iaith Uwchradd ar HWB**<br><br>**Darparwyd:**<br>• Cyngor a Chanllawiau Defnyddiol<br>• Cymorth a Chanllawiau Digidol<br>• Modelau Dysgu Cyfunol:<br>• Heriau Amrywiol<br>• Ffurfiau Ysgrifennu<br>• Adnoddau Iaith<br>• Adnoddau Llenyddiaeth<br>• Datblygu Sgiliau/patrymau iaith/mynegi barn<br>• Newyddlenni<br>• Pecynnau Gwaith CA4<br>• Deunydd Google Classroom ar gyfer CA3 a 4 | • Deunyddiau ac arweiniad wedi eu darparu ar gyfer penaethiaid adran ac ymarferwyr.<br>• Magu hyder athrawon i rannu arferion da, codi chwilfrydedd, ennyn diddordeb, ehangu gorwelion drwy awgrymu pynciau amgen / trawsgwricwlaidd i hybu a dysgu'r Gymraeg. | • Arweiniad ag adnoddau wedi eu rhannu hefo pob ysgol uwchradd sy'n darparu Cymraeg Ail-iaith |

# Y Gymraeg

Hafan

| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| **Cydweithio Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant y Gymraeg (Uwchradd) y pedwar consortia i ymateb i amcan D9 Llywodraeth Cymru.**<br><br>Pwrpas y cydweithio oedd i greu a rhannu adnoddau dysgu o bell addas yn y Gymraeg i'w rhannu gydag athrawon ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Pwrpas arall oedd sicrhau hygyrchedd y deunyddiau hynny i rieni di-Gymraeg oedd yn cefnogi eu plant adref – gwnaethpwyd hynny drwy roi eglurhad dwyieithog i'r tasgau a/neu cyfieithu'r adnodd yn ôl y galw. Roedd cynrychiolwyr o Estyn, CBAC, Llywodraeth Cymru, Yr Academi ac arweinwyr Cynllun y Gymraeg yn rhan o'r gwaith o'r dechrau hefyd ac yn gefnogol iawn i'r gwaith.<br><br>O'r dechrau, penderfynwyd gwahodd athrawon (4 o GwE) i fod yn rhan o'r cydweithio cenedlaethol yma a rhannwyd hwy'n ddau grŵp – Tîm Adnoddau CA3 a Thîm Adnoddau CA4. | • Cydweithio effeithiol ar lefel genedlaethol er mwyn cefnogi a datblygu arweinwyr canol ac athrawon i rannu arfer dda wrth hybu'r Gymraeg yn eu hysgolion - ymysg y dysgwyr a'r rhieni di-Gymraeg<br>• Roedd yn ddatblygiad proffesiynol gwerthfawr i'r athrawon a oedd yn rhan o'r gweithgorau gan fod cyfle iddynt rannu eu profiadau dysgu o bell a rhannu deunyddiau llwyddiannus gyda'i gilydd<br>• Edrychwyd ar egwyddorion dysgu o bell a dysgu cyfunol yn y gweithgorau a bu hynny'n sylfaen i'r modelau Cymraeg a gynhyrchwyd gan ymgynghorwyr Cymraeg GwE<br>• Rhoddwyd pwyslais ar dasgau gwrando, gwylio a thrafod yn y Gymraeg gan fod pryder dybryd nad oedd cyfleoedd i ddysgwyr Cymru glywed a siarad y Gymraeg oherwydd y cau ysgolion<br>• Penderfynwyd dechrau rhwydwaith newydd cenedlaethol yn Hwb fel bod athrawon Cymraeg yn gallu rhannu eu deunyddiau dysgu o bell a dysgu cyfunol gyda'i gilydd yn rhwydd | • 40 sesiwn<br>• 45 awr<br>• 29 o fynychwyr |

# Y Gymraeg

Hafan

| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Y Pair – rhwydwaith cenedlaethol yn Hwb i rannu adnoddau dysgu o bell / dysgu cyfunol Cymraeg**<br><br>Wrth sefydlu 'Y Pair' yn ystod y cyfnod cloi rhoddwyd sylw i'r dulliau a strategaethau addysgu a oedd yn gweithio orau wrth ddysgu o bell. Edrychwyd hefyd ar ganfyddiadau adroddiad rhyngwladol am ddysgu o bell a chanfyddiadau adroddiad Parentkind. Mae negeseuon ac egwyddorion yr ymchwil yma yn sail i'r holl adnoddau sydd yn 'Y Pair'. | • Ymchwil dysgu o bell wedi ei rannu ag athrawon y Gymraeg mewn negeseuon ebost, drwy ddau ddosbarth Google ac mewn cyfarfodydd rhwydwaith Cymraeg.<br>• Uwchsgilio arweinwyr canol am ofynion dysgu o bell a'r arferion gorau. Gosododd hynny gyfeiriad i'w gwaith hwy yn eu hadrannau fel eu bod yn gallu adnabod materion a oedd angen eu datblygu e.e. defnyddio Flipgrid, recordio gwersi gan ddefnyddio Screencastify.<br>• Pwyslais ar dasgau gwylio a gwrando, tasgau trafod ac adnoddau ble mae'r athro wedi recordio ei lais (e.e. creu fidio Screencastify i egluro tasg, darllen testun/stori). | • 168 aelod<br>• Oddeutu hanner adrannau Cymraeg GwE wedi rhannu eu deunyddiau dysgu o bell mwyaf llwyddiannus. |

# Y Gymraeg

Hafan



| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Newyddlenni Cymraeg GwE**<br>Penderfynwyd coladu deunyddiau Cymraeg a oedd yn berthnasol i'r cyfnod dysgu o bell / dysgu cyfunol mewn un lle. Roedd y newyddlenni yn ddwyieithog. Rhannwyd hwy gydag athrawon drwy ebyst dwyieithog i benaethiaid ysgolion uwchradd GwE ac hefyd yn uniongyrchol drwy ebyst i benaethiaid adran Cymraeg ysgolion GwE. Rhannwyd y newyddlenni hefyd yn y ddau ddosbarth Google ac yn mwletinau GwE. Rhannwyd hwy'n draws rhanbarthol gydag ymgynghorwyr Cymraeg y consortia eraill hefyd er mwyn cefnogi eu gwaith hwy.<br><br>Roedd themâu penodol i'r newyddlenni a phenderfynwyd ar y themâu hynny wrth wrando ar lais yr athro e.e. Dysgu o bell, Darllen, Digidol, Adnoddau Cenedlaethol Cymraeg yn Hwb. Roedden nhw'n cynnig arweiniad dysgu proffesiynol i athrawon wrth eu defnyddio gan eu bod yn egluro'r arferion gorau o ran dysgu o bell / dysgu cyfunol ac yn cyfoethogi eu syniadau wrth osod gwaith cyfoes a pherthnasol i ddysgwyr. Roedd y newyddlen ddigidol yn fodd hefyd o gynnig cyfleoedd i athrawon wella eu sgiliau digidol ac i wella eu hymgysylltiad gyda dysgwyr e.e, drwy recordio fideos ar Screencastify neu ddefnyddio Adobe Spark. | • Ymchwil dysgu o bell wedi ei rannu ag athrawon y Gymraeg mewn negeseuon ebost, drwy ddau ddosbarth Google ac mewn cyfarfodydd rhwydwaith Cymraeg.<br>• Uwchsgilio arweinwyr canol am ofynion dysgu o bell a'r arferion gorau. Gosododd hynny gyfeiriad i'w gwaith hwy yn eu hadrannau fel eu bod yn gallu adnabod materion a oedd angen eu datblygu e.e. defnyddio Flipgrid, recordio gwersi gan ddefnyddio Screencastify.<br>• Pwyslais ar dasgau gwylio a gwrando, tasgau trafod ac adnoddau ble mae'r athro wedi recordio ei lais (e.e. creu fidio Screencastify i egluro tasg, darllen testun/stori). | • 14<br>• 14awr<br>• 6 YCG<br>• Newyddlen wedi eu rhannu a 413 o ysgolion GwE ac i'r 53 arweinydd y Gymraeg pob clwstwr |

# Y Gymraeg

Hafan

| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
| --- | --- | --- |
| **Pontio CA2 a CA3**<br><br>Cyflwyno model Dyddlyfr allai hwyluso pontio CA2/3 a model y gellid ei addasu a'i deilwra ar gyfer CA3 yn cynnwys tasgau darllen ac ysgrifennu i'w haddasu yn ôl gofynion ac anghenion y dysgwyr. Mae'n cynnwys gweithgareddau tymor hir y gellir eu datblygu o fewn dull cyfunol sy'n cwmpasu dysgu o bell a dysgu wyneb yn wyneb.<br>Cyflwynwyd pecyn cyn y ddau sesiwn oedd yn amlygu egwyddorion/ canllaw athro/ disgybl/ a thasgau enghreifftiol.<br>Pecyn ar gael yn Saesneg i'w addasu ar gyfer rhieni di-Gymraeg.<br><br>Cynhaliwyd trafodaethau ar y canlynol:<br>• Sut oedd y model yn hyrwyddo Lles, Addysgeg, Dysgu Cyfunol a CiG.<br>• Sut oedd y model yn cynnig cyfleodd i feithrin ac ysgogi ysgrifenwyr gan ymestyn disgyblion abl a thalentog ac yn cynnal y disgyblion mwy bregus. | • Model o arfer dda ar gyfer pontio wedi ei rannu ag ysgolion.<br>• Arweiniad clir wedi ei rannu ar sut i addasu'r model fel y gall ysgolion berchnogi'r adnodd a datblygu enghreifftiau pellach.<br>• Model wedi ei beilota a'i arfarnu. | • 2 sesiwn<br>• 2 awr<br>• 20 o fynychwyr |

# Y Gymraeg





| Trosolwg | Effaith Gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **Cynllun Gwefeillio**<br><br>Cynllun i gefnogi **siarad Cymraeg drwy sesiynau ffrydio byw**.<br><br>Rhoddwyd cyflwyniadau ar<br>• gefndir/ nodau y cynllun<br>• canllawiau a threfniadau diogelu /<br>• enghreifftiau o fodelau/sesiynau peilota/<br>• pecyn cefnogaeth/<br>• canllaw i rieni.<br>Cynhaliwyd sesiwn cwestiwn ac ateb gan Gydlynydd Siarter Iaith yn dilyn peilota a modelu'r cynllun yng Ngwynedd.<br><br>Bwriedir cyflwyno'r cynllun i ysgolion yn nhymor yr Hydref. | Sicrhau dealltwriaeth i hanfodion y cynllun a'r modd y gallai :<br>• gynnig darpariaeth gyfoethog i ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg wrth iddynt ymarfer eu sgiliau llafar a chau'r bwlch amddifadedd o ran cyfleodd ieithyddol<br>• sicrhau cyfleodd arloeosol i rywdweithio yn ddigidol<br>• hyrwyddo trochi hwyr<br>• hyrwyddo'r Siarter Iaith<br>• gynnig cyfleodd i ddisgyblion siarad gyda disgyblion eraill mewn cymunedau newydd- pontio cyfnodau allweddol/ o fewn ysgol, clwstwr ac yn draws sirol a rhanbarthol.<br>• ddylanwadu ar ddefnydd iaith a sefydlu yr 'arfer' o siarad Cymraeg | • 30 cynrychiolydd y Grŵp D9 cenedlaethol<br><br>I'w ddatblygu ymhellach gydag ysgolion y rhanbarth |

# Llwybrau Dysgu Proffesiynol Cynnar

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| **AGA**<br>• Dysgu proffesiynol ar gyfer YCG – rhannwyd camau nesaf AGA a gwaith cydweithredol yn y dyfodol mewn cyfarfod tîm llawn 28/04/20. Darparwyd ymholiadau a chefnogaeth unigol yn dilyn hyn.<br>• Cynigion dysgu proffesiynol gan staff GwE ar gyfer rhaglenni CaBan 2020-21 a deunyddiau cynllunio – 23 o staff GwE<br>• Cyfarfodydd cynllunio dysgu proffesiynol ar gyfer Doethuriaeth Addysg a Gradd Meistr | • Aelodau'r tîm wedi eu harfogi'n fwy effeithiol i gefnogi anghenion AGA ysgolion.<br>• Cysondeb o ran negeseuon, arweiniad a chefnogaeth i ysgolion.<br>• Rhaglenni proffesiynol, Doethuriaeth Addysg a Gradd Meistr, ar gyfer staff ysgolion, GwE ac ALl, yn cynnwys ymchwil sy'n agosach at arferion. | Cyfarfod Tîm Llawn<br>Pob YCG |

# Llwybrau Dysgu Proffesiynol Cynnar

Hafan



| Trosolwg | Effaith gychwynnol | Amser a mynychwyr |
|---|---|---|
| • Yn ystod y cyfnod clo, mynychwyd cyfarfodydd y Brifysgol Agored (PA) a CaBan lle cafodd dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion (yn cynnwys athrawon a mentoriaid) ei gynllunio ar gyfer 2020-21<br>• Dysgu proffesiynol ar gyfer YCG – rhannwyd camau nesaf AGA a gwaith cydweithredol ar gyfer y dyfodol mewn cyfarfod tîm llawn<br>• Dysgu proffesiynol dilynol ar gyfer staff ALl ac ysgolion trwy ddiweddariad BAS 26/05/20<br>• Dysgu proffesiynol unigol ar gyfer ysgolion, trwy alwadau ffôn, ar sut y bydd rhaglen y BA yn gweithredu a sut y gallent ymwneud â'r bartneriaeth<br>• Cyn y cyfnod clo, mynychwyd cyfarfodydd PA a CaBan lle cynlluniwyd dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion. Cafodd peth ohono ei ddarparu yn ystod y cyfnod clo gan y prifysgolion. Ers y cyfnod clo mae'r BA wedi darparu hyfforddiant i staff ysgol ar fentora a thiwtora yn seiliedig ar ddeunyddiau dysgu proffesiynol a gyfrannwyd cyn y cyfnod clo.<br>• Dogfen dysgu proffesiynol wedi ei chynhyrchu ar gyfer ysgolion ar sut i ddatblygu amserlen ar gyfer myfyrwyr mewn ysgolion PA<br>• Dysgu proffesiynol ar gyfer myfyrwyr sy'n graddio o CaBan ar y broses sefydlu gan IGJ. Cyfrannwyd i'r dysgu proffesiynol trwy fynychu diwrnodau datblygu staff CaBan<br>• Cyfrannu at ddatblygu deunyddiau dysgu proffesiynol ar gyfer rhaglenni CaBan gyda staff CaBan – dysgu cyfunol<br>• Cynigion dysgu proffesiynol gan staff GwE ar gyfer rhaglenni CaBan 2020-21 a deunyddiau cynllunio – 24 o staff GwE<br>• Cyfarfodydd cynllunio dysgu proffesiynol ar gyfer Doethuriaeth Addysg a Gradd Meistr | • Cysondeb o ran negeseuon, arweiniad a chefnogaeth i ysgolion.<br>• Gwell cydweithio rhwng GwE a phrifysgolion<br>• Gwell cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer myfyrwyr a mentoriaid<br>• Rhaglenni gwell yn y prifysgolion – yn agosach at arferion mewn ysgolion, er enghraifft, dysgu cyfunol<br>• Rhaglenni proffesiynol, Doethuriaeth Addysg a Gradd Meistr, ar gyfer staff ysgolion, GwE ac ALl<br>• Gweminarau ar y cyd ar y gweill ar gyfer ysgolion | • 1 Cyfarfod Tîm Llawn<br>6 chyfarfod BAS<br>1 cyflwyniad i fyfrwyr<br>6 chyfarfod gyda phrifysgolion<br>12 cyfarfod gydag ysgolion unigol<br>• 10 awr |

# Llwybrau Dysgu Proffesiynol Cynnar

Hafan

| Trosolwg byr | Effaith gychwynnol | Amser ac aelodau |
|---|---|---|
| **Cefnogaeth i ANG trwy hyfforddiant ar-lein cychwynnol:**<br>• Trefniadau Sefydlu Statudol ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso, Mentoriaid Sefydlu a Gwirwyr Allanol<br>• Rolau a chyfrifoldebau<br>• Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth<br>• Y proffil sefydlu / PauDP<br>• Gwybodaeth o ran yr ALl / y Corff Awdurdodol / Consortiwm<br>• "Sefydlu ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso" - cyflwyniad CGA | • Cysondeb o ran strwythur a chefnogaeth i bob ANG yng ngogledd Cymru<br>• Profiad o safon uchel i ANG<br>• Proses deg a chyfartal i bob ANG<br>• Gwell dealltwriaeth o broffil ar-lein ANG<br>• Gwell dealltwriaeth o gofnodi profiadau ANG (PauDP)<br>• Asesu trylwyr a chyson i bob ANG<br>• Adnabod yr hyblygrwydd sydd mewn gwahanol batrymau cyflogi ANG | • 15 sesiwn<br>• 30 awr<br>• 300+ aelod |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 MEDI 2020**

**Adroddiad gan:** **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE**

**Testun:** **Rhaglen Dysgu Carlam ar gyfer Gogledd Cymru**

1.0 **Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Rhannu gwybodaeth bellach ag aelodau'r Cyd-bwyllgor am y Rhaglen Dysgu Carlam ar gyfer Gogledd Cymru.

**2.0 Cefndir**

2.1 Yng nghyfarfod blaenorol y Cyd-bwyllgor ar 15 Gorffennaf 2020, cyflwynwyd papur trafod ar y model ailddechrau dysgu ar gyfer Gogledd Cymru (a luniwyd ar y cyd gan Brifysgol Warwick, Prifysgol Bangor a Rhanbarth Gogledd Cymru).

2.2. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ymhellach yr Adnoddau Cyflymu Dysgu a ddatblygwyd yn y rhanbarth, sy'n cynnwys cyfres o dystiolaeth o Addysgu Gwybodus a Deunyddiau Dysgu.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae'r deunyddiau canllaw hyn yn datblygu ystod o strategaethau ac adnoddau sydd ar gael eisoes ac a gyflwynwyd i ysgolion trwy brosiectau GwE a'r Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor. Y nod yn awr yw tynnu'r adnoddau hyn ynghyd i greu pecyn cymorth mwy cydlynol i ysgolion er mwyn eu helpu i wella ansawdd yr addysgu a datblygu deilliannau dysgwyr i'r eithaf.

3.2 Ffocws y deunyddiau hyn yw gwella'r agweddau a ganlyn:

- Darllen sylfaenol a rhwyddineb darllen
- Darllen a deall a sgiliau geirfa
- Rhifedd sylfaenol a sgiliau rhwyddineb rhifedd

➢ Gwella strategaethau dysgu ac adolygu disgyblion

3.3. Cynlluniwyd rhai o'r strategaethau a'r deunyddiau cymorth yn y *prosiect Cyflymu Dysgu* yn benodol i'w defnyddio yn yr ysgol ac i rieni eu defnyddio gartref i gefnogi dysgu eu plentyn. Daw llawer o adnoddau a strategaethau'r cynnig hwn o brosiectau ymchwil cydweithredol diweddar a gynhaliwyd gan CIEREI, Prifysgol Bangor mewn ysgolion.

3.4 Egwyddorion sylfaenol - Mae'r holl adnoddau ar sail dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gyda llawer o'r gwaith ymchwil wedi'i wneud gydag ysgolion yng ngogledd Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym wedi casglu'r rhain ynghyd yn unol â chanllawiau ychwanegol EEF i ysgolion yn ystod y pandemig:

1. Addysgu a strategaethau ysgol gyfan
2. Cymorth wedi'i dargedu i gyflymu dysgu
3. Strategaethau ehangach (gan gynnwys cefnogi rhieni a gofalwyr)

3.4 Dyma'r adnoddau sydd ar gael:

- Adnodd 1: Enghreifftiau o Gyfresi Dysgu
- Adnodd 2-5: Adolygiadau tystiolaeth
- Adnodd 6: Pecynnau addysgu a meithrin rhwyddineb
- Adnodd 7: Cynnig llythrennedd uwchradd
- Adnodd 8: Pecynnau rhifedd uwchradd

3.5 Rhannu a hyfforddiant - dechreuodd y gwaith ar y *deunyddiau Cyflymu Dysgu* yn ystod haf 2020. Mae llawer o'r adnoddau'n gyflawn erbyn hyn, ac mae dyddiadau cwblhau eraill trwy gydol tymor yr hydref 2020 ac i mewn i dymor y gwanwyn 2021. Bydd rhai ar gael i'w rhannu'n rhanbarthol yn syth, tra bydd angen treialu eraill gyda grwpiau bach o ysgolion, er enghraifft fersiwn Cymraeg o'r deunyddiau RILL. Rhagwelir y bydd angen i ni ystyried cyfuniad o hyfforddiant ar-lein a wyneb yn wyneb, yn unol ag amgylchiadau. Rydym wedi sicrhau cymorth swyddogion ymchwil arbenigol o Brifysgol Bangor i'n helpu gyda'r gweithredu.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad ac i gefnogi'r dull a'r model rhanbarthol mewn perthynas â'r Rhaglen Dysgu Carlam ar gyfer Gogledd Cymru.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn, felly bydd y gwaith gweithredu, gan gynnwys cymorth swyddogion ymchwil arbenigol o Brifysgol Bangor, i'w gyflawni o fewn adnoddau presennol GwE.

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**15 MEDI 2020**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE** |
| **Pwnc:** | **Adolygiad Thematig Estyn** |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-Bwyllgor am Adolygiad Thematig arfaethedig Estyn, fel yr amlinellir yn Atodiad 1.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o ddulliau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o gefnogi dysgu a dysgwyr sy'n agored i niwed yn ystod cyfnod COVID-19.

2.2 Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar ansawdd ac effaith y ddarpariaeth, cymorth ac arweiniad ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed, a'r gwaith i sicrhau bod ysgolion yn rhoi'r arweiniad addysgu a dysgu ar waith o fis Medi 2020.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Bydd Estyn yn ymgysylltu ag ysgolion yn yr awdurdodau lleol ac yn cynnal arolygon cenedlaethol o randdeiliaid. Ni fydd unrhyw ymgysylltu uniongyrchol mewn perthynas â'r gwaith yn cychwyn nes i ysgolion ddychwelyd yn llawn ar 14 Medi 2020, a bydd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn cael ei chasglu ar ddiwedd mis Medi / dechrau mis Hydref. Bydd y gwaith i gasglu tystiolaeth yn cael ei wneud o bell.

3.2 Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ddwy agwedd, a bydd y naill a'r llall ohonynt yn ystyried unrhyw gymorth teilwredig neu wahanol a ddarperir ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg i gefnogi parhad datblygiad iaith:

- Hyrwyddo dysgu – pa waith sicrhau ansawdd a wnaed i wella ansawdd y cynnig dysgu, a sut mae hyn wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu arweiniad a dysgu proffesiynol pellach? Pa mor effeithiol yw'r arfer o gynllunio a gweithredu'r

rhaglenni dysgu 'dal i fyny' yn effeithiol ar draws ysgolion, a beth yw'r camau nesaf ar gyfer y gwaith hwn?

- Cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed – sut mae'r awdurdod lleol wedi targedu gwasanaethau a chymorth i ddysgwyr sy'n agored i niwed i'w cynorthwyo i ymgysylltu â dysgu, pa rwystrau sy'n bodoli o hyd?

3.3 Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa mor dda yr ymatebodd arweinyddiaeth gyffredinol yr awdurdod lleol a'r consortia rhanbarthol mewn ffordd amserol a chymesur i'r heriau amrywiol, a pha mor dda defnyddiwyd dysgu parhaus i lywio camau gweithredu.

3.4 Mae Estyn yn gweithio gyda grŵp bach o gyfarwyddwyr i fireinio'r adolygiad, gyda mwy o fanylion i ddilyn cyn bo hir.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 – Llythyr Estyn – Adolygiad Thematig.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn, felly cymeraf fod y gwaith o gynnal yr adolygiad thematig yma o ddulliau cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed i'w flaenoriaethu o fewn adnoddau presennol GwE.

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

2 Medi 2020

Annwyl gyfeillion,

Rwy'n gobeithio eich bod wedi gallu cael amser i gymryd seibiant dros yr haf a bod y dychweliad i'r ysgol yn mynd yn esmwyth yr wythnos hon. Roeddwn i'n meddwl y byddai'n fuddiol ysgrifennu atoch chi gydag ychydig o ddiweddariadau am ein gwaith dros dymor yr hydref.

**Adolygiad thematig**

Byddwch yn gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni gynnal adolygiad thematig o ddulliau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o gefnogi dysgu a dysgwyr sy'n agored i niwed yn ystod cyfnod COVID-19. Yn yr adolygiad hwn, byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd ac effaith eich darpariaeth, cymorth ac arweiniad ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed, a'ch gwaith i sicrhau bod ysgolion yn rhoi'r arweiniad addysgu a dysgu ar waith o fis Medi 2020.

Bydd y gwaith thematig yn cynnwys yr holl awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Yn ogystal â chyhoeddi adroddiad cryno cenedlaethol ym mis Rhagfyr, bydd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cael adborth ysgrifenedig ar eu gwaith a fydd yn amlygu arfer effeithiol, yn ogystal ag agweddau y mae angen eu datblygu ymhellach. Bydd sylwadau ar waith y consortia rhanbarthol yn cael eu cynnwys yn llythyr pob awdurdod lleol unigol hefyd, lle bo hynny'n berthnasol.

Rydym yn gweithio gyda grŵp bach o gyfarwyddwyr i fireinio'r modd yr ydym yn bwrw ati â'r adolygiad, a byddwn yn ysgrifennu atoch chi gyda mwy o fanylion cyn bo hir. Yn ogystal â thrafodaethau gyda chi a'ch staff, byddwn yn ymgysylltu ag ysgolion yn eich awdurdodau ac yn cynnal arolygon cenedlaethol o randdeiliaid. Hefyd, byddwn yn gweithio gyda chi i ddiffinio pa dystiolaeth ddogfennol allai fod ar gael yn rhwydd i gefnogi'r adolygiad. Gallai hyn gynnwys adroddiadau i'r Cabinet, pwyllgorau craffu a Chyd-bwyllgorau Gweithredol; gwybodaeth a gofnodwyd fel rhan o drefniadau monitro perfformiad neu hunanwerthuso arferol; dogfennau arweiniad a ddarperir i ysgolion, ac adborth a gofnodwyd o unrhyw arolygon rhanddeiliaid. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgysylltu uniongyrchol mewn perthynas â'r gwaith nes i ysgolion ddychwelyd yn llawn ar 14 Medi 2020, a bydd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn cael ei chasglu ar ddiwedd mis Medi / dechrau mis Hydref. Ein bwriad yw y bydd y gwaith i gasglu tystiolaeth yn cael ei wneud o bell.

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.
Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ddwy agwedd, a bydd y naill a’r llall ohonynt yn ystyried unrhyw gymorth teilwredig neu wahanol a ddarperir ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg i gefnogi parhad datblygiad iaith:

- Hyrwyddo dysgu – pa waith sicrhau ansawdd a wnaed i wella ansawdd y cynnig dysgu, a sut mae hyn wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu arweiniad a dysgu proffesiynol pellach? Pa mor effeithiol yw’r arfer o gynllunio a gweithredu’r rhaglenni dysgu ‘dal i fyny’ yn effeithiol ar draws ysgolion, a beth yw’r camau nesaf ar gyfer y gwaith hwn?
- Cefnogi dysgwyr sy’n agored i niwed – sut mae’r awdurdod lleol wedi targedu gwasanaethau a chymorth i ddysgwyr sy’n agored i niwed i’w cynorthwyo i ymgysylltu â dysgu, pa rwystrau sy’n bodoli o hyd?

Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa mor dda yr ymatebodd arweinyddiaeth gyffredinol yr awdurdod lleol a’r consortia rhanbarthol mewn ffordd amserol a chymesur i’r heriau amrywiol, a pha mor dda y gwnaethoch chi ddefnyddio dysgu parhaus i lywio’ch camau gweithredu.

Bydd yr adolygiad yn eich cynorthwyo trwy ddarparu adborth a rhannu arfer a dulliau effeithiol a fydd yn helpu cynllunio ar gyfer y posibilrwydd y bydd rhagor o gyfnodau clo lleol neu genedlaethol, a chydweithio a gwaith yn y dyfodol i gefnogi diwygio addysg. Bydd yr adolygiad hefyd yn helpu i nodi neu liniaru unrhyw risgiau neu fylchau sy'n dod i'r amlwg mewn gweithgareddau, a byddwn yn gweithio gyda chi a Llywodraeth Cymru i nodi'r anghenion cymorth hyn.

Bydd yn cael ei arwain o’ch safbwynt chi gan eich arolygwyr cyswllt, a fydd yn cysylltu â mwy o fanylion ar yr adeg briodol. Rydym yn ymwybodol fod hwn yn parhau i fod yn gyfnod heriol a byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad ac yn gweithio gyda chi i ymateb i unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau.

**Arolygu a gweithgarwch dilynol**

Nid ydym yn bwriadu cynnal unrhyw arolygiadau craidd o awdurdodau lleol yn ystod tymor yr hydref. Byddwn yn parhau i gysylltu â chi trwy CCAC a CLILC i ystyried pryd y byddwn yn ailddechrau arolygiadau.

Rydym yn parhau i weithio’n agos gyda’r awdurdodau lleol dan sylw i bennu’r amser a’r dull gorau o ran unrhyw weithgareddau dilynol.

**Cyhoeddiadau diweddar**

Gallwch chi ddod o hyd i’n cyhoeddiadau diweddaraf i rannu cipolygon i’r modd y mae ysgolion a darparwyr eraill yn cefnogi dysgu yn ystod COVID-19 ar ein gwefan. Mae hyn yn cynnwys y cipolygon a gyhoeddwyd yn ddiweddar i’r modd y mae gwahanol ysgolion yn bwriadu cefnogi dychwelyd i ddysgu ym mis Medi:

https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/cefnogi-parhad-dysgu-i-blant-phobl-ifanc

Cofion gorau



**Jassa Scott**
Cyfarwyddwr Strategol
Estyn